A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Mae'r papur hwn yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2024/25 i aelodau'r Cyngor Llawn, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Pwrpas yr adroddiad yw hyrwyddo ymwybyddiaeth ac atebolrwydd am y perfformiad a'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol o fewn Cyngor Sir Ynys Môn, yn ogystal â chynnwys meysydd i'w gwella ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Argymhellir bod:

1) Aelodau'r Cyngor i dderbyn yr adroddiad fel adlewyrchiad cywir o'n darpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol dros y 12 mis diwethaf.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Sylwch os gwelwch yn dda fod yr adroddiad yn ofyniad statudol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, ac felly mae'n ofyniad gorfodol.

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

At sylw'r Cyngor Llawn.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi.

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae'r adroddiad yn mynd i'r afael â nifer o brosiectau cyfredol ac yn y dyfodol a fydd yn cefnogi'r cyngor yn ei waith i ddiogelu dinasyddion Ynys Môn yn unol ag amcanion y Cyngor.
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	Mae pennod benodol mewn perthynas ag atebolrwydd ariannol tuag at ddiwedd yr adroddiad.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.	Rydym wedi mynd i'r afael â'n gwaith partneriaeth a chyflwyno sylwadau ar hynny drwy gydol yr adroddiad.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Rydym wedi cynnwys yr adborth gan Ddinasyddion Ynys Môn trwy gydol yr Adroddiad.
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Amherthnasol
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Amherthnasol
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei	Amherthnasol - Bydd adroddiad ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

	gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Cymeradwywyd.
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	Fel yr uchod
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Fel yr uchod
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	Amherthnasol
7	Caffael	Amherthnasol
8	Sgriwtini	Amgerthnasol
9	Aelodau Lleol	Bydd yr Adroddiad yn cael ei rannu gyda'r Cyngor Llawn.

F - Atodiadau:
Copi o'r Adroddiad - Gwelwch yr atodiad.

Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):
Adroddiad presennol, gweler Atodiad F. Gellir gweld adroddiadau blaenorol ar Wefan y Cyngor.

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr

ar effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol

2024-25



MÔN SY'N WYBODUS AM DRAWMA
TRAUMA INFORMED ANGLESEY

Ynys Môn Oed-Gyfeillgar
Age Friendly Anglesey

ynysmon.llyw.cymru

Cyngor Sir Ynys Môn · Cyngormon · Cyngormon · cyngormon



Cynnwys

Crynodeb y Cyfarwyddwr (fideo)

Y Cyd-destun 3-5

Arweinyddiaeth 6-10
Y Gweithlu 11-13
Adnoddau Ariannol 14-15

Asesu Perfformiad:
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd 16-24
Gwasanaethau Oedolion 25-33

Arolygu ac Adolygiadau 34-35
Cwynion a Sylwadau 36-37
Gwybodaeth Arall 37-39

Atodiadau:
Geirfa 40-41
Astudiaethau Achos 41

Y Cyd-destun

PWY WNAETHON NI EU HELPU A'U CEFNOGI (2024/25)

(*) flwyddyn flaenorol

5,180 **CYSYLLTIAD AG OEDOLION** (4,627*)

5,354 Cysylltiad **Â PHLANT A'U TEULUOEDD** (4,621*)

1,190 Oedolion sy'n derbyn gwybodaeth, **CYNGOR A CHYMORTH** (906*)

1,438 Oedolion sy'n derbyn **CYNLLUN GOFAL A CHYMORTH** ar 31 Mawrth (1,324 yn 23/24)

403 sydd â **CHYNLLUN GOFAL** ar ddiwedd y flwyddyn (418 yn 23/24)

197 **BLANT UNIGOL SY'N DERBYN GOFAL** (180 yn 23/24)

169 **PLANT UNIGOL** ar y **GOFRESTR AMDDIFFYN PLANT** (74 ar ddiwedd y flwyddyn, 67 yw cyfartaledd nifer y plant ar y gofrestr trwy gydol y flwyddyn)

1,793 **ASESIADAU NEWYDD** wedi eu cwblhau i **OEDOLION** yn ystod y flwyddyn

418 **OFALWYR OEDD WEDI EU HASESU** yn ystod y flwyddyn (497 yn 23/24)



PWY WNAETHON NI EU HELPU A'U CEFNOGI (2024/25)

(*) flwyddyn flaenorol



642 BLANT WEDI COFRESTRU gyda **DECHRAU'N DEG** erbyn diwedd y flwyddyn (673 yn 23/24)

Defnyddiodd **176** o **DEULUOEDD** ein gwasanaeth gofal **PLANT DECHRAU'N** Deg yn ystod y flwyddyn. (173 yn 23/24)

Daeth **250** **I'N FFORYMAU POBL HŶN** (yn un o'n 12 fforwm lleol neu ledled yr ynys) yn ystod y flwyddyn

ADOLYGIADAU MAETHU

10 **ASESIAD MAETHU** (Dwy Ffurflen F, wyth Person â chyswllt)

30 **I BANEL** (12 annibynnol, 18 mewnol)

17 **ASIANTAETH BENDERFYNIAD YN EU CYLCH**

59 **OFALWYR MAETH** mewn 34 o Gartrefi (o'i gymharu â 60 mewn 35 cartref yn 22/23)

1,173 wedi cael **CYNLLUN GOFAL A CHYMORTH**

94 **OFALWYR IFANC** yn **CAEL CEFNOGAETH GWEITHREDU DROS BLANT** ar 31 Mawrth (109 yn 2024)

3,093 **BLANT** i'n **CLYBIAU IEUENCTID** yn ystod y flwyddyn



700 **BOBL IFANC** wedi cofrestru gydag un o'n **O'N 15 CLWB IEUENCTID** ar draws yr Ynys

179 **ACHREDIADAU** wedi eu rho i **BOBL IFANC** - yn amrywio o **AGORED** i **I WOBRAU DUG CAEREDIN**

MAE'R TÎM GWASANAETHAU Ieuenctid wedi cael dros **17,600** o gysylltiadau gan bobl ifanc yn ystod y flwyddyn.

Ein
GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
(2024/25)

CYFANSWM CYLLIDEB Y Gwasanaethau Cymdeithasol yw
£53,206,281
(£48,715,9161 yn 23/24)

Cyllideb y Gwasanaethau
OEDOLION
£38,789,694
(£35,593,089 yn 23/24)

Cyllideb y Gwasanaethau
PLANT A THEULUOEDD
£14,416,587
(£13,122,827 yn 23/24)

RYDYM YN CYFLOGI
690
o bobl ar draws y ddau wasanaeth
(717 yn 23/24)

83%
o'n gweithwyr yn siarad Cymraeg
(L3 neu uwch)
(85% yn 23/24)



Arweinyddiaeth a Diwylliant

Gweledigaeth y cyngor yw creu Ynys Môn sy'n iach ac yn llewyrchus lle gall pobl ffynnu.


Mae cydweithio'n allweddol i wireddu ein gweledigaeth. Byddwn yn gyngor parchus sy'n ystyriol o eraill. Byddwn yn cydweithio'n onest ac rydym wedi ymrwymo i safonau uchel o ymddygiad ac uniondeb er mwyn cyflwyno'r ynys a'i chymunedau yn y golau gorau posibl.

I wireddu'r weledigaeth hon, bydd angen i ni barhau i foderneiddio a thrawsnewid ein gwasanaethau a'n ffordd o weithio. Rhan annatod o foderneiddio fydd gwrando ar farn ein trigolion, ein defnyddwyr gwasanaethau a'n busnesau – a bod yn barod i weithredu.

Byddwch yn darllen cyfeiriadau drwy gydol yr adroddiad hwn yn cysylltu ein cynnydd yn erbyn **chwe Amcan Strategol y Cyngor,** fel y'u nodir yn ein **Cynllun Cyngor 2023-28** (Dolen Cynllun y Cyngor 2023 i 2028).

Drwy drefnu bod ein gwasanaethau a'n cyflawniadau'n cyd-redeg, gallwn helpu i sicrhau bod y Cyngor yn llwyddo yn ei weledigaeth.

> " Greu Ynys Môn sy'n iach ac yn llewyrchus lle gall pobl ffynnu".





Tudalen 39

Ein chwe amcan strategol

Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg cywir.



Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

Tai

Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle yn gartref.

Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys.

Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

Parch

Gonestrwydd

Cydweithio

Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys

Fel gwasanaeth, **Llesiant** yw canolbwynt ein holl waith - rhoi'r unigolyn yn ganolog i bopeth a wnawn gan weithio gyda theuluoedd, cymunedau a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau gwell canlyniadau i bawb. Rydym yn parhau i ymdrechu i gael rhagoriaeth, er gwaethaf y ffactorau allanol, heriol, a hynny'n seiliedig ar y gwerthoedd a ganlyn:

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth yn lleol, isranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mewn adroddiadau arolygu allanol diweddar. mae hyn wedi'i gydnabod yn gryfder ac mae'n parhau i fod yn faes i ni adeiladu arno. Ceir rhagor o enghreifftiau wrth fynd drwy'r adroddiad hwn.


Mae Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru (NWSSIC) a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRPB) yn parhau i sicrhau trefniadau llywodraethu. Gellir gweld mwy ar y syniad hwn o bartneriaeth yng nghydweithrediad Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwalader trwy'r **Bwrdd Cyflawni Integredig.** Pwrpas y Bwrdd yma yw parhau i sicrhau y gwasanaethir anghenion iechyd a gofal pobl Ynys Môn yn well trwy integreiddio gwasanaethau'n well rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau awdurdod lleol.

Mae **Fframwaith Cynllunio Corfforaethol a Rheoli Perfformiad** y Cyngor (gweler y diagram isod) wedi'i ymgorffori yn ei drefniadau llywodraethu blynyddol. Mae'r fframwaith hwn wedi'i fabwysiadu i sicrhau y caiff meddylfryd o gael gwelliant parhaus ei ymgorffori yng ngwaith gwasanaethau'r Cyngor a disgwyliadau **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** ddiweddar eu bodloni. Mae hefyd yn cynorthwyo gwaith monitro materion a allai godi cyn i'r gwasanaeth tanberfformio – rhywbeth a fyddai'n cael effaith ar ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau. Byddwch yn darllen sut mae ein perfformiad yn erbyn dangosyddion cenedlaethol a lleol yn parhau i berfformio'n dda yn ystod y flwyddyn, ac mae hyn yn rhoi sicrwydd bod ein model gweithredu'n berthnasol ac yn gyfredol.

Rydym yn falch o gael dweud bod safon gwaith y gwasanaeth a wnaed gan Wasanaethau Oedolion a'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn ystod y flwyddyn wedi bod yn gyson ac, yn ystod 2023/24, byddwn yn parhau i adolygu a blaenoriaethu'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol mwyaf perthnasol yn lleol, yn seiliedig ar gyfarwyddyd Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod data'r dangosyddion hyn ar gael yn rhwydd er mwyn dadansoddi'r perfformiad yn amserol yn ystod 2024/25, a hyny drwy'r fframwaith a ymgorfforwyd.

Tudalen 42





Tim Rheoli Corfforaethol
Corporate Management Team

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



Dylan Williams
Prif Weithredwr
Chief Executive



Rhys H Hughes
Dirprwy Brif Weithredwr
Deputy Chief Executive



Fon Roberts
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Director of Social Services



Aaron C. Evans
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
Director of Education, Skills & Young People



Lynn Ball
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro
Director of Function (Council Business) / Monitoring Officer



Marc Jones
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) Swyddog 151
Director of Function (Resources) / 151 Officer



Arwel Owen
Pennaeth Gwasanaeth: Oedolion
Head of Service: Adults



Christian Branch
Pennaeth Gwasanaeth: Rheoleiddio a Economaidd
Head of Service: Regulation and Economic



Huw Percy
Pennaeth Gwasanaeth: Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo
Head of Service: Highways, Waste & Property



Carys Edwards
Pennaeth Proffesiwn, Adnoddau Dynol a Thrawsnewid Corfforaethol
Head of Profession, Human Resources and Corporate Transformation



Ned Michael
Pennaeth Gwasanaeth: Gwasanaethau Tai
Head of Service: Housing Services

Gweithlu

Gweledigaeth y Cyngor yw creu ***"Ynys Môn sy'n iach ac yn llewyrchus lle gall pobl ffynnu."*** Yr amcan strategol perthnasol o fewn y Cynllun yw "Gofal Cymdeithasol a Llesiant – ***"sicrhau'r gefnogaeth gywir ar yr amser cywir"***, a noda Strategaeth y Gweithlu sut y byddwn ni, fel gwasanaeth, yn sicrhau bod gennym weithlu medrus, proffesiynol a chyson iawn ar draws y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd i helpu i gyflawni'r amcan hwn.

Mae gan y ddau wasanaeth gyfarfodydd cynllunio gweithlu rheolaidd ynghyd â'n cydweithwyr Adnoddau Dynol a'n Tîm Datblygu, lle trafodir risgiau gwasanaeth a bylchau mewn sgiliau. Mae nifer y gweithwyr a gaiff eu recriwtio i'r Gwasanaethau Oedolion yn gymharol sefydlog, gyda throsiant y llynedd o 8% yn gyson â ffigurau'r trosiant cyfartalog ar draws y Cyngor. 96% oedd cyfraddau cadw gweithwyr ar draws Gwasanaethau Oedolion (gan gynnwys yr Uned Ddarparu). Mae cyfradd trosiant y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn debyg ar 6%, gyda chadw gweithwyr ar 97%.

Mae heriau recriwtio yn parhau yn ein Huned Ddarparu (sy'n gyfrifol am ein gofal cartref a Chartrefi Gofal Preswyl y Cyngor) ac mae hon yn her genedlaethol yn y sector hwn. Nodir swyddi hanfodol yn barhaus a sicrheir bod cynlluniau olyniaeth ar waith. Bu enghreifftiau llwyddiannus o weithio mewn partneriaeth, megis digwyddiadau recriwtio gyda Chymunedau Cymunedol Môn a'r Adran Gwaith a Phensiynau, Gofalwn Cymru, Camau i'r Maes Gofal gyda Choleg Llandrillo-Menai a'n holl Ysgolion Uwchradd. Mae Cynllun Lleoliadau Gwaith Denu Talent wedi bod yn llwyddiannus gan fod tri myfyriwr wedi mynd ymlaen i fod yn weithwyr i'r Cyngor.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein gweithwyr ein hunain ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi '**cynyddu nifer y lleoliadau** ' a gynigiwn i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol. Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Prifysgolion i sicrhau bod gan y myfyrwyr brofiadau amrywiol fydd yn eu paratoi ar gyfer y byd gwaith. Rydym yn cofrestru chwe myfyriwr o gwrs MA Gwaith Cymdeithasol Prifysgol Bangor a dau o'r cwrs gradd BA ym Mhrifysgol Wrecsam.

Yn ogystal â'r uchod, rydym yn **noddi cyfanswm o naw hyfforddai Gwaith Cymdeithasol** sydd, ar hyn o bryd, yn cwblhau'r cwrs BA Gwaith Cymdeithasol trwy'r Brifysgol Agored. Mae tri wedi'u lleoli yn y gwasanaethau oedolion a'r gweddill yn ein gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Heb ein cyfleoedd hyfforddi mewnol, mae gennym swyddi gwag gwaith cymdeithasol a byddem yn defnyddio staff asiantaeth.

> " Mae'n amlwg bod y fyfyrwraig yn ymdrechu i ddatblygu ei sgiliau gwaith cymdeithasol ac wedi ymrwymo i'r lleoliad o'r cychwyn cyntaf."
>
> Dyfyniad gan Addysgwr Ymarfer.

> “ Dw i’n teimlo fy mod wedi cael cefnogaeth gan fy addysgwr ymarfer sydd wedi rhoi sicrwydd ac arweiniad i mi yn ystod fy 50 diwrnod cyntaf. Dw i’n gwerthfawrogi’r amser sydd gynnon ni yn ystod y cyfnod goruchwylio, gan ganolbwyntio’n arw ar fy lles.”
>
> Dyfyniad gan Fyfyriwr ynghylch Addysgwr Ymarfer.

> “ Mae’r holl adborth gan gydweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth wedi bod yn gadarnhaol ac mae (myfyrwraig) yn medru edrych yn ôl ar ei hymarfer ac mae’n awyddus i barhau i dyfu mewn hyder a gwybodaeth.”
>
> Dyfyniad gan Uwch-weithiwr Cymdeithasol ynghylch Myfyriwr-Gweithiwr Cymdeithasol.



Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y gweithwyr cymdeithasol sy’n cwblhau’r cwrs addysgu ymarfer sy’n gadarnhaol iawn o ran datblygiad proffesiynol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi **noddi tri unigolyn ar y cwrs BA Therapi Galwedigaethol** ym Mhrifysgol Wrecsam. Bydd un o’r gweithwyr yn cymhwyso yn 2025, yr ail yn 2027 a’r trydydd yn 2028. Mae gwaith rhanbarthol yn mynd rhagddo i gadw lleoedd ar y cwrs ar gyfer hyfforddeion mewnol yn ogystal â datblygu’r fframwaith dysgu ôl-ymgeisio.

Astudiaeth Achos: Rhoddwyd cyfle datblygu i aelod o staff oedd â dros 23 mlynedd o brofiad yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i gwblhau’r rhaglen BSc (Anrh) Therapi Galwedigaethol ym Mhrifysgol Wrecsam. Roedd Rachel wedi gweithio o’r blaen fel Swyddog Cymorth Busnes, Gweinyddwr yn y tîm Anableddau Dysgu, Clerc Cyllid yn y tîm Cyllid Cleientiaid a bod yn Weithiwr Cymorth, gan gefnogi oedolion ag anableddau dysgu. Mae’r cyfle hwn wedi rhoi her newydd iddi symud ymlaen gyda’i gyrfa yn y sector gofal cymdeithasol. Bydd yn ennill cymhwyster proffesiynol fydd yn ehangu ei rhagolygon o ran ei dewisiadau gyrfa yn y dyfodol gyda’r awdurdod lleol.



“ Rydym yn hapus i gefnogi Rachel yn ei chais i fanteisio ar y cyfle hyfforddi Therapi Galwedigaethol. Er ein bod wedi gorfod llenwi ei swydd barhaol er mwyn iddi fynd am hyfforddiant, mae Rachel yn gallu parhau yn ei swydd bresennol wrth gwblhau ei hastudiaethau, a’r gobaith yw y bydd hi’n parhau i weithio gyda’r awdurdod ar ôl cymhwyso. Mae Rachel hefyd yn dilyn cwrs Cymraeg er mwyn sicrhau y gall gefnogi cleientiaid yn y dyfodol trwy eu dewis iaith.”

Emma Edwards, Rheolwr Busnes.

MÔN SY’N WYBODUS AM DRAWMA

TRAUMA INFORMED ANGLESEY

Rydym yn falch iawn o’n hymrwymiad i ddod yn “**Ynys sy’n Wybodus am Drawma**” a chynnig hyfforddiant a goruchwyliaeth i’n staff er mwyn ymarfer yn y dull hwn. Caiff staff, hefyd, eu hannog i fynd am ragor o hyfforddiant ôl-gymhwyso fel Addysgwyr Ymarfer, TMDP, MMDP sy’n datblygu eu sgiliau arweinyddiaeth ac yn rhan o’n cynllunio olyniaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae modd gweld **Strategaeth ein Gweithlu Adrannol** trwy’r ddolen isod:
https://www.ynysmon.llyw.cymru/documents/Dogfennau-Cy/Swyddi/Partneriaeth-Datblygu-Gofal-Cymdeithasol-Cymru/Strategaeth-Gweithlur-Gwasanaethu-Cymdeithasol-2023-2028.pdf?nocache=1

Adnoddau Ariannol

Fel yn y blynyddoedd a fu, rydym wedi wynebu pwysau ariannol sylweddol yn 2024/25.

Ar ddiwedd y flwyddyn, adroddodd ein Gwasanaethau Plant a Theuluoedd eu bod wedi gorwario £1,943k, tra bod ein Gwasanaethau Oedolion wedi adrodd ar danwariant o £(931k).

Mae'r gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal wedi gorwario £2,429k. Mae hwn yn wasanaeth sy'n cael ei arwain gan alw ac, er ein bod yn parhau i ddatblygu ein darpariaeth Cartrefi Clyd, bydd angen i ni bob amser gael darpariaeth fwy arbenigol. Mae cost wythnosol gyfartalog lleoliadau y tu allan i'r sir wedi cynyddu o £6,547.85.92 yn 2023-24 i £8,390.09 yn 2024-25.

Rydym wedi bod yn ystyried yn rhagweithiol ein holl gostau maes gwasanaeth a'n cyllideb wrth wneud arbedion lle bo modd. Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Gwaith am gytuno i gynyddu cyllideb Plant a Theuluoedd i £17,602,413 ar gyfer 2025/26 er mwyn bodloni'r galw presennol.

Roedd tanwariant o £(136k) ar Reoli a Chymorth Gwasanaethau i Oedolion ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd grant ychwanegol o (£43k) o Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol a (£68k) o Cysylltu Gofal (£298,049 oedd cyfanswm y Grant Cysylltu Gofal ar gyfer y flwyddyn).

Roedd gofal preswyl i bobl hŷn wedi tanwario o £(396k) erbyn diwedd y flwyddyn a gofal nyrsio i bobl hŷn wedi gorwario o £97k erbyn diwedd y flwyddyn. Gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw yw'r rhain ac mae gwaith yn cael ei wneud yn barhaus i fonitro gwariant.


Anabledd Corfforol – gorwariant o £595k ar ddiwedd y flwyddyn, ar ôl defnyddio £(332k) o'r Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol.

Anableddau Dysgu – tanwariant o (£110k) erbyn diwedd y flwyddyn, ar ôl defnyddio £(394k) o'r Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol.


Gyda chwyddiant yn parhau'n uwch na'r disgwyl, y disgwyl yw y bydd Cyflog Byw Go Iawn yn codi'n gyflymach nag a ragwelwyd yn y cynllun ariannol tymor canolig. Gallai hyn arwain at bwysau ariannol ychwanegol yn ystod 2025/2026 a thu hwnt.

Dyfarnwyd grantiau ychwanegol yn hwyr yn y flwyddyn ariannol am 2024/25 ar gyfer Gwasanaethau Oedolion. Mae hyn yn cynorthwyo'r gwasanaeth i gadw at y gyllideb.

Rydym yn bwriadu adolygu ymarfer cyllidebu sero a gynhaliwyd yn ystod 2024-25 a'i diweddaru, gyda'r nod o gysoni'r cyllidebau cymaint â phosibl. Y gobaith yw y bydd y gwariant gwirioneddol yn nes at y gyllideb yn y dyfodol.



GWASANAETHAU	Cyllideb £000	Gwirioneddol £000	Amrywiant £000
GWASANAETHAU PLANT a THEULUOEDD	*14,416*	*16,359*	*1,943*
GWASANAETHAU OEDOLION			
POBL HŶN	*13,243*	*13,125*	*(118)*
ANABLEDDAU CORFFOROL	*3,387*	*3,982*	*595*
ANABLEDDAU DYSGU	*10,097*	*9,987*	*(110)*
IECHYD MEDDWL	*3,227*	*2,989*	*(238)*
GWASANAETHAU CYMORTH	*1,633*	*1,497*	*(136)*
UNED DDARPARU (GOFAL MÔN / GWASANAETHAU ERAILL)	*7,202*	*6,278*	*(924)*
CYFANSWM	***38,789***	***37,858***	**(931)**



Asesu Perfformiad

Yn yr adran hon, byddwn yn rhoi trosolwg o'n perfformiad o dan y pedwar pennawd **Safon Ansawdd** sef **Pobl, Atal, Partneriaeth ac Integreiddio, a Llesiant.** Byddwn yn gwerthuso ein perfformiad dros y deuddeg mis diwethaf drwy fynd i'r afael â'r ***wyth safon ansawdd*** o dan y pedair adran hyn ar gyfer gwasanaethau plant ac oedolion.

Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Pobl

Safonau Ansawdd:

- *"Mae pawb yn bartneriaid cyfartal sydd â **dewis, llais a rheolaeth** dros eu bywydau ac sy'n gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt"*
- *"Mae **arweinyddiaeth** effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu medrus, cymwys a chefnogol iawn sy'n gweithio tuag at weledigaeth gyffredin."*

Maethu Cymru Môn
Mae'r Tîm Lleoli Plant yn parhau i weithio mewn cydweithrediad â Maethu Cymru, ochr yn ochr â'r un ar hugain o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru o ran recriwtio a chadw gofalwyr maeth. Mae nifer o ddarpar ofalwyr maeth newydd yn y broses o gael eu hasesu a'r gobaith yw y cânt eu cymeradwyo yn ddiweddarach eleni. Rydym yn gweithio gyda Maethu Cymru i ganolbwyntio ar recriwtio gofalwyr maeth ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau, Amser Ni (Seibiannau Byr), siaradwyr Cymraeg a phlant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches (UASC).



Mae Maethu Cymru yn galw ar fwy o bobl i roi eu henwau ymlaen, gyda 7,000 o blant mewn gofal ledled Cymru a dim ond 3,800 o deuluoedd maeth. **Y nod yw recriwtio 800 mwy o ofalwyr erbyn 2026.**

I ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'n Gwasanaeth Maethu, ynghyd â newyddion a diweddariadau, gweler

https://facebook.com/maethumon

Grŵp yn ymgymryd â her ddringo 200 milltir er mwyn cefnogi pobl ifainc mewn gofal

Rhaglen arloesol, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a gyflwynir gan y Rhwydwaith Maethu yw **Maethu Lles**. Mae'r rhaglen yn cydnabod bod gweithio'n amlasiantaethol trwy fframwaith partneriaeth ar draws gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg yn hanfodol i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc,. Mae Maethu Lles wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal. Maethu Lles

CYNHADLEDD LLESIANT MAETHU 2025






Mynychodd nifer ohonom gynhadledd **Llesiant y Rhwydwaith Maethu** yng ngwesty'r Deganwy Quay yng Nghonwy ym mis Chwefror. Daethpwyd â dros 100 o bobl o bob rhan o'r sector maethu at ei gilydd yng ngogledd Cymru a bu'n ddiwrnod arbennig, yn gyfle i ddysgu, rhannu a dathlu'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud er mwyn cefnogi plant sydd a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yma yng Nghymru.

Diolch o galon i'r holl siaradwyr a oedd yn cynnwys ein Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Fon Roberts ynghyd â'n Rheolwr Gwasanaeth Sharon Williams gan wedyn orffen ar nodyn doniol ac ysbrydoledig yng nghwmni'r comedïwr Kiri Pritchard-McLean a oedd yn cynnal y **Gwobrau Llesiant Maethu**.

Roedd yn braf clywed am gyfraniadau rhagorol unigolion a thimau sydd wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth i faethu ar draws Cymru, yn cynnwys rhai rhagorol o Ynys Môn!

Felly, llongyfarchiadau i'n henillwyr haeddiannol, Brian Lawlor, Dee Roberts, a Sorrel Roberts - am dderbyn gwobrau fel cydnabyddiaeth o'ch cyfraniadau rhagorol i faethu yn Ynys Môn.

Yn y llun uchod mae Kiri (chwith), Sorrell (top canol) a Brian (canol gwaelod) efo Gemma Struthers o'r Rhwydwaith Maethu (dde).



Mae'r **Panel Rhianta Corfforaethol**, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr, wedi parhau i gryfhau yn ystod 2024/25. Mae aelodau etholedig a ymunodd â'r panel yn dilyn etholiadau 2023 wedi parhau i ddatblygu eu gwybodaeth a'u profiad o'r materion y mae plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn eu hwynebu. Fel hyn, mae modd i aelodau etholedig herio swyddogion yn effeithiol.

Yr hyn sydd o bwys, yw cryfhau **'llais y plentyn'**. Mae gennym bobl ifanc sy'n mynd i'n Panel Rhianta Corfforaethol ac yn rhannu eu profiadau o fod yng ngofal yr Awdurdod Lleol. Mae aelodau ein panel, hefyd, yn cael gwahoddiad i fynd i'n gweithgareddau niferus lle gallant gwrdd â'n Plant Profiadol mewn Gofal mewn lleoliadau llai ffurfiol.

Rydym, hefyd, wedi croesawu **cynrychiolydd gofalwyr maeth** newydd o Maethu Cymru Môn, sy'n gaffaeliad i'r panel. At hyn, rydym, hefyd, wedi cael mewnbwn gan yr Ysgol Rithiol, y Gwasanaeth Gadael Gofal, y Gwasanaeth Iechyd yn y Panel Rhianta Corfforaethol ac mae'r panel wedi cytuno ar 'flaen-gynllun' i sicrhau y byddir yn craffu'n effeithiol ar berfformiad wrth symud ymlaen.



Gorchmynion Rhyddhau Gofal – mae'r Gwasanaeth wedi defnyddio Grant Llywodraeth Cymru i leihau'n ddiogel nifer y plant sy'n destun gorchmynion gofal ac wedi'u lleoli gyda rhieni. Yn sgil hyn, bu gostyngiad o dros ugain o blant mewn gofal cyhoeddus yn ystod y flwyddyn.

Mae **Taliadau Uniongyrchol** yn fodd hanfodol o gynorthwyo pobl i ganiatáu i'r plentyn a'r teulu gael ansawdd bywyd gwell. Thema gyffredin gyda Thaliadau Uniongyrchol yn ein Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yw **darparu Seibiant** i rieni fel eu bod yn gallu neilltuo amser i'w plant eraill oherwydd y gofynion uwch y gallai un plentyn eu cael oherwydd ei anghenion / anabledd. Mae Taliadau Uniongyrchol yn fodd i'r teulu a'r derbynnydd gael dewis o ddarparwyr sy'n cyd-fynd â'u hanghenion, megis iaith a ffordd o fyw ac yn fodd iddynt aros yn eu cymunedau. **Ym mis Mawrth 2025, roedd gennym 198 o oedolion a 42 o blant oedd yn cael budd Taliadau Uniongyrchol.**

Mae'r **Cynnig Rhagweithiol (Eiriolaeth gefnogol)** yn opsiwn pwysig i blentyn sy'n mynd i ofal neu'n wynebu'r rhestr Amddiffyn Plant, gan y gall fod yn gyfnod llawn straen a phryder i blentyn, yn enwedig os yw eisoes wedi dioddef trawma. Bydd cael person annibynnol i wrando a gweithredu ar fuddiannau gorau plentyn yn rhoi mwy o hyder iddo fynegi ei ddymuniadau a'i deimladau na siarad â Gweithiwr Cymdeithasol neu Ddarparwr Gofal; hyn oll wrth sicrhau bod y plentyn yn derbyn yr hawliau sydd ganddo, hefyd. **Yn ystod Blwyddyn Ariannol 2024/25 gwnaed cyfanswm o 17 o Gyfeiriadau Cynnig Rhagweithiol, sydd ychydig yn uwch na'r 15 a wnaed y llynedd.** Roedd cyfanswm o 122 o Blant yn gymwys ar gyfer Cynnig Rhagweithiol trwy naill ai ddod yn Blant sy'n Derbyn Gofal neu fynd ar y Gofrestr Diogelu Plant; sy'n dangos bod 86% o'r plant wedi gwrthod cwrdd â'u Heiriolwr. Derbyniodd pump o blant y Cynnig Rhagweithiol o gefnogaeth Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn ystod y flwyddyn hon. Rydym yn parhau i hyrwyddo ac annog y cynnig rhagweithiol hwn.

Atal

Safonau Ansawdd:

- *"Caiff angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf a thwf angen ei **atal** rhag cynyddu wrth sicrhau cyflawni'r **canlyniadau** gorau i bobl"*

- *"Caiff **cadernid mewn cymunedau** ei hyrwyddo a phobl eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy fynd ati i gefnogi pobl sydd angen gofal a/neu gymorth, gan gynnwys **gofalwyr**, i ddysgu, datblygu a chymryd rhan yn y gymdeithas"*

Yn ystod y flwyddyn cafwyd cyfanswm o 4886 o gyfeiriadau i'r Gwasanaethau Cymdeithasol o'i gymharu â 4059 yn 2023/24, sef cynnydd o 20%. Yn naturiol, mae'r cynnydd yn nifer y cyfeiriadau wedi'i weld ar draws y Gwasanaeth wrth i'r llwyth gwaith gynyddu. O'r cyfeiriadau a dderbyniwyd, yr Heddlu sy'n parhau i gyflwyno nifer fwyaf y cyfeiriadau gyda 41%, ac yna ysgolion Ynys Môn, oedd yn cyfrif am 14.89% o gyfanswm cyfeiriadau. Cost byw yw un rheswm pam ein bod yn gweld cynnydd sylweddol yn ein cyfeiriadau.

Asesiadau Plant - bu cynnydd yn y nifer a gwblhawyd, o 464 yn 2023/24 i 598 eleni. Er gwaethaf hyn, **mae'r ganran a gwblhawyd o fewn y 42 diwrnod wedi gwella, i fyny i 92%**. O'r Plant a gafodd Asesiad, byddai 56 yn cael eu symud ymlaen i Gynllun Gofal yn dilyn yr Asesiad; nid oedd gan 116 unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu. Byddai anghenion y mwyafrif (426) yn cael eu diwallu drwy ddulliau erail,l gyda Gwasanaethau megis Tîm o Amgylch y Teulu, Teuluoedd Cydnerth neu CAMHS i enwi ond rhai.

At hyn, **cwblhawyd 71 o Asesiadau Gofalwyr Ifanc o fewn y flwyddyn gan Gweithredu dros Blant ar ran yr Awdurdod.** O'r 71, diwallwyd anghenion 43 gyda Chynllun tra bod anghenion 28 wedi'u diwallu drwy ddulliau eraill.

Gwasanaeth Ieuenctid ac Ymgysylltu – Yn sgil derbyn cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin, mae darpariaeth **Caffi Clwb Ieuenctid "Hive"** wedi parhau a datblygu ymhellach gyda thua 40 o bobl ifanc 14-16 oed yn mynd yn wythnosol – mae hyn yn ogystal â'r clybiau ieuenctid arferol. Mae'r lleoliad wedi bod yn lle diogel i bobl ifanc, gydag amrywiaeth o weithgareddau'n digwydd – ond yn canolbwyntio ar lesiant, datblygu sgiliau sy'n ymwneud â dysgu cymdeithasol ac emosiynol, datblygu perthnasoedd iach a gweithio'n agos gyda phartneriaid lleol, megis yr heddlu. Yn ogystal, mae Gweithwyr Ieuenctid Ysgol wedi datblygu rhaglen "Llwyddo" ym maes lles ac iechyd meddwl – cwrs wedi'i dargedu hyd at 12 wythnos gydag achrediad Agored Cymru sydd hefyd yn defnyddio'r dull Rhith-realiti (gweler y cyfeiriad blaenorol). Mae hyn, bellach yn cael ei gynnig ar draws y pum Ysgol Uwchradd ac yn cyfrannu at fframwaith cymwysterau pobl ifanc.

Datblygiad Proffesiynol Rhith-realiti– Mae'r Gwasanaeth wedi buddsoddi mewn pecyn hyfforddi VR ar gyfer codi ymwybyddiaeth o drawma a, hefyd, feysydd penodol megis dementia, cyffuriau a throseddau wrth ddefnyddio cyllyll. Mae 15 aelod o staff wedi cael rhagor o hyfforddiant i gyflwyno rhaglen ar gyfer y 12 mis nesaf ar draws y Cyngor.

Myfyrwyr Ysgol David Hughes yn cymryd rhan yn y profiad rhith-realiti.



Partnership and Integration

Safonau Ansawdd:

- *"Mae **partneriaethau** effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, cwbl **integredig** o ansawdd uchel i bobl"*

- *"Caiff pobl eu hannog i fod yn rhan o waith dylunio a chyflenwi eu gofal a'u cymorth fel **partneriaid cyfartal**"*

MÔN SY'N WYBODUS AM DRAWMA TRAUMA INFORMED ANGLESEY

Fel rhan o'n taith i ddod yn **Ynys sy'n Wybodus am Drawma** mae gennym bellach dros 700 o staff o bartneriaid statudol, y trydydd sector, aelodau etholedig a sefydliadau cymunedol. Mae gofalwyr maeth wedi cymryd rhan mewn ymyraethau/dysgu proffesiynol sy'n wybodus am drawma, o sesiwn 1 diwrnod i achrediadau llawn, fydd yn helpu i gefnogi ein plant, ein pobl ifanc a'n teuluoedd. Mae'r ffigur hwn yn tyfu o wythnos i wythnos.

Mae dros 70% o'n gofalwyr maeth prif ffrwd bellach wedi pasio'r Diploma Bod yn Wybodus am Drawma i Ofalwyr Maeth (gweler y llun isod). Dyma'r cyntaf o'i fath yng Nghymru ac mae adborth gan ein Gofalwyr Maeth wedi bod yn gadarnhaol gydag un gofalwr maeth yn dweud,




"Dwi'n awyddus i gael hyfforddi cymaint o bobl â phosibl mewn trawma, oherwydd os ydym i gyd yn gweithio o'r un Sylfaen, yna bydd gan y rhai sydd wedi profi trawma ganlyniadau gwell. Mae hyn yn mynd drwy'r gwasanaeth sifil, tai, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaeth ieuenctid, prawf, yr heddlu, parafeddygon, pawb."

Mae hyfforddiant ar y gweill i Heddlu Gogledd Cymru, Ynys Mon a'n staff Cartrefi Clyd; hyfforddiant sydd, hefyd, yn ymgorffori model Goruchwylio Gwybodus am Drawma ar gyfer ein holl Gartrefi Clyd. Rydym, hefyd, yn falch o'r Cynghorydd Dyfed Jones, y deilydd portffolio, wrth ddilyn ôl troed y Cynghorydd Gary Pritchard, Arweinydd y Cyngor, wrth gwblhau'r Diploma Bod yn Wybodus am Drawma.

Rydym yn bwriadu ymweld â phob Ward ar Ynys Mon yn ystod 2025/26 gan fynd â'n gwaith Gwybodus am Drawma i'r cymunedau. Bydd hyn yn fodd i ni ddod yn Ynys sy'n gwbl Wybodus am Drawma a bydd y gwaith mapio presennol yn cynorthwyo i fesur effaith y gwaith hwn dros y blynyddoedd nesaf.



https://youtu.be/5Cw5tSK4ROo





https://youtu.be/wGc2b66eYho

Rhaglen Newydd Grymuso Ieuenctid – Yn gynllun peilot cychwynnol yn Ysgol David Hughes, fel rhan o'r cynnig ieuenctid wedi'i dargedu, rydym wedi cynnal y **"Rhaglen Mentora Ieuenctid"** 12 wythnos mewn partneriaeth. Gweithiodd y cynllun peilot gydag wyth o ddysgwyr 11-16 oed dros 12 wythnos. Cwricwlwm strwythuredig yw hwn, wedi'i gynllunio i rymuso pobl ifanc gyda sgiliau bywyd hanfodol mewn gwydnwch, rheoleiddio, myfyrio, hyder, cymhelliant a datblygu eu deallusrwydd emosiynol yn unol â'n fframwaith trawma. Cyflwynir y rhaglen trwy weithgaredd grŵp bychan ac yn ogystal â gwaith a chefnogaeth 1 i 1. Mae'r rhaglen, hefyd, wedi'i hachredu trwy "Agored Cymru" a'n Gwasanaeth Ieuenctid mewnol mewn perthynas â chanlyniadau ac allbynnau. Oherwydd ei llwyddiant, mae'r rhaglen wedi'i hymestyn i bob ysgol uwchradd ar yr ynys. Am ragor o wybodaeth, gweler yr Astudiaeth Achos yn Atodiad C.

Llesiant

Safonau ansawdd:

- *"Mae pobl yn cael eu hamddiffyn a'u **diogelu** rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed"*

- *"Mae pobl yn cael cefnogaeth i fynd ati i **reoli eu lles** a gwneud eu penderfyniadau eu hunain fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn a **byw'n annibynnol** cyhyd â phosibl"*

Fel gyda rhannau eraill o'r Gwasanaeth, **mae gofynion Diogelu wedi cynyddu'n sylweddol gyda nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol yn cynyddu bron i 25%.** Gellir priodoli'r cynnydd i lawer o ffactorau, megis Camddefnyddio Sylweddau, Trais Domestig ac Iechyd Meddwl, i enwi ond rhai. Wrth gwrs, gyda mwy o Gyfarfodydd Strategaeth yn cael eu cynnal, mae nifer y Cyfarfodydd Adran 47 yn cynyddu, ond yr hyn sy'n syfrdanol yw pan fyddwn yn eu hystyried, nid fel ffigurau ond fel canrannau, mae dros 50% yn mynd ymlaen i Adran 47 o'i gymharu â 38% y llynedd.

Mae nifer y **Cynhadleddau Diogelu Plant Cychwynnol wedi cynyddu hefyd, gyda 131 yn cael eu cynnal yn 2024/25**. O'r rheini, roedd 128 wedi'u cofrestru, gyda thri ddim yn cyrraedd y trothwy. Esgeulustod oedd y prif reswm dros gofrestru ac, yna, Gamdriniaeth Gorfforol ac, wedi hynny, Gamdriniaeth Emosiynol, gyda 5 i 9 y grŵp oedran mwyaf. **Ddiwedd y Flwyddyn Ariannol hon, roedd 74 ar y Gofrestr o'i gymharu â 41 y llynedd**. Er gwaethaf y niferoedd cynyddol, ni ailgofrestrwyd unrhyw blentyn o fewn 12 mis ac roedd nifer y dyddiau y bu pob plentyn ar y gofrestr yn isel.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol	2024/25	2023/24
Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol ar gyfer plant a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn gasglu	930	746
Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a esblygodd yn ymholiadau Adran 47	478	283
Cyfanswm nifer yr ymholiadau Adran 47 a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a aeth ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol	131	57

Cartrefi Clyd - Erbyn hyn, mae gennym bedwar Cartref Clyd ar draws yr ynys ac rydym yn buddsoddi mewn eiddo seibiant pwrpasol ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol. Mae'r eiddo seibiant yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd a'r gobaith yw agor ei ddrysau erbyn diwedd haf 2025. Rydym yn chwilio am dri lleoliad arall ar Ynys Môn ar gyfer ein Cartefi Clyd.

Mae ein **Huned Cymorth i Deuluoedd** wedi cynnal **Asesiad Digonolrwydd Chwarae** ac mae swydd newydd, a ariennir gan gyllid y **Gronfa Ffyniant Gyffredin**, wedi cryfhau gwaith cydlynu ar draws y Cyngor a chyda phartneriaid allanol. Mae rhaglenni Llywodraeth Cymru, megis **Dechrau'n Deg** a **Chymorth Rhianta ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys** yn parhau i gefnogi ein teuluoedd bregus. Mae rhaglenni rhianta

ar gael yn gyson i rieni a gofalwyr ar draws yr Ynys. Mae nifer o staff a phartneriaid y Cyngor wedi derbyn hyfforddiant yn y rhaglen flaengar **"Triple P"** i gefnogi teuluoedd o'r cychwyn cyntaf. Mae rhaglenni gofal plant yn parhau i gefnogi rhieni i leihau costau gofal plant a chael at waith, megis "Y Cynnig Gofal i Blant 2 Oed".

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn **cryfhau'r Gwydnwch o fewn y Tîm Diogelu a Sicrhau Ansawdd**. Rydym wedi ailstrwythuro'r tîm hwn yn dilyn yr Archwiliad Mewnol ar y tîm a, thrwy wneud hyn, rydym wedi datblygu mwy o wydnwch yn y tîm a chael cysondeb ar draws y gwasanathau Oedolion a Phlant a Theuluoedd ac wedi **cryfhau cadernid y tîm trwy greu rôl Arweinydd Ymarfer** yn y tîm. Mae'r rôl hon yn gyfrifol am oruchwylio a chefnogi'r Swyddogion Adolygu Annibynnol. Bydd hyn yn fodd i'r Rheolwr Gwasanaeth ganolbwyntio ar y gwaith strategol ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn gorfforaethol.

Dull Integredig Addysg Ein Plant - Cawsom gyfres o "Grantiau untro" gan Lywodraeth Cymru i **greu ein hysgol rithwir ar Ynys Môn** ac, ar hyn o bryd, mae gennym athro arbenigol wedi'i secondio yn ei swydd am y drydedd flwyddyn. Rhaid i'r secondiad hwn ddod i ben ym mis Mawrth 2026 gan nad oes gennym unrhyw gyllid ar ôl hyn. Ar hyn o bryd, mae'r athrawes yn treulio 70% o'i hwythnos waith yn addysgu'n uniongyrchol ein Plant â Phrofiad o Ofal gan nad ydynt yn yr ysgol oherwydd 1/ amserlenni llai 2/ cael eu gwahardd 3/ rhesymau eraill.

Gweithio gyda'n cydweithwyr yn y Gwasanaeth Addysg ac ysgolion lleol i ddatblygu dull gwahanol o waharddiadau ysgol. Daw rhywfaint o'r cynnydd yn y galw am wasanaethau yn sgil ysgolion yn lleihau amserlen plentyn neu'n gwahardd plant. Rydym yn fodlon cynnig cefnogaeth i ysgolion yn gynt. Fodd bynnag, bydd hyn yn newid diwylliant ysgolion a bydd angen dyfalbarhad sylweddol.

Fel rhan o'r dull ysgol rithwir yn Ynys Môn, fe wnaethom drefnu prom ar gyfer ein pobl ifanc blwyddyn 11 nad oedd yn medru mynd i'w prom ysgol. Trefnwyd hyn gan staff cymorth busnes, gweithwyr cymdeithasol, staff addysg a gofalwyr maeth mewn cydweithrediad â chyflogwr lleol - Chateau Rhianfa.

Cafwyd caniatâd y bobl ifanc (sydd i gyd yn edrych yn wych!) i rannu llun:



Blaenoriaethau ein Gwasanaethau Plant a Theuluoedd 2025/26 yw:

Maes i'w Wella	Camau Gweithredu i'w Gwella	Canlyniadau (sut y bydd yn cyfrannu at nod strategol Cynllun y Cyngor)	Erbyn pryd
System TG Cysylltu Gofal (blaenoriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol)	Rheoli gwaith cyflwyno System Monitro Gofal Cymdeithasol Mozaic newydd.	Bydd y system newydd yn cynorthwyo i gefnogi Staff y Gwasanaethau Cymdeithasol i reoli a chofnodi eu gwaith a bydd yn cynorthwyo i rannu data gyda phartneriaid eraill (Cam 2)	Mehefin 2026 I'w gadarnhau
Cynyddu nifer y Gofalwyr Maeth Cymraeg eu Hiaith	Rydym wedi adolygu ac ail-lansio ein pecyn Gofal Maeth i ddenu mwy o ofalwyr maeth, gyda phwyslais ar siaradwyr Cymraeg.	Sicrhau bod gan ein plant a'n pobl ifanc gyfle i aros yn eu cymuned eu hunain, gan ddefnyddio eu dewis iaith, lle bo'n bosibl.	Mawrth 2026
Peilot Deallusrwydd Artiffisial yn y Tîm Diogelu a Chymorth Busnes	Treialu'r defnydd a wneir o ddeallusrwydd artiffisial i gynorthwyo gyda chymryd nodiadau/ cofnodion yn ystod cyfarfodydd y cytunwyd arnynt, gyda'r nod o leihau'r angen am gymorth gweinyddol.	Gweithio gyda chydweithwyr TG corfforaethol i gytuno ar y dechnoleg a'r canllawiau. Gweithio gyda'r Swyddog Diogelu Data i sicrhau bod y peilot yn cael ei reoli'n ddiogel o ran prosesu a rhannu data. Treialu'r Dechnoleg a monitro yn erbyn cymryd nodiadau dynol i sicrhau cywirdeb.	Mawrth 2026
Rhestrau Aros	Mae llawer o wybodaeth wedi'i hysgrifennu am restrau aros hir, yn enwedig ar gyfer timau niwroddatblygiadol ledled Cymru. Mae rhai plant a phobl ifanc yn Ynys Môn ar y rhestr am tua pedair i bum mlynedd. Gall yr aros hir hwn gael effeithiau sylweddol ar fywydau plant, ychwanegu at y pwysau a'r straen y mae teuluoedd yn ei brofi ac, mewn rhai achosion, achosi i'r teulu chwalu gan arwain at blant yn cael eu rhoi yn y system ofal.	Ein nodau fydd gweithio gyda phartneriaid y GIG lle ceir rhestrau aros i edrych ar ffyrdd o wella prosesau i gyfyngu ar yr amser aros.	Mawrth 2026



Maes i'w Wella	Camau Gweithredu i'w Gwella	Canlyniadau (sut y bydd yn cyfrannu at nod strategol Cynllun y Cyngor)	Erbyn pryd
Ystyried y galw cyfredol a sut i fodloni'r galw hwn yn ddiogel ac o fewn canllawiau statudol	Byddwn yn cynnal adolygiad o arferion gwaith presennol gan ystyried llwythi achosion cyfredol, gofynion oriau hyblyg, lefelau salwch ac ati ar staff a gweld sut y gallem ddefnyddio staff, nad ydynt wedi cymwyso, mewn rhai meysydd ac ati.	Bydd adroddiad mewnol dan arweiniad y Cyfarwyddwr yn ystyried yr holl opsiynau a chynhelir trafodaeth gyda'r Tîm Arwain ac Aelodau Etholedig.	Medi 2025
Sicrhau bod ein gwasanaeth cymorth ieuenctid yn gyson â fframwaith newydd Estyn gan ganolbwyntio ar adnoddau digidol a staffio o ansawdd i ddiwallu anghenion lleol.	Cynnal archwiliad o'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth bresennol Dim data cyfredol ar ddadansoddiad sgiliau staff Ansawdd y gwasanaeth - Arsylwi'n Uniongyrchol weithgareddau/darpariaeth Nodwyd bod angen cael system TG i ddarparu	Bydd Hunanasesiad Mewnol yn cael ei gwblhau i nodi camau gweithredu i wella canlyniadau. System TG UPSHOT newydd i gyd-fynd â'n cynnig i bobl ifanc, gyda dull digidol o gofrestru pob person ifanc.	Medi 2025
Cyflwyno rhaglen Llywodraeth Cymru i ehangu gofal plant i bob plentyn 2 oed	Penodi rheolwr rhaglen a staff cefnogol Datblygu adnodd i gofrestru plant ac olrhain presenoldeb, anfonebu effeithlon ar gyfer y sector gofal plant. Monitro ansawdd gofal plant yn unol â Chanllawiau Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru Hyrwyddo a chefnogi lleoliadau gofal plant i ddod yn gyfrwng Cymraeg/dwyieithog.	Fel model ymyrraeth gynnar, bydd gan bob plentyn dwy i dair oed oed y cyfle gorau i ffynnu. Bydd pob darparwr gofal plant yn siarad Cymraeg neu'n ddwyieithog, fel bod modd i bob plentyn ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Gwella cyrhaeddiad addysgol a chyflawniad plant a phobl ifanc, trwy gefnogi eu lles, ynghyd â sicrhau cyfleoedd ehangach i ddysgu a ffynnu. Cefnogi economi'r sector gofal plant a busnesau lleol i dyfu a ffynnu, gan gefnogi rhieni/gofalwyr gyda chostau gofal plant i gael gwared ar ofal plant fel rhwystr i weithio	Ebrill 2028



Gwasanaethau Oedolion

Cyflwynodd y gwasanaeth ei 'Gynllun Strategol, Moderneiddio Gwasanaethau i Oedolion 2024-29', a chafodd hwn ei gymeradwyo gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor gyda'r meysydd blaenoriaeth allweddol fel a ganlyn:

1. **Cydweithio i fod yn ynys oed-gyfeillgar – drwy weithgareddau ataliol.**
2. **Trawsnewid gwasanaethau dydd – parhau â chamau cadarnhaol i gynnal gweithgareddau dydd mewn lleoliadau cymunedol.**
3. **Tai â Chymorth (anableddau dysgu) – i wneud y mwyaf o 'Tai â Chymorth' a'i foderneiddio er mwyn sicrhau effeithiolrwydd.**
4. **Gwasanaeth seibiant (anableddau dysgu) – nodi a datblygu darpariaeth newydd addas.**
5. **Tai gofal ychwanegol – datblygu tai gofal ychwanegol i gynyddu cyfleoedd i bobl fyw'n annibynnol yn y gymuned am gyfnod hwy.**
6. **Cartrefi preswyl y cyngor – dargyfeirio adnoddau ariannol i ddarpariaethau fforddiadwy a chost-effeithiol sy'n diwallu anghenion.**
7. **Datblygu gwasanaethau sy'n ariannol gynaliadwy.**



Ynys Môn Oed-Gyfeillgar
Age Friendly Anglesey



Pobl

Safonau Ansawdd:

- *"Mae pawb yn bartneriaid cyfartal sydd â **dewis, llais a rheolaeth** dros eu bywydau ac sy'n gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt"*

- *"Mae **arweinyddiaeth** effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda **gweithlu** medrus iawn, cymwys a chefnogol sy'n gweithio tuag at weledigaeth a rennir".*

Cynhadledd Dementia Ynys Môn 2024
ddydd Mercher 20fed o Dachwedd, cynhaliodd Ynys Môn ei Chynhadledd Dementia gyntaf. Daeth 75 o bobl i'r gynhadledd, pobl sy'n byw gyda Dementia, eu gofalwyr, gwirfoddolwyr yn y gymuned a gweithwyr proffesiynol. Cafwyd cyflwyniad gan Gymunedau Dementia-gyfeillgar, Canolfan Dementia Ynys Môn, Canolfan Glanhwfa, Caban, a Heddlu Gogledd Cymru.

Mae ehangu'r defnydd a wneir o adnoddau cymunedol er mwyn **annog integreiddio yn y gymuned** yn flaenoriaeth i'r **gwasanaeth Anableddau Dys**gu. Mae'r gwasanaeth wedi treialu hyn gan ddefnyddio Hybiau Cymunedol, ac wedi ymgysylltu yn ardal Caergybi, gan gael adborth cadarnhaol gan y rhai a fu yno. Mae pobl yn gwerthfawrogi cael cynnig amrywiaeth o weithgareddau ac mae hynny'n **arwain at brofiadau gwell a mwy o ddewis a rheolaeth**. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon ar gyfer Gweithgareddau Dydd, mae'r awdurdod wedi cymeradwyo proses drawsnewid o ran darpariaeth yn y gymuned, gan drosglwyddo adnoddau i hwyluso gwaith datblygu mwy ar adnoddau cymunedol. Yn ogystal â hyn, rydym wedi buddsoddi mewn gwella cyfleusterau awyr agored yng Nghors Felin. Roedd hyn yn cynnwys datblygu mannau diogel, a gardd synhwyraidd, yn adroddiad y llynedd. Ein bwriad yw buddsoddi i wella ansawdd y gwasanaethau dros y blynyddoedd nesaf er mwyn datblygu a gwella mwy ar y gwasanaeth a chreu cyfleoedd i unigolion ddatblygu sgiliau newydd.

Mae gan y gwasanaeth gynlluniau uchelgeisiol i drawsnewid a gwella **opsiynau llety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu**, trwy raglen o ddatblygiadau newydd. Gan weithio ochr yn ochr â'n **Hadran Dai a chymdeithasau tai lleol**, rydym wedi gallu buddsoddi mewn sawl cynllun ac rydym yn parhau i ddatblygu cynlluniau er mwyn uwchraddio mwy o eiddo yn unol â chyfalaf yr adran. Y disgwyl yw y bydd y cynlluniau yr ydym wedi buddsoddi ynddynt dros y 24 mis diwethaf yn ymarferol erbyn haf 2025.

Taliadau Uniongyrchol – Bu **cynnydd o 18% yn y defnydd a wneir o Daliadau Uniongyrchol yn y tair blynedd diwethaf gyda'r ffigur ar ddiwedd 2024/25 yn sefyll ar 284, o'i gymharu â 239 dair blynedd yn ôl**. Mae hwn yn duedd gadarnhaol iawn ac un y gallwn ei weld yn parhau gan ei fod yn cefnogi'r defnydd a wneir o ofalwyr anffurfiol, gan roi'r opsiwn i'r dinesydd ddewis darparwr y maent yn ymddiried ynddo ac yn teimlo'n gyfforddus ag ef, yn hytrach na chael eu neilltuo iddo. Gyda phoblogaeth gref o siaradwyr Cymraeg, mae taliadau uniongyrchol yn fodd i ddefnyddwyr gyflogi gofalwyr Cymraeg eu hiaith, gan ddiogelu iaith a hunaniaeth ddiwylliannol yn eu darpariaeth gofal. Mae hyn, hefyd, yn ategu ymrwymiad Ynys Môn i Safonau'r Iaith Gymraeg.

Eiriolaeth – Mae nifer yr oedolion sy'n cael cynnig eiriolaeth wedi cynyddu'n gyson yn ystod 2024/25 gyda chynnydd o 24% yn y gallu i nodi'r angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol, Roedd y cyfanswm a nodwyd yn 2024/25 yn 138 o'i gymharu â 111 dair blynedd yn ôl. Ochr yn ochr â hyn, gwelwn gynnydd yn nifer yr eiriolwyr ffurfiol sydd ar gael, gyda chynnydd o 22% dros y dair blynedd diwethaf. 88 oedd y ffigur yn ystod 2024/25.



Atal

Safonau ansawdd:

- *"Caiff angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf a thwf angen ei atal rhag cynyddu wrth sicrhau cyflawni'r **canlyniadau** gorau i bobl"*

- *"Caiff **cadernid mewn cymunedau** ei hyrwyddo a phobl eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy fynd ati i gefnogi pobl sydd angen gofal a/neu gymorth, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chymryd rhan yn y gymdeithas"*

Cynyddodd nifer y cysylltiadau newydd i Wasanaethau Oedolion yn ystod 2024/25 11% dros y dair blynedd diwethaf, gyda'r ffigur yn 3,640 yn ystod y flwyddyn, o'i gymharu â 3,280 dair blynedd yn ôl. Priodolir y cynnydd i nifer o ffactorau: poblogaeth sy'n heneiddio; gan fod gan Ynys Môn gyfran uwch na'r cyfartaledd o oedolion hŷn ac mae'r demograffeg hon yn tyfu. Felly, gallwn dybio y bydd nifer y cysylltiadau yn cynyddu dros amser. Ffactor arall yw bod pobl yn llawer mwy ymwybodol o wahanol fathau o gefnogaeth sydd ar gael trwy Wasanaethau Oedolion, gyda gwell cyfeirio gan feddygon teulu, ysbytai a grwpiau cymunedol.

Ochr yn ochr â chynnydd yn nifer y cysylltiadau newydd dros y 3 blynedd diwethaf, bu **cynnydd yn nifer yr asesiadau newydd sy'n cael eu cwblhau, gyda 1,793 yn cael eu cwblhau yn 2024/25.**

Dyma ganlyniadau'r asesiadau hyn:

Diwallwyd anghenion gyda chynllun gofal a chymorth	1,173
Diwallwyd anghenion trwy unrhyw ddull arall	377
Ni ddiwallwyd yr un angen cymwys	243

Mae pecynnau ailalluogi sy'n cael eu cwblhau wedi cynyddu o 103 yn 2023/24 i 168 yn 2024/25. Un rheswm dros y cynnydd yw tîm sydd newydd ei greu; **"Am Adra Môn"**, sydd wedi cynnwys Swyddogion Ymgysylltu yn gweithio yn Ysbyty Gwynedd ac yn rhoi asesiad cychwynnol i gleifion i bennu anghenion. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y cleifion sy'n cael eu rhyddhau ac yn nifer y cleifion sy'n defnyddio gwasanaethau ataliol, megis ailalluogi, yn hytrach na gorfod aros yn yr ysbyty am gyfnod hwy gyda'r perygl y bydd eu hiechyd yn dirywio.



Dyma ganlyniadau'r pecynnau ailalluogi a gwblhawyd ar gyfer 2024/25:

Gostwng yr angen am gymorth	44
Wedi cynnal yr angen am yr un lefel o gymorth	31
Wedi lliniaru'r angen am gymorth	74
Heb ostwng, cynnal na lleddfu'r angen am gymorth	19

Cam 2 Datblygu Canolfan Glanhwfa - Mae Hwb Cymunedol Canolfan Glanhwfa wedi derbyn cyfanswm o £1m o gyllid i gwblhau gwaith addasu ac adnewyddu i'w hadeilad yng Nghapel Moreia yn Llangefni. Mae hyn yn dilyn cwblhau cam cyntaf y gwaith ym mis Rhagfyr 2022.

Ers hynny, mae bobl hŷn a bregus wedi cael gwasanaethau cymunedol, gyda phartneriaid mawr Age Cymru Gwynedd a Môn, Bwyd Da Môn, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, Cynnal Gofalwyr ac Adferiad yn rhoi gwasanaethau allweddol. Yn ogystal, mae'r Ganolfan yn gartref i'r corau arobryn Côr Ieuenctid Môn a Chôr Encor (i bobl dros chwe deg oed), dosbarthiadau comedi stand-yp a chyrsiau cymunedol gan Grŵp Llandrillo Menai.

Dywedodd rheolwr Canolfan Glanhwfa, Siân Green: ***"Bydd yr hwb cyllid diweddaraf hwn yn fodd i ni roi cartref pwrpasol i Ganolfan Dementia Ynys Môn sy'n darparu gwasanaethau cymunedol i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr."***

Ychwanegodd cadeirydd Canolfan Glanhwfa, Ieuan Wyn Jones: ***"Unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau tua chanol 2025, bydd yn rhoi bywyd newydd i adeilad rhestredig Gradd 2* yng nghanol Llangefni. Mae adeilad y capel eiconig yn rhan o dreftadaeth bensaernïol y dref ac mae'n wych ei weld yn cael ei addasu i ddiwallu anghenion canolfan gymunedol yr 21ain ganrif".***

Mae'r adran wedi cynnal prosesau tendr i **ddiweddaru ein contractau trydydd sector** ar gyfer **Cefnogi Gofalwyr Di-dâl, a Chefnogaeth i Bobl Heneiddio'n Dda**. Llwyddodd Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr i gael y contract i gefnogi Gofalwyr Di-dâl a llwyddodd Canolfan Glanhwfa i gael y contract ar gyfer Cefnogi Pobl i Heneiddio'n Dda.

Partneriaeth ac Integreiddio

Safonau ansawdd:

- *"Mae partneriaethau effeithiol yn eu lle i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, cwbl integredig o ansawdd uchel i bobl"*

- *"Caiff pobl eu hannog i fod yn rhan o waith dylunio a chyflenwi eu gofal a'u cymorth fel partneriaid cyfartal"*

Ymwelodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Rhian Bowen-Davies, ym mis Hydref 2024 i ddarganfod ein huchelgais i wneud **Ynys Môn yn gymuned Oed-gyfeillgar mor ysbrydoledig**. Dychwelodd am ymweliad wythnos o hyd ym mis Mawrth 2025 i drochi ei hun ymhellach yn y mentrau sydd ar gael ar Ynys Môn.



Ymweliad Rhian Bowen-Davies fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Derbyniwyd yr Ynys yn aelod swyddogol o Rwydwaith Byd-eang Cymunedau Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd ym mis Gorffennaf 2023.

Yn ystod ei hymweliad, llwyddodd y Comisiynydd i ymweld â chymunedau ledled Ynys Môn; ymgysylltu'n uniongyrchol â thrigolion hŷn i glywed am eu profiadau a dysgu sut mae gwasanaethau a grwpiau lleol yn cefnogi pobl i fyw a heneiddio'n dda.

Cyfarfu â Swyddogion allweddol y Cyngor ac Aelodau Etholedig, cyn gweld drosto'i hun yr ystod o fentrau sydd wedi helpu i greu Ynys Môn Oed-gyfeillgar. Cymerodd Rhian Bowen-Davies ran mewn ystod o fentrau dan arweiniad y gymuned sy'n adlewyrchu ymrwymiad yr ynys i helpu pobl hŷn i aros yn actif, bod â chysylltiadau ac yn annibynnol.

Ymhlith y rhain roedd **dosbarth Pêl-bicl 60+** yng Nghanolfan Biwmares, y **grŵp Nifty** 60s yng Nghaergybi a **dosbarth sgiliau TG ffyniannus** yn y Benllech a gyflwynwyd gan diwtoriaid o Grŵp Llandrillo Menai. Cyfarfu hefyd ag aelodau o **nifer o sefydliadau a grwpiau oed-gyfeillgar** megis Mencap Môn, Caffi Siop Mechell, Grŵp Cerdded Canolfan Glanhwfa a thrigolion yn Hafan Cefni.

Yn dilyn yr ymweliad, dywedodd Rhian Bowen-Davies, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, "Bu'r ymweliad ag Ynys Môn yn fodd i mi weld yn uniongyrchol sut mae unigolion, cymunedau a gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i wneud Ynys Môn yn wirioneddol oed-gyfeillgar. Ni ellir gorbwysleisio rôl hanfodol gwirfoddolwyr ar draws yr ynys—y mae llawer ohonynt yn bobl hŷn—gan eu bod yn rhoi cyfleoedd amhrisiadwy i gymunedau elwa ar wybodaeth, cefnogaeth a gwasanaethau hanfodol."

"Dylai Ynys Môn fod yn hynod falch o'i gyflawniadau hyd yn hyn. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi pobl i aros mor annibynnol â phosibl yn ein cymunedau ac rwy'n falch bod y comisiynydd wedi cydnabod y cyfleoedd a'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl hŷn yma ar Ynys Môn."

"Ers 2023, mae Ynys Môn wedi bod yn aelod o Rwydwaith Byd-eang Cymunedau a Dinasoedd Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd ac mae wedi ymrwymo i greu ynys o unigolion annibynnol a chymunedau grymus. Ein gweledigaeth yw Ynys Môn Oed-gyfeillgar sy'n cefnogi pobl o bob oed i fyw a heneiddio'n dda."





Mae datblygiad **Ynys Oed-gyfeillgar** yn mynd o nerth i nerth. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â nifer o wasanaethau a sefydliadau trydydd sector i ehangu'r gwaith hwn. Mae'r prosiect Nifty60s a datblygiad Canolfan Dementia Ynys Môn yng Nghanolfan Glanhwfa, Llangefni yn enghreifftiau o ddatblygiadau sy'n cefnogi iechyd a lles trigolion Ynys Môn.

Ym mis Tachwedd 2024, ailddatblygodd yr Awdurdod Lleol eu cynnig iechyd meddwl a sefydlu **Llesiant Meddwl Môn**. Bydd ailfodelu'r gwasanaeth yn cynorthwyo'r Awdurdod Lleol i roi golwg cliriach ar anghenion gofal cymdeithasol dinasyddion Ynys Môn. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys Gweithwyr Cymdeithasol ac Ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy ac mae'n anelu at gynnig asesiad a chefnogaeth i hyrwyddo canlyniadau unigol cadarnhaol fel bod modd i bobl fyw bywydau bodlon. Mae hyn yn cyd-fynd ag ethos Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o atal, lles ac ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio'n agos gyda Thîm Iechyd Meddwl Cymunedol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwalader i roi cefnogaeth Iechyd Meddwl i ddinasyddion Ynys Môn.

Statws Dementia-gyfeillgar i Ynys Môn - Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cael ei anrhydeddu yn Gyngor Dementia-gyfeillgar cyntaf Gogledd Cymru, gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Cyngor Ynys Môn, Arwel W Owen,

> "Rydym wrth ein bodd o dderbyn y gydnabyddiaeth hon, mae'n dyst i waith caled ac ymrwymiad ein staff, y cyngor a'n partneriaid i hyrwyddo ymwybyddiaeth."

Ychwanegodd,

> "Ein nod nawr yw parhau i weithio ochr yn ochr â'r bwrdd iechyd a sefydliadau'r trydydd sector i ddatblygu'r ddarpariaeth orau i bobl Ynys Môn."

Mae prosiect Ynys Môn Dementia-gyfeillgar yn gweithio gyda chymunedau lleol i fynd i'r afael â blaenoriaethau a nodwyd yn lleol. Ymhlith y blaenoriaethau hyn mae nodi mannau mewn cymunedau y mae angen cyfleuster neu adeilad cymunedol dementia-gyfeillgar ar eu cyfer. Mae'r prosiect yn golygu gweithio gydag amrywiol sefydliadau, busnesau, grwpiau strategaeth, sy'n gweithio ar y cyd i greu Ynys Môn Dementia-gyfeillgar.

Esboniodd y Cynghorydd Alun Roberts, Deiliad Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol,

> "Mae gan Ynys Môn boblogaeth sy'n heneiddio gyda 26% dros 65 oed. Amcangyfrifir bod 1,300 o bobl yn byw gyda Dementia ar Ynys Môn a rhagwelir y bydd y ffigurau hynny'n cynyddu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Felly, mae'n hanfodol bod pobl sy'n byw gyda dementia, eu ffrindiau, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu deall, eu parchu a'u gwerthfawrogi fel aelodau o'r gymuned."



Llesiant

Safonau ansawdd:

- *"Mae pobl yn cael eu hamddiffyn a'u **diogelu** rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed"*

- *"Mae pobl yn cael cefnogaeth i fynd ati i **reoli eu lles** a gwneud eu penderfyniadau eu hunain fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn a **byw'n annibynnol** cyhyd ag y bo'n bosibl"*

Mae **cyfanswm nifer yr adroddiadau diogelu wedi cynyddu'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf, gan gynyddu 51% o 425 i 642 o adroddiadau.** Mae'n debygol y bydd y duedd hon yn parhau, efallai ar gyfradd arafach, ond yn cynyddu serch hynny oherwydd nifer o ffactorau. Un ffactor o'r fath yw cynnydd mewn ymwybyddiaeth gyhoeddus a hyfforddiant proffesiynol, gan fod mwy o weithwyr proffesiynol, gofalwyr ac aelodau'r gymuned bellach wedi'u hyfforddi i adnabod arwyddion o gam-drin, esgeulustod ac ecsbloetio. Mae ymgyrchoedd cyhoeddus a hyfforddiant diogelu hefyd wedi lleihau'r stigma ac wedi annog mwy o bobl i roi gwybod am bryderon. Mae pwysau ôl-bandemig a chost byw wedi cynyddu problemau iechyd meddwl, unigrwydd ac ynysu cymdeithasol, yn enwedig ymhlith oedolion hŷn neu anabl. Mae'r ffactorau hyn yn cynyddu'r bregusrwydd o fod yn agored i gam-driniaeth neu hunan-esgeulustod, gan ysgogi mwy o bryderon diogelu.

Mae nifer yr adroddiadau diogelu lle roedd angen gwneud ymholiadau wedi gostwng ychydig dros y tair blynedd diwethaf, gan ostwng 12% o 315 i 277. Un ffactor yw bod nifer uchel o adroddiadau diogelu sy'n cael eu derbyn heb gyrraedd y trothwyon sydd gennym yn Ynys Môn. Un arall yw problem adrodd bosibl o ddogfennau gwahanol yn cael eu defnyddio - rhywbeth nad yw'n cael ei nodi mewn adroddiadau.

Fodd bynnag, o'r adroddiadau hynny sy'n mynd ymlaen i ymholiadau, mae'r nifer y mae angen gweithredu arnynt wedi cynyddu yn y tair blynedd diwethaf, gan gynyddu 10% o 209 i 230. Mae hyn oherwydd trothwy uwch ac, felly, gynnydd yn y tebygolrwydd y byddai angen mwy o weithredu.

Agor Hwb Dementia Amlwch - Daeth pobl o bob oed ynghyd mewn digwyddiad i ddathlu lansio hwb dementia wythnosol newydd yn Amlwch. Ymunodd disgyblion o Ysgol Gynradd Amlwch ag aelodau hŷn y gymuned a gofalwyr mewn prynhawn agored a gynhaliwyd gan Môn Actif ac Ynys Môn Oed-gyfeillgar yn y Neuadd Goffa.

Roedd y digwyddiad yn cyd-daro ag Wythnos Ryng-genhedlaeth Fyd-eang, sy'n annog gwahanol grwpiau oedran i ddod ynghyd i weithio ar brosiectau lleol mewn ffyrdd ystyrlon. Rhoddwyd cyfle i'r rhai a ddaeth yno brofi rhai o weithgareddau'r ganolfan dementia, gan gynnwys: crefftau, cyrlio ac ymarferion ysgafn.

Bydd y ganolfan newydd, a gaiff ei redeg gan Dementia Actif Môn, yn ceisio cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia yn ogystal â'u gofalwyr. Gall pobl sgwrsio a chymdeithasu â'i gilydd dros baned. Roedd Heddlu Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr, Age Cymru Gwynedd a Môn a Thai Môn hefyd yn bresennol gyda stondinau gwybodaeth am eu gwasanaethau.

Dywedodd yr Hyrwyddwr Oed-gyfeillgar, y Cynghorydd Gwilym Jones,

"Rydym wedi ymrwymo i greu Ynys Môn sy'n ddementia-gyfeillgar , lle nad oes unrhyw rwystrau i bobl sy'n byw gyda dementia, eu gofalwyr a'u teuluoedd."

Dywedodd Yvonne Owen, preswylydd lleol ac aelod o Gyngor Pobl Hŷn Ynys Môn, COP, a Chyfeillion Neuadd Goffa Amlwch,

"Mi oedd yn brynhawn gwych. Dw i'n meddwl bod oedolion a phlant wedi elwa llawer ohono ac roedd yr awyrgylch mor gynnes a chynhwysol."

Mae Canolfan Codi Pwysau a Ffitrwydd Caergybi ac Ynys Môn yn falch o gyhoeddi eu bod wedi llwyddo i sicrhau £288,334 o arian gan y Loteri Genedlaethol i ehangu eu prosiect **Nifty60s ar draws Ynys Môn** am y tair blynedd nesaf. Bydd y cyllid hwn yn fodd i'r ganolfan hon gyflwyno sesiynau mewn ardaloedd ychwanegol o Ynys Môn, ar ôl eisoes ddenu 154 o aelodau yn y sesiynau yng Nghaergybi. Mae'r prosiect yn rhoi cefnogaeth iechyd a lles gwerthfawr yn y gymuned i oedolion dros 60 oed.

"Rydym yn ddiolchgar o dderbyn yr arian hwn gan y Loteri Genedlaethol fydd yn fodd i ni ehangu ein prosiect Nifty60s ymhellach a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ym mywydau pobl ar draws Ynys Môn. Rydym yn ddiolchgar i Gyngor Sir Ynys Môn am eu cefnogaeth drwy Gronfa'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, a phartneriaid allweddol eraill am eu cefnogaeth barhaus

Meddai Ray Williams (Cadeirydd y Ganolfan Codi Pwysau).

Dywedodd James Lee MBE, Cadeirydd Nifty60s,

> “Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo heneiddio iach ac actif, lleihau llithro, baglu a syrthio. Bydd y gefnogaeth hon yn ein helpu i gyrraedd mwy o unigolion, gan wella ansawdd eu bywyd a’u lles cyffredinol. Mae’r sesiynau’n canolbwyntio ar hyfforddiant ymwrthedd ac, i ni, cyhyrau yw hirhoedledd bywyd.”



Nod Nifty60s yw cychwyn y prosiect estynedig yn ddiweddarach eleni, gan ddod ag amrywiaeth o sesiynau gweithgaredd corfforol, ymgysylltu cymdeithasol a lles i wahanol gymunedau ar Ynys Môn. Mae’r sefydliad yn edrych ymlaen at weithio’n agos gyda phartneriaid lleol a gwirfoddolwyr i sicrhau llwyddiant a chynaliadwyedd tymor hir y prosiect.

Fforwm Pobl Hŷn Ynys Môn - Ym mis Ebrill 2024, cynhaliodd Cyngor Sir Ynys Môn ac Age Cymru Gwynedd a Môn Fforwm Pobl Hŷn Ynys Gyfan yn M-Sparc; digwyddiad a ddaeth â phobl hŷn o bob cwr o’r ynys ynghyd.


Yn y Fforwm, lle’r oedd dros 70 o bobl yn bresennol, cafwyd cyflwyniadau gan sawl siaradwr gwadd diddorol. Agorwyd y digwyddiad gan Brenda Roberts, Cadeirydd Cyngor Pobl Hŷn, a chaewyd y digwyddiad gan y Cynghorydd Gwilym Jones, Hyrwyddwr Pobl Oed-gyfeillgar.

Cynhaliwyd amserlen o gyflwyniadau amrywiol, gan gynnwys Cymorth Atal Sgamiau i wefan Action Fraud i Fwletin Rhybudd Cymunedol Gogledd Cymru. Cynigiodd y Ganolfan Cyngor ar Bopeth gymorth a chyngor sydd ar gael i helpu pobl i wneud y mwyaf o’u hincwm a’u hegni. Cyfeiriodd y cyflwyniad at dariffau cymdeithasol, cymorth brys, awgrymiadau ar gadw’r tŷ’n gynnes, awgrymiadau ynghylch arbed ynni a mwy. Rhoddodd y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr gyflwyniad yn crynhoi beth yw Gofalwr Di-dâl a sut y gall gwasanaeth Cynnal Gofalwyr helpu.

Cawsom wybod am wahanol gynlluniau, gan gynnwys y rhaglen seibiant ‘Cynllun Seibiannau Byr’, cymorth gartref a chyda hawliau gofalwyr, yn ogystal â llawer o rai eraill.

> “Diolch am ddiwrnod diddorol ac addysgiadol iawn, mi wnes ei fwynhau yn fawr iawn. Gyda gobaith, gallwn ni i gyd wneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau pobl hŷn, a’u teuluoedd a’u ffrindiau, yn eu cymunedau ac yn Ynys Môn yn ehangach.”

Llwyddodd yr adran i ddenu arian grant o £700K trwy **Gronfa Tai gyda Gofal Llywodraeth Cymru** i brynu eiddo byw â chymorth oddi ar y farchnad agored yn Rhostrehwfa ac mae gwaith adnewyddu’n parhau. Mae ail eiddo yn ardal Gwalchmai wedi’i brynu a bydd addasiadau’n cael eu gwneud yn ystod y misoedd nesaf. Bydd y prosiect yn cael ei redeg mewn partneriaeth â’n hadran dai ac yn cael ei ariannu’n rhannol gan y Cyfrif Refeniw Tai.



Blaenoriaethau'r Gwasanaethau Oedolion am 2025/26 yw:

Maes i'w Wella	Camau Gweithredu i'w Gwella	Canlyniadau (sut y bydd yn cyfrannu at nod strategol Cynllun y Cyngor)	Erbyn pryd
System TG Cysylltu Gofal (blaenoriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol)	Rheoli cyflwyniad System Monitro Gofal Cymdeithasol Mozaic newydd.	Bydd y system newydd yn cynorthwyo i gefnogi Staff y Gwasanaethau Cymdeithasol i reoli a chofnodi eu gwaith a bydd yn cynorthwyo i rannu data gyda phartneriaid eraill (Cam 2)	Mehefin 2026 I'w gadarnhau
Cyngor Oed-gyfeillgar	Ymestyn gweledigaeth ein Gwasanaeth ar draws y Cyngor er budd yr holl staff a chymuned Ynys Môn.	Datblygu Cynllun Strategol penodol fydd yn cwmpasu holl wasanaethau'r Cyngor i helpu i ymgorffori'r weledigaeth.	Mawrth 2026
Safle Gofal Ychwanegol (De'r Ynys)	Symud o gam cynllunio i gam prosiect	Sicrhau llety o ansawdd uchel gyda chefnogaeth a helpu i foderneiddio›r ddarpariaeth	Mawrth 2028
Moderneiddio'r Uned Byw â Chymorth/Ysbaid	Dechrau gwaith ar gyfleuster Byw â Chymorth / Seibiant i foderneiddio'r ddarpariaeth fydd yn fodd i ni ddiwallu anghenion eang o ran anghenion.	Darparu seibiant mewn amgylchedd o ansawdd uchel fydd yn hyrwyddo gwaith datblygu sgiliau byw'n annibynnol.	Bydd gwaith ar adeilad Penlan yn dechrau yn 2025
Moderneiddio Gwasanaethau Dydd – Anableddau Dysgu –	Adolygu modelau darparu gwasanaethau gan weithio tuag at gynnig mwy cynhwysol yn y gymuned. Lle bo modd, y nod fydd integreiddio â gwasanaethau ac adnoddau cymunedol presennol. Mae angen i'r gwasanaeth ddatblygu'r cynllun peilot gan weithio'n agos gyda Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd, dinasyddion a'u teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth.	Bydd y Bwrdd Partneriaeth yn archwilio arfer gorau ac edrych ar lunio Strategaeth ar gyfer y dyfodol mewn cydweithrediad â Dinasyddion a'u teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth.	Parhaus
Llety	Strategaeth llety ar draws Gwasanaethau Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl i sefydlu modelau gofal effeithiol. Ychydig o opsiynau llety sydd ar gyfer unigolion ag anghenion iechyd meddwl cymhleth. Mae pob Gwasanaeth Byw â Chymorth Anabledd Dysgu wedi'i adolygu i sicrhau'r maint gofal cywir. Mae hyn wedi nodi›r angen i ddatblygu a sicrhau llety fydd yn fodd i bobl heneiddio'n dda yn eu cartrefi.	Sicrhau bod gofal a chymorth priodol ar gael i unigolion yn eu cymunedau lleol ac mewn cartrefi sy'n addas ar gyfer y dyfodol gan ddefnyddio technoleg i gefnogi gwella annibyniaeth. Bydd llety addas yn cefnogi unigolion sy'n dod trwy'r cyfnod pontio i wasanaethau oedolion ond bydd, hefyd, yn fodd i'r gwasanaeth edrych ar symud o leoliadau y tu allan i'r sir.	Pen Coed - Mehefin 2025 Maes y Ffridd - Gorffennaf 2025

Gwybodaeth arall

Archwiliadau ac adolygiadau

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru arolygiad o'r **Gwasanaethau Oedolion** ym mis Mehefin 2024 i edrych am unrhyw welliannau a nododd ostyngiad yn y rhestr aros ers arolygiad 2022. Ar ben hynny, adroddodd yr Arolygiaeth am dîm arweinyddiaeth cryf, oedd wedi cychwyn a gweithredu newidiadau cadarnhaol a chodi ymwybyddiaeth o feysydd yr oedd angen eu cryfhau. Roeddynt wedi gweithio'n galed i osod cyfeiriad clir ar gyfer newid, gyda chefnogaeth ymarferwyr cymwys ac ymroddedig. Mae sefydlogrwydd cynyddol yn y gweithlu wedi arwain at wasanaeth gwell a mwy amserol i bobl. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo'r opsiwn o daliadau uniongyrchol sy'n arfer cadarnhaol. Mae rhestrau aros ar gyfer asesiadau gwaith cymdeithasol wedi lleihau'n sylweddol, gyda chefnogaeth trefniadau monitro clir, er bod y gostyngiad ar gyfer therapi galwedigaethol yn parhau i fod yn uchel. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu hadolygu o fewn 12 mis. Nodwyd bod y gwasanaeth wedi parhau i elwa ar gefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol. Mae'n hanfodol bod hyn yn parhau i sicrhau y cynhelir cynnydd a bod y meysydd sy'n parhau i fod angen eu gwella yn cael eu cefnogi a chael digon o adnoddau. Bydd hyn, hefyd, yn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn gyson. I ddarllen mwy am ganfyddiadau ac argymhellion Arolygiaeth Gofal Cymru, cliciwch ar y ddolen - www.arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2024-10/241014-Ynys-Mon-Improvement-Check-cy.pdf

Archwiliwyd gwasanaethau cyfiawnder Gwynedd ac Ynys Mon ym mis Mawrth 2024. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r tîm i gefnogi gwaith datblygu cynllun gweithredu. Mae'r gwaith hwn yn parhau.

Yn ddiweddar, rydym wedi derbyn ymateb cadarnhaol i'n **Proses Sicrwydd Dyletswydd Prevent Blynyddol ar gyfer 2024/2025.** Mae gan awdurdodau lleol a'r **Bartneriaeth Prevent** rôl hanfodol i'w chwarae wrth wrthsefyll terfysgaeth ar lefel leol a sicrhau bod pobl sy'n agored i gael eu radicaleiddio yn cael cefnogaeth. Fel rhan o waith adnewyddu'r ddyletswydd Prevent, mae'r Swyddfa Gartref wedi diweddaru ei phroses sicrwydd i helpu i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswydd Prevent statudol yn unol â chanllawiau'r ddyletswydd Prevent.

Mae pecyn cymorth dyletswydd Prevent ar gyfer awdurdodau lleol yn amlinellu'r wyth meincnod y mesurir gwaith cyflawni Prevent yn eu herbyn ac mae'n cynnwys enghreifftiau awgrymedig o arfer da a gorau. Mae'r broses sicrwydd wedi'i chynllunio i awdurdodau lleol sicrhau eu hunain trwy hunanasesiad eu bod yn cyflawni eu dyletswydd statudol yn effeithiol. Roeddym yn falch o dderbyn llythyr cadarnhaol mewn ymateb i'n gwaith presennol a byddwn yn gweithio gyda'n Cynghorydd Prevent i wella ein hymrwymiad ymhellach.

> " Dylai Ynys Môn fod yn falch o'i thaith ysbrydoledig sy'n oed-gyfeillgar"

meddai **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Rhian Bowen-Davies**, fel rhan o'i hymweliad casglu ffeithiau wythnos o hyd â'r Ynys. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am yr ymweliad o dan yr adran Partneriaeth ac Integreiddio Gwasanaethau Oedolion.

Hyrwyddwyr Copilot - Comisiynwyd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, gyda chefnogaeth STABLE a Practice Solutions, gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i werthuso parodrwydd 22 awdurdod lleol Cymru i weithredu Microsoft Copilot (cynorthwy-ydd deallusrwydd artiffisial sgwrsiol) mewn gofal cymdeithasol i oedolion. Ar hyn o bryd, mae Ynys Môn yn edrych ar gyfleoedd yn y Gwasanaeth i dreialu eu peilot eu hunain.

Mae'r adroddiad terfynol bellach wedi'i gyhoeddi ar wefan Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a gellir ei weld yn y ddolen hon. https://www.adss.cymru/cy/page/assessing-the-readiness-of-adult-social-care-teams-to-implement-copilot

Mae pecyn cymorth hefyd wedi'i ddatblygu ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol allai fod eisiau defnyddio Copilot i'w cynorthwyo yn eu rôl. https://www.adss.cymru/image/page/Copilot%20Training%20Toolkit_W.pdf

Ar gyfer **Lleoliadau All-Sirol, mae 4C** yn ymgymryd â gwaith monitro ar ran Cyngor Sir Ynys Môn. Fodd bynnag, mae gofyniad i'r Tîm Contractau hysbysu 4C am unrhyw ddarparwyr y mae angen iddynt eu blaenoriaethu ar gyfer gwaith craffu ychwanegol. Mae hyn yn sicrhau y ceir dull wedi'i dargedu o reoli contractau, gan ganolbwyntio ar ddarparwyr risg uchel neu rai sy'n tanberfformio er mwyn diogelu defnyddwyr gwasanaeth a chynnal ansawdd gwasanaeth.

Ar ben hynny, **mae pob contract Gwasanaeth yn cael eu monitro'n** barhaus gan ein tîm Contractau a Chomisiynu i sicrhau cydymffurfiaeth, ansawdd a gwerth am arian. Mae lleoliadau Preswyl/Nyrsio a rhai plant yn cael eu monitro trwy gyfuniad o ymweliadau safle corfforol ac archwiliadau bwrdd gwaith o bolisïau a gweithdrefnau i asesu y cydymffurfir â safonau rheoleiddiol a chytundebol.

Mae gan bob contract ddangosyddion perfformiad allweddol penodol y mae'n rhaid i ddarparwyr adrodd yn eu herbyn, gan alluogi'r Cyngor i olrhain darpariaeth gwasanaeth, nodi meysydd i'w gwella, a chymryd camau adfer lle bo angen. Cynhelir adolygiadau perfformiad rheolaidd i asesu a gyflenwir rhwymedigaethau cytundebol ac ysgogi gwelliannau gwasanaeth.

Mae ein holl gontractau cyfredol wedi'u caffael yn unol â rheolau gweithdrefn contract hanesyddol gan gynnwys egwyddorion polisi caffael Cymru.

Gan symud ymlaen, bydd pob tendr yn y dyfodol yn cadw at y **Ddeddfwriaeth Gaffael newydd** a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2025. Bydd y newid deddfwriaethol hwn yn cyflwyno gofynion ac egwyddorion wedi'u diweddaru gyda'r nod o wella tryloywder, effeithlonrwydd a gwerth am arian mewn caffael yn y sector cyhoeddus. Bydd y Tîm Contractau a Chomisiynu yn sicrhau bod pob gweithgaredd caffael yn cyd-fynd â'r fframwaith newydd, gan ymgorffori unrhyw addasiadau gweithdrefnol angenrheidiol i barhau i gydymffurfio'n llawn â'r rhwymedigaethau statudol diweddaraf. Mae swyddogion perthnasol wedi cwblhau diwrnod llawn o hyfforddiant ar y Rheoliadau Caffael newydd, gan sicrhau bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol i weithredu'n effeithiol ofynion sydd wedi'u diweddaru. Roedd yr hyfforddiant hwn yn ymdrin â newidiadau deddfwriaethol allweddol, rhwymedigaethau cydymffurfio ac arferion gorau ar gyfer caffael a rheoli contractau.

Fel rhan o'r Fframwaith Perfformiad Corfforaethol, mae pob maes gwasanaeth yn y Cyngor yn cynhyrchu **Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth** blynyddol, sy'n nodi ein bwriadau ar gyfer y flwyddyn i ddod ac a gaiff eu monitro'n gorfforaethol, yn ogystal ag **Adroddiad Hunanasesu**, a gaiff eu craffu a'u herio gan yr uwch-dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau Dethol. Rhan o'n dadansoddiad mewnol o gynnydd a'r daith a y buom arni yw hyn. Gellir cael copïau o'r dogfennau hyn ar gais.

Cwynion a Sylwadau

Mae Rheolwr Gofal Cwsmeriaid, Cwynion a Gwybodaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am y swyddogaeth rheoli cwynion a gwybodaeth effeithiol yn y gwasanaeth yn unol â gofynion statudol a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol yr awdurdod lleol, a fo/hi yw'r "Swyddog Cwynion Dynodedig" i'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd.

Mae'r Swyddog Cwynion yn gyfrifol am nifer o feysydd allweddol:

- Cydlynu trefniadau'r gwasanaeth er mwyn cydymffurfio â'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion.
- Cofnodi cwynion a sylwadau cadarnhaol a negyddol gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.
- Monitro'r ymateb i gwynion o fewn yr amser a bennir yn y rheoliadau ar gyfer ymdrin â chwynion o dan Gam 1 y weithdrefn.
- Cydlynu ymchwiliadau gan ymchwilwyr annibynnol i gwynion ffurfiol o dan Gam 2 y weithdrefn.
- Cydlynu ymatebion gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i ymholiadau a wneir gan Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch cwynion am faterion Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Monitro Cynlluniau Gweithredu i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o gwynion er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau.

Tabl canmoliaethau a chwynion am y flwyddyn 01/04/2024 - 31/03/2025:

	Gwas. Oedolion	Gwas. Oedolion	Gwas. Plant a Theuluoedd	Gwas. Plant a Theuluoedd	Wedi eu cyfuno	Wedi eu cyfuno
	2023 / 2024	2024 / 2025	2023 / 2024	2024 / 2025	2023 / 2024	2024 / 2025
Pryderon	33	24	35	38	68	62
Cwyn Cam 1	3	6	13	14	16	20
Cwyn Cam 2	0	0	6	1	6	1
Canmoliaethau	160	146	223	164	383	310

Themâu Cwynion:
Caiff themâu cwynion eu cymedroli a'u hadolygu er mwyn dysgu a gwella ein gwasanaethau. Yna caiff y rhain eu rhannu â thimau Rheoli Gwasanaeth bob chwarter a chytunir ar fesurau cywirol, os oes angen.

- Cyfathrebu
- Oedi
- Prinder darpariaeth gofalwyr
- Trefniadau cyswllt
- Cywirdeb gwybodaeth,
- Diffyg cefnogaeth
- Cefnogaeth ariannol
- Gwybodaeth anghyson
- Diffyg dealltwriaeth



Tudalen 69

Dysgu:
Yn ogystal â nodi themâu allweddol, rydym hefyd yn ymdrechu i ddysgu a gwella trwy rannu gwybodaeth gyda staff. Dyma'r gwersi allweddol ar gyfer cwynion 2024/25:

- Cyfathrebu'n gymesur â defnyddwyr gwasanaeth / teulu
- Sicrhau bod copïau o asesiadau'n cael eu cynnig a'u rhannu'n amserol.
- Cofnodi camau gweithredu'n glir a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r teuluoedd ar ôl iddynt gael eu cwblhau.
- Cofnodi ethnigrwydd yn gywir o fewn cofnodion.

Camau Gweithredu:
- Cysylltu ag Adnoddau Dynol i nodi anghenion hyfforddi staff.
- Adolygu fformat presennol yr adroddiad ar Blant mewn Gofal.
- Trafod unrhyw bwyntiau dysgu gyda'r gweithwyr perthnasol yn ystod goruchwyliaeth, a chyda rheolwyr yn ystod cyfarfod rheoli.

Themâu Canmoliaethau:
- Barn gadarnhaol am staff,
- Gwerthfawrogiad o lefel y gefnogaeth, y cyngor a'r wybodaeth a roddir,
- Gwerthfawrogiad o'r ffordd y mae gweithwyr wedi gwrando ar ddefnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd a'u deall
- Gweithwyr proffesiynol yn cael eu plesio gan ansawdd y gwaith a'r gefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd.
- Gofal a charedigrwydd o ansawdd uchel a ddangosir mewn cartrefi preswyl a Gofal Môn, (Ailalluogi a Thylluanod y Nos).

Trowch at Hastudiaethau Achos Cwynion Rhif 12 a 13 i ddarllen am esiamplau Cwynion a Camoliaethau.


Rydym yn llunio Adroddiad Blynyddol bob blwyddyn – Sylwadau a Chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol. Gellir dod o hyd i ddolen i adroddiad y flwyddyn flaenorol isod (Nid yw adroddiad 2024/25 wedi ei gwblhau eto) - Adroddiad blynyddol: cwynion gwasanaethau cymdeithasol



Ffynonellau gwybodaeth eraill

Rydym wedi ymrwymo i ddisodli ein system gofnodi electronig bresennol, fydd yn cael ei datgomisiynu ddechrau 2026, drwy ymuno â **Phrosiect Cysylltu Gofal** Cymru Gyfan. Rhaglen ddigidol uchelgeisiol yw'r Prosiect, sydd â'r nod o integreiddio a thrawsnewid gwasanaethau gofal cymdeithasol ledled Cymru. Mae'r ymdrech gydweithredol hon yn cynnwys awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Cyflwynodd Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Achos Busnes am gyllid i Lywodraeth Cymru yn Chwarter 3 2024/25 ar ran Bwrdd yr Uwch Swyddogion Cyfrifol. Contractiodd Ynys Môn gyda'r cyflenwr newydd, Access, ym mis Rhagfyr 2024. Derbyniwyd grant gwerth £290K gan Lywodraeth Cymru ar 31/3/25 i dalu rhai o gostau blwyddyn 0 (2024/25). Fodd bynnag, nid oes unrhyw eglurhad wedi dod i law eto ynghylch cyllid o hyn ymlaen ar gyfer y prosiect. O'r herwydd, mae cynllunio i'r dyfodol, gan gynnwys recriwtio staff i gefnogi prosiect mor fawr yn anodd. Mae wedi'i nodi yn risg i'r gwasanaeth/adran/Cyngor.



Yn ystod 2022/23, bu i ni barhau i atgyfnerthu ein trefniadau rhagorol i weithio mewn partneriaeth gyda'n cydweithwyr yn y **Gwasanaethau Tai. Atal digartrefedd**, trwy sicrhau ei fod yn brin, yn fyr ac na chaiff ei ailadrodd, yw nodau ac amcanion allweddol **Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai** Cyngor Sir Ynys Môn **2022-2026** Housing-Support-Programme-Strategy-2022-to-2026.pdf) .

Yn brif ddarparwr cymorth tai dynodedig ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl, mae ein darpariaeth hefyd wedi cyfrannu at:

- Liniaru'r effaith ac atal digartrefedd
- Cefnogi pobl i fyw'n annibynnol.
- Darparu cymorth wedi'i deilwra a'i dargedu fel bod modd i bobl fregus fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain ar draws pob deiliadaeth.

Mae ein **"Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024 i 2028"** yn ychwanegu at ein cynlluniau blaenorol ac yn nodi ein huchelgais i greu cymdeithas decach i bobl Ynys Môn. Mae'r cynllun yn egluro: -

- sut mae'n cyfrannu at weledigaeth Cynllun ein Cyngor o greu Ynys Môn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu
- ein wyth amcan cydraddoldeb tymor hir ar gyfer creu Ynys Môn decach drwy hyrwyddo cydraddoldeb yn ein cymunedau, yn ogystal ag yn ein sefydliad
- ein trefniadau ar gyfer monitro cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb

Cyhoeddir y cynllun a gweithredir arno yn unol â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 - Cynllun Cydraddoldeb Strategol
Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol - Cydraddoldeb ac amrywiaeth



Cyhoeddodd Cyngor Sir Ynys Môn argyfwng hinsawdd yn 2020 gan ymrwymo i ddod yn gyngor carbon niwtral erbyn 2030. O ganlyniad, mae'r cyngor wedi cytuno ar **'Gynllun Tuag at Sero Net 2022 i 2025'** sy'n amlinellu ymrwymiad i'r argyfwng hinsawdd a sut y mae'n bwriadu trawsnewid i ddod yn sefydliad sero net.

https://www.ynysmon.llyw.cymru/documents/Dogfennau-Cy/Cyngor/Newid-hinsawdd/Cynllun-Tuag-at-Sero-Net-Mawrth-2022-i-Mawrth-2025.pdf?nocache=1

Mewn ymateb mae'r Cyngor yn paratoi Adroddiad Blynyddol ar gynnydd: https://www.Ynys Môn.gov.wales/documents/Docs-en/Council/Climate-change/Annual-report/Towards-Net-Zero-Plan-Annual-report-2023-to-2024.pdf?nocache=1

Mae'r cyngor hefyd wedi paratoi **Cynllun Gwefru Cerbydau Trydan Ynys Môn 2022-2030**, sy'n nodi cynlluniau uchelgeisiol y cyngor i arwain wrth fodloni gofynion gwefru gan drigolion ac ymwelwyr â'r ynys. Mae tîm Trafnidiaeth a Fflyd y cyngor wedi datblygu cynllun trosglwyddo fflyd i ddadgarboneiddio ei gerbydau fflyd ac mae'n anelu at ddisodli cyfran ohonynt â cherbydau trydan.

Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2021-26 Mae strategaeth pum mlynedd ein Cyngor yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a chynyddu ei defnydd yn y Cyngor ac yn ein cymunedau. Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd, yn ogystal â'r gymuned ehangach, i gyd yn flaenoriaethau strategol allweddol. Mae fframwaith **'Mwy na geiriau'** a mentrau megis Dechrau'n Deg, clybiau ieuenctid, Ynys Môn Oed-gyfeillgar a chymunedau dementia-gyfeillgar yn creu cyfleoedd gwerthfawr i rai o'n trigolion mwyaf bregus ddefnyddio'r Gymraeg a'i mwynhau.



Yn ystod 2024 - 2025, mae **80% o'n staff Gwasanaethau Oedolion yn siarad Cymraeg ar Lefel 3-5, ac mae 86% o'n staff Plant a Theuluoedd yn siarad Cymraeg ar Lefel 3-5**. Mae'r lefelau a osodir yn ystyried sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu. Mae'r lefelau'n amrywio o 0 sy'n dynodi dim sgiliau i 5 sy'n rhugl yn yr iaith. Cefnogir staff i ddysgu Cymraeg trwy nifer o ddulliau amrywiol, megis gwersi yn yr ystafell ddosbarth, dysgu anffurfiol ac ati.

Polisi a Safonau'r Iaith Gymraeg - Mae ein polisi iaith Gymraeg yn nodi sut y byddwn yn cydymffurfio â'r 160 o safonau'r iaith Gymraeg a osodir arnom. Edrycha ein **hadroddiad blynyddol ar y Gymraeg** ar ein cydymffurfiaeth ac mae'n cynnwys gwybodaeth am sgiliau iaith staff y gwasanaethau cymdeithasol, a phob gwasanaeth arall. Fel rhan o'u sesiwn sefydlu, mae aelodau newydd o staff yn cael cyflwyniad ar ein cyfrifoldebau o ran y Gymraeg – gan gynnwys y fframwaith 'Mwy na geiriau' ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae modiwl ar y fframwaith hefyd ar gael ar ein gwefan e-ddysgu.

Fforwm Iaith Ynys Môn - Mae'r fforwm yn cynnwys dros ddeg ar hugain o sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector sy'n cyfrannu at wasanaethau Cymraeg yn ein hardal. Fe'i sefydlwyd yn wreiddiol gan y Cyngor ac mae ein gwaith yn parhau i fod yn ganolbwynt allweddol i'w weithgareddau. Rhoddodd cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol gyflwyniad i aelodau'r fforwm ar yr angen am fwy o ofalwyr maeth sy'n siarad Cymraeg a chafodd groeso cynnes. Mae swyddogion Dechrau'n Deg a gwasanaethau ieuenctid hefyd yn aelodau o'r is-grŵp Cymraeg i blant a theuluoedd a helpodd i ddatblygu ap, OgiOgi, i annog mwy o rieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u babanod.



Atodiadau

Atodiad A – Geirfa

Byddai'n ddefnyddiol darparu rhestr termau i roi disgrifiad o wasanaethau, termau neu acronymau nad ydynt efallai'n gyfarwydd i bobl nad ydynt â phrofiad o ofal cymdeithasol. Dylai'r disgrifiadau hyn fod yn addas ar gyfer person lleyg, nad oes ganddo efallai unrhyw ddealltwriaeth flaenorol o ofal cymdeithasol

Arolygiaeth Gofal Cymru - Rheoleiddiwr y darparwyr gofal cymdeithasol. Byddant yn cofrestru, yn archwilio ac yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er lles pobl Cymru.

Gofal Cymdeithasol Cymru - Rheoleiddiwr y gweithlu. Fel rhan o hyn maent yn cofrestru ac yn gosod safonau ar gyfer y gweithlu gofal a chymorth ac yn datblygu'r gweithlu. Mae ganddynt, hefyd, gylch gwaith gwella, lle byddant yn rhannu arfer da, yn gosod blaenoriaethau ar gyfer ymchwil ac yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd a sefydliadau eraill.

Ailalluogi / Adsefydlu / Gofal Interim - Weithiau gelwir y gofal tymor byr hwn yn ofal canolradd, neu ôl-ofal. Mae ailalluogi yn fath o ofal sy'n helpu pobl i ailddysgu sut i wneud gweithgareddau dyddiol, megis coginio prydau bwyd a golchi. Fe'i darperir gan awdurdodau lleol gyda'r nod o liniaru'r angen am ofal a chymorth tymor hir.

Gofal Cartref Ychwanegol / Gwasanaeth Cymorth Cartref / Gofal Cartref - Mae gofal cartref, a elwir hefyd yn "ofal gartref", yn cyfeirio at ystod eang o wasanaethau gofal a roddir yng nghartref person ei hun. Gall olygu cymorth gyda byw o ddydd i ddydd a rhai materion gofal iechyd i'r henoed.

Cartref Gofal Preswyl / Cartref Nyrsio - Mae cartref gofal preswyl yn rhoi llety a gofal personol a chymorth 24 awr i'r henoed ac i eraill a allai ei chael hi'n anodd ymdopi â bywyd bob dydd gartref. Mae cartref gofal preswyl a chartref nyrsio yn rhoi gofal a chymorth 24 awr y dydd. Fodd bynnag, y prif wahaniaeth yw bod cartref nyrsio yn gallu rhoi gofal dwysach. Mewn cartrefi nyrsio ceir nyrsys cymwys ar y safle bedair awr ar hugain y dydd i roi gofal meddygol yn ôl yr angen, tra bod cartrefi preswyl yn helpu pobl gyda gofal personol ac yn eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol.

Plant â Phrofiad o Ofal -
Mae 'profiad o ofal' yn derm ymbarél a all olygu plant / pobl ifanc sydd:

- Yn derbyn gofal gartref trwy Orchymyn Gofal
- Yn derbyn gofal i ffwrdd o'r cartref mewn tŷ preswyl i blant, mewn lleoliad maeth neu mewn lleoliad perthynas (yn derbyn gofal neu ddim yn derbyn gofal)
- Wedi cael profiad gofal o'r blaen, lle maent wedi cael unrhyw un o'r profiadau uchod ar ryw adeg yn eu bywydau. Efallai nad yw'r plentyn / person ifanc erioed wedi cael gofal ffurfiol.

Person Ifanc sy'n Gadael Gofal - Yng Nghymru, unigolion sydd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol am o leiaf 13 wythnos ers 14 oed ac sydd wedi gadael gofal ar eu pen-blwydd yn 16 oed neu wedi hynny yw'r rhai sy'n gadael gofal. Y bwriad yw bod y gefnogaeth a roddir i bobl sy'n gadael gofal yn gyfwerth â'r hyn y mae'n rhesymol i blentyn nad yw wedi derbyn gofal ei ddisgwyl gan ei rieni.

Diogelu - Mae diogelu yn ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion rhag camdriniaeth neu esgeulustod ac addysgu'r rhai o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon.

Gweithdrefnau Diogelu Cymru - Maent yn manylu ar y rolau a'r cyfrifoldebau hanfodol ar gyfer ymarferwyr i sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Maent yn darparu geirfa ddefnyddiol o dermau diogelu: Safeguarding Wales

Mesur gweithgarwch a pherfformiad gwasanaethau cymdeithasol: fframwaith perfformiad a gwella 2024 i 2025 - Mae hwn yn nodi fframwaith o fetrigau sy'n ymwneud

ag oedolion, plant a gofalwyr. Maent yn fetrigau y mae'n rhaid eu casglu a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ynghyd â data person dienw a data crynodedig ar agweddau penodol ar ofal cymdeithasol. Mae'n nodi y dylai awdurdodau lleol, hefyd, gasglu eu data eu hunain i ddeall yn well sut mae darparu gofal cymdeithasol yn lleol yn gweithio yn unol â blaenoriaethau lleol.

System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) - Mae'n cyfeirio at ein System Cofnodi Electronig Gofal Cymdeithasol gyfredol (Caredirector), Prosiect Llywodraeth Cymru dan arweinyddiaeth gan DHCW/NWIS yn flaenorol.

Connecting Care - Mae Cysylltu Gofal yn rhaglen ddigidol uchelgeisiol sydd â'r nod o integreiddio a thrawsnewid gwasanaethau gofal cymdeithasol ledled Cymru. Mae'r ymdrech gydweithredol hon yn cynnwys awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)- Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn Awdurdod Iechyd Arbennig newydd, sy'n creu'r atebion digidol y mae eu hangen i wella iechyd a gofal yng Nghymru. Adwaenid Iechyd a Gofal Digidol Cymru ynghynt fel Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS).

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hyrwyddo democratiaeth leol yng Nghymru. Ei phrif ddibenion yw hyrwyddo llywodraeth leol well, ei henw da a chefnogi awdurdodau i ddatblygu polisïau a blaenoriaethau fydd yn gwella gwasanaethau cyhoeddus a democratiaeth.

Catrefi Clyd - Ein Cartrefi Grŵp Bach – eu nod yw cadw ein plant a'n pobl ifanc yn eu cymuned leol.

Ynys sy'n Wybodus o Drawma - Mae Ynys Môn, fel ynys sy'n wybodus o drawma, yn ceisio hyrwyddo cysylltiadau a pherthnasoedd i gefnogi'r rhai sy'n cael trafferth gyda gofid neu drawma yn eu bywydau. Mae'n ddull system gyfan gydag iaith gyffredin. Mae offer a strategaethau ar gael i edrych y tu hwnt i ymddygiad, a helpu i gefnogi anghenion sylfaenol plant a'r gymuned yn effeithiol gydag empathi a thrugaredd. Mae'n deall y gallai unrhyw un fod wedi profi gofid a thrawma.

Uned Ddarparu - Yn gyfrifol am Ailalluogi, Gofal Cartref, cartrefi Gofal y Cyngor a Chatrerfi Clyd (rhan o Wasanaethau Oedolion).

Cynnig Rhagweithiol - Cynnig Eiriolwr i bob Plentyn sydd mewn Angen neu ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Atodiad B – Astudiaethau Achos

Rhif	Astudiaeth Achos
1	Rhaglen Ymgrymuso Ieuenctid
2	Maethlu Cymru
3	Ceiswyr lloches ar eu pennau eu hunain a gyfeiriwyd trwy'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol
4	Gwasanaethau Arbenigol Plant
5	Tîm o Amgylch y Teulu
6	Tîm Ymgysylltu 16+
7	Gweithiwr Ieuenctid
8	Tîm Diogelu a Thîm Sicrhau Ansawdd - Rhestr Aros Amddifadu o Ryddid
9	Tîm Adnoddau Cymunedol
10	Llesiant Meddwl Môn – Stori dinesydd
11	Tîm Anabledd Dysgu
12	Cwynion
13	Canmoliaethau



Gwasanaethau Oedolion

Cyflwynodd y gwasanaeth ei 'Gynllun Strategol, Moderneiddio Gwasanaethau i Oedolion 2024-29', a chafodd hwn ei gymeradwyo gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor gyda'r meysydd blaenoriaeth allweddol fel a ganlyn:

1. **Cydweithio i fod yn ynys oed-gyfeillgar – drwy weithgareddau ataliol.**
2. **Trawsnewid gwasanaethau dydd – parhau â chamau cadarnhaol i gynnal gweithgareddau dydd mewn lleoliadau cymunedol.**
3. **Tai â Chymorth (anableddau dysgu) – i wneud y mwyaf o 'Tai â Chymorth' a'i foderneiddio er mwyn sicrhau effeithiolrwydd.**
4. **Gwasanaeth seibiant (anableddau dysgu) – nodi a datblygu darpariaeth newydd addas.**
5. **Tai gofal ychwanegol – datblygu tai gofal ychwanegol i gynyddu cyfleoedd i bobl fyw'n annibynnol yn y gymuned am gyfnod hwy.**
6. **Cartrefi preswyl y cyngor – dargyfeirio adnoddau ariannol i ddarpariaethau fforddiadwy a chost-effeithiol sy'n diwallu anghenion.**
7. **Datblygu gwasanaethau sy'n ariannol gynaliadwy.**



Ynys Môn Oed-Gyfeillgar
Age Friendly Anglesey



Astudiaeth Achos 2

Maethu Cymru

Isod mae rhai enghreifftiau o'n llwyddiannau yn ein Gwasanaethau Maethu. Gweler y dolenni isod:
Ian: mae maethu yn rhoi pwrpas i mi ar ôl i mi golli fy ngwraig - maethu cymru
Dee a Rob: rydym yn credu mewn cadw teuluoedd gyda'i gilydd - maethu cymru

Astudiaeth Achos 3

Ceiswyr lloches ar eu pennau eu hunain a gyfeiriwyd trwy'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol).

Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth yn cefnogi un ar bymtheg o geiswyr lloches sydd ar eu pennau eu hunain ac a gyfeiriwyd drwy'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol. Mae'r gwasanaethau a ddarperir i UASC i'w cael yn Nhîm 14+ y Gwasanaeth ac fe'u dyrennir i un gweithiwr cymdeithasol o fewn y tîm, sy'n arbenigo mewn cefnogi UASC. Mae'r Gwasanaeth, hefyd, wedi datblygu strategaeth o nodi lleoliadau sydd ar gael, gyda'r bwriad o wirfoddoli i gymryd pobl ifanc sy'n cyd-fynd â'r meini prawf cyfatebol ar gyfer y lleoliad. Gyda'r strategaeth hon, mae modd i'r gwasanaeth osod pobl ifanc yn gyflym mewn amgylchedd sy'n debygol o ddiwallu eu hanghenion. Mae'r gwasanaeth wedi datblygu partneriaeth anffurfiol effeithiol gyda darparwr penodol sy'n gallu sicrhau lleoliadau pwrpasol.

Yn ogystal â diwallu anghenion pobl ifanc unigol, mae'r strategaeth hon hefyd yn gost-effeithiol i'r Awdurdod Lleol. Drwy leoli mewn dau ddiwrnod, mae modd i'r Awdurdod Lleol hawlio £15,000 drwy'r Swyddfa Gartref, yn ogystal â swm i dalu costau'r lleoliad yn wythnosol.

Mae Plentyn A yn geisiwr lloches ar ei ben ei hun. Drwy weithredu'r strategaeth uchod, lleolwyd Plentyn A mewn dau ddiwrnod i'w adnabod drwy'r NTS. Mae Plentyn A wedi ymgartrefu'n dda iawn mewn amgylchedd sy'n adlewyrchu ei dreftadaeth ddiwylliannol. Mae wedi ymgysylltu â lle mewn coleg ac mae ganddo ddyheadau clir ar gyfer y dyfodol. Mae, hefyd, wedi bod yn llwyddiannus wrth hawlio lloches, sydd wedi rhoi sicrwydd a sylfaen gadarn iddo ac mae ganddo bellach y cyfle i ffynnu o fewn y DU. Gwnaeth swyddog adolygu annibynnol y sylw ganlyn ynghylch gwaith y gweithiwr cymdeithasol:

> " Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ganmol [gweithiwr cymdeithasol] am y gwaith trawiadol y mae'n ei wneud gyda holl geiswyr lloches yr Awdurdod Lleol sydd ar eu pennau eu hunain. Mae ei dosturi yn disgleirio ym mhob trafodaeth / adolygiad ac mae'r empathi a'r gofal y mae'n eu dangos o ran eu hanesion unigol a'u heriau cyfredol nid yn unig yn ysbrydoledig ond yn grymuso pob un ohonynt i lywio sefyllfaoedd cymhleth fydd yn helpu i wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn eu bywydau. Mae gwaith [y gweithwyr cymdeithasol] yn enghraifft dda o 'dosturi ar waith' ac, yn fy marn i, dylid nodi hyn."

Astudiaeth Achos 4

Gwasanaethau Arbenigol Plant

Cefndir: Mae Plentyn A wedi cael diagnosis o Anabledd Dysgu ac ADHD. Oherwydd profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a phryderon ynghylch gallu'r rhieni i gynnal cartref diogel a chyson, cafodd C ei letya gan yr Awdurdod Lleol. Roedd Plentyn A yn cael trafferth mewn lleoliadau preswyl ac yn aml byddai'n ymddwyn mewn ffordd beryglus iawn tuag at ei hun ac eraill. Yn sgil hyn, chwalodd lleoliadau a bu'n rhaid ei symud sawl gwaith. Roedd Plentyn A wedi dweud y byddai'n dymuno symud yn nes at adref ac y byddai 'n tanseilo unrhyw leoliad trwy ymddwyn yn waeth.

Problemau / Rhwystrau oedd i'w gweld:

- Mynediad cyson at addysg ac ymgysylltiad cyson â hi.
- Dim sgiliau byw'n annibynnol a dim cyfleoedd i ddatblygu.
- Lefel uchel o ymddygiad ymosodol geiriol a chorfforol wedi'i gyfeirio at eraill
- Dilyn ffiniau sy'n briodol i'w hoedran heb i bethau waethygu, a herio
- Cynnal perthynas deuluol heb gynyddu'r risgiau i'r hunan
- Lleoliadau'n chwalu a newid yn y ddarpariaeth yn peri anghysondeb

Cymorth a roddwyd/Gwaith a Wnaed

- Cwblhawyd asesiad amlasiantaeth gyda Phlentyn A i ddeall y sbardunau ar gyfer yr ymddygiad a chytuno ar gynllun cymorth cyson ar sut i ymateb. Cynhaliwyd cyfarfodydd wythnosol, oedd yn cynnwys y teulu, i adolygu a newid y cymorth yn barhaus er mwyn diwallu'r anghenion a ymgyflwynwyd.

Treuliodd y Gweithiwr Cymdeithasol a'r Nyrs a neilltuwyd amser yn datblygu perthynas waith gadarnhaol gyda Phlentyn A, gan gynnal ffiniau proffesiynol clir, i sicrhau bod llais Plentyn A yn cael ei glywed a'i fod yn rhan o'r cynllunio gofal.

Comisiynwyd lleoliad yn lleol i gefnogi Plentyn A i ddychwelyd yn nes at adref. Mae'r arbrawf hwn wedi dangos bod y model gofal cymorth cymunedol yn nes at y teulu wedi bod o gymorth i Blentyn A ddatblygu sgiliau hunanreoleiddio, teimladau o gael ei werthfawrogi, teimladau o hunaniaeth yn nes at adref ac yn ei gymuned.

Parhaodd addysg i fod yn anodd. Gan weithio'n agos gyda chydweithwyr addysg a'r Darparwr, datblygwyd pecyn pwrpasol gyda Phlentyn A. Crëwyd hyn yn araf dros sawl wythnos.

Canlyniadau / Gwahaniaeth a wnaed i Blentyn A: Roedd Plentyn A yn gallu symud yn ôl i'r gymuned leol yr oedd yn uniaethu â hi a chael perthynas ag aelodau'r teulu. Drwy ddatblygu perthynas gadarnhaol gyda'r Tîm Amlddisgyblaethol a'r Darparwr, mae C wedi gallu datblygu sgiliau hunanreoleiddio sydd wedi lleihau'r ymosodiadau corfforol, gan leihau'r risg iddo'i hun ac i eraill.

Mae Plentyn A wedi tyfu mewn hyder ac wedi nodi ei fod yn falch o gael addysg ac o fod yn cyflawni. Mae Plentyn A yn edrych ymlaen at ddatblygu hyn ymhellach.

Mae Plentyn A yn teimlo'n fwy mewn rheolaeth ond mae angen cydbwyso hyn â ffiniau sy'n briodol i'w oedran a gallu Plentyn A i dderbyn ffiniau. Mae angen ymyrraeth ddwys a medrus o hyd.

Learning:

1. Pwysigrwydd meithrin cydberthynas a datblygu perthnasoedd gwaith proffesiynol
2. Pwysigrwydd gwaith amlddisgyblaethol a manteisio ar arbenigedd
3. Pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol rhwng y dinesydd, y tîm amlddisgyblaethol a'r teulu
4. Hyrwyddo llais yr unigolyn

Astudiaeth Achos 5

Tîm o Amgylch y Teulu

Cefndir: Cyfeiriad gan ysgol gynradd y person ifanc yn pryderu ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyfnodau o fod ar goll o'r cartref, ymddygiad hiliol ac ymosodol ar-lein ac mewn perygl o gael ei wahardd yn barhaol o'r ysgol. Cynhaliwyd Asesiad o'r Hyn sy'n Bwysig gan weithiwr cymorth Tîm o Amgylch y Teulu a chytunwyd y byddai'r Tîm yma'n gallu cefnogi'r teulu gyda'r anghenion a nodwyd. Nid oedd y person ifanc hwn yn mynd i'r ysgol pan ddechreuodd gweithiwr cymorth y Tîm weithio gyda'r teulu. Roedd y person ifanc wedi rhoi'r gorau i chwarae pêl-droed i glwb lleol ac wedi rhoi'r gorau i fynd i'r gampfa focsio.

Yr hyn oedd yn bwysig i'r unigolyn:
Pêl-droed, ei ffôn a mynd allan gyda ffrindiau

Y risgiau dan sylw oedd:
- Perthynas yn chwalu rhwng y Fam a'r person ifanc
- Byddai'r person ifanc yn cyflawni trosedd
- Gwahardd person ifanc o'r ysgol yn barhaol

Y Gwaith a wnaed
- Bod yn oedolyn sydd ar gael yn emosiynol i berson ifanc a'i fam
- Rhoi cyngor i fam ar sut i ddod yn oedolyn sydd ar gael yn emosiynol i'r person ifanc
- Cyngor rhianta i'r fam
- Cysylltu â'r ysgol, yr Heddlu a Digartref
- Mynd i gyfarfodydd gyda rhieni ac ysgolion
- Cefnogi'r person ifanc i symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, Cysylltu â'r ysgol uwchradd i sicrhau bod y person ifanc wedi setlo i lawr yn dda yn yr ysgol newydd
- Cwblhau rhaglen rheoli dicter 12 wythnos gyda'r person ifanc
- Cwblhau gwaith ar empathi
- Cwblhau gwaith ar feddwl canlyniadol
- Annog person ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol
- Cyfeiriadau at asiantaethau eraill am gefnogaeth ychwanegol

Canlyniad i'r plentyn/teulu/gofalwyr hyd yma: Rhoddodd y Tîm o Amgylch y Teulu'r gorau i'w gwaith gyfa'r person ifanc ym mis Medi 2024. Bryd hynny, roedd y person ifanc yn mynd i'r ysgol yn llawn amser ac nid oedd mewn perygl o gael ei wahardd. Roedd sesiynau ELSA yn parhau yn yr ysgol ac yn parhau â'r gwaith a ddechreuwyd gan y Tîm o Amgylch y Teulu i weithio trwy emosiynau cymhleth.

Mae'r person ifanc wedi datgysylltu ei hun â'r grŵp sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol ac mae ganddo, bellach, ffrindiau newydd y mae'n mynd i chwarae pêl-droed efo nhw.

Llwyddwyd I wneud hyn wrth i'r fam osod ffiniau a chadw at y ffiniau hynny gyda chefnogaeth y Tîm o Amgylch y Teulu. Mae'r berthynas yn y cartref wedi dod yn fwy cadarnhaol ac mae'r teulu'n treulio mwy o amser gyda'i gilydd yn sgil hyn.

Edrych yn ôl - Taith y plentyn: Aeth y person ifanc hwn o fod yn cael ei wahardd bron yn barhaol i fynd i'r ysgol yn llawn amser bob dydd a pheidio â bod yn agos at waharddiad parhaol.

Aeth y person ifanc hwn o fod yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol yn rheolaidd i gael grŵp hollol newydd o ffrindiau ac nid yw wedi ymddwyn yn wrthgymdeithasol ers dros flwyddyn.

Aeth y person ifanc hwn a'i deulu o fod yn dadlau, gweiddi a pheidio â threulio unrhyw amser gyda'i gilydd i allu cyfathrebu mewn modd tawel a threulio amser o safon gyda'i gilydd.

Cyflawnwyd canlyniadau'r person ifanc oherwydd gwaith amlddisgyblaethol a dulliau gweithiwr y Tîm o Amgylch y Teulu oedd yn wybodus o drawma. Yn sgil penderfyniadau a wnaed gan Reolwr y Tîm o Amgylch y Teulu, bu modd i'r gweithiwr ddyfalbarhau a rhoi cefnogaeth tymor hir a dalodd ar ei ganfed i'r teulu.

Pe bai hwn wedi bod yn ymyrraeth tymor byr, ni fyddai canlyniadau'r person ifanc wedi'u cyflawni. Roedd angen amser ar y person ifanc i feithrin perthynas ymddiriedus â'r oedolion oedd yn ei gefnogi.

Astudiaeth Achos 6

Tîm Ymgysylltu 16+

Roedd person ifanc A wedi gorffen y chweched dosbarth gyda graddau da. Er gwaethaf ei chyflawniadau academaidd, roedd yn ansicr ynghylch ei dyfodol ac nid oedd wedi mynd ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth na hyfforddiant. Nodwyd gweithiwr allweddol iddi yn y tîm 16+.

Roedd hi'n byw mewn lleoliad maeth, yn wynebu pwysau cynyddol gan ei gofalwyr i weithredu a pheidio â threulio ei dyddiau gartref heb arweiniad. Gan gydnabod ei photensial a'r heriau a wynebodd, rhoddodd y tîm 16+ gefnogaeth un i un i'w helpu i edrych ar ei hopsiynau. Trwy anogaeth barhaus a dull wedi'i deilwra, cafodd ei pherswadio i fynd i'r Hwb Llesiant. Rhoddodd y ganolfan le diogel a chroesawgar iddi fagu hyder a chymdeithasu â chyfoedion. Wrth iddi ddod yn fwy cyfforddus, dechreuodd ymgymryd â rôl fentora anffurfiol yn y ganolfan, gan gynnig cefnogaeth ac arweiniad i bobl ifanc eraill oedd yn profi ansicrwydd tebyg.

Bu'r profiad hwn o gymorth iddi sylweddoli ei chryfderau mewn arweinyddiaeth a gweithio gydag unigolion iau. Gyda chefnogaeth barhaus y tîm 16+, gwnaeth gais am swyddi oedd yn cyd-fynd â'i diddordebau. Edrychodd ar gyfleoedd mewn ysgolion, yn enwedig wrth gefnogi plant oedran cynradd.

Ar ôl mynd am gyfweliad, cynigiwyd swydd wrth gefn iddi mewn ysgol. Mae hi wedi bod yn gweithio'n rheolaidd yn y rôl hon, gan ennill profiad gwerthfawr a magu hyder. Mae'r person ifanc yn parhau i fod mewn cysylltiad â'r Hybiau Llesiant ac yn aml yn galw heibio a dweud helo. Mae ei thaith o ansicrwydd i ddechrau gweithio a chymryd rhan mewn chwaraeon yn enghraifft ysbrydoledig o effaith gadarnhaol cefnogaeth dargedig a dyfalbarhad.



Astudiaeth Achos 7

Gweithiwr Ieuenctid

Mae person ifanc B, sy'n 15 oed, wedi cael trafferth mynd i'r ysgol am dair blynedd, ac erbyn y diwedd mae wedi cofrestru fel addysg ddewisol gartref ond ym mlwyddyn 11 ac yn cael ei gydnabod fel LGBTQ+ anneuaidd. Derbyniwyd atgyfeiriad gan y ganolfan ymyrraeth gynnar a nodwyd Gweithiwr Ieuenctid fel y gweithiwr allweddol. O ganlyniad i waith un i un, llwyddodd y gweithiwr i gael y person ifanc allan o'r tŷ a mynd I'n canolfan ieuenctid yn Jesse Hughes.

Dros gyfnod o amser a rhaglen waith anffurfiol, fe wnaethom ddechrau datblygu sgiliau coginio a sgiliau cyfathrebu yn wythnosol, trafodaethau am arholiadau TGAU a pharatoi, ac ailafael mewn opsiynau addysg a hyfforddiant.

O ganlyniad i hyn, mae'r person ifanc, trwy gefnogaeth y Gweithiwr Ieuenctid wedi mynd am apwyntiadau CAMHS ac mae, Bellach, yn ystyried sefyll arholiadau TGAU a mynychu Jessie Hughes bob wythnos.



Astudiaeth Achos 8

Tîm Diogelu a Thîm Sicrhau Ansawdd - Rhestr Aros Amddifadu o Ryddid

Yn nhîm Amddifadu o Ryddid Ynys Môn mae tri Asesydd Lles Gorau llawn amser a thri Asesydd Lles Gorau annibynnol sy'n ein cefnogi pan fo angen.

Yn ystod Chwarter 3, maent wedi llwyddo i ostwng y rhestr aros bresennol o 52 i 14, gan sicrhau hefyd bod pob un o'r 56 adnewyddiad wedi'u cwblhau ar amser. Eu nod yw peidio â chael rhestr aros ar gyfer asesiadau Amddifadu o Ryddid, ond mae hyn yn dibynnu ar y cyllid ychwanegol blynyddol a ddaw gan Lywodraeth Cymru yr ydym yn dibynnu arno i'n cefnogi yn y maes gwaith hwn.

Rhwng Hydref 2024 a diwedd mis Rhagfyr, derbyniwyd 29 o Ffurflenni 1 (cais am awdurdodiad ac awdurdodiad brys) gan Awdurdodau Rheoli. Roedd rhai o'r rhain yn geisiadau brys ac, fel tîm, rydym bellach yn ymdrechu i ymateb i bob cais o fewn 28 diwrnod.

Er gwaethaf y datblygiad cadarnhaol hwn, mae pwysau a heriau'n parhau yn y maes gwaith hwn. Mae'r pwysau'n ymwneud â sicrhau bod achosion unigolion yn cael eu hadnewyddu neu eu hadolygu pan fo angen.

O ran gwaith Amddifadu Rhyddid y Llys Gwarchod, fel Awdurdod mae gennym 12 sydd wedi derbyn gorchymyn y Llys Gwarchod ar hyn o bryd; 26 yn y llys neu'n cael eu hasesu ar hyn o bryd a 10 ar y rhestr aros. Unwaith eto, ein nod fel tîm yw, dros yr ychydig fisoedd nesaf, asesu pob un o'r 10 unigolyn sy'n aros ar hyn o bryd. Mae pob un o'r 10 unigolyn ar y rhestr aros wedi'u neilltuo'n ddiweddar i Feddyg Adran 12, felly mae'r broses asesu wedi dechrau. Mae chwe rheolwr gwasanaeth sy'n lofnodwyr awdurdodedig yn ymateb i bob cais awdurdodi mewn modd amserol. Fel tîm, maent wrthi'n adolygu'r holl ganllawiau a dogfennau mewnol mewn perthynas â gwaith Amddifadu o Ryddid.

Ar hyn o bryd ein Practis a'n hamseroedd aros ni yw'r gorau yng Ngogledd Cymru

Astudiaeth Achos 9

Astudiaeth Achos Timau Adnoddau Cymdeithasol

Dyn 91 oed wedi'i dderbyn i'r ysbyty. Cyn ei dderbyn, ei wraig oedd yr unig ofalwr, gyda chefnogaeth y teulu. Ers ei dderbyn, roedd ei symudedd wedi gwaethygu, roedd angen offer codi a dau ofalwr, ac roedd y gŵr wedi mynd i wlychu a maeddu ei hun - rhywbeth nad oedd yn broblem cyn ei dderbyn. Diagnosis o Glefyd Alzheimer ac er ei fod wedi'i asesu fel nad oedd ganddo'r gallu i wneud penderfyniadau ynghylch ei anghenion gofal, roedd yr unigolyn a gafodd fynd adref wedi'i gynnwys drwy gydol y broses. Rhoddwyd ystyriaeth i'w ddymuniadau a'i deimladau. Y canlyniad dymunol oedd y câi fynd adref at ei deulu.

Ystyriwyd dymuniadau'r teulu (sydd ag Atwrneiaeth Arhosol) hefyd. Roedd y wraig, o oedran tebyg i'r unigolyn, yn gwybod na allai ofalu amdano fel yr oedd wedi'i wneud o'r blaen, ac roedd y teulu'n pryderu y byddai'n rhaid iddo fynd i gartref nyrsio neu ddisgwyl, ac roeddent yn teimlo bod aros yn yr ysbyty yn cael effaith sylweddol ar les yr unigolyn a'i wraig.

Yn dilyn cyfarfod budd gorau, cytunodd y Tîm Amlddisgyblaethol mai'r opsiwn lleiaf cyfyngol oedd i'r unigolyn ddychwelyd adref, a'i fod, hefyd, er budd gorau'r unigolyn i gael mynd adref gyda phecyn gofal a chael pedwar gofalwr yn galw pob tro.

Gweithiodd y Tîm Amlddisgyblaethol a'r darparwyr gofal yn dda gyda'i gilydd fel tîm, i hwyluso'r gwaith fyddai'n sicrhau y câi fynd adref. Trefnwyd pecyn gofal, rhoddwyd offer a chymhorthion yn eu lle o ddyddiad y cyfarfod budd gorau ar 01/03/24. Dychwelodd yr unigolyn adref at ei deulu ar 06/03/24.

Cynhaliwyd adolygiad bedair wythnos yn ddiweddarach ar 08/04/2024. Roedd yr unigolyn yn hapus i fod adref, fel yr oedd ei deulu. Roedd yr unigolyn a'r teulu yn ddiolchgar iawn am ymyrraeth a chefnogaeth pawb wrth gyrraedd adref a chyflwynodd flodau a cherdyn diolch i'r Gweithiwr cymdeithasol (gweler isod)



Astudiaeth Achos 10

Llesiant Meddwl Mon – Stori dinesydd

Cefndir: Mae **B** wedi cael triniaeth am nifer o gyflyrau iechyd meddwl cymhleth gan gynnwys anhwylder personoliaeth a diagnosis o ASD yn ddiweddarach yn ei oes. Byddai B yn ei chael hi'n anodd cyfleu ei anghenion ac yn ymateb ag un gair yn aml. Mae B yn byw gyda'r rhieni. Roedd y rhieni'n ei chael hi'n anodd annog annibyniaeth B oherwydd y risgiau canfyddedig. Sawl cyfnod hir yn yr ysbyty o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl gyda thri achos o gadw mewn llai na dwy flynedd.

Derbyniodd B becyn gofal dwys yn y gymuned rhwng cyfnodau yn yr Ysbyty, yn cynnwys gwaith cymorth, cydlynu gofal, therapi galwedigaethol, therapi seicosis ymyrraeth gynnar a therapi ymddygiad dialectig. Roedd B yn gweld cael triniaeth gartref yn anodd oherwydd anawsterau cyfathrebu oedd yn gwaethygu gyda staff anghyson.

Problemau / Rhwystrau oedd i'w gweld:

- Cael ei dderbyn i ysbyty dro ar ôl tro, weithiau wythnosau ar wahân.
- Yn cydymffurfio â meddyginiaeth ond llawer wedi'u treialu a fawr ddim gwelliant i'w weld
- Dim therapi pellach nac adnoddau Y Tîm Iechyd Meddwl yn y Gymuned ar gael i'w cynnig yn y gymuned.
- Rhwystrau cyfathrebu a sicrhau bod llais B yn ganolog i gynllunio gofal.
- Dim sgiliau bywyd, galwedigaeth ac annibyniaeth.
- Perygl mawr o hunan-niweidio ac ymddygiad parahunanladdiadol dro ar ôl tro.
- Nid oedd y gofal dwys a gafwyd yn y gymuned yn effeithiol a dim tystiolaeth o welliant.
- Rhieni'n profi straen gofalwyr ac yn ansicr a allent barhau i roi lefel uchel o ofal.

Gwaith a wnaed: Roedd gweithio'n amlasiantaethol yn hanfodol. Er mwyn cynorthwyo B gyda'i gyfathrebu a sicrhau y câi ei ddymuniadau eu hystyried, fe geisiom gyngor gan y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r Tîm Anabledd Dysgu. Fe wnaethom, hefyd, gwblhau gwaith ymchwil ar gyfathrebu ac Awtistiaeth a datblygu awgrymiadau gweledol, siartiau lliw a defnyddio technoleg a brofodd yn effeithiol. Roedd B yn gallu cyfleu ei fod yn teimlo nad oedd ganddo bwrpas a'i fod yn cael trafferth gyda hunaniaeth.

Ar ôl adolygu'r dulliau cymunedol blaenorol, teimlwyd bod angen camu i lawr mewn dull graddol o'r ysbyty. Fe wnaethom chwilio am leoliad Arbenigol a fyddai'n darparu ar gyfer anghenion ASD (anhwylderau yn y sbectrwm awristig), ac Iechyd Meddwl wrth ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau byw annibynnol, hyder ac ailalluogi. Sicrhawyd un a threuliodd B wyth mis yn canolbwyntio ar sgiliau bywyd, meithrin annibyniaeth a chyfrifoldeb, gwella cyfathrebu a gwybodaeth yn ymwneud ag ASD a chymryd rhan mewn galwedigaeth ystyrlon.

I gefnogi B wrth iddo ddod yn ôl i'r gymuned, buom yn gwneud gwaith teuluol a chynnal trafodaethau ynghylch ffiniau a dulliau iach. Ar ôl cael ei ryddhau, mae B wedi bod yn byw yn y gymuned yn llwyddiannus. Mae angen cefnogaeth o hyd ond gyda chymryd risgiau cadarnhaol a chefnogi B i gymryd cyfrifoldeb a datblygu sgiliau, mae hyn wedi'i gynnal.

Gwahaniaeth a wnaed i B: Roedd llais B yn ganolog i'r broses a chanolbwyntiodd gwaith cynllunio gofal ar yr hyn oedd yn bwysig - datblygu annibyniaeth a gweithio ar hunaniaeth o amgylch diagnosis ASD. Mae B yn dweud ei fod yn llawer mwy hyderus ac yn llawer gwell wrth gyfleu anghenion nawr ac yn y dyfodol. Mae'r datblygiad yn y cyfathrebu wedi bod yn fodd iddo gymryd rhan mwy effeithiol mewn Seicoleg a chymryd Thriniaeth Gartref pan fo angen a, thrwy hyn, wedi bod yn fodd i B aros yn y gymuned. Mae hyn wedi sicrhau y câi unrhyw argyfwng ei reoli'n well a'i fod yn digwydd yn llai aml. Mae'r holl feddyginiaeth wedi dod i ben.

Yn sgil yr ymdeimlad o reolaeth dros ei fywyd, nid yw'n ymddwyn yn hunan-niweidiol cymaint gan y gall leisio ei anghenion. Dywedodd B mai'r ffactor a gyfrannodd at orfod mynd i'r ysbyty dro ar ôl tro oedd er bod yn teimlo bod pobl yn dweud wrtho beth i'w wneud ac nad oedd ganddo lais. Mae B bellach mewn addysg llawn amser, yn dysgu gyrru ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol.

Mae'r berthnas deuluol yn fwy cadarnhaol. Wrth fod ar wahân yn ystod gwaith, cafwyd pellter corfforol i brosesu teimladau a defnyddioo'r sgiliau mewn amgylchedd rheoledig heb gael ei lethu gormod.

Dysgu:

1. Llais yr unigolyn yn ganolog
2. Nodi a lleihau rhwystrau cyfathrebu
3. Cynllunio gofal wedi'i gyd-gynhyrchu
4. Pwysigrwydd gweithio'n amlasiantaethol a thynnu ar arbenigedd pobl eraill
5. Effaith cyflyrau niwroamrywiol ar iechyd meddwl
6. Yr angen am ddull system gyfan holistig
7. Pwysigrwydd cymryd risgiau cadarnhaol

Astudiaeth Achos 11

Tîm Anabledd Dysgu

Cefndir: Mae A wedi cael diagnosis o anabledd dysgu ysgafn, ASD, anhwylder pryder gyda phenodau o hunan-niweidio bwriadol. Byddai hyn yn arwain at A yn ymddwyn yn hynod heriol tuag at ei hun ac eraill. Nid oedd byw gartref gyda'r teulu bellach yn bosibl ac roedd A wedi cael lle gan yr Awdurdod Lleol. Symudodd A i'r tîm anabledd dysgu o Wasanaethau Plant.

Cafodd A dri lleoliad aflwyddiannus yn ystod ei blentyndod ac ymddangosai fel rhywun anhapus ac anreoleiddiedig. Roedd pob lleoliad i ffwrdd o Ynys Môn gan arwain at ymddygiad oedd yn gwaethygu gan fod A eisiau bod yn nes at adref. Aseswyd bod gan A y gallu i wneud penderfyniadau ynghylch ble i fyw a'r gefnogaeth yr oedd yn ei dderbyn.

Bu ymyriadau sylweddol gan y Tîm Amlasiantaethol, dan arweiniad y gweithiwr cymdeithasol anabledd dysgu yn cynnal trafodaethau gydag A ac yn edrych yn gadarnhaol ar gynllunio ar gyfer y dyfodol ac yn asesu pa fodel gofal y mae arno A ei eisiau wrth drosglwyddo i wasanaethau oedolion. Mynegodd A mai yr hyn yr oedd yn ei ddymuno ar gyfer y dyfodol oedd cael ei eiddo ei hun ar yr ynys gyda chefnogaeth, ac i'r gefnogaeth leihau wrth iddo ennill sgiliau a magu hyder.

Problemau / Rhwystrau oedd i'w gweld:

- Mynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys dro ar ôl tro, weithiau ddyddiau ar wahân.
- Dim sgiliau bywyd, galwedigaeth, ac annibyniaeth a dim cyfleoedd i ddatblygu.
- Risg ailadroddus o hunan-niweidio
- Nid oedd y gofal dwys cychwynnol a roddwyd yn effeithiol a dim tystiolaeth o welliant.
- Perthynas â'r teulu ehangach yn effeithio ar ymatebion ac ymddygiadau.
- Cofnodi dymuniadau a theimladau A, a'r Tîm Amlddisgyblaethol yn ystyried ei Alluedd Meddyliol ac yn cymryd risgiau cadarnhaol

Cymorth a roddwyd/Gwaith a Wnaed:
Roedd gwaith amlasiantaeth yn hanfodol i sicrhau ein bod yn cefnogi A i leisio ei ddymuniadau a'i deimladau; cwblhawyd hyn mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant. Yn raddol, cymerodd y tîm anabledd dysgu gyfrifoldeb am gamau gweithredu uniongyrchol gydag A gan mai'r hyn y canolbwyntid arno oedd y pontio i fod yn oedolyn a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Cynhaliwyd gwaith ymchwil i ddiagnosis A a'r ffordd orau o gyfathrebu.

Cynhaliwyd trafodaethau gyda gyda'r tîm iaith a lleferydd, yn ogystal â chyda'r tîm dadansoddi ymddygiad ar y ffordd orau o ymwneud â chyfathrebu ag A ac ymateb iddo pan oedd yn camymddwyn. Roedd awgrymiadau gweledol, dogfennau hawdd eu darllen a defnyddio technoleg yn allweddol. Teimlai A dan orthrwm, nid oedd yn ymddiried mewn gwasanaethau, nid oedd yn teimlo unrhyw ddiogelwch, teimlai'n anniogel ar adegau heb bwrpas ac roedd yn cwestiynu ei hunaniaeth.

Wrth adolygu'r dulliau cymunedol blaenorol, cytunodd y Tîm Amlddisgyblaethol ar y ffordd orau i gefnogi A. Treuliodd gweithiwr cymdeithasol y tîm anabledd dysgu amser yn sefydlu perthynas waith gadarnhaol gydag A – gweithred a'u hysgogodd i ddatgelu'r rhesymeg dros rai o achosion o gamymddwyn ac iechyd meddwl A. Cytunodd y Tîm Amlddisgyblaethol fod angen cefnogi A i sefydlu amgylchedd diogel. Rhoddai'r lleoliadau aflwyddiannus a'r arsylwadau gan y Tîm Amlddisgyblaethol dystiolaeth o gryfderau. Cefnogwyd A i wneud cais am denantiaeth ei hun yn y gymuned.

Mae cynllun cymorth A, y mae A wedi cydsynio iddo, wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau byw annibynnol, hyder ac ail-alluogi. Canolbwyntiodd y gefnogaeth ar sgiliau bywyd, annog annibyniaeth a chyfrifoldeb. Mae'r Tîm Amlddisgyblaethol yn parhau i gefnogi A i ddatblygu ei wybodaeth am y diagnosis ASD, Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl a sefydlu a chynnal ffiniau iach. Mae'r angen am gefnogaeth yn parhau, ond wrth gymryd risgiau cadarnhaol a chefnogi A i gymryd cyfrifoldeb a datblygu sgiliau mae hyn wedi lleihau'n raddol.

Canlyniadau / Gwahaniaeth a wnaed i A:
Mae A yn gweld gwelliant yn ei hyder ac mae, Bellach, yn teimlo ei fod yn cael cefnogaeth a'i fod yn ddiogel i fynegi sut mae'n teimlo. Mae achosion o ymddwyn yn heriol a bygythiol wedi lleihau'n sylweddol gan fod A yn gallu cyfleu anghenion mewn ffyrdd mwy adeiladol. Roedd A yn rhan o'r hyn oedd yn bwysig iddo ac yn arwain hyn. Defnyddiwyd hyn wrth ddatblygu ei gynllun gofal a chymorth. Roedd A eisiau datblygu annibyniaeth, pwrpas a gweithio ar eu hunaniaeth ymhellach. Mae'r datblygiad wedi bod yn fodd i A ymwneud â Thîm Iechyd Anabledd Dysgu oedolion, sy'n cynnwys seiciatreg – rhywbeth nad oedd wedi cydsynio iddo yn y ddechrau. Mae ymwneud â'r gwaith ac ymyrryd ynddo y yn helpu A i aros yn y gymuned a lleihau amlder yr ymyrraeth argyfwng.

Mae ymdeimlad o reolaeth A dros ei fywyd wedi cynyddu ac wedi lleihau ei ymddygiadau hunan-niweidio. Roedd hyn yn ffactor a gyfrannodd at gael ei dderbyn yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys dro ar ôl tro a'r ymddygiad heriol oedd yn gwaethygu pan oedd yn y lleoliad. Mi gafodd A brofiad niweidiol yn ystod ei blentyndod ac mae hyn wedi cael effaith ar farn rhieni, felly mae'r pellter corfforol yn fodd i A brosesu'r teimladau hyn a chael rheolaeth dros y ffiniau o amgylch ei berthnasoedd.

Dysgu:
1. Cynllunio gofal wedi'i gyd-gynhyrchu ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person
2. Annog llais yr unigolyn
3. Pwysigrwydd sefydlu perthnasoedd gwaith da
4. Pwysigrwydd gweithio amlasiantaethol a thynnu ar arbenigedd pobl eraill
5. Diagnosis deuol; Anabledd Dysgu a chyflyrau niwroamrywiol ar iechyd meddwl.
6. Pwysigrwydd cymryd risgiau cadarnhaol

Astudiaeth Achos 12

Cwynion

Cwyn a dderbyniwyd gan riant mewn perthynas ag anfodlonrwydd â'r asesiad o anghenion gofal a chymorth plentyn, arfer y Gweithiwr Cymdeithasol perthnasol a'r methiant i nodi ac ymateb yn briodol i'r ffactorau risg trwy weithredu'r gweithdrefnau amddiffyn plant.

Nodwyd pwyntiau dysgu a rhoddwyd camau gweithredu ar waith mewn perthynas ag ailasesiad i'w gwblhau. Cynhaliwyd cyfarfod gan y Rheolwyr Gwasanaeth perthnasol a chadarnhawyd bod Llwybr wedi'i egluro, roedd pob corff yn ei ddeall ac nid oedd angen unrhyw welliannau. Daw cyfeiriadau newydd trwy'r tîm Dyletswydd ac maent yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y Tîm Dyletswydd hyd oni chânt eu trosglwyddo i'r tîm perthnasol. Unwaith y maent yn y tîm perthnasol yna cyfrifoldeb yr Arweinydd Ymarfer perthnasol yw cyfeiriadau amddiffyn plant ar yr achosion hynny.

Atodiad - Derbyniwyd canmoliaeth yn Chwarter 4 (25/25) gan yr un rhiant yn nodi bod yr aelod o staff yn glod i'r tîm; a bod ffydd [y rhiant] wedi'i hadfer yn y tîm a'i bod yn ddiolchgar am bopeth y mae'r aelod staff wedi'i wneud dros y teulu.

Astudiaeth Achos 13

Canmoliaeth

Mae **canmoliaeth i Wasanaethau Oedolion** yn dangos barn gadarnhaol iawn am aelodau unigol o staff. Diolchgarwch am lefel y gefnogaeth a chyngor a ddarparwyd, felly'n datblygu perthnasoedd cadarnhaol. Oedolion sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth neu aelodau o'u teulu yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu deall. Derbyniwyd canmoliaeth hefyd ynghylch y gofal a'r caredigrwydd o ansawdd a ddangosir mewn cartrefi preswyl a chan Gofal Môn ac Ailalluogi. Mae hefyd yn gadarnhaol derbyn adborth gan weithwyr proffesiynol eraill yn nodi'r argraff y mae ansawdd y gwaith a'r gefnogaeth i oedolion sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth a'u teuluoedd yn ei chael arnynt.

Gellir gweld rhai enghreifftiau isod:

" Byddwn yn cyfeirio at ein holl alwadau ffôn ac e-byst amrywiol dros yr ychydig wythnosau diwethaf ar ôl i fy Mam orfod mynd i Ysbyty Gwynedd. Mae hi wedi bod yn ychydig wythnosau eithaf heriol a llawn straen yn ymweld â hi yn yr ysbyty ac yna'n ceisio sefydlu beth fyddai'r canlyniad diogel iddi ar ôl iddi gael gadael.

Roeddwn i eisiau cofnodi fy ngwerthfawrogiad llwyr am eich holl gymorth a'ch cefnogaeth. Rydych chi wedi fy arwain trwy'r broses heriol ac wedi trafod yr holl opsiynau sydd ar gael.

Rydych chi wedi bod yn gymwynasgar iawn yn fy nghynghori ar yr hyn oedd orau i Mam. Fedra i ddim ddiolch digon i chi am fy helpu i sicrhau lle ym Mhlas Mona lle es â fy Mam yn gynharach heddiw. Wrth adael, roedd hi'n edrych yn hapus iawn.

Am gartref gofal cyfeillgar iawn ac roedd fy Mam wrthi'n sgwrsio'n rhwydd gyda'r preswylydd. Mae ymhell o fod yn gartref ac yn amgylchedd anniogel iawn iddi.

Felly, rwy'n ddiolchgar iawn i chi a hoffwn ddweud DIOLCH YN FAWR IAWN iawn gan fy Mam, fy chwaer a minnau."

(Teulu oedolyn sy'n defnyddio'r Gwasanaeth)

" Roedd defnyddiwr y gwasanaeth yn ganmoliaethus ac yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth a gafodd pan siaradais â hi ar y ffôn. Dywedodd defnyddiwr y gwasanaeth wrthyf i, pan adawodd y Gweithiwr Cymdeithasol, ei bod hi'n teimlo'n llawer gwell ynddi ei hun gan wybod bod cefnogaeth ar gael ac yn teimlo bod rhywun yn gwrando arni. Mae'r holl gyfathrebu yr wyf yn ei wneud â theuluoedd sydd ag unigolion sy'n dod i Hafan naill ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb ac maent yn aml yn canmol y cyswllt sydd ganddynt â gweithwyr cymdeithasol ac yn ddiolchgar am y gwasanaeth a'r cyngor a gânt."

(Teulu oedolyn sy'n defnyddio'r Gwasanaeth)

Tudalen 86

“ E-bost cwbl ganmoliaethus i aelodau o staff (Llesiant Môn), sydd wedi gwneud sefyllfa arbennig o ofidus ..... cymaint yn fwy goddefadwy. Mae eu dull gofalgar a rhagweithiol a'u dealltwriaeth o'r gwaith yn amlwg ac fedrwn ni ddim, fel teulu, ddiolch digon iddynt am y gefnogaeth a'r gofal a gafodd fy mrawd. Dydw i erioed wedi cwrdd â phobl sy'n fwy addas ar gyfer swydd – mae'r ddau ohonynt yn ased i Gyngor Sir Ynys Môn. Diolch o galon!”

(Teulu oedolyn sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl)

“ Rydych chi wedi bod mor gymwynasgar ac rwy'n diolch yn fawr iawn i chi am yr holl gymorth a'r gefnogaeth a gafodd Mam. Mi oedd ganddi bopeth y gallai fod wedi'i gael gennych chi... mi helpoch chi ym mhob ffordd bosib... Rydych chi'n dda iawn yn yr hyn 'dych chi'n ei wneud... ac rydych chi'n fwy na'ch swydd, doedd rhoi cefnogaeth i mi pan fedrech chi wneud gwahaniaeth ddim yn rhan o'ch swydd ond mi wrandawsoch chi a helpu... Diolch! Rydych chi'n dal i helpu fy Nhad rŵan. Rydych chi'n haeddu codiad cyflog! Ac rydych chi'n glod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol...”

(Teulu oedolyn sy'n defnyddio'r Gwasanaeth)



“ Cefais y pleser o gwrdd ag un o'ch cydweithwyr y bore yma. Mae hi'n gofalu am (defnyddiwr gwasanaeth), ac fe wnaeth hi ddelio ag o'n hollol wych.....Roedd hi'n gydymdeimladol ynglŷn â'i bryderon....., gan bwysleisio mai ei phrif bryder oedd ei les a'r ffordd orau y gellid gofalu amdano yn yr amgylchiadau sy'n bodoli nawr..... fe wnaeth y Gweithiwr Cymdeithasol ei drin â chadernid a thrugaredd, ac roedd ei sgiliau wedi gwneud argraff fawr arnaf. Dw i'n meddwl mai'r agwedd fwyaf trawiadol i mi oedd ei bod hi wedi gofyn y cwestiynau cywir – rhywbeth oedd yn dangos bod ganddi ddiddordeb mewn sut orau i gynorthwyo (defnyddiwr gwasanaeth). Mae'n hawdd cwyno'n aml iawn am wasanaethau, ond mae'n rhaid i chi, hefyd, gydnabod pan fydd y gwasanaeth yn dda ac mi oedd yr hyn a welais i heddiw wedi mynd y tu draw i hynny. Felly, roeddwn i'n meddwl y byddwn i'n rhoi gwybod i chi pa mor dda oedd y profiad. Mi welais i (defnyddiwr gwasanaeth) yn ddiweddarach, amser cinio, ac roedd o'n hapus efo'r ymweliad.”

(Teulu oedolyn sy'n defnyddio'r Gwasanaeth)

“ Roeddwn i wedi edrych ar y ffeil neithiwr a sylwi bod sefydlogrwydd sylweddol yn y lleoliad ar hyn o bryd. Rwy’n ddiolchgar iawn i bawb am y gwaith caled a’r sylw rydych chi i gyd wedi’i roi i’r achos hwn ac i PH. Rwy’n cynnwys y gweithwyr proffesiynol a’r gofalwyr, wrth gwrs. Dydw i ddim yn bychanu’r heriau y mae gweithwyr proffesiynol a gofalwyr yn eu hwynebu – maent yn gweithio’n aml mewn amgylchiadau heriol. Dw i’n parchu eu sgiliau a’u hymrwymiad. Mi fedra i, e’lla, wneud gorchmynion llys ond fedra i ddim rhoi’r gwasanaeth ymarferol sy’n gwneud y gwahaniaeth dyddiol gwirioneddol fel y mae gweithwyr proffesiynol a gofalwyr yn ei wneud. Fedrwch chi gyfleu fy ngwerthfawrogiad o’u gwaith a’m parch mwyaf iddynt? Diolch i chi gyd a chofion cynnes”

(Barnwr Dosbarth, Canolfan Gyfiawnder Caernarfon)

“ Dim ond gair byr i ddiolch i chi, Sioned, am drefnu digwyddiad mor arbennig ddoe yn M-Sparc. Roedd gweld a chlywed ymateb y gynulleidfa o bob rhan o’r Ynys yn dweud y cyfan. Mae’r cydweithio rhagorol sydd rhwng Seiriol a chwithau yn sicrhau gwasanaeth arbennig i drigolion Oed-Gyfeillgar ein Sir. Diolch yn fawr iawn.”

(Cynghorydd Sir Ynys Môn)



Mae **canmoliaeth i’r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** yn dangos barn gadarnhaol iawn am aelodau unigol o staff. Dangosir gwerthfawrogiad am lefel y gefnogaeth a chyngor a roddir gan ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol sydd wedi peri i oedolion sydd wedi defnyddio’r gwasanaeth neu aelodau o’u teulu deimlo bod rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu deall.

Yn ystod ffair gofalwyr mewn ysgol uwchradd, cafwyd adborth cadarnhaol gan ddisgyblion yr ysgol oedd yno. Wrth drafod Gwaith Cymdeithasol, daeth nifer o blant / pobl ifanc ymlaen i ddweud bod ganddynt Weithwyr Cymdeithasol yn gweithio gyda nhw ar y pryd.

Dywedodd un wrth y gweithiwr oedd yno ei fod mewn gofal maeth a bod ganddo Weithiwr Cymdeithasol oedd wedi’i helpu a siaradodd yn gadarnhaol am ei brofiadau gyda’r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Cadarnhaodd dau ddisgybl arall fod ganddynt Weithwyr Cymdeithasol hefyd ac, eto, fe wnaethant siarad yn gadarnhaol am eu profiadau, a bod y ddau ohonynt eisiau bod yn Weithwyr Cymdeithasol pan fyddant yn hŷn, fel y gallant helpu plant yn yr un ffordd ag y rhoddwyd help iddyn nhw.

Nid oedd unrhyw ymatebion negyddol i’r cwestiwn “Beth mae Gweithiwr Cymdeithasol yn ei wneud?”. Ymatebodd y disgyblion trwy ddweud “helpu pobl”, “helpu

gyda'u hannibyniaeth". Teimlai'r gweithiwr oedd yno fod yr effaith gadarnhaol a gafodd y Gweithwyr Cymdeithasol ar y plant uchod yn gwneud iddyn nhw deimlo'n gyfforddus i rannu eu profiadau gyda'u cyd-ddisgyblion. Mae, hefyd, yn rhoi hyder y gall Gweithwyr Cymdeithasol gyfathrebu â phlant mewn ffordd sy'n Wybodus am Drawma sydd, yn ei dro, yn fodd i blant weld Gweithiwr Cymdeithasol fel "oedolyn y gellir ymddiried ynddo". Mae hyn yn rhywbeth cadarnhaol.

Isod ceir enghreifftiau eraill o sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd:

"Diolch i chi am fod mor amyneddgar efo fi a fy helpu i ddod y person ydw i rŵan. Rydych chi wedi bod yn rhan o newid fy mywyd ac achub fi a fy mhlant am byth ac, am hynny, fedra i ddim ddiolch digon i chi."

(Teulu Plentyn sy'n defnyddio'r Gwasanaeth)

" Dw i mond isio dweud diolch i chi am bob dim. Efallai y byddwch chi'n synnu ond, dw i'n hynod siomedig na fydda i'n eich gweld chi eto er ei bod hi'n ymddangos fy mod i'n eich casáu chi'r rhan fwyaf o'r amser. Doeddwn i ddim wir a dw i erioed wedi gwneud achos, rŵan dw i'n meddwl amdano, yr unig beth yr oeddech chi'n trio'i wneud oedd helpu ond, yn fy mhen, ar y pryd roedd yn teimlo fel nad oeddech chi. Dw i'n gobeithio y gwela i chi eto rywbryd, ond diolch yn fawr iawn

(Person ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth)

" Roedd ei ffyrdd hi efo geiriau yn eithriadol i'n helpu i ddeall ein sefyllfa...roedd yn broffesiynol drwy gydol yr amser a dreuliodd efo ni, gan wneud i ni deimlo'n falch o'r hyn a gyflawnwyd gennym gyda'r holl amser a dreuliodd efo ni. Fedren ni ddim diolch ddigon iddi. Fedren ni ddom gofyn am well cefnogaeth. Mae Iechyd Emosiynol a Llesiant wedi gwella'n aruthrol ac mae iechyd a llesiant y plentyn wedi gwella'n aruthrol.

(Teulu'r Plentyn sy'n defnyddio'r Gwasanaeth)

" Dw i wrth fy modd efo pa mor groesawgar mae'r staff, maen nhw'n gwneud i bawb deimlo'n gartrefol ac yn cymryd amser i siarad â phob person sy'n dod yno. Mae'n braf eu gweld yn ffurfio perthynas â theuluoedd ac yn meithrin cysylltiadau â'r plant. Dw i'n meddwl ei fod yn grŵp gwych i blant a rhieni ddod iddo. Dw i'n teimlo'n gyfforddus iawn yn dod, ac mae fy mab yn cael llawer o hwyl ac mi fedrwch weld faint o ymdrech mae'r merched yn ei roi i'r grŵp, ac rydym wrth ein bodd efo'r holl hwyl sydd i'w gael yma."

(Teulu Plentyn sy'n defnyddio'r Gwasanaeth)

" Diolch am gredu ynddo i. Dw i'n gwerthfawrogi pob dim 'dach chi wedi'i wneud. Fyddwn ni byth yn eich anghofio, byddwn yn gweld eich colli chi. 'Dach chi'n Weithiwr Cymdeithasol anhygoel. 'Da ni wedi bod mor ffodus i'ch cael chi! Mi leciwn i ddweud diolch yn fawr iawn am bopeth 'da chi wedi'i wneud i ni fel teulu. Diolch i chi am fy arwain a'm helpu i sylweddoli bod angen i mi siarad a gweithio arna i fy hun. Oni bai amdanoch chi, fyddwn i ddim pwy ydw i rŵan. 'Da chi wedi cael effaith ar fy mywyd i, un dda. Wna i fyth anghofio pob dim 'da chi wedi'i wneud, a fy helpu i ddod yn fersiwn well ohona i fy hun xxx".

(Teulu Plentyn sy'n defnyddio'r Gwasanaeth)

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Mon
LL77 7TW

Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngormon
Cyngormon
cyngormon

ynysmon.llyw.cymru

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
CYFARFOD:	CYNGOR SIR
DYDDIAD:	25/09/25
TEITL YR ADRODDIAD:	Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2024/2025
AWDUR YR ADRODDIAD:	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Cyflwyno Adroddiad Blynyddol statudol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Sir

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Pwyllgor Safonau'n bwyllgor statudol sy'n gyfrifol am hybu a chynnal safonau ymddygiad o ansawdd gan Gynghorwyr Sir Ynys Môn a Chynghorwyr Tref a Chymuned ar yr Ynys, gan eu cefnogi i ddilyn eu Cod Ymddygiad.

1.2 Mae'n ofyniad deddfwriaethol i'r Pwyllgor Safonau adrodd yn flynyddol i'r Cyngor cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r adroddiad egluro sut mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei swyddogaethau statudol yn ystod y cyfnod perthnasol.

1.3 Mae'r Pwyllgor Safonau wedi cytuno ar yr adroddiad atodol, ac yn ei gyflwyno.

2. Argymhellion

2.1 Bod y Cyngor yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2024-2025.

2.2 Bod y Cyngor yn cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2025/2026 **(Atodiad 3)** tra'n cydnabod y gallai rhai materion ychwanegol gael eu cynnwys, yn unol â'r gofynion a allai godi.

Adroddiad Blynyddol
Pwyllgor Safonau:
2024-2025

CYNNWYS

ADRAN	TEITL
1	Cyflwyniad
2	Aelodaeth y Pwyllgor
3	Gwaith y Pwyllgor yn ystod 2024/2025
4	Edrych ymlaen at 2025/26

ATODIADAU	
Atodiad 1	Rôl a Chyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau
Atodiad 2	Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2024-2025 gyda manylion gweithredu wedi eu nodi
Atodiad 3	Rhaglen Waith Arfaethedig y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2025-2026
Atodiad 4	Newyddlen y Pwyllgor Safonau at y Cynghorau Tref a Chymuned – Rhifyn 7 (09/2024)
Atodiad 5	Newyddlen y Pwyllgor Safonau at y Cynghorwyr Sir – Rhifyn 7 (10/2024)
Atodiad 6	Ffurflen ar gyfer adrodd ar ddyletswydd statudol Arweinwyr Grŵp 2024/2025

1. Rhagair



Trefor Owen
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (o Awst 2025)

Ymgymerais â'r rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor yn 2024, ar ôl bod yn Is-gadeirydd ers Chwefror 2024. Rhys Davies oedd yn cyflawni'r rôl o'm blaen. Er bod cyfnod Rhys fel Cadeirydd wedi dod i ben yn gynt na'r disgwyl oherwydd amgylchiadau personol, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Rhys, ar ran aelodau'r Pwyllgor, am ei waith. Mae Rhys yn parhau fel aelod lleyg o'r Pwyllgor Safonau, ac mae ei gyfraniad yn werthfawr iawn.

Mae 9 aelod ar y Pwyllgor Safonau, ac mae'r aelodau wedi aros yr un fath ar gyfer eleni. Hoffwn longyfarch Brace Griffiths ar gael ei ethol yn Is-gadeirydd yn Chwefror 2025.

Mae gwaith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn wedi amrywio'n fawr, ac mae'r Pwyllgor wedi bod yn brysur yn bodloni'r gofyniad statudol i hybu a chynnal safon dda o ymddygiad ymhlith Cynghorwyr Sir Ynys Môn a Chynghorwyr Tref a Chymuned, gan gynnwys cynorthwyo aelodau i lynu wrth y Cod Ymddygiad.

Cafwyd 4 cyfarfod ffurfiol yn ogystal â 4 cyfarfod anffurfiol yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn ychwanegol at drafodaethau gydag Arweinyddion Grŵp, aelodau etholedig, clercod Cynghorau Cymuned a sesiynau hyfforddi. Roedd y rhan fwyaf o'n gwaith yn cynnwys gweithredu'r materion a amlygwyd wrth adolygu'r cofrestrau o ddiddordebau sampl o aelodau, yn ogystal â sicrhau bod materion pwysig mewn perthynas ag ymddygiad yn cael sylw teilwng mewn cyfarfodydd gydag Arweinyddion Grŵp, yn ystod y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ac yn ein Newyddlenni / Cyfathrebiadau gydag Aelodau. Mae'r Pwyllgor yn falch o fod wedi trefnu pedwar sesiwn hyfforddi ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned yn ystod Hydref 2024. Cynrychiolwyd Ynys Môn hefyd yn Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn fformat tebyg i'r fformat a gyflwynwyd y llynedd. Rwy'n gobeithio ei fod yn darparu trosolwg cynhwysfawr o'r gwaith a gyflawnwyd gan y Pwyllgor Safonau yn ystod y flwyddyn.

Hoffwn ddiolch i aelodau etholedig, cyfetholedig ac aelodau lleyg y Cyngor Sir, ac aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned a'r Clercod am eu cydweithrediad mewn perthynas â materion ymddygiad unwaith eto eleni. Mae deg egwyddor bywyd cyhoeddus yn glir, ac mae'r Cod Ymddygiad yn cydymffurfio â'r egwyddorion hyn. Gobeithir y bydd ymdrechion y Pwyllgor yn sicrhau bod gofynion y Cod yn cael eu gwneud yn glir i aelodau, ac y bydd hyn o gymorth iddynt wrth iddynt weithio er budd yr ardal a'i dinasyddion.

Trefor Owen (Cadeirydd)

2. Aelodaeth y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor Safonau'n bwyllgor statudol sydd â 9 aelod. Ceir gwybodaeth am rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor yn **Atodiad 1**. Mae manylion am y Pwyllgor a'i aelodaeth ar gael yn y fan yma.

A. Aelodau Lleyg: Penodir y pum aelod lleyg am hyd at ddau dymor o bedair blynedd. Rhaid penodi'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd o blith yr aelodau annibynnol. Gwneir y penodiadau am gyfnod o bedair blynedd neu (os yw'n swydd wag achlysurol) hyd nes y byddai tymor swydd deiliad blaenorol y swydd wedi dod i ben. Gall unigolyn gael ei ail-ethol i'r Gadair/fel Is-gadeirydd.

B. Aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned: Penodir dau aelod er mwyn cynrychioli'r cynghorau tref a chymuned yn dilyn etholiadau llywodraeth leol. Bydd y cynrychiolwyr yn eistedd ar y Pwyllgor Safonau tan yr etholiadau llywodraeth leol nesaf neu hyd nes nad yw'r unigolion a benodwyd yn aelodau o'r cyngor cymuned mwyach, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf. Gall aelodau cyngor tref a chymuned gael eu hailbenodi am un tymor arall, gyda chytundeb cynghorau tref a chymuned Ynys Môn.

C. Aelodau'r Cyngor Sir: Gwneir penodiadau am ddau gynrychiolydd drwy benderfyniad y Cyngor.

Ceir dolen at swydd ddisgrifiadau aelodau'r Pwyllgor yma.

	Trefor Owen (Cadeirydd ers Medi 2024)	Aelod Lleyg		Brace Griffiths (Is-gadeirydd ers Chwefror 2025)	Aelod Lleyg
	Rhys Davies (Cadeirydd o Chwefror 2024 hyd nes Awst 2024)	Aelod Lleyg		John R Jones (Cadeirydd hyd nes Chwefror 2024)	Aelod Lleyg
	Gill Murgatroyd	Aelod Lleyg		Margaret Murley Roberts	Cynghorydd Sir
	Dafydd Rhys Thomas	Cynghorydd Sir		Iorwerth Roberts	Cynghorydd Tref a Chymuned
	Margaret Thomas	Cynghorydd Tref a Chymuned			

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

3. Gwaith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn

Dyma bedwerydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau, wedi ei gwblhau yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, er bod paratoi adroddiad blynyddol yn arfer yn y Cyngor hwn ers sawl blwyddyn cyn iddo ddod yn ofyn statudol. Mae'n adrodd ar waith y Pwyllgor rhwng 04/2024 a 03/2025.

Roedd Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2024-2025 (fel y cymeradwywyd gan y Cyngor llawn yn 09/2024) yn rhoi manylion am weithredoedd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn erbyn ei amcanion ac mae'r rhaglen wedi ei chynnwys yn **Atodiad 2.** Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, cododd rhai materion annisgwyl yn ystod y flwyddyn, ac mae'r manylion am y rhain hefyd wedi eu cynnwys yn Atodiad 2.

Gellir cael mynediad at Raglenni, Adroddiadau a Chofnodion cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor ar dudalen gartref y Pwyllgor Safonau ar wefan y Cyngor – dolen yma.

Tynnir sylw penodol at y materion hyn:

- **Cwynion ynghylch aelodau Cyngor Sir / Cynghorau Tref a Chymuned yn Ynys Môn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Cynghorwyr Sir: Derbyniwyd gohebiaeth am 2 achos lle penderfynodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) beidio ymchwilio. Mae 1 achos cyfredol ble mae'r OGCC yn ymchwilio, a chyfeiriwyd 1 achos at y Swyddog Monitro i'w ystyried gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Ni chwblhawyd y mater hwn hyd nes ar ôl y cyfnod y cyfeiria'r adroddiad hwn ato.

Cynghorwyr Tref a Chymuned: Derbyniwyd gohebiaeth am 3 achos lle penderfynodd OGCC beidio ymchwilio. Roedd 1 achos yn cael ei ymchwilio gan OGCC.

Rhoddwyd y gorau i'r achos hwn bellach, ond tu allan i'r cyfnod y cyfeiria'r Adroddiad hwn ato.

Nododd y Pwyllgor Safonau, yn ei gyfarfod ffurfiol ar 06/02/2025, ei bryderon ynghylch yr oedi rhwng y cyfnod o gyflwyno cwyn i OGCC a'r cyfnod dod i benderfyniad. Mae'r Pwyllgor Safonau wedi codi'r pryderon hyn gydag OGCC a rhoddir sylw i'r mater mewn adroddiad a gyflwynir i gyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 11/12/2024.

Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau gan Banel Dyfarnu Cymru yn ystod y cyfnod hwn.

Mae OGCC, a Phanel Dyfarnu Cymru, yn cyhoeddi crynodeb Cymru gyfan ar yr achosion maen nhw wedi'u hystyried ar eu gwefannau. Adroddir ar yr achosion hyn yn ystod cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau, ac mae crynodeb hefyd yn cael ei gynnwys yn y Newyddlenni/Cyfathrebiadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Safonau.

- **Gwaith gyda Chynghorau Tref a Chymuned yr Ynys.**

Trefnwyd hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yn ystod Hydref 2024. Anogwyd y 40 Cyngor Tref a Chymuned ar yr Ynys i fynychu un o'r pedwar sesiwn a drefnwyd yn Gymraeg neu Saesneg, yn ystod y dydd a gyda'r nos. Yn anfoddus, nid oes llawer o ddiddordeb

wedi bod ar gyfer digwyddiadau hyfforddiant blaenorol, ac mae'r patrwm yn parhau gyda dim ond hanner y Cynghorau Tref a Chymuned yn anfon cynrychiolydd i'r sesiynau hyfforddiant hyn.

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r Cynghorau Tref a Chymuned hynny sydd wedi cymryd rhan yn y digwyddiadau hyn a digwyddiadau blaenorol.

Roedd Rhaglen Waith y Pwyllgor yn nodi y byddai'n cynnal adolygiad mewn un Cyngor Cymuned lle'r oedd pryderon wedi'u codi gyda'r Pwyllgor. Roedd yn fwriad cynnal yr adolygiad hwn yn ystod Gwanwyn 2023. Fodd bynnag, gofynnodd Clerc y Cyngor Cymuned i ohirio'r adolygiad. Er gwaethaf ymdrechion i drefnu dyddiad amgen, ni chytunwyd ar ddyddiad. Oherwydd yr amser aeth heibio a chan fod y Cyngor Cymuned yn gyndyn o drefnu dyddiad ar gyfer yr adolygiad, cadarnhaodd y Pwyllgor Safonau na fyddai'n cysylltu â'r Cyngor Cymuned ymhellach mewn perthynas â'r cynnig hwn i gynnal adolygiad gwirfoddol o'i Gofrestrau o Ddiddordebau.

Mynychodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau gyfarfod Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ar 19/09/2024 i gyflwyno gwybodaeth a drafodwyd gan y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ffurfiol yn 06/2024, ac a oedd yn berthnasol i Gynghorau Tref a Chymuned. Anfonwyd newyddlen at yr holl Gynghorau Tref a Chymuned yn 09/2024.

Bydd y Pwyllgor Safonau'n parhau i gysylltu gyda'r Fforwm, fel ffordd o gyfathrebu gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned.

- **Protocol Datrysiad Lleol.**

Y Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer Aelodau'r Cyngor Sir:

Er bod pryderon wedi'u dwyn i sylw Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn ystod y flwyddyn, ni wnaed ceisiadau i Gadeirydd y Pwyllgor weithredu dan drefniadau'r Protocol. Ymdriniwyd â'r pryderon lefel isel am ymddygiad rhai aelodau'n fewnol drwy brosesau grwpiau gwleidyddol.

O ganlyniad i'r gwaith a wnaed gan yr OGCC o ran coladu'r Protocol Datrysiad Lleol gan awdurdodau yng Nghymru, yn ogystal â chaffael barn gyfreithiol ar statws rhai darpariaethau o fewn y Protocol Datrysiad Lleol, cynhaliwyd adolygiad i ystyried Protocol y Cyngor yn 02/2024. Cyflwynwyd adroddiad yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau ac mae gweithredu'r newidiadau arfaethedig, ar ôl trafod gydag Arweinyddion Grŵp, yn rhan o raglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2025-26.

Atgoffir aelodau o argaeledd y Protocol, er bod y Pwyllgor yn gobeithio na fydd ei angen. Atgoffir aelodau o'r egwyddorion pe byddent yn dymuno defnyddio'r Protocol Datrysiad Lleol; dylid codi pryderon cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad dan sylw, a dylid ymdrin â'r mater ar unwaith i sicrhau proses mor effeithiol â phosib.

Y Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer Aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned:

Mae Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer Cynghorau tref a chymuned wedi'i ddatblygu gan Un Llais Cymru, ac fe anogir Cynghorau Tref a Chymuned i'w fabwysiadu. Mae Protocol sydd wedi'i ddatblygu'n lleol ar gael hefyd; er nad yw wedi'i ddefnyddio ers ei fabwysiadu.

- **Cyngor gan y Pwyllgor ar hyfforddiant i Aelodau ac Arweinyddion Grŵp**

Mae adroddiadau'n cael eu cyflwyno gan y Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu Adnoddau Dynol yn ystod cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau. Mae'r adroddiadau hyn yn ystyried cynnwys y Rhaglen Hyfforddiant ar gyfer Aelodau, a'r hyfforddiant a gwblhawyd. Gall y Pwyllgor gyfrannu wrth i'r Rhaglen gael ei datblygu ac ystyried i ba raddau mae Aelodau'n cymryd rhan yn y Rhaglen Hyfforddiant.

Fel rhan o'i waith yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Safonau wedi bod yn trafod gyda'r Arweinyddion Grŵp a'r Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu Adnoddau Dynol er mwyn datblygu sesiynau hyfforddi ar gyfer Arweinyddion Grŵp. Mae rhan gyntaf y rhaglen hyfforddiant yn cynnwys proffilio personoliaeth DISC ar gyfer bob Arweinydd Grŵp, fydd yna'n cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer y sesiynau hyfforddi unigol. Bydd gwaith pellach yn parhau yn ystod rhaglen waith flwyddyn nesaf, a bydd adroddiadau'n cael eu paratoi ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau. Wrth gwrs, gwybodaeth lefel uchel a generig a rennir gyda'r Pwyllgor. Mae manylion y sesiynau hyfforddi gydag arweinyddion grŵp unigol yn gyfrinachol.

Mae hyfforddiant ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi'i gynnwys yn Rhaglen Waith Flynyddol y Pwyllgor. Eleni roedd yn cynnwys:

- ***Hyfforddiant Gwrandawiadau:***

  Darparwyd hyfforddiant ar gynnal gwrandawiadau ar gyfer atgyfeiriadau ar y Cod Ymddygiad gan OGCC yn Medi 2024, yng ngoleuni'r 3 achos oedd yn cael eu harchwilio gan y OGCC ar y pryd. Digwyddiad hyfforddi "ystafell ddosbarth" oedd hwn, a gwahoddwyd holl aelodau'r Pwyllgor Safonau i fod yn bresennol. O ganlyniad i'r sesiwn hyfforddiant hwn, adolygodd a diwygiodd y Pwyllgor Safonau ei Weithdrefn Gwrandawiadau. Mae'r ddogfen Weithdrefn a ddiweddarwyd wedi'i chyhoeddi. Bydd yn cael ei hadolygu eto yn 2025/26 er mwyn cynnwys unrhyw wersi a ddysgwyd o'r Gwrandawiad diweddar, a gweithdrefnau cyn cynnal Gwrandawiad yn benodol.

- ***Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad***

  Yn dilyn etholiadau Mai 2022, trefnodd y Pwyllgor Safonau sesiynau hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Cyngor. Mynychodd mwyafrif yr aelodau'r hyfforddiant hwnnw, a threfnwyd sesiynau gloywi yn ystod 23/24. Mae'r 35 aelod etholedig cyfredol wedi derbyn hyfforddiant cod ymddygiad mewn ystafell ddosbarth.

  Fel Pwyllgor, credwn ei bod hi'n hanfodol bod pob Aelod yn derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ac rydym yn siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod yr argymhelliad yn yr Adroddiad Penn y dylai hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad fod yn orfodol i bob Aelod. Er hynny, nodir bod pob Cynghorydd Sir wedi mynychu'r hyfforddiant hwn.

- **Asesiad y Pwyllgor o sut mae Arweinyddion Grŵp wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr eu grwpiau.**

  Gofynnwyd i Arweinyddion Grŵp gwblhau ffurflen adrodd, cyn trefnu cyfarfodydd rhwng aelodau lleyg y Pwyllgor Safonau a phob Arweinydd Grŵp, yn 06/2025, er mwyn edrych yn ôl ar y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae copi o'r templed a ddefnyddiwyd eleni i'w weld yn **Atodiad 6**. Mae'n debyg i'r ffurflen flaenorol a ddefnyddiwyd, ond gyda rhai mân newidiadau mewn ymgais i hwyluso'r drafodaeth rhwng yr Arweinyddion Grŵp ac Aelodau lleyg y Pwyllgor Safonau.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Cymraeg / This document is also available in Welsh

Hoffai'r Pwyllgor Safonau ddiolch i'r Arweinyddion Grŵp am eu cydweithrediad a'u parodrwydd i drafod materion yn ystod y cyfarfodydd hyn, ac yn gyffredinol, yn ystod y flwyddyn.

Mae'r aelodau lleyg yn falch o adrodd eu bod yn fodlon â gwaith yr Arweinyddion Grŵp, mewn perthynas â'u cyfrifoldebau am ymddygiad eu haelodau, yn ystod 2024/25. Maent o'r farn bod pob Arweinydd Grŵp, er bod ganddynt arddulliau arwain gwahanol, yn cymryd camau rhesymol i gynnal safonau ymddygiad uchel ymysg eu haelodau. Daethant i'r casgliad hwn ar sail cynnwys yr adroddiadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan yr Arweinyddion Grŵp a'r trafodaethau a gynhaliwyd.

Barn y Pwyllgor yw bod y broses eleni wedi bod yn gadarnhaol, ac fe wnaeth pob Arweinydd Grŵp drafod a thystiolaethu fod ganddynt ddealltwriaeth glir o'u dyletswydd a'u bod yn mynd ati'n fwriadol i ddatblygu eu haelodau. Disgrifiodd yr Arweinyddion Grŵp hefyd eu hyblygrwydd wrth gefnogi eu haelodau, gan sicrhau cyswllt anffurfiol cyson a threfnu cyfarfodydd un i un. Roedd yr Arweinyddion Grŵp yn nodi, yn gyffredinol, bod diwylliant cadarnhaol a pherthynas waith dda yn bodoli rhwng Arweinyddion Grŵp.

Codwyd nifer o faterion cadarnhaol er mwyn cynorthwyo i hyrwyddo safonau uchel ymhellach, gan gynnwys hyfforddiant diweddaru ar y Cod Ymddygiad. Bydd y Pwyllgor Safonau'n adolygu'r cynnig hyfforddiant yn ystod 2025/26.

Y bwriad yw cynnal proses a threfniadau tebyg ar gyfer yr asesiad hwn yn 2025/2026, gan wneud addasiadau technegol i'r ffurflen fel ei bod yn fwy hwylus i'w chwblhau.

Anogwyd yr Arweinyddion Grŵp i barhau i gael cyswllt rheolaidd â'u haelodau er mwyn hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel, derbyn unrhyw hyfforddiant a gynigir mewn perthynas â'u rôl fel Arweinyddion Grŵp, ac ymgysylltu'n gadarnhaol â'r Pwyllgor Safonau.

- **Ymyrraeth Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor mewn mater ymddygiad yn y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

Yn dilyn cyfeiriad gan y Swyddog Monitro, ynglŷn ag ymddygiad dau aelod, mynychodd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion er mwyn arsylwi ymddygiad aelodau. Cychwynnwyd ar y broses hon yn 03/2024 ac roedd y gwaith hwn yn parhau ar Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/2025.

Nodwyd yn Adroddiad Blynyddol y llynedd fod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi cwrdd â'r Arweinyddion Grŵp perthnasol i drafod ymddygiad 2 aelod. Ym marn y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, cymerwyd camau adfer digonol yn dilyn y cyfarfodydd hyn, a daeth y ddau fater i ben yn foddhaol. Hysbyswyd y rheiny a gododd y pryderon parhaus am yr ymyrraeth a'r datrysiad.

Mynychodd yr aelodau lleyg (mewn parau) gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ym mis Mawrth, Ebrill a Mai 2024, yn dilyn cyfarfod rhwng Cadeirydd, ac Is-gadeirydd, y Pwyllgor Safonau a Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Y bwriad oedd arsylwi ymddygiad ar ôl derbyn pryderon mewn perthynas ag ymddygiad 2 o'r Aelodau (nad oeddent yn Aelodau o'r Pwyllgor) yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn 02/2024. Bwriad y Pwyllgor Safonau oedd goruchwylio am gyfnod o 6 mis, yn amodol ar adolygiad ar ôl 3 mis. Byddai'r cyfnod hwn yn cael ei ymestyn neu ei gwtogi, fel y gwelir yn briodol. Yn eu hadolygiad (yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor

Cynllunio a Gorchmynion ym mis Mai 2024), penderfynodd yr Aelodau lleyg ddod â'r ymarfer goruchwylio i ben am eu bod yn fodlon â'r hyn a welsant.

Adroddwyd y canfyddiadau cyffredinol i Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion mewn llythyr dyddiedig 16/05/2024. Roedd y rhain yn cynnwys arsylwadau aelodau lleyg y Pwyllgor Safonau oedd yn nodi bod ymddygiad a sylwadau'r rheiny oedd yn bresennol yn barchus ac na ail-adroddwyd yr ymddygiad oedd yn destun pryder yn wreiddiol; cafodd gyfranwyr gyfle teg i siarad; roedd aelodau'r pwyllgor wedi paratoi ar gyfer y cyfarfodydd ac yn ymwybodol o'r trefniadau. Canmolwyd y Cadeirydd hefyd am fod yn awdurdodol a theg, ac am osod safon dda o gwrteisi a sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael cyfle teg i siarad.

Cysylltodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau â'r Gwasanaeth Cynllunio gan argymell y dylid darparu hyfforddiant i aelodau. Mae hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn fandadol, ond teimlwyd y byddai hyfforddiant mwy cyffredinol ar gyfer yr holl aelodau etholedig yn ddefnyddiol er mwyn eu bod yn ymwybodol o faterion Cynllunio a'r broses i'w dilyn. Paratowyd canllaw gan y Swyddogion Cynllunio, ac fe'i rhannwyd gyda'r Pwyllgor Safonau er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni briff y Pwyllgor. Cafodd y ddogfen ei rhannu gydag Aelodau ar 10/06/2024.

- **Adolygiadau o'r tair Cofrestr o Ddiddordebau**

Elfen bwysig o waith y Pwyllgor yn ystod 2023/2024 oedd cynnal adolygiadau o Gofrestrau Diddordebau sampl o aelodau'r Cyngor Sir. Cyflawnwyd y gwaith hwn gan y pum aelod lleyg ar y Pwyllgor Safonau, gyda phob un yn adolygu Cofrestrau 4 Aelod, wedi eu dewis ar hap, ar sail cydbwysedd gwleidyddol. Cynhaliwyd yr adolygiadau hyn yn 01/2024 ond cafodd y camau a nodwyd eu cynnwys yn rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25.

Adroddwyd yn fanwl ar y broses adolygu mewn adroddiadau a gyflwynwyd yng nghyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau yn 06/2024 a 02/2025.

Cymerodd y Pwyllgor Safonau y camau canlynol o ganlyniad i'r ymarferiad: - Adolygiadau o Gofrestrau o Ddiddordeb Aelodau Etholedig

- **Caniatâd Arbennig**

Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau ystyried ceisiadau ar gyfer caniatâd arbennig er mwyn galluogi Aelodau, na all gymryd rhan mewn trafodaeth neu benderfyniad oherwydd diddordeb personol sylweddol (diddordeb sy'n rhagfarnu), i wneud hynny dan amgylchiadau a ddiffinnir gan statud.

Ni dderbyniwyd unrhyw gais am ganiatâd arbennig yn ystod y cyfnod adrodd.

Atgoffir aelodau bod modd iddynt wneud cais am ganiatâd arbennig, fel Cynghorwyr Sir, Aelodau Cyfetholedig neu Gynghorwyr Tref a Chymuned.
nodyn-briffio-caniatad-arbennig-aelodau.pdf

- **Newyddlenni**

Mae wedi bod yn arferiad gan y Pwyllgor Safonau i anfon Newyddlenni ar gyfer (a) y Cynghorau Tref a Chymuned a (b) Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn yn dilyn cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor

(ddwywaith y flwyddyn). Fodd bynnag, nodwyd yn yr adroddiad blynyddol diwethaf bod y Pwyllgor wedi dod i'r casgliad bod paratoi'r Newyddlenni'n gofyn am lawer o adnoddau'r Pwyllgor a'r swyddogion ategol, heb fawr o ymateb i'r ceisiadau/materion a godwyd ynddynt, ac felly y byddai'n ailystyried dulliau cyfathrebu o'r fath yn y dyfodol.

Mae'r Newyddlen a ddosbarthwyd i Gynghorau Tref a Chymuned ym mis Medi 2024 ar gael yn **Atodiad 4** ac mae'r Cylchlythyr i Gynghorwyr Sir a anfonwyd ym mis Hydref 2024, ar gael yn **Atodiad 5**.

Yn ei gyfarfod ffurfiol ym mis Chwefror 2025, cytunodd y Pwyllgor i roi cynnig ar ddull gweithredu arall er mwyn rhannu ei negeseuon allweddol gyda'r Cynghorwyr Tref a Chymuned ac Aelodau CSYM o hyn ymlaen. Bydd gwaith pellach mewn perthynas â hyn yn cael ei gynnwys yn Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/2026. Mae'r rhaglen waith i'w gweld yn Atodiad 3.

4. Edrych Ymlaen at 2025/2026

Mae Rhaglen Waith arfaethedig y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2025-2026 wedi ei chynnwys yn **Atodiad 3**.

Mae gofynion statudol ar y Pwyllgor Safonau (gweler **Atodiad 1**). Fodd bynnag, mae penderfynu sut mae gweithredu o fewn y gofynion statudol hynny yn fater o ddewis lleol i ryw raddau.

Cytunwyd y byddai'r model rhyngweithiol a ddatblygwyd gan y Pwyllgor mewn blynyddoedd a fu yn cael ei gyfyngu yn 2024/25, oherwydd bod y gwaith ataliol helaeth a gyflawnwyd gan y Pwyllgor Safonau wedi bod yn effeithiol, gyda nifer y cwynion ynghylch ymddygiad aelodau'r Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref a Chymuned yn isel ers sawl blwyddyn, a'r disgwyl y gallai un, neu fwy o'r materion oedd dan archwiliad gan OGCC gael eu cyfeirio at y Pwyllgor Safonau.

Yn dilyn Penderfyniad Dechreuol yn 02/2025, penderfynwyd y dylid cynnal Gwrandawiad mewn perthynas ag un o'r materion hynny. Mae cynnal Gwrandawiad yn flaenoriaeth i'r Pwyllgor Safonau, a'i swyddogion cefnogol. Cynhaliwyd y Gwrandawiad yn 05/2025 ac nid yw o fewn cwmpas yr Adroddiad hwn. Rhoddir sylw iddo yn adroddiad y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2025/26.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae achos arall yn destun ymchwiliad gan OGCC ac mae'n bosib y gallai gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Safonau ar gyfer Penderfyniad dechreuol ac, efallai, Gwrandawiad. Byddai'n rhaid i'r Pwyllgor flaenoriaethu ymateb i gyfeiriad o'r fath. Ar sail hynny, ac i sicrhau bod digon o gapasiti ar gael i gyflawni'r gofyniad statudol sylfaenol hwn, bydd rhaglen waith ataliol y Pwyllgor yn cael ei chyfyngu ymhellach yn ystod 2025/26. Felly, am yr ail flwyddyn yn olynol, ni fydd y Pwyllgor Safonau yn cynnal unrhyw adolygiadau o gofrestrau'r Cyngor Sir na'r Cynghorau Tref a Chymuned.

Bydd y Pwyllgor, wrth gwrs, yn blaenoriaethu ei waith ac yn ailgyfeirio ei adnoddau i sicrhau ei fod yn parhau i fodloni ei ofynion statudol a bydd yn parhau i gefnogi Aelodau'r Cyngor Sir a chynghorau tref a chymuned i gydymffurfio â'r gofynion o dan eu Cod Ymddygiad.

Adroddiad Blynyddol
Pwyllgor Safonau:
2024-2025

ATODIADAU

ATODIAD 1

Rôl a Chyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau:

Mae'n ofyn statudol bod gan y Cyngor Sir Bwyllgor Safonau. Swyddogaethau cyffredinol pwyllgorau safonau yw hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau ac aelodau cyfetholedig o awdurdod perthnasol a'u cynorthwyo i gydymffurfio â Chod Ymddygiad yr aelodau.

I'r perwyl hwn, mae rolau a swyddogaethau statudol y Pwyllgor Safonau, mewn perthynas ag aelodau'r Cyngor Sir (etholedig a chyfetholedig) a Chynghorau Tref/Cymuned yn cynnwys:-

- hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau;
- cynorthwyo aelodau i gadw at eu Cod Ymddygiad;
- cynghori'r awdurdod ynghylch mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau;
- cynghori, hyfforddi, neu drefnu i hyfforddi aelodau ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad;
- monitro Cod Ymddygiad yr Aelodau;
- ystyried ceisiadau am ganiatâd arbennig;
- ymdrin ag unrhyw atgyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), neu Banel Dyfarnu Cymru.

Yn ogystal, mae dyletswyddau ychwanegol wedi cael eu rhoi ar y Pwyllgor ers mis Mai 2022, sef:

- monitro cydymffurfiaeth yr Arweinyddion Grŵp gyda'i dyletswydd i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp a chydweithredu â Phwyllgor Safonau'r Cyngor wrth iddo arfer ei swyddogaethau.
  Rhaid i bwyllgor safonau hefyd ddarparu cyngor a hyfforddiant, neu drefnu hyfforddiant i arweinyddion grŵp ar y ddyletswydd newydd. Ar ddechrau pob gweinyddiaeth, dylai hyn ddigwydd o fewn chwe mis i'r etholiad a dylid adolygu hyn bob blwyddyn.
- cyhoeddi Adroddiad Blynyddol:
  Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Safonau ddarparu Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn ac unrhyw argymhellion a wneir gan y Pwyllgor Safonau o fewn tri mis o'i dderbyn.

Fel isafswm, rhaid i'r adroddiad:

- ddisgrifio sut mae'r Pwyllgor Safonau wedi cyflawni ei swyddogaethau;
- cadarnhau bod protocol lleol ar waith ar gyfer datrys cwynion, a darparu asesiad o'i effaith;
- cynnwys dadansoddiad o gwynion. Rhaid i'r dadansoddiad hwn gynnwys gwybodaeth am nifer y cynghorwyr sydd wedi bod yn destun cwyn a gadarnhawyd, ac a oeddent wedi mynychu sesiwn hyfforddi ar y Cod Ymddygiad ai peidio, cyn neu ar ôl i'r gŵyn ddod i law;
- cynnwys crynodeb o'r hysbysiadau a roddwyd i'r pwyllgor gan Banel Dyfarnu Cymru, sy'n ymwneud â phenderfyniadau'r Panel ar achosion posibl o dorri cod ymddygiad yr aelodau;
- darparu crynodeb o adroddiadau ac argymhellion a wnaed neu a gyfeiriwyd at y pwyllgor gan OGCC yn ymwneud ag ymchwilio i achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad, ac unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y Pwyllgor Safonau;
- disgrifio'r cyngor y mae wedi'i roi ar hyfforddiant i aelodau ac arweinyddion grwpiau a sut mae'r cyngor hwnnw wedi'i roi ar waith;
- asesu sut y mae'r Pwyllgor wedi gweithio gyda'r cynghorau tref a chymuned yn ei ardal i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad ymysg cynghorwyr tref a chymuned;

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

- cynnwys asesiad y Pwyllgor o sut mae Arweinwyr Grŵp wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr eu grwpiau, gan gynnwys y cyngor y mae'r pwyllgor safonau wedi'i ddarparu a'r hyfforddiant y mae wedi'i awgrymu.

ATODIAD 2

Rhaglen Waith ar gyfer y Pwyllgor Safonau 2024/2025 – (cadarnhawyd gan y Cyngor Llawn ar 26.09.2024) ynghyd â manylion am ganlyniadau yn erbyn yr amcanion.

Rhif	Eitemau	Cam Gweithredu	Cwblhawyd / Camau Pellach
1	Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer y Cyngor Llawn	• Fod y Pwyllgor yn dechrau ystyried a gweithio ar yr Adroddiad Blynyddol cyn ei gyfarfod ffurfiol ym mis Mehefin 2025 • Fod y Pwyllgor yn datblygu ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2024/2025 (a'r cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer 2025/2026) ar ddiwedd tymor 2024/2025. • Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag Arweinyddion Grŵp mewn perthynas â'u cyfrifoldebau adrodd dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a'r broses i'w dilyn rhwng Arweinyddion Grŵp a'r Pwyllgor Safonau.	• Trafodwyd y broses adrodd ar gyfer Arweinyddion Grŵp yn ystod 2023/24 mewn cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ar 25/10/2024. Gwnaed diwygiadau i'r ffurflen adrodd. • Cyflwynodd Gadeirydd y Pwyllgor Safonau y ffurflen adrodd ddiwygiedig i'r Arweinyddion Grwpiau ar 30/01/2025. • Rhannwyd y ffurflenni cais gyda'r Arweinyddion Grŵp yn ogystal â chais i ddychwelyd y ffurflenni wedi'u cwblhau i'r Swyddog Monitro erbyn 30/04/2025. • Derbyniwyd ffurflenni wedi eu cwblhau a threfnwyd cyfarfodydd rhwng yr Arweinyddion Grŵp ac Aelodau lleyg y Pwyllgor Safonau yn ystod Haf 2025. • Mae gwybodaeth o'r cyfarfodydd gydag Arweinyddion Grŵp wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn yn 09/2025.
2	Gweithredu'r Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned	• Pan fo'n ofynnol / yn ôl disgresiwn y Cadeirydd.	• Trafodwyd Protocol Datrysiad Lleol y Cyngor Sir yn y Pwyllgor Safonau yn 02/2025. • Cynigiwyd diwygiadau. Bydd gwaith yn mynd rhagddo fel rhan o'r Rhaglen Waith ar gyfer 2025 - 2026, er mwyn gweithredu'r newidiadau arfaethedig. • Nifer yr achosion a gyfeiriwyd dan y Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer CSYM: - Dim • Nifer yr achosion a gyfeiriwyd dan y Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer CTaCh: - Dim

3	Cynnig a darparu hyfforddiant sydd ar gael i arweinwyr pleidiau gwleidyddol Angen penderfynu: • Pwy fydd yn darparu'r hyfforddiant • Cynnwys Aelodau'r Pwyllgor Safonau • Cynnwys Uwch Swyddogion?	• Rhaid gwneud y trefniadau hyn ar ddechrau bob gweinyddiaeth a rhaid cynnal hyfforddiant cyn pen 6 mis o'r etholiad, a rhaid ei adolygu'n flynyddol. • Bydd y Pwyllgor Safonau'n annog Arweinyddion Grŵp i gwblhau hyfforddiant a ddatblygir dan sgôp Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol a/neu drwy'r CLILG. • Yn lleol, bydd y Pwyllgor Safonau'n parhau i weithio gyda'r adran Hyfforddiant (AD) i drefnu Hyfforddiant 1-1 ar gyfer Arweinyddion Grŵp er mwyn eu cefnogi gyda'u rolau fel arweinwyr statudol ar faterion sy'n cael eu hystyried yn berthnasol ar gyfer Arweinyddion Grŵp lleol.	• Mynychodd Gadeirydd y Pwyllgor Safonau gyfarfod gyda'r Arweinyddion Grŵp ar 10/10/2024 i gyflwyno'r rhaglen a argymhellwyd gan yr Adain Hyfforddiant (Adnoddau Dynol). • Darparwyd diweddariad gan y Rheolwr Hyfforddiant AD yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau ar 06/02/2025. • Mae gwaith yn parhau o ran proffilio DISC a sesiynau hyfforddi dilynol, a bydd hyn wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Waith ar gyfer 2025-2026.
4	Cyfathrebu gydag arweinyddion pleidiau gwleidyddol gan gynnwys mewn perthynas â dyletswydd arweinyddion grŵp dros ymddygiad eu haelodau	• Cadeirydd ac Is-gadeirydd i adrodd mewn cyfarfodydd Arweinyddion Grwpiau yn dilyn bob cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau a chyflwyno'r Newyddlen arfaethedig. • Adrodd / cyfathrebu pellach i'w wneud ar gais. • Unrhyw waith sydd ei angen fel rhan o ddyletswydd y Pwyllgor Safonau i asesu a ddylid rhyddhau arweinyddion grŵp o'u dyletswyddau statudol.	• Cyfarfod yr Arweinyddion Grŵp (cyflwyniad gan Trefor Owen fel Is-gadeirydd) ar 18/07/2024 i gyflwyno canfyddiadau cyffredinol/gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad ar gofrestrau o ddiddordebau'r Aelodau (cafodd cyfarfodydd yr Arweinyddion Grŵp ar 06/06/24 a 20/06/24 eu canslo). • Cyfarfod yr Arweinyddion Grŵp (cyflwyniad gan Gadeirydd y Pwyllgor) ar 10/10/24 i ddarparu diweddariad ar y materion a godwyd yn y cyfarfod ffurfiol yn 06/2024; cyflwyno'r Newyddlen, trafod hyfforddiant mandadol Aelodau a rôl yr Arweinyddion Grŵp a hyfforddiant Arweinyddion Grŵp.* • Cyfarfod Arweinyddion Grŵp (cyflwyniad gan Gadeirydd y Pwyllgor) ar 30/01/2025 i gyflwyno ymateb arfaethedig y Pwyllgor i Ymgynghoriad OGCC yn ei arfer o hysbysu Cynghorwyr pan mae cwynion yn cael eu cyflwyno. *Cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau gyfarfod gyda 2 arweinydd

			grŵp i drafod y cofnod hyfforddiant mandadol ar gyfer aelodau eu grŵp yn 12/2024 a 01/2025. Codwyd y pryder yn dilyn adroddiad y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau yn 07/2024. Gwnaed sylw cyffredinol yng nghyfarfod yr Arweinyddion Grŵp yn 10/2024, a chan nad oedd unrhyw welliant wedi'i nodi, trefnwyd cyfarfodydd gyda 2 Arweinydd Grŵp.
5	Cyfathrebu gydag aelodau CSYM / Cynghorau Tref a Chymuned	• Anfon newyddlenni yn dilyn y cyfarfodydd ffurfiol.	• Newyddlenni (Rhifyn 7) wedi'u hanfon mewn perthynas â chyfarfod Mehefin - Cynghorau Tref a Chymuned yn 09/2024 ac Aelodau CSYM yn 10/2024. • Oherwydd nad oes gan swyddogion fawr o gapasiti i gefnogi'r gwaith hwn, mae'r Pwyllgor Safonau wedi penderfynu peidio parhau gyda'r arferiad hwn. Bydd dulliau cyfathrebu amgen yn cael eu trafod fel rhan o Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025-2026.
6	Cyfarfodydd	• Cyfarfodydd ffurfiol yn 06/2024 a 12/2024, yn ôl y gofyn. • Efallai y trefnir cyfarfodydd anffurfiol pan fo'n ofynnol.	• 13/05/2024 – cyfarfod anffurfiol • 20/05/2024, 24/05/2024 a 03/06/2024 - cafodd aelodau lleyg y Pwyllgor Safonau gyfarfod gyda 4 Arweinydd Grŵp. • 18/06/2024 – Cyfarfod ffurfiol • 01/07/2024 – Cyfarfod anffurfiol (2) • 06/09/2024 – Hyfforddiant gwrandawiadau • 25/10/2024 – Cyfarfod anffurfiol • 11/12/2024 – Wedi canslo cyfarfod ffurfiol • 24/01/2025 – Cyfarfod ffurfiol • 06/02/2025 – Cyfarfod ffurfiol • 26/02/20205 – Cyfarfod ffurfiol eithriadol • Cynhelir cyfarfodydd ffurfiol fel cyfarfodydd hybrid. Fel rheol, mae cyfarfodydd anffurfiol yn cael eu cynnal fel cyfarfodydd rhithiol yn unig.

7	Adrodd am gwynion - Adroddiadau Diweddaru Chwarterol	• Bydd adroddiadau'n cael eu cynnwys yn Agenda ffurfiol y Pwyllgor (adrodd ddwywaith y flwyddyn). • Mae adroddiad y Pwyllgor Safonau'n trafod unrhyw dueddiadau penodol sy'n destun pryder. Angen parhau i adolygu hyn a sicrhau bod y broses yn gwarchod a pharchu (unrhyw rai o) ofynion cyfrinachedd yr OGCC mewn perthynas â'r materion hyn.	• Chwarter 1 - anfonwyd neges e-bost ar 02/07/2024 • Chwarter 2 - anfonwyd neges e-bost ar 01/10/2024 • Chwarter 3 - anfonwyd neges e-bost ar 18/01/2025 • Chwarter 4 - anfonwyd neges e-bost ar 02/04/2025 • Chwarteri 1-3 wedi'u cynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 06/02/2025
8	Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau	• Annog holl aelodau'r Pwyllgor Safonau i gwblhau'r holl hyfforddiant mandadol. • Trefnu unrhyw hyfforddiant arall sy'n ofynnol, mewn ymgynghoriad gyda Rheolwr Hyfforddiant AD.	• Cynigir hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor Safonau yn unol â'r Cynnig Hyfforddiant ar gyfer Aelodau. • Darparwyd hyfforddiant 'gwrandawiadau' i holl Gadeiryddion Pwyllgorau Safonau drwy'r Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol yn 04/2024. • Hyfforddiant 'gwrandawiadau' lleol wedi'i drefnu ar gyfer y Pwyllgor Safonau ar 06/09/2024
9	Hyfforddiant Cod Ymarfer ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned (hyfforddiant gloywi canol tymor)	• I drefnu, mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Hyfforddi AD, hyfforddiant ar y Cod Ymarfer fydd yn cael ei gynnig i Gynghorau Tref a Chymuned yn ystod Hydref 2024.	• 4 sesiwn wedi'u trefnu fel a ganlyn: • Dydd Llun 14/10/2024 – 2:00pm-3:30pm Cymraeg • Dydd Mercher 23/10/2024 – 2:00pm - 3:30pm Saesneg • Dydd Iau 7/11/2024 – 6:30pm-8:00pm Cymraeg • Dydd Iau 19/11/2024 – 6:30pm-8:00pm Saesneg • Adroddiad ar bresenoldeb wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod yn 06/2025.
10	Hyfforddiant Cadeirio - Herio Ymddygiad	• Cadeirydd / Is-gadeirydd i fynychu hyfforddiant sy'n cael ei drefnu drwy'r Rheolwr Hyfforddiant AD ar ddelio gydag ymddygiad heriol gan aelodau a/neu'r cyhoedd.	• Ychwanegir y mater hwn at Raglen y Pwyllgor Safonau ar gyfer 25/26
11	Sut i wneud cwyn	• Rhaid ystyried sut i roi cyhoeddusrwydd i gwynion yn erbyn Aelodau unwaith y cytunir beth fydd y broses ar gyfer 'cwynion lefel isel' yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr Adolygiad Penn.	• Dal yn disgwyl am fanylion gan Lywodraeth Cymru am eu hymgynghoriad ar yr Adolygiad Penn.

12	Caniatâd Arbennig	• Pan fydd ceisiadau'n codi.	• Nid oes unrhyw geisiadau am ganiatâd arbennig wedi'u derbyn ar gyfer y cyfnod hwn.
13	Adroddiadau Blynyddol Aelodau	• Dylai'r Pwyllgor Safonau barhau i annog y weithred o gwblhau Adroddiadau Blynyddol a gweithio gyda Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â'r mater hwn, gan gofio mai dewis bob Cynghorydd unigol yw cwblhau adroddiad blynyddol ai peidio.	• Mae'r adroddiadau a gyflwynwyd gan y Pennaeth Democratiaeth yng nghyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau yn cynnwys manylion am Adroddiadau Blynyddol.
14	Cynghorau Tref a Chymuned	• Rhaid i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd fynychu Cyfarfodydd Fforwm rheolaidd i gyflwyno materion o ddiddordeb gan y Pwyllgor Safonau i Gynghorau Tref a Chymuned a Chylchlythyrau.	• Mynychodd y Cadeirydd gyfarfod y Fforwm ar 19/09/2024. • Oherwydd problemau gyda chapasiti staff, cafodd cyfarfod y Pwyllgor Safonau a drefnwyd yn 12/2024 ei ganslo a'i aildrefnu, felly cyfarfu Cadeirydd y Pwyllgor Safonau â'r Fforwm yn 05/2025.
15	Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol	• Dylai Cadeirydd y Pwyllgor Safonau fynychu cyfarfodydd y Fforwm a chynnig adborth i aelodau'r Pwyllgor Safonau.	• Mynychodd Trefor Owen (yn ei gapasiti fel Is-gadeirydd ar y pryd) gyfarfod o'r Fforwm ar 24/06/2024. Rhannwyd nodiadau gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau, a chawsant eu trafod yn ddiweddarach yn 06/2024. • Mynychodd Trefor Owen (yn ei gapasiti fel Cadeirydd) gyfarfod o'r Fforwm ar 27/01/2025. Rhannwyd nodiadau gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau yn 02/2025. • Trefnwyd hyfforddiant gwrandawiadau i Aelodau'r Fforwm (h.y. Cadeirydd y Pwyllgor Safonau) ar 23/04/2024. Nid oedd Rhys Davies (yn ei gapasiti fel Cadeirydd ar y pryd) yn gallu mynychu, ond derbyniodd recordiad o'r hyfforddiant.
16	OGCC a PDC yn adrodd ar achosion Darparu dolenni ar gyfer aelodau'r	• Darparu adroddiadau ym mhob cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau yn cyfeirio at yr achosion a gyhoeddwyd gan y OGCC a PDC.	• Wedi'i gynnwys yn yr agenda ar gyfer cyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau yn 06/2024 a 02/2025. • Materion yn y Newyddlenni/gohebiaeth wedi'u

	Pwyllgor Safonau.		rhannu gyda Chynghorau Tref a Chymuned ac Aelodau CSYM.
17	Adroddiad Penn / ymgynghoriad LlC ar faterion moesegol	• Mae'r adroddiad Penn wedi'i gyhoeddi. Ymgynghoriad LlC wedi dod i ben 23.06.2023. • Ymatebion i'r Ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan LlC yn 11/2023. • Angen gwaith pellach pan mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi. Dim amserlen gyhoeddus ar hyn o bryd.	• Dim manylion pellach wedi'u derbyn yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.
18	Trafodaethau Blynyddol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau	• Bydd y Cadeirydd yn cwrdd ag Aelodau ac yn adrodd ar unrhyw allbynnau sydd angen eu cyfeirio at y Swyddog Monitro. • Bydd y Cadeirydd yn cael sgwrs gyda'r Swyddog Monitro.	• Penodwyd Cadeirydd ac Is-gadeirydd newydd yn 02/2024. Ymddiswyddodd y Cadeirydd o'r rôl yn 08/2024. Penodwyd yr Is-gadeirydd fel Cadeirydd yn 09/2024. Cafodd Is-gadeirydd ei benodi yn 02/2025. • O ganlyniad i hyn, a chapasiti swyddogion (oherwydd bod swydd yn wag ers Haf 2024) nid yw'r mater hwn wedi gwneud cynnydd oherwydd yr angen i flaenoriaethu materion eraill ar y rhaglen waith. Bydd y mater hwn yn cael ei gynnwys yn Rhaglen Waith 2025-2026. Mae'r cyfarfodydd adolygu hyn bellach wedi'u cynnal.
19	Arsylwi'r Cyngor a chyfarfodydd ei Bwyllgorau o bryd i'w gilydd.	• Bydd aelodau'r Pwyllgor Safonau yn arsylwi cyfarfodydd y Cyngor Sir neu ei Bwyllgorau os bydd angen, a bydd hefyd yn darparu adborth i'r Cadeirydd perthnasol. • Yn dilyn ymlaen o waith yn ystod 2023/2024, bydd y Pwyllgor Safonau'n parhau i arsylwi cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Y bwriad gwreiddiol yw bod dau aelod annibynnol yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor am 6 mis (gan ddechrau ym mis Mawrth 2024), gyda'r bwriad o gynnal adolygiad ar ôl 3 mis (Mai); efallai bydd yr ymarferiad arsylwi yn dod i ben yn gynt na'r disgwyl neu'n cael ei ymestyn, fel y gwelir yn briodol. Bydd canfyddiadau cyffredinol yn cael eu bwydo yn ôl	• Dechreuodd y Pwyllgor Safonau arsylwi cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn 033/2024, fel rhan o waith ataliol y Pwyllgor yn dilyn atgyfeiriad gan y Swyddog Monitro. Roedd hyn yn dilyn cyfarfod rhwng Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau (ar y pryd), a Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Bwriad y Pwyllgor Safonau oedd arsylwi cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion am gyfnod o 6 mis, gan gynnal adolygiad ar ôl 3 mis. • Mynychodd aelodau lleyg y Pwyllgor Safonau gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn eu tro yn 03, 04

		i Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar ddiwedd yr ymarferiad; bydd unrhyw bryderon brys yn cael eu hadrodd yn gynt.	a 04/2024. Yn dilyn hyn, adolygodd yr aelodau lleyg y mater mewn cyfarfod anffurfiol ar 13/05/2024 a phenderfynu peidio â pharhau gyda'r gwaith arsylwi/adolygu ymhellach. • Ni chwblhawyd unrhyw arsylwadau pellach yn ystod y flwyddyn.
20	Cefnogi gwaith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wrth iddo annog llesiant aelodau'r Cyngor Sir.	• Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wrth iddo arwain y gwaith hwn.	• Mae'r Pennaeth Democratiaeth yn cyflwyno ei ddiweddariad mewn perthynas â materion yn ymwneud ag Aelodau mewn cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau.
21	Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch - cynyddu gwerth y gofrestr i £25.	• Yn dilyn trafodaeth ar lefel genedlaethol yn Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol Cymru i safoni'r trothwy ar gyfer cofrestru rhoddion a lletygarwch ym mhob un o'r awdurdodau yng Nghymru, cytunodd y Cyngor, mewn egwyddor y byddai'r trothwy arfaethedig o £25 yn cael ei weithredu yn yr awdurdod hwn, yn hytrach na'r cyfyngiad £20 presennol. Fodd bynnag, mae angen newid Cyfansoddiad y Cyngor cyn y gellir rhoi'r trothwy newydd ar waith. Gwnaed argymhelliad y dylid cynnwys yr argymhelliad hwn wrth gyflwyno'r adroddiad priodol nesaf i'r Pwyllgor Gwaith / y Cyngor llawn. Nid oes cyfle o'r fath wedi codi hyd yma. Dyma yw bwriad y Pwyllgor.	• Nid oes cyfle wedi bod i weithredu ar y mater hwn. • Bydd y mater hwn yn cael ei gynnwys yn Rhaglen Waith 2025-2026, ond nid yw'n cael ei ystyried yn flaenoriaeth.
22	Camau'n codi o'r adolygiadau ar gofrestr diddordebau Aelodau etholedig gan Aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau.	• Cwblhawyd yr adolygiadau ym mis Ionawr 2024. Trafodwyd y canfyddiadau mewn cyfarfod anffurfiol ar 01/02/2024. Mae gwaith yn parhau er mwyn sicrhau bod canfyddiadau'r adolygiad hwnnw yn cael eu dosbarthu ymhlith (a) Cynghorwyr unigol, (b) arweinyddion grŵp, (c) swyddogion a (d) yr holl aelodau.	• Cynhaliwyd adolygiad o sampl o gofrestrau diddordebau Cynghorwyr Sir yn 01/2024 (fel rhan o Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023-2024), a thrafodwyd y canfyddiadau mewn cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau yn 02/2024. • Cafodd y gwaith o weithredu ar y canfyddiadau o ganlyniad i'r adolygiadau ei gynnwys fel cam gweithredu ar Raglen Waith 2024/2025.

			• Adroddwyd ar y broses yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau yn 06/2024 a 02/2025. • Anfonwyd gohebiaeth at Gynghorwyr unigol lle'r oedd yr adolygydd o'r farn bod yr Aelod angen adolygiad / diweddariad / eglurhad am unrhyw wybodaeth. • Lle'r oedd pryderon ynghylch llesiant e.e. oherwydd cofnodion presenoldeb, anfonwyd gohebiaeth at yr Arweinydd Grŵp perthnasol. • Nodwyd materion corfforaethol e.e. materion technegol gan aelodau lleyg tra'n cwblhau adolygiadau, ac anfonwyd gohebiaeth at y Prif Weithredwr er mwyn codi'r pryderon hyn. • Paratowyd adroddiad canfyddiadau cyffredinol, a chafodd ei rannu gyda'r Arweinyddion Grŵp, ac yna'r holl Aelodau yn 07/2024.
23	Mynediad at wybodaeth am y Pwyllgor Safonau ar y Cyngor Sir	• Cafodd y mater ei gynnwys yn rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/2024 ond, oherwydd ymrwymiadau gwaith eraill, ni weithredwyd arno. • Mae'r wefan yn cael ei datblygu'n helaeth, a byddai'n amserol cymryd camau er mwyn sicrhau bod mynediad rhwydd ar gael at wybodaeth am y Pwyllgor Safonau ar wefan y Cyngor.	• Mae gwybodaeth am y Pwyllgor Safonau wedi'i gynnwys ar wefan y Cyngor ac mae manylion cyfarfodydd Aelodau yn gyfredol. Fodd bynnag, oherwydd capasiti, nid oes gwaith pellach wedi'i wneud i ychwanegu'r wybodaeth honno sydd eisoes ar gael. • Bydd y mater hwn yn cael ei gynnwys yn Rhaglen Waith 2025-2026.
24	Ymateb i geisiadau a wnaed mewn perthynas ag archwiliadau sy'n mynd rhagddynt gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o ganlyniad i gwynion yn erbyn Cynghorwyr Sir /	• Mae OGCC yn archwilio cwynion mewn perthynas ag 2 Cynghorydd Sir ac 1 Cynghorydd Cymunedol ar hyn o bryd. • Cymryd unrhyw gamau adferol mewn perthynas â'r materion hyn ac unrhyw faterion eraill all godi yn ystod y flwyddyn.	• Mae OGCC yn ymchwilio cwyn mewn perthynas ag 1 Cynghorydd Sir ar hyn o bryd. • Anfonodd OGCC ei adroddiad ar archwiliad i gŵyn mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad yn erbyn Cynghorydd Sir (dan adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000) at y Swyddog Monitro yn 12/2024. Roedd yr adroddiad yn nodi y dylid cyfeirio'r mater i'w ystyried gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Cynhaliodd y Pwyllgor Safonau Benderfyniad dechreuol ar 26/02/2025, yn unol â'i

	Cynghorwyr Cymuned.		Weithdrefn Gwrandawiadau. Yn y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor Safonau y dylai'r gŵyn fod yn destun gwrandawiad lleol gyda'r Pwyllgor. Cynhaliwyd y gwrandawiad y tu allan i gwmpas yr Adroddiad Blynyddol hwn, ac felly mae ymdrin â'r mater hwn yn rhywbeth yr adroddir arno yn Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2025/2026.

25	Materion yn deillio o drafodaethau gydag Arweinyddion Grŵp wrth baratoi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer y Cyngor llawn.	• Canlyniad cyfarfodydd: Materion i'w gweithredu:
		  • Gohebiaeth gyffredinol mewn perthynas â phroses 2023/2024 i'w hanfon at Arweinyddion Grŵp.
		  • Addasu ffurflen adborth i Arweinyddion Grŵp a bod y Pwyllgor Safonau'n annog Arweinyddion Grŵp i gynnwys mwy o dystiolaeth ym mocsys 1-3 (addasu fformat, cadarnhau na fydd y ffurflen yn cael ei chyhoeddi) - sicrhau cysondeb gyda gwybodaeth am hyfforddiant sy'n cael ei derbyn yn chwarterol gan Arweinyddion Grŵp.
		  • Anogir Arweinyddion Grŵp i gwblhau adolygiadau datblygiad personol ffurfiol yn flynyddol gydag Aelodau'r Grŵp.
		  • Trefnu'r holl gyfarfodydd rhwng Arweinyddion Grŵp a'r Pwyllgor Safonau ar yr un diwrnod, er mwyn hwyluso trefniadau a chadw costau'n isel.
		
		Gofynnir i Arweinyddion Grŵp fynychu eu cyfarfod gyda'r Pwyllgor Safonau ar eu pen eu hunain er mwyn creu awyrgylch agored lle all y Pwyllgor ac Aelodau drafod rhwymedigaeth statudol yr Arweinyddion Grŵp yn agored.
			• Anfonwyd gohebiaeth gyffredinol mewn perthynas â phroses 2023/2024 at Arweinyddion Grŵp 23/08/2024.
			• Trafodwyd ffurflen adborth yr Arweinyddion Grŵp ar gyfer y Pwyllgor Safonau mewn cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau yn 10/2024, a gwnaed addasiadau. Cyflwynwyd y ffurflen adrodd ddiwygiedig i'r Arweinyddion Grŵp mewn cyfarfod ar 30/01/2025. Cafodd Arweinyddion Grŵp gyfle i godi unrhyw bryderon yn y cyfarfod neu drwy ohebiaeth. Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth. Anfonwyd y fersiwn derfynol at Arweinyddion Grŵp yn 03/2025 gyda chais iddynt gwblhau'r ffurflen erbyn 30/04/2025, fel y gellir trefnu cyfarfodydd yn 05/2025.
			• Cynhaliwyd cyfarfodydd unigol gydag Arweinyddion Grŵp ar 16/06/2025 a 23/05/2025.
			• Cytunwyd ar grynodeb gyda Chadeirydd y Pwyllgor Safonau a'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

26	Cyngor Cymuned B	• Yn dilyn ymlaen o waith yn 2024/25, mae bwriad i gytuno ar ddyddiad adolygu gyda'r Cyngor Cymuned hwn, os oes angen hynny.	• Anfonwyd gohebiaeth at Gadeirydd y Cyngor Cymuned hwn ar 21/06/2024, yn nodi'r digwyddiadau ers 02/2023, ac yn gofyn i'r Cyngor gadarnhau y byddai'r Adolygiad yn cael ei gynnal erbyn diwedd 07/2024 neu nad oedd yn dymuno i'r Pwyllgor Safonau gynnal Adolygiad o'r fath. • Dywedodd Clerc y Cyngor, mewn gohebiaeth ar 01/08/2024 na fyddai Adolygiad o'r fath yn bosibl tan 01/2025. Gofynnwyd am gadarnhad ysgrifenedig am gais y Clerc dros y ffôn, ond ni dderbyniwyd unrhyw gadarnhad. Ar y sail bod yr adolygiad wedi'i gynnig i'r Cyngor hwn ers Gwanwyn 2023, heb unrhyw gytundeb ar ddyddiad, a gan fod Adolygiad yn broses wirfoddol ac na wnaed cais ffurfiol am Adolygiad, penderfynodd y Pwyllgor Safonau nad oedd y Cyngor Cymuned yn dymuno i'r adolygiad gael ei gynnal ac felly ni chafwyd cyswllt pellach mewn perthynas â'r cynnig am Adolygiad.

ATODIAD 3

Rhaglen Waith Arfaethedig y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2025/2026

Rhif	Eitemau	Cam Gweithredu
1	Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer y Cyngor Llawn	• Fod y Pwyllgor yn dechrau ystyried a gweithio ar yr Adroddiad Blynyddol cyn ei gyfarfod ffurfiol yn 06/2026. • Fod y Pwyllgor yn datblygu ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025/2026 (a'r cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer 2026/2027) ar ddiwedd tymor 2025/2026. • Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag Arweinyddion Grŵp mewn perthynas â'u cyfrifoldebau adrodd dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a'r broses i'w dilyn rhwng Arweinyddion Grŵp a'r Pwyllgor Safonau.
2	Gweithredu'r Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned	• Pan fo'n ofynnol / yn ôl disgresiwn y Cadeirydd.
3	Cynnig a darparu hyfforddiant sydd ar gael i arweinwyr pleidiau gwleidyddol Angen penderfynu: • Pwy fydd yn darparu'r hyfforddiant • Cynnwys Aelodau'r Pwyllgor Safonau	• Rhaid gwneud y trefniadau hyn ar ddechrau bob gweinyddiaeth, a dylid cynnal hyfforddiant cyn pen 6 mis o'r etholiad. • • Bydd y Pwyllgor Safonau'n annog Arweinyddion Grŵp i gwblhau hyfforddiant a ddatblygir dan sgôp Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol a/neu drwy'r CLILG. • Yn lleol, bydd y Pwyllgor Safonau'n parhau i weithio gyda'r adran Hyfforddiant (AD) i drefnu Coetsio 1-1 ar gyfer Arweinyddion Grŵp er mwyn eu cefnogi gyda'u rolau statudol fel arweinyddion grŵp.
4	Cyfathrebu gydag arweinyddion pleidiau gwleidyddol gan gynnwys mewn perthynas â dyletswydd arweinyddion grŵp dros ymddygiad eu haelodau	• Cadeirydd ac Is-gadeirydd i adrodd mewn cyfarfodydd Arweinyddion Grwpiau yn dilyn bob cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau. • Adrodd / cyfathrebu pellach i'w gyflawni ar gais. • Unrhyw waith sydd ei angen fel rhan o ddyletswydd y Pwyllgor Safonau i asesu a ddylid rhyddhau arweinyddion grŵp o'u dyletswyddau statudol.
5	Cyfathrebu gydag aelodau CSYM / Cynghorau Tref a Chymuned	• Yn dilyn cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor. Cytuno sut i gyfathrebu negeseuon allweddol orau. O bosib trwy ddarparu dolenni a phresenoldeb yn y Fforwm.
6	Cyfarfodydd	• Cyfarch y gofyn statudol o gynnal un cyfarfod ffurfiol yn flynyddol. Mae wedi bod yn arferol cynnal 2 gyfarfod ffurfiol. • Efallai y trefnir cyfarfodydd anffurfiol pan fo'n ofynnol.
7	Adrodd am gwynion - Adroddiadau Diweddaru Chwarterol	• Bydd adroddiadau'n cael eu cynnwys ar Raglenni ffurfiol y Pwyllgor. • Mae adroddiad y Pwyllgor Safonau'n trafod unrhyw dueddiadau penodol. Angen parhau i adolygu hyn a sicrhau bod y broses yn gwarchod a pharchu (unrhyw rai o) ofynion cyfrinachedd yr OGCC mewn perthynas â'r materion hyn.

ATODIAD 3

8	Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau	• Parhau i sicrhau fod holl aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cwblhau hyfforddiant mandadol. • Trefnu unrhyw hyfforddiant arall sy'n ofynnol, mewn ymgynghoriad gyda Rheolwr Hyfforddiant AD.
9	Hyfforddiant Cadeirio - Herio Ymddygiad	• Cadeirydd / Is-gadeirydd i fynychu hyfforddiant sy'n cael ei drefnu drwy'r Rheolwr Hyfforddiant AD ar ddelio gydag ymddygiad heriol gan aelodau a/neu'r cyhoedd.
10	Sut i wneud cwyn	• Ystyried sut i roi cyhoeddusrwydd i gwynion yn erbyn Aelodau unwaith y cytunir beth fydd y broses ar gyfer 'cwynion lefel isel' yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr Adolygiad Penn.
11	Caniatâd Arbennig	• Pan fydd ceisiadau'n codi.
12	Adroddiadau Blynyddol Aelodau	• Bydd y Pwyllgor Safonau yn parhau i annog y weithred o gwblhau Adroddiadau Blynyddol a gweithio gyda Phennaeth Democratiaeth mewn perthynas â'r mater hwn, gan gofio mai dewis bob Cynghorydd unigol yw cwblhau adroddiad blynyddol ai peidio.
13	Cynghorau Tref a Chymuned	• Bydd Cadeirydd a/neu'r Is-gadeirydd yn mynychu Cyfarfodydd Fforwm rheolaidd i gyflwyno materion o ddiddordeb gan y Pwyllgor Safonau i Gynghorau Tref a Chymuned.
14	Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol	• Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn mynychu cyfarfodydd y Fforwm a chynnig adborth i aelodau'r Pwyllgor Safonau.
15	OGCC a PDC yn adrodd ar achosion Darparu dolenni ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau.	• Darparu adroddiadau ym mhob cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau yn cyfeirio at yr achosion a gyhoeddwyd gan yr OGCC a PDC.
16	Adroddiad Penn / ymgynghoriad LlC ar faterion moesegol	• Mae'r adroddiad Penn wedi'i gyhoeddi. Ymgynghoriad LlC wedi dod i ben 23.06.2023. • Ymatebion i'r Ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan LlC yn 11/2023. • Angen gwaith pellach pan mae ymateb terfynol Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi.
17	Trafodaethau Blynyddol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau	• Bydd y Cadeirydd yn cwrdd ag Aelodau ac yn adrodd ar unrhyw allbynnau sydd angen eu cyfeirio at y Swyddog Monitro. • Bydd y Cadeirydd yn cael sgwrs gyda'r Swyddog Monitro.
18	Goruchwylio'r Cyngor a chyfarfodydd ei Bwyllgorau o bryd i'w gilydd.	• Bydd aelodau'r Pwyllgor Safonau yn goruchwylio cyfarfodydd y Cyngor Sir neu ei Bwyllgorau os bydd angen, a bydd hefyd yn darparu adborth i'r Cadeirydd perthnasol.
19	Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch - cynyddu gwerth y gofrestr i £25.	• Yn dilyn trafodaeth ar lefel genedlaethol yn Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol Cymru i safoni'r trothwy ar gyfer cofrestru rhoddion a lletygarwch ym mhob un o'r awdurdodau yng Nghymru, cytunodd y Cyngor, mewn egwyddor yn 09/2023, y byddai'r trothwy arfaethedig o £25 yn cael ei weithredu yn yr awdurdod hwn, yn hytrach na'r cyfyngiad £20 presennol. Fodd bynnag, mae angen penderfyniad gan y Cyngor llawn cyn y gellir rhoi'r trothwy newydd ar waith. Gwnaed argymhelliad y dylid cynnwys yr

ATODIAD 3

		argymhelliad hwn wrth gyflwyno'r adroddiad priodol nesaf i'r Pwyllgor Gwaith / y Cyngor llawn. Nid oes cyfle o'r fath wedi codi hyd yma. Dyma yw bwriad y Pwyllgor.
20	Mynediad at wybodaeth am y Pwyllgor Safonau ar wefan y Cyngor Sir	• Cafodd y mater ei gynnwys yn rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/2024 a 2024/2025 ond, oherwydd blaenoriaethau eraill, ni weithredwyd arno. • Mae'r wefan yn cael ei datblygu'n helaeth, a byddai'n amserol cymryd camau er mwyn sicrhau bod mynediad rhwydd ar gael at wybodaeth am y Pwyllgor Safonau ar wefan y Cyngor.
21	Ymateb i geisiadau a wnaed mewn perthynas ag archwiliadau sy'n mynd rhagddynt gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o ganlyniad i gwynion yn erbyn Cynghorwyr Sir / Cynghorwyr Cymuned.	• Mae 1 achos wedi'i gyfeirio gan OGCC i'r Pwyllgor Safonau i'w ystyried. Bydd adroddiad ar hyn yn cael ei ddarparu yn ystod y cyfnod adrodd 2025/2026. • Mae OGCC yn archwilio cwyn mewn perthynas ag 1 Cynghorydd Sir ar hyn o bryd. • Cymryd unrhyw gamau adferol mewn perthynas â'r mater hwn ac unrhyw faterion eraill all godi yn ystod y flwyddyn.
22	Materion yn deillio o drafodaethau gydag Arweinyddion Grŵp wrth baratoi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer y Cyngor llawn.	• Canlyniad cyfarfodydd: Materion i'w gweithredu: • Gohebiaeth gyffredinol mewn perthynas â phroses 2024/2025 i'w hanfon at Arweinyddion Grwpiau (os oes angen). • Addasu'r ffurflen i'w chwblhau gan Arweinyddion Grŵp er mwyn hwyluso'r gwaith o'i chwblhau. • Adolygu'r cynnig hyfforddiant
23	Protocol Datrysiad Lleol	• Gweithredu newidiadau i'r Protocol Datrysiad Lleol yn dilyn adolygiad yn 02/2025, sy'n cyd-fynd â'r egwyddorion a rannwyd gan OGCC.

Newyddlen y Pwyllgor Safonau: Cynghorau Tref a Chymuned

Haf 2024 - Rhifyn 7

Mae'r **Pwyllgor Safonau** (PS) yma i gynorthwyo Cynghorwyr i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad sydd wedi cael ei fabwysiadu gan eich Cyngor Tref neu Gymuned (CTC). Fel y gwyddoch, mae cynnal ymddygiad moesegol o safon uchel yn rhan hanfodol o'ch rôl yn cynrychioli'r cyhoedd.

Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned

Mae'r PS yn falch o allu cynnig pedwar sesiwn hyfforddi ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Clercod a Chynghorwyr CTC yn ystod tymor yr Hydref 2024. Mae cynnig yr hyfforddiant hwn yn cael ei ystyried yn amserol (hanner ffordd drwy'r tymor ers yr etholiadau lleol diwethaf, pan gynigwyd yr hyfforddiant hwn ddiwethaf) ac oherwydd bod cynnydd wedi bod yn nifer y cwynion mewn CTCau lleol yn ystod Chwarter 4 2023/2024. Mae'r PS yn awyddus i annog Clercod a Chynghorwyr i fynychu'r sesiynau hyn er mwyn sicrhau eich bod yn gwella'ch dealltwriaeth o'r Cod Ymddygiad.

Mae'r sesiynau a gynigir fel a ganlyn:

Dydd Llun, 14/10/2024 am **2:00yp (Cymraeg)**

Dydd Mercher 23/10/2024 am **2:00yp (Saesneg)**

Dydd Iau 07/11/2024 am **6:30yh (Cymraeg)**

Dydd Mawrth 19/11/2024 am **6:30yh (Saesneg)**

Bydd y sesiynau yn para awr a hanner. Fe'i cynhelir yn rhithiol.

Yn ôl Canllaw ar Gosbau Panel Dyfarnu Cymru, mae methiant i fynychu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn cael ei ystyried yn ffactor gwaethygol wrth bennu cosb am dorri'r Cod. Nid yw mynychu hyfforddiant yn ffordd o sicrhau na fydd cwynion yn cael eu gwneud yn erbyn Cynghorwyr ond mae'n ffordd o addysgu Clercod a Chynghorwyr er mwyn sicrhau eich bod yn deall y Cod a'i oblygiadau.

Mae gohebiaeth eisoes wedi cael ei hanfon at Glercod y CTCau a gofynnir i chi gysylltu â'r Adain Gyfreithiol i gael lle ar y cwrs yma. Mae lleoedd yn gyfyngedig a gweithredir ar sail y cyntaf i'r felin. Cysylltwch â **Cyfraith@ynysmon.llyw.cymru** **erbyn 27/09/2024** i wneud yn siŵr eich bod yn cael lle, gan nodi pa sesiwn yr hoffech ei mynychu. **Nid oes cost ar gyfer y sesiynau hyn.**

Dros y dudalen..

022335/819790

Caniatâd arbennig
Mae'n bosib i Gynghorwyr dderbyn caniatâd arbennig gan y PS i gymryd rhan mewn penderfyniadau hyd yn oed os oes gan yr Aelod hwnnw ddiddordeb sy'n rhagfarnu o dan y Cod Ymddygiad. Mae Clercod y CTCau wedi derbyn canllawiau lleol ar sut i wneud cais am ganiatâd arbennig a byddai'r Swyddog Monitro yn hapus i ddarparu copi pellach ar gais.

Cysylltwch â'r Swyddog Monitro am gyngor a chymorth mewn perthynas ag unrhyw gais y dymunwch ei wneud.

Gwefannau Cymdeithasol
Yn ystod ei gyfarfodydd ffurfiol derbyniodd y PS adroddiadau ar yr achosion Cymru gyfan a ystyriwyd gan **Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** (OGCC) a **Phanel Dyfarnu Cymru** (PDC). Mae gan y Cyngor Sir brotocol cyfryngau cymdeithasol, mae copi ar gael **yma**. O ystyried yr achosion a ystyriwyd gan PDC/OGCC yn ddiweddar, os nad oes gan eich CTC brotocol cyffelyb, efallai y dylech ystyried mabwysiadu protocol o'r fath gan y gallai materion yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol arwain at honiadau o dorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

Cwynion diweddar
Mae'r PS yn poeni bod 5 cwyn wedi cael ei anfon at sylw OGCC ynglŷn ag Aelodau un Cyngor Cymuned yn lleol mewn cyfnod byr o amser ar ddechrau 2024 (yn ystod Chwarter 4 2023/2024). Mae'r ymchwiliad yn dal i fynd rhagddo yn gysylltiedig ag un achos.
Mae hyn yn gynnydd o'i gymharu â Chwarter 1, 2 a 3 pan na chafodd unrhyw gwynion eu hanfon at sylw'r Ombwdsman ynglŷn â Chynghorwyr CTCau Ynys Môn.

Mae OGCC yn annog CTCau i fabwysiadu protocol datrysiad lleol sy'n seiliedig ar brotocol enghreifftiol Un Llais Cymru. Mae'r protocol hwnnw ar gael **yma.**

Ar gyfer materion lle nad ydy'r Protocol yn addas bydd rhaid i chi ystyried anfon cwyn at sylw OGCC.

Ac yn olaf...
Cynhaliwyd cyfarfod ffurfiol diwethaf y PS ar 18/06/2024. Os ydych yn dymuno edrych ar yr eitemau/adroddiadau a ystyriwyd yn ystod y cyfarfod hwnnw, dilynwch y ddolen **hon.**

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau am y math o bynciau yr hoffech eu gweld yn cael sylw yn y newyddlen nesaf, gofynnir i chi gysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau ar **Cyfraith@ynysmon.llyw.cymru**

Newyddlen y Pwyllgor Safonau: Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn

Haf 2024 - Rhifyn 7

Mae'r **Pwyllgor Safonau** (PS) yma i'ch cefnogi i gydymffurfio â'r **Cod Ymddygiad** i aelodau. Fel y gwyddoch, mae cynnal lefel uchel o ymddygiad moesegol yn rhan hanfodol o'ch rôl yn cynrychioli'r cyhoedd.

Hyfforddiant Mandadol ar gyfer Aelodau Etholedig

Noda'r PS fod lefelau presenoldeb Aelodau Etholedig yn ystod hyfforddiant mandadol yn parhau'n is na'r hyn sy'n ddymunol. Fel Pwyllgor, rydym yn awyddus i annog pob Cynghorydd i fynychu hyfforddiant mandadol er mwyn sicrhau fod gennych yr wybodaeth allweddol i'ch galluogi i gyflawni'ch rôl yn llawn. Teimla'r Pwyllgor fod hyfforddiant yn fodd o addysgu Cynghorwyr ac ychwanegu gwerth i'r Cyngor cyfan.

Mae Arweinyddion Grwpiau yn derbyn adroddiad chwarterol ar bresenoldeb aelodau o'u grŵp yn ystod sesiynau hyfforddi a gofynnir i'r Arweinyddion Grwpiau annog Aelodau sydd heb gwblhau'r holl hyfforddiant mandadol i wneud hynny cyn gynted ag y bo modd. Yn yr un modd, gofynnir i'r unigolion sydd heb gwblhau'r hyfforddiant mandadol i gysylltu â'r Adain Hyfforddiant (Adnoddau Dynol) er mwyn gwirio'r trefniadau arfaethedig ar gyfer unrhyw sesiynau hyfforddi yn y dyfodol.

Protocol Cyfryngau Cymdeithasol

Yn ystod ei gyfarfodydd ffurfiol mae'r PS yn derbyn adroddiad ar achosion o bob cwr o Gymru a ystyriwyd gan **Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** (OGCC) a **Phanel Dyfarnu Cymru** (PDC). O ystyried rhai o'r achosion diweddaraf, mae'r PS yn awyddus i atgoffa Aelodau ynglŷn â'r Protocol Cyfryngau Cymdeithasol sydd ar gael ym mharagraff 5.10 yng **Nghyfansoddiad y Cyngor.**

Fe'ch anogir fel Aelodau i ystyried y Protocol hwn wrth i chi ddefnyddio gwefannau cymdeithasol.

Adolygiadau Cofrestrau Diddordebau Aelodau Etholedig

Yn ddiweddar cynhaliodd aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau adolygiad o Gofrestrau Diddordebau sampl o Aelodau Etholedig y Cyngor Sir er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad, a'r gofynion Cofrestru yn benodol.
Penderfynodd y Pwyllgor gymryd y camau gweithredu a ganlyn ar sail eu canfyddiadau:

- Mae rhai o'r Aelodau a oedd yn rhan o'r adolygiad wedi derbyn gohebiaeth bersonol gydag argymhellion i adolygu / diweddaru / esbonio peth o'r wybodaeth yn eu Cofrestrau.
- Pan godwyd pryder am les aelodau, er enghraifft oherwydd newid yn eu patrwm presenoldeb, anfonwyd gohebiaeth at Arweinydd Grŵp yr aelod.
- Codwyd nifer o faterion corfforaethol neu dechnegol ac mae'r rhain wedi cael eu codi â'r Prif Weithredwr.

Dros y dudalen...

- Mae adroddiad cyffredinol er mwyn cynnig adborth ar y pynciau/themâu cyffredinol a godwyd wedi cael ei rannu â'r Arweinyddion Grwpiau yn y lle cyntaf ac yna drwy e-bost â'r holl Aelodau. Gobeithiwn y bydd yr adroddiad yma'n fodd i aelodau ddysgu wrth iddynt ystyried y materion y mae'r PS yn eu hystyried yn arferion da/gwelliannau ar gyfer y dyfodol. Fe'ch anogir i ystyried cynnwys yr adroddiad a gweithredu fel bo'r angen.

Diolch am eich cydweithrediad a gobeithiwn eich bod yn teimlo bod gwerth i'r adolygiadau achlysurol hyn.

Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i Gynghorau Tref a Chymuned
Fel rhan o'i ddyletswydd i sicrhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ac yn dilyn cynnydd yn y nifer o gwynion ynglŷn â Chynghorwyr Tref a Chymuned yn ystod Chwarter 4 2023/2024, mae'r PS wedi trefnu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i Glercod ac aelodau Cynghorau Tref a Chymuned yr ynys yn ystod tymor yr Hydref 2024. Bydd y sesiynau hyn yn para am awr a hanner. Fe'i cynhelir fel sesiynau rhithiol. Mae pedwar sesiwn wedi cael ei threfnu fel a ganlyn -

Dydd Llun, 14/10/2024 am **2:00yp (Cymraeg)**
Dydd Mercher, 23/10/2024 am **2:00yp (Saesneg)**
Dydd Iau, 07/11/2024 am **6:30yh (Cymraeg)**
Dydd Mawrth, 19/11/2024 am **6:30yh (Saesneg)**

Mae'r PS eisoes wedi ysgrifennu at yr holl Gynghorau Tref a Chymuned i'w hysbysu ynglŷn â'r trefniadau hyn.

Yn rhinwedd eich rôl fel Cynghorwyr Sir, gofynnir i chi sicrhau eich bod yn tynnu sylw'r Cynghorau Tref a Chymuned yr ydych chi'n eu mynychu at yr wybodaeth yma ac annog y Clercod a Chynghorwyr i ymuno yn un o'r sesiynau hyn er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

Dylech gysylltu gyda **cyfraith@ynysmon.llyw.cymru** cyn gynted â bo modd os ydych am archebu lle ar un o'r sesiynau hyn. Dyrennir lleoedd ar sail y cyntaf i'r felin.

Ac yn olaf...
Cynhaliwyd cyfarfod ffurfiol diwethaf y PS ar 18/06/2024. Os ydych yn dymuno edrych ar yr eitemau/adroddiadau â ystyriwyd yn y cyfarfod hwnnw, dilynwch y ddolen **hon.**

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau am y math o bynciau yr hoffech eu gweld yn cael sylw yn y newyddlen nesaf, gofynnir i chi gysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau ar **Cyfraith@ynysmon.llyw.cymru**

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau a dyletswydd newydd yr Arweinyddion Grwpiau

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

1. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, erbyn hyn mae gan Arweinyddion Grwpiau ddyletswyddau mewn perthynas â safonau ymddygiad. Rhaid i arweinydd grŵp gwleidyddol (a) gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel gan aelodau'r grŵp a (b) gweithredu â Phwyllgor Safonau'r Cyngor wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

2. Mae'n bosib y gallai arweinydd grŵp gwleidyddol sy'n methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd newydd mewn ffordd ystyrlon gael eu hystyried i fod yn dwyn anfri ar ei swydd, a'i bod yn debygol eu bod yn torri'r Cod Ymddygiad i Aelodau.

3. Hefyd, mae Deddf 2021 yn gosod dyletswydd ar Bwyllgorau Safonau i lunio adroddiad blynyddol i'r cyngor cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol (1 Ebrill- 31 Mawrth). Rhaid i'r adroddiad gael ei ystyried gan y cyngor perthnasol o fewn tri mis i'w dderbyn.

4. Rhaid i adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau gynnwys asesiad y Pwyllgor o sut y mae Arweinwyr Grwpiau gwleidyddol wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd (paragraff 1 uchod). Bydd rhaid i'r Arweinyddion Grwpiau ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Safonau i'w alluogi i wneud hyn.

5. Ar ôl ystyried gofynion Deddf 2021, lluniwyd adroddiad templed drafft i gynorthwyo'r Arweinyddion Grwpiau ac i'w hatgoffa o'r wybodaeth y mae'n rhaid iddynt ei ddarparu yn eu hadroddiad i'r Pwyllgor Safonau.

6. Ni fydd eich ffurflen yn cael ei chyhoeddi. Fe'i rhennir gydag aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau a'r swyddogion cefnogol yn unig.

7. Nid yw'r templed yn gofyn am, ac ni ddylid cynnwys, manylion achosion unigol. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y math o gamau a gymerwyd mewn perthynas â phob mater.

8. Gofynnir i Arweinyddion Grwpiau gynhyrchu'r adroddiadau hyn unwaith y flwyddyn; fodd bynnag, os bydd materion o bwys yn codi yn ystod y flwyddyn, gofynnir i'r Arweinyddion Grwpiau ymgynghori â'r Swyddog Monitro, a fydd yn rhoi gwybod i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

9. Ar ôl eu cwblhau dylai'r Arweinyddion Grwpiau anfon y ffurflenni at y Swyddog Monitro erbyn **30 Ebrill**. Bydd y Swyddog Monitro'n adrodd wrth y Pwyllgor Safonau.

10. Bydd aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau'n trefnu i gwrdd â phob Arweinydd Grŵp ar ben eu hunain yn breifat **yn ystod mis Mai** i drafod yr adroddiad. Anelir cynnal y cyfarfodydd hyn ar yr un diwrnod.

11. Bydd y Pwyllgor Safonau'n cynnwys gwybodaeth addas o adroddiadau'r Arweinyddion Grwpiau o fewn ei adroddiad blynyddol i'r Cyngor. Bydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor yn cynnwys crynodeb o'r camau a gymerwyd i gyflawni'r ddyletswydd, barn y Pwyllgor ynghylch a yw'r camau a gymerwyd yn ddigonol ac unrhyw ddarnau o waith y gellid eu cyflawni yn y dyfodol ayb.

12. Bydd y Pwyllgor Safonau'n trafod ei adroddiad blynyddol drafft ar gyfer y Cyngor yn ei gyfarfod ffurfiol ym Mehefin. Yn ystod y cyfarfod hwn, bydd y Pwyllgor Safonau'n cytuno ar ei ganfyddiadau o adroddiadau'r Arweinyddion Grwpiau a bydd hefyd yn adnabod, o fewn y fforwm cyhoeddus yma, unrhyw Arweinydd Grŵp sydd wedi methu â chyflwyno adroddiad.

13. Bydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn yn y cyfarfod llawn nesaf sydd ar gael yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin.

14. Os yn berthnasol, bydd rhaid briffio aelodau di-gysylltiad (sydd ddim yn perthyn i grŵp) yn yr un modd â'r Arweinyddion Grwpiau er mwyn sicrhau bod safonau ymddygiad uchel yn cael eu cynnal gan bob aelod, er na fydd disgwyl iddynt gynhyrchu adroddiad yn y modd hwn.

Adroddiad gan Arweinydd Grŵp (AG) i'r Pwyllgor Safonau mewn perthynas â'i ddyletswydd fel AG:

Adroddiad gan:	(enw'r AG)	**Grŵp Gwleidyddol:**	(enw'r Grŵp)
Y cyfnod y mae'r adroddiad yn ymdrin ag o ('y Cyfnod'):	1 Ebrill 20___ hyd nes 30 Mawrth 20___	**Nifer o aelodau yn y grŵp:**	

Camau a gymerwyd gan yr AG i hybu cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad:

*Mae **Atodiad 2** yn cynnwys y math o faterion mae'r Pwyllgor Safonau yn disgwyl i Arweinyddion Grwpiau roddi sylw iddynt a'r trothwy a ddefnyddir gan y Pwyllgor wrth ystyried â ydych chi wedi gweithredu eich dyletswydd fel Arweinydd y Grŵp. Dylech ystyried y materion hyn a'r 10 egwyddor ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus a nodir yn **Atodiad 3** wrth baratoi eich ymateb, os gwelwch yn dda.*

➔ **Ymrwymiad personol**

Dylech gwblhau'r darn yma yn eich geiriau eich hun. Gweler **Atodiad 2** am fwy o wybodaeth.

➔ **Annog aelodau**

Dylech gwblhau'r darn yma yn eich geiriau eich hun. Gweler **Atodiad 2** am fwy o wybodaeth.

➔ **Cydweithrediad gyda'r Pwyllgor Safonau ac Arweinyddion Grwpiau eraill**

Dylech gwblhau'r darn yma yn eich geiriau eich hun. Gweler **Atodiad 2** am fwy o wybodaeth.

Mae croeso i chi atodi unrhyw dystiolaeth berthnasol sydd gennych o'r camau rydych wedi eu cymryd o safbwynt y materion uchod i'r ffurflen. Fodd bynnag, nid yw hynny'n ofynnol. Ond gofynnir i chi baratoi cyn eich cyfarfod gyda'r Pwyllgor Safonau a bod yn barod i rannu gwybodaeth ac enghreifftiau yn ystod y sgyrsiau hyn.

Hyfforddiant Modiwlau Mandadol yn ystod y Cyfnod:

Gweler y rhestr o Hyfforddiant Mandadol sydd wedi ei gynnwys yn **Atodiad 4.**

Nifer o fodiwlau hyfforddiant mandadol sydd angen eu cwblhau gan holl aelodau'r Grŵp:		**Nifer o fodiwlau sydd wedi eu cwblhau:**	
Nifer o aelodau o fewn y grŵp sydd wedi cwblhau'r holl fodiwlau mandadol gofynnol:			
Nifer yr aelodau sydd wedi derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn benodol:			

Cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp yn ystod y Cyfnod:

Nifer o gyfarfodydd Grŵp sydd wedi eu cynnal ar gyfer holl aelodau'r Grŵp:	

Adolygiad datblygiad blynyddol rhwng aelodau a'r Arweinydd Grŵp yn ystod y Cyfnod:

Nifer yr aelodau sydd wedi cael cynnig adolygiad blynyddol gyda'r AG:	
Nifer yr aelodau sydd wedi derbyn y cynnig uchod gyda'r AG:	
Nifer yr aelodau sydd wedi mynychu cyfarfod adolygiad blynyddol gyda'r AG:	

Adroddiadau Blynyddol, sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor fel arfer dda, ar gyfer y Cyfnod:

Nifer yr aelodau sydd wedi cyflwyno adroddiad blynyddol:	

Cofrestr Sefydlog o Ddiddordebau Personol:

Nifer yr aelodau sydd wedi adolygu eu Cofrestr Sefydlog o Ddiddordebau Personol:	

Cwynion:

Cwyn gan:	**Y camau a gyrhaeddwyd:**		
(nodwch y niferoedd)	**Anffurfiol**	**Protocol Datrysiad Lleol**	**OGGC**
aelod o'r cyhoedd			
swyddog			
aelod o'r un grŵp gwleidyddol			
aelod o wahanol grŵp gwleidyddol / ddim mewn grŵp gwleidyddol			

Cyfarfodydd cefnogi:

Nifer yr aelodau sydd wedi cael cynnig cyfarfod cefnogi gan yr AG:	
Nifer yr aelodau sydd wedi derbyn y cynnig am gyfarfod cefnogi gan yr AG:	

Ystyriaeth o eleni o gymharu gyda'r llynedd:

Mae copi o'r ffurflen a dderbyniwyd gennych y llynedd wedi ei atodi. Eglurwch isod, os gwelwch yn dda, pa faterion rydych yn ystyried eu bod wedi **gwella** eleni?

Mae copi o'r ffurflen a dderbyniwyd gennych y llynedd wedi ei atodi. Eglurwch isod, os gwelwch yn dda, pa faterion rydych yn ystyried sydd **angen sylw** ar gyfer y flwyddyn nesaf gennych?

Anfonwch eich adroddiad, os gwelwch yn dda, at y Swyddog Monitro drwy ebostio LynnBall@ynysmon.llyw.cymru

Arwyddwyd gan yr AG: _____ ***Dyddiad:*** _____

Camau a gymerwyd gan yr Arweinydd Grŵp i hybu cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad:

Dylid cwblhau'r rhan yma o'r adroddiad yn eich geiriau eich hun.

Nid oes angen cynnwys yr holl wybodaeth a sonir amdano isod. Mae'r materion sy'n dilyn wedi eu cynnwys fel esiamplau o'r math o wybodaeth y gellid ystyried ei gynnwys fel rhan o'ch ymateb ac yn seiliedig ar y Canllaw Statudol sydd wedi ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Ymrwymiad personol:
- Wedi dangos ymrwymiad personol i ddatblygu drwy fynychu hyfforddiant perthnasol mewn perthynas â chydraddoldeb a safonau, gan gynnwys y Cod Ymddygiad;
- Wedi gosod esiampl drwy ddangos egwyddorion ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus yn cynnwys moesgarwch a pharch yn benodol;
- Wedi defnyddio eich dylanwad i hybu diwylliant cadarnhaol;
- Wedi hybu diwylliant sy'n cefnogi safonau ymddygiad uchel ac uniondeb o fewn y grŵp;
- Wedi delio â phroblemau yn syth;
- Wedi hybu cwrteisi a pharch wrth gyfathrebu â'r grŵp ac yn ystod cyfarfodydd o'r grŵp ac yn ystod cyfarfodydd ffurfiol o'r cyngor;
- Wedi gweithio er mwyn gweithredu unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Safonau ynghylch gwella safonau;

Annog aelodau'r grŵp:
- wedi annog aelodau'r grŵp i ddatblygu a mynychu hyfforddiant perthnasol mewn perthynas â chydraddoldeb a safonau, gan gynnwys y Cod Ymddygiad;
- wedi sicrhau bod y rhai a enwebir i bwyllgorau wedi derbyn yr hyfforddiant a argymhellir ar gyfer y pwyllgor hwnnw;

Cydweithio gydag eraill:
- wedi hybu datrysiadau anffurfiol yn y cyngor, a gweithio gyda'r pwyllgor safonau a swyddog monitro i ddatrys materion yn lleol;
- gweithio gyda'r pwyllgor safonau i adnabod patrymau ymddwyn amhriodol, eu hystyried, a mynd i'r afael â nhw e.e. drwy awgrymu neu ofyn am hyfforddiant briodol, gofyn am ddileu negeseuon amhriodol oddi ar wefannau cymdeithasol neu gofyn i ystyried ymddiheuro;
- wedi mynychu cyfarfod o bwyllgor safonau'r cyngor ar gais i drafod materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad;
- wedi mynychu cyfarfodydd gyda'r Swyddog Monitro a/neu Arweinyddion Grŵp eraill i drafod materion yn ymwneud ag ymddygiad yn ôl y galw;
- wedi gweithio gyda'r Arweinyddion Grwpiau eraill o fewn rheswm, i gefnogi cynnal safonau ymddygiad uchel ar y cyd o fewn y cyngor.

Materion eraill allai fod yn berthnasol:
- Rydych wedi adolygu Canllaw yr Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad yn ystod y flwyddyn. Rydych wedi annog aelodau eich Grŵp i wneud yr un modd.
- Rydych wedi ystyried Newyddlenni y Pwyllgor Safonau yn ystod y flwyddyn. Rydych wedi annog aelodau eich Grŵp i wneud yr un modd.

18 Gorffennaf 2024	Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried **pum** eitem o bwys. Adolygodd y Pwyllgor y **Datganiad Cyfrifon Drafft 2023-2024** a chanolbwyntiodd y drafodaeth ar nifer o bryderon allweddol, gan gynnwys balansau ysgolion, yn enwedig yr ysgolion sydd â diffyg ariannol, tystysgrifau Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol ac atebolrwydd ariannol posibl, cynnydd mewn credydwyr tymor byr oherwydd oedi wrth godi anfonebau, ac anghysonderau gyda grantiau cyfalaf. Craffwyd hefyd ar y Cyfrif Refeniw Tai a'i gronfeydd, gan gynnwys y defnydd o gyfraniadau Adran 106, gorwariant yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, defnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb a chategoreiddio gwariant oedd wedi cael ei gyfalafu. Nododd y Pwyllgor bod incwm y Dreth Gyngor wedi cynyddu, yn rhannol oherwydd newidiadau ym mhremiwm y Dreth Gyngor ar ail gartrefi. Mynegodd y Pwyllgor bryderon bod y cyfrifon yn rhy gymhleth i'r cyhoedd, y gallai pwysau ariannol, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol, herio gwydnwch y Cyngor a gofynnwyd am adolygiad o'r term 'cyfalafu' mewn perthynas â swm penodol yn y cyfrifon. Cafodd y Pwyllgor drafodaeth mewn perthynas â'r **Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2023-2024**, gan amlygu pryderon ynghylch amserlen y Cyngor ar gyfer cydymffurfio â'r Ddeddf Caffael 2023 newydd, diffyg hyfforddiant ar y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, oedd wedi'i nodi fel mater heb ei ddatrys, a chyfyngiadau o ran adnoddau sy'n effeithio ar waith rheoli asedau ac adolygiadau effeithlonrwydd. Adolygodd y Pwyllgor hefyd yr **Adroddiad Hunanasesiad Corfforaethol Blynyddol drafft ar gyfer 2023-2024** a nododd bod elfen o wrthddweud gan fod cynllunio ariannol a chynllunio'r gweithlu wedi cael eu hasesu'n uchel, ond nodwyd bod gwydnwch ariannol angen ei wella oherwydd pwysau economaidd allanol a heriau'n gysylltiedig â'r gweithlu. Cafodd yr adroddiad ei gymeradwyo gan y Pwyllgor a chafodd ei argymell i'r Pwyllgor Gwaith er mwyn ei gymeradwyo.

	Yn dilyn derbyn diweddariad ar y tri **archwiliad mewnol**, codwyd pryderon am y cyferbyniad rhwng y gwerthusiad cadarnhaol ar gaffael a rheoli contract yn yr Hunanasesiad Corfforaethol a'r materion caffael a amlygwyd yn yr archwiliad o Reoli Cyflenwyr TG, capasiti Archwilio Mewnol a chost effeithiolrwydd wrth allanoli arbenigedd. Trafodwyd materion yn ymwneud â phrosesau incwm y Tîm Morwrol mewn sesiwn breifat. Adolygodd y Pwyllgor ganlyniadau'r **Fenter Twyll Genedlaethol** ac roedd yn cydnabod bod cynnydd wedi digwydd a bod arbedion posibl o £3,838 wedi'u gwneud, ond nodwyd y gallai diffyg adnoddau lesteirio ymdrechion atal twyll. Yn olaf, adolygodd y Pwyllgor weithredoedd o gyfarfodydd blaenorol ac roedd y Pwyllgor yn fodlon â nhw. Roedd y Pwyllgor hefyd yn hapus i dderbyn y Flaen Raglen Waith a gyflwynwyd.
19 Medi 2024	Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried **saith** eitem o bwys. Derbyniodd a chymeradwyodd y Pwyllgor ddatganiad yr **Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth** a throsolwg o gydymffurfiaeth y Cyngor â'r fframweithiau cyfreithiol yn ystod 2023-24, megis GDPR y DU, Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), a rheoliadau eraill. Roedd y prif faterion yn cynnwys cyswllt y Cyngor â rheoleiddwyr allanol, digwyddiadau diogelwch a thor-diogelwch data. Ar gais y Cadeirydd cafodd swyddogion o'r gwasanaeth Dysgu, Gwarchod y Cyhoedd, Adnoddau a Thechnoleg Gwybodaeth eu gwahodd i egluro pam bod ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi derbyn ymateb hwyr. Roedd y rhesymau'n cynnwys diffyg adnoddau, ceisiadau cymhleth a'r galw am wasanaeth. Cafwyd trafodaeth hefyd ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am ddyrannu ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, delio â cheisiadau gwrthrych am wybodaeth tra'n aros i wirio hunaniaeth yr unigolyn, a sicrhau bod sefydliadau trydydd parti'n cydymffurfio â'r GDPR pan fydd y Cyngor yn allanoli gwasanaethau yn ymwneud â phrosesu data personol. Derbyniodd y Pwyllgor **Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor a'r datgeliadau Chwythu'r Chwiban** ar gyfer 2023-24, a oedd yn cynnwys trosolwg o'r modd y caiff cwynion eu trin a diweddariad ar y gwaith o ddatblygu'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) fel y gellir tracio cwynion mewn amser real. Ar gais y Cadeirydd, eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai bod y Gwasanaethau Tai wedi derbyn mwy o gwynion yn sgil cyswllt arferol y gwasanaeth â'r cyhoedd a dywedodd bod gwelliannau ar y gweill, yn enwedig o ran cyfathrebu. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn bod yr adroddiad yn darparu sicrwydd bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r polisïau a nodi'r gwersi a ddysgwyd. Gofynnodd a fyddai modd cynnwys prif benawdau'r cwynion yn ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol mewn adroddiadau yn y dyfodol a phenderfynodd roi gwybod i'r Pwyllgor Safonau am bryder y Pwyllgor ynglŷn â'r amser y mae'n ei gymryd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ddod i benderfyniad ynglŷn â chwynion yn erbyn aelodau. Derbyniodd y Pwyllgor adolygiad o'r **gweithgareddau rheoli trysorlys ar gyfer 2023-24**, a oedd yn trafod y prif faterion ac yn cymharu perfformiad y Cyngor yn erbyn Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023-24 a Dangosyddion Darbodus. Fe wnaeth y Cyfarwyddwr amlinellu'r ffactorau allanol, gwariant a chyllid cyfalaf y Cyngor, y cronfeydd wrth gefn a balansau arian parod, benthyciadau, buddsoddiadau a chydymffurfiaeth â'r dangosyddion darbodus, a chadarnhaodd bod y Cyngor yn perfformio'n unol â'r Strategaeth. Holodd y Pwyllgor ynglŷn â'r gostyngiad ym malansau ysgolion (o £6.7m i £5.5m) a sut y byddai hynny'n effeithio ar ysgolion yn y dyfodol. Penderfynodd y Pwyllgor nodi'r adroddiad a'i anfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith gyda gweithred ychwanegol, sef y dylid gwirio'r adroddiad i sicrhau cysondeb o ran amser y ferf a gwneud yn siŵr bod yr adroddiad yn eglur. Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried adroddiad ar weithgareddau'r gwasanaeth Archwilio Mewnol i liniaru'r **risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd** o fewn y Cyngor yn ystod 2023-24. Roedd yr adroddiad yn mesur pa mor effeithiol yw mesurau atal twyll y Cyngor a'r cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ac roedd yn amlygu'r risgiau twyll presennol a'r heriau i'r dyfodol. Cafodd cynllun gweithredu ar gyfer 2022-2025 ei gynnwys hefyd. Trafododd y Pwyllgor a ddylid sefydlu fersiwn lleol o'r gweithgor atal twyll rhanbarthol (sy'n rhan o Bartneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru), a sut y gallai'r system CRM, a'r rhaglen STAR i wella prosesau caffael, gefnogi'r gwaith atal twyll. Penderfynodd y pwyllgor bod yr adroddiad yn darparu sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau effeithio ar gyfer lliniaru'r risg o dwyll. Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried yr **archwiliadau mewnol** a gwblhawyd ers y cyfarfod diwethaf, ynghyd â llwyth gwaith cyfredol a blaenoriaethau'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn y dyfodol agos. Rhannwyd dau adroddiad sicrwydd â'r Pwyllgor: un ar Reoli Taliadau Debyd Uniongyrchol a'r llall ar drefniadau parhaus i Fonitro Taliadau Dyblyg ac roedd y ddau adroddiad yn darparu 'Sicrwydd Rhesymol'. Nododd y Pwyllgor gynnydd gan y Tîm Taliadau o ran lleihau taliadau sy'n

	cael eu dyblygu a'r broses ar gyfer adennill taliadau sy'n cael eu gwneud ddwywaith gan gyflenwyr, a gofynnodd am eglurder ynghylch y broses ar gyfer delio â dyledion drwg, yn cynnwys sut y caiff darpariaethau eu haddasu a'u cofnodi yn y cyfrifon. Hefyd, ar ôl derbyn diweddariad ar statws y materion/risgiau a chyfleoedd a nodwyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y Cyngor yn gwneud cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r **camau gweithredu oedd yn weddill**. Roddodd Archwilio Cymru ddiweddariad i'r Pwyllgor ar y **rhaglen waith a'r amserlen** fel ag yr oedd pethau ym mis Mehefin 2024, ynghyd â gwaith rheoleiddio Estyn ac AGC. Nododd y Pwyllgor y bydd yr Adolygiad Thematig ar Ofal Heb ei Drefnu yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ym mis Tachwedd, ac y bydd cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn bresennol. Yn olaf, fe wnaeth y Pwyllgor adolygu hynt y camau gweithredu yn dilyn y cyfarfod diwethaf ac roedd yn fodlon â'r cynnydd a wnaed. Roedd hefyd yn fodlon derbyn y Blaen Raglen Waith arfaethedig ond fe nododd ei bod hi'n bosib y bydd yn rhaid cael cyfarfod ychwanegol ym mis Tachwedd er mwyn cymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig.
27 Tachwedd 2024	Ystyriodd y Pwyllgor **un** eitem o bwys yn ystod y cyfarfod arbennig hwn a gynhaliwyd er mwyn ystyried y **Datganiad Cyfrifon Terfynol ar gyfer 2023/24**, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac adroddiad yr Archwilydd Allanol ar yr archwiliad o ddatganiadau ariannol 2023/24 (Adroddiad ISA 260). Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 y byddai'r Datganiad o Gyfrifon archwiliedig yn cael ei lofnodi ar ôl iddo gael ei adolygu gan y Cyngor Llawn ar 3 Rhagfyr 2024, gan fethu'r terfyn amser ar 30 Tachwedd 2024 o ychydig ddyddiau. Ar ôl eu cyflwyno ar gyfer eu harchwilio ar 28 Mehefin 2024, cadarnhaodd Archwilio Cymru bod y datganiadau ariannol yn cynrychioli sefyllfa ariannol y Cyngor yn gywir fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2024. Argymhellwyd rhai newidiadau a chawsant eu gweithredu gan y Cyngor, ond nid oeddynt yn effeithio ar y tanwariant o £1.732m a nodwyd yn ystod mis Gorffennaf 2024. Bu i'r Swyddog Adran 151 dywys y Pwyllgor drwy'r addasiadau, gan gadarnhau bod mwyafrif y newidiadau'n ymwneud â'r fantolen a gwariant yn gysylltiedig ag incwm grantiau, nad oedd yn cael unrhyw effaith ar refeniw. Mynegodd ei werthfawrogiad i dîm Cyllid y Cyngor ac Archwilio Cymru am eu hymdrechion. Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2023/24 yn amlygu bod pedwar allan o bump o'r gwendidau llywodraethu o'r flwyddyn flaenorol wedi'u datrys, a bod gwaith yn mynd rhagddo ar un arall. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch ymarferoldeb sicrhau bod asedau'r Cyngor yn addas i'r diben o ystyried y pwysau ar arian cyfalaf. Nodwyd bod cyflawni'r amcan hwn yn uchelgeisiol yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Mae'r Cyngor wedi ymdrechu i symleiddio prosesau a digideiddio gweithrediadau er mwyn lleihau costau a gwella effeithiolrwydd y gwasanaeth. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod y cynnydd a wnaed, yn ogystal â chydnabod yr heriau ariannol a gweithredol sy'n wynebu'r Cyngor. Cadarnhaodd Archwilio Cymru bod y broses archwilio yn ddidrafferth a bod cyfrifon a phapurau gwaith o ansawdd wedi'u darparu. Y disgwyl oedd y byddai'r archwilydd yn darparu barn archwilio ddiamod, a byddai'r cyfrifon yn cael eu hardystio ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan y Cyngor Llawn ar 3 Rhagfyr 2024. Cadarnhawyd bod yr addasiadau'n ymwneud ag amserlenni cyfyngedig yn hytrach na phroblemau systematig. Cafodd addasiad pensiwn sylweddol o £71.145 miliwn ei gywiro, ond ni chafodd hynny effaith ar y Fantolen na'r Gronfa Gyffredinol. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynglŷn materion oedd yn weddill, pwysau amser ar y staff Cyllid ac a ddylid ymestyn terfynau amser adrodd. Roedd yr argymhellion yn cynnwys defnyddio terminoleg fwy clir ar gyfer monitro cyllidebau a gwariant cyfalaf yn yr adroddiad naratif. Derbyniodd y Pwyllgor y Datganiad o Gyfrifon archwiliedig ar gyfer 2023/24, ac argymhellwyd eu bod y cyfrifon yn cael eu llofnodi gan Gadeirydd y Cyngor a'r Swyddog Adran 151. Cymeradwyodd y Pwyllgor hefyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24 fel gwerthusiad teg o drefniadau llywodraethu. Nodwyd Adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru. Ar ddiwedd y cyfarfod diolchodd y Cadeirydd i bawb a gyfrannodd at y gwaith paratoi a'r broses archwilio ac roedd yn cydnabod eu hymdrechion a'u hagwedd broffesiynol.

5 Rhagfyr 2024	Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried **12** eitem o bwys. Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod yr holl gamau gweithredu yn **Log Gweithredoedd** y Pwyllgor yr oedd angen eu cwblhau wedi'u cwblhau, yn cynnwys derbyn cadarnhad gan y Pwyllgor y byddai Prif Swyddog Digidol y Cyngor yn darparu briff i'r Pwyllgor ar y risgiau a'r mesurau lliniaru yn gysylltiedig â Deallusrwydd Artiffisial am 1 o'r gloch y prynhawn ar 11 Chwefror 2025, sef yn union o flaen y cyfarfod nesaf. Fe wnaeth y Pwyllgor nodi diweddariad y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol ar waith i fonitro anweithgarwch economaidd o fewn setiau data tueddiadau poblogaeth y Cyngor a chynnydd mewn perthynas â materion llywodraethu a nodwyd yn yr asesiad ar gyfer 2023/24. Penderfynodd y Pwyllgor enwebu cynrychiolwyr i wasanaethu ar **Bwyllgor Archwilio Cydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru**. Enwebwyd y Cynghorydd Geraint Bebb fel prif aelod, a'r Cynghorydd Keith Roberts fel eilydd, a Mrs. Sharon Warnes fel aelod lleyg. Fe wnaeth y Pwyllgor adolygu a derbyn y **Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2023/24**, a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro. Roedd y llythyr yn asesu perfformiad y Cyngor wrth ymdrin â chwynion gwasanaeth ac roedd yn cynnwys data ynglŷn ag ymyraethau'r Ombwdsmon a chwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad i Aelodau. Roedd y prif bwyntiau a godwyd yn cynnwys y cynnydd mewn cwynion, y ganran uchel o ymyraethau gan OGCC a'r ffaith bod y rôl Swyddog Cwynion yn wag. Er nad oedd angen cynnal unrhyw ymchwiliadau a bod y cwynion yn rhai cyffredinol i raddau helaeth, rhoddwyd sicrwydd y gallai materion fod wedi cael eu datrys yn fwy effeithiol drwy ymyrraeth gynnar. Bydd y dull o ymdrin â chwynion yn dal i gael ei fonitro fel y gellir craffu yn effeithiol, a bydd ddiweddariadau cynnydd ar y mesurau datrys a nodwyd yn cael eu darparu i'r Pwyllgor maes o law. Cadarnhaodd y Pwyllgor ei fod yn fodlon â'r diweddariad ar weithredu'r argymhellion a wnaed gan **CIPFA yn dilyn ei adolygiad o effeithlonrwydd y Pwyllgor yn 2024**. Amlygwyd bod 7 o gamau wedi cael eu gweithredu'n llawn, bod dau wedi'u cydnabod ond nad oedd angen unrhyw gamau pellach, a bod un cam yn parhau i fynd rhagddo, sef darparu hyfforddiant i swyddogion sy'n adrodd i Bwyllgorau. Fe wnaeth y Pwyllgor nodi'r sicrwydd a ddarparwyd gan y Pennaeth Archwilio a Risg yn yr adroddiad ar yr **Archwiliadau Mewnol** a gwblhawyd, llwyth gwaith a blaenoriaethau presennol yr adran, ynghyd â'r newidiadau i'r Safonau Archwilio Mewnol. Darparwyd 'Sicrwydd Rhesymol' ar gyfer y tri archwiliad - Trosolwg o Bartneriaethau, Mesurau Atal Twyll ym maes Ad-daliadau Refeniw ac Adolygiad o'r Fframwaith Asesu Seiberddiogelwch. Fe wnaeth y Pwyllgor drafod addasrwydd y mesurau atal twyll, yn benodol y risgiau'n gysylltiedig â Deallusrwydd Artiffisial mewn amgylchedd gwaith hybrid, a derbyniodd rhywfaint o sicrwydd bod maint llai y Cyngor, ei fodel gweithio'n hybrid a'i arferion sy'n canolbwyntio ar bobl yn lliniaru'r risg o ymosodiadau seiber a dynwared a gynhyrchir gan Ddeallusrwydd Artiffisial. Ar ôl adolygu'r **Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Strategol Tuag at Sero Net ar gyfer 2023/24**, a oedd yn nodi cynnydd y Cyngor o ran lliniaru newid hinsawdd a chyflawni amcanion blynyddol, derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd bod mesurau rhesymol ar waith i leihau risgiau newid hinsawdd i lefel dderbyniol. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys lleihau allyriadau carbon o gymharu â'r lefelau uchaf a welwyd yn 2021/22, uwchraddio eiddo'r Cyngor gan ddefnyddio grantiau gan Lywodraeth Cymru er mwyn ei ddatgarboneiddio, adeiladu 28 o gartrefi newydd carbon niwtral, ymestyn y rhwydwaith gwefru cerbydau trydan a llwybrau teithio llesol, sefydlu meithrinfa goed newydd a darparu hyfforddiant newid hinsawdd i aelodau etholedig ac uwch swyddogion. Clywodd y Pwyllgor hefyd bod y ddibyniaeth ar gyllid allanol yn risg o ran cyflawni sero net erbyn 2030. Mae datgarboneiddio'r gadwyn gyflenwi hefyd yn her, gan fod allyriadau anuniongyrchol yn anoddach i'w rheoli, a bod angen gwaith pellach er mwyn adrodd ar ganlyniadau allyriadau mewnol yn erbyn perfformiad cynaliadwyedd y gadwyn gyflenwi. Mewn perthynas â hyn, gofynnodd y Pwyllgor pa ddylanwad oedd gan y Cyngor ar ei gadwyn gyflenwi a'i allu i bennu uchafswm allyriadau heb godi ofn ar ddarpar gyflenwyr, a p'un a yw'r ddibyniaeth ar gyllid grant yn debygol o arafu unrhyw gynnydd pellach pe byddai'n cael ei leihau neu dynnu'n ôl. Derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd gan y Swyddog Diogelu Data ynghylch **Cydymffurfiaeth Diogelu Data Ysgolion Môn** ar gyfer y cyfnod rhwng Tachwedd 2023 a Thachwedd 2024, ynghyd â thystiolaeth a chrynodeb o'r camau a gymerwyd o dan y Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2023-24. Fe wnaeth y Pwyllgor gefnogi'r camau nesaf oedd wedi'u nodi yn y strategaeth ddiwygiedig ar gyfer 2024-25. Mewn ymateb i gwestiwn, sicrhaodd y Swyddog Diogelu Data y Pwyllgor y byddai archwiliadau'n ailddechrau yn dilyn cyflwyno deddfwriaeth newydd, yn ogystal â darparu gwybodaeth ynglŷn â'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion yn y cyfamser.

	Ar ôl ystyried yr **Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol ar gyfer 2023/24**, cadarnhaodd y Pwyllgor ei fod yn fodlon â mesurau iechyd a diogelwch corfforaethol y Cyngor, derbyniodd sicrwydd bod y risgiau'n cael eu rheoli i lefel dderbyniol ac roedd yn cefnogi rhoi'r Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar waith. Fe wnaeth y Prif Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch amlygu dau fater o bwys yn ystod y flwyddyn – canfod concrit 'RAAC' mewn dwy ysgol ar yr ynys ac achosion o Ffliw Adar. Fe wnaeth y Pwyllgor drafod y strategaethau i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn achosion o lithro, baglu a syrthio ac ymosodiadau treisgar yn erbyn staff ac mewn ysgolion, yn enwedig mewn ysgolion cynradd lle mae ymddygiad heriol gan ddisgyblion yn bryder cynyddol. Derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151 bod gan y Cyngor yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac mai ein hyswirwyr sydd fel arfer yn delio â hawliadau, a bod rhaid darparu tystiolaeth o esgeulustod. Roedd y Pwyllgor yn derbyn bod **ymateb y Cyngor i adroddiadau archwilio allanol ac argymhellion gan reoleiddwyr** yn darparu sicrwydd bod y Cyngor yn ystyried a gweithredu argymhellion yn effeithiol. Adroddodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol bod y Cyngor wedi cwblhau 20% o'r argymhellion, bod 68% ar y trywydd iawn a bod 12% yn hwyr. Cyflwynwyd diweddariad ar yr argymhellion oedd yn wynebu oedi. Roedd y Cadeirydd yn poeni nad oedd amserlenni wedi'u cynnwys ar gyfer gwaith oedd yn mynd rhagddo a chytunwyd y byddai'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r ymatebion i'r argymhellion yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol. Nododd y Pwyllgor y diweddariad chwarterol ar **raglen waith ac amserlen Archwilio Cymru**, fel ag yr oedd pethau ar 30 Medi 2024, ac un newid i **Flaen Raglen Waith** y Pwyllgor oherwydd bod gwaith archwilio ariannol yn parhau i fynd rhagddo. Yn olaf, mewn sesiwn breifat, fe wnaeth y Pwyllgor ystyried yr **Adroddiad Seiberddiogelwch Blynyddol ar gyfer 2023/24**, a gyflwynwyd gan y Peiriannydd Diogelwch TG Arweiniol, ac a oedd yn darparu diweddariad ar ymdrechion y Cyngor i liniaru'r risgiau seiberddiogelwch. Roedd yn nodi'r heriau, datrysiadau i rybuddion diogelwch a'r prosiectau sydd ar y gweill. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod yr heriau oedd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad a nododd ei fod yn fodlon â mesurau seiberddiogelwch y Cyngor i fynd i'r afael â'r risgiau a blaenoriaethau. Ar ôl derbyn eglurhad gan y swyddog ynghylch y materion a godwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod mesurau rhesymol ar waith i reoli bygythiadau seiber yn effeithiol.
11 Chwefror 2025	Ystyriodd y Pwyllgor **saith** eitem o bwys. Wrth ystyried ei **Log Gweithredoedd**, nododd y Pwyllgor fod un weithred wedi'i chwblhau, un ar y gweill a bod disgwyl i'r pedwar arall gael eu cwblhau yn ddiweddarach eleni. Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg **ddiweddariad ar yr archwiliadau a gwblhawyd**, y gwaith sydd ar y gweill a blaenoriaethau. Roedd dau adroddiad sicrwydd mewn perthynas â Datblygiadau Tai a Recriwtio a Chadw wedi derbyn 'Sicrwydd Rhesymol'. Ni chanfu ymchwiliad i ffafriaeth honedig wrth gaffael gwaith yn y Gwasanaethau Eiddo unrhyw gamymddwyn, ond amlygwyd meysydd lle mae angen gwella rheolaethau'n ymwneud â'r risg o dwyll. Trafododd y Pwyllgor werth am arian wrth brynu hen dai Cyngor, a nododd y Pennaeth Archwilio a Risg fod hynny'n anodd ei ddangos gan nad oes polisi ffurfiol yn bodoli. Trafodwyd heriau recriwtio, gan gynnwys partneriaethau â cholegau, a gofynnodd y Pwyllgor am asesiad o'u heffaith. Cydnabuwyd pryderon ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng cyflogau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, ond nodwyd bod y graddfeydd cyflog ar gyfer llywodraeth leol yn cael eu gosod yn genedlaethol. Cafodd y Pwyllgor drafodaeth hefyd ynglŷn ag a ddylai fod yn ofynnol i achwynwyr gyfarfod â swyddogion pan gynhelir ymchwiliadau a phwysleisiodd y Pennaeth Archwilio a Risg bwysigrwydd ymchwilio cwynion yn drylwyr pan dderbynnir cais gan swyddogion allweddol, megis Aelod Portffolio neu'r Swyddog Monitro. Roedd **Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer 2025-2028** y Pennaeth Archwilio a Risg yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor ynglŷn â'r gweithgareddau y bydd y tîm Archwilio Mewnol yn ymgymryd â nhw er mwyn lleihau'r perygl o dwyll o fewn y Cyngor. Tynnwyd sylw at yr ymdrechion parhaus i frwydro yn erbyn twyll, a thwyll yn gysylltiedig â Threth y Cyngor yn enwedig, a nodwyd y gallai technoleg deallusrwydd artiffisial (AI) olygu bod mwy o dwyll yn cael ei ganfod. Nododd y Pwyllgor y byddai'n derbyn adroddiad cynnydd yn flynyddol a thrafodwyd ffurfio gweithgor atal twyll, os yw'r Tîm Arweinyddiaeth yn cytuno, er mwyn nodi risgiau twyll yn well.

	Derbyniodd y Pwyllgor y **diweddariad rheoli trysorlys canol blwyddyn** gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, a chlywodd fod sefyllfa ariannol y Cyngor yn parhau i fod yn sefydlog a'i fod yn unol â'r dangosyddion darbodus. Er mwyn lleihau costau llog, ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau allanol newydd, gan barhau i fenthyca'n fewnol er mwyn ariannu prosiectau cyfalaf. Er hynny, efallai y bydd rhaid benthyca'n allanol yn y dyfodol wrth i gronfeydd arian parod leihau. Roedd enillion ar fuddsoddiadau'n gadarnhaol a rhagwelir y bydd enillion llog blynyddol yn £1.322m. Mae disgwyl tanwariant o £6.55m ar y gyllideb gyfalaf, a bydd tanwariant yn cael ei ddwyn ymlaen i 2025/26. Roedd y Pwyllgor yn holi a fyddai'n gwneud synnwyr ariannol i ad-dalu benthyciad hirdymor ond nodwyd bod rhaid talu costau uchel, yn aml, os yw benthyciadau'n cael eu had-dalu'n gynnar, gan olygu nad yw hynny'n gwneud synnwyr ariannol. Cwestiynodd y Pwyllgor yr arbedion/incwm a ddisgwylir yn sgil gosod paneli solar sy'n cael eu hariannu gan fenthyciadau Salix a chlywodd fod angen achos busnes ar gyfer prosiectau sy'n derbyn arian Salix er mwyn dangos y bydd arbedion yn cael eu gwneud o fewn 10 mlynedd. Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion pellach am yr arbedion a ddisgwylir yn gysylltiedig â phaneli solar sy'n cael eu hariannu gan y cynllun Salix, a gofynnodd am gael diwygio fformat yr adroddiad trysorlys er mwyn ei gwtogi a'i alinio â thempled y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Awgrymodd y Cyfarwyddwr y dylid defnyddio'r adroddiad diweddaru rheoli trysorlys chwarterol newydd ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor a dywedodd y byddai'n ei anfon at y Cadeirydd er mwyn derbyn ei sylwadau. Adolygodd y Pwyllgor y **Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2025/26** a baratowyd yn unol â chanllawiau CIPFA. Mae'r strategaeth hon yn cynnal agwedd ddarbodus, gan flaenoriaethu benthyca mewnol er mwyn lleihau costau lle bynnag y bo hynny'n bosib. Er hynny, oherwydd bod arian wrth gefn yn gostwng ac oherwydd anghenion gwariant cyfalaf, gallai benthyca allanol gynyddu, ar sail tymor byr yn y lle cyntaf, er mwyn rheoli dyledion yn effeithiol. Bydd penderfyniadau ynglŷn â buddsoddi'n canolbwyntio ar ddiogelwch, hylifedd ac enillion, a ni fydd arian ond yn cael ei fuddsoddi mewn banciau â statws credyd uchel neu awdurdodau lleol, a hynny ar ôl cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy. Ni chodwyd unrhyw faterion, a phenderfynodd y Pwyllgor gyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith heb wneud unrhyw sylwadau pellach. Ystyriodd y Pwyllgor **adroddiadau Archwilio Cymru ar gynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol** a oedd yn cynnwys adolygiad cenedlaethol ac adroddiad penodol ar Gyngor Sir Ynys Môn. Roedd yr adolygiad cenedlaethol yn tynnu sylw at risgiau sylweddol o ran cyllid y cyngor, ac roedd yn pwysleisio bod angen cynllunio ariannol cadarn ar gyfer y tymor hir, yn ogystal â strategaethau trawsnewid. Er bod trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn effeithiol ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig, roedd Archwilio Cymru o'r farn bod diffyg o ran cynllunio'n ffurfiol ar gyfer y tymor hir. Nododd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod cynllunio tymor hir yn heriol oherwydd bod y cyngor yn derbyn setliad ariannol ar gyfer blwyddyn yn unig, ac oherwydd bod costau'n cynyddu. Mae'r Cyngor wedi defnyddio arian wrth gefn i gydbwyso cyllidebau, wrth osgoi torri gwasanaethau yn ddiangen, ac mae'n datblygu strategaeth ariannol hirdymor, ond mae hynny'n ddibynnol ar dderbyn gwybodaeth ariannu ar gyfer dwy flynedd neu fwy gan Lywodraeth Cymru. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod yr anawsterau hyn, ond roedd yn annog defnyddio dulliau amgen, cost-effeithiol ar gyfer darparu gwasanaethau, cydweithio a defnyddio technoleg. Roedd yn cydnabod hefyd y buddion ariannol posib yn sgil datblygiadau Porthladd Rhydd Ynys Môn a Wylfa. Mynegwyd pryderon am ddefnydd strategol o arian wrth gefn, ac mae Archwilio Cymru'n rhybuddio bod perygl i'r cronfeydd wrth gefn wagio oni bai bod camau amserol yn cael eu cymryd. Roedd y trafodaethau hefyd yn amlygu bod angen mwy o arian cyfalaf ar y Cyngor er mwyn gwella isadeiledd a gwasanaethau. Mae'r Cyngor, law yn llaw â chynghorau eraill yng Nghymru, wedi bod yn pwyso am drefniadau ariannu gwell. Yn y diwedd, derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd bod y Cyngor yn deall ei sefyllfa ariannol a'i fod yn gweithio tuag at strategaeth hirdymor, ar yr amod bod Llywodraeth Cymru'n darparu ymrwymiadau ariannu mwy eglur. Nododd y Pwyllgor ei fod yn parhau i fod yn fodlon â'r **Flaen Raglen Waith**.
8 Mai 2025	Ystyriodd y Pwyllgor **saith** eitem o bwys. Adolygodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei **Log Gweithredoedd**, a derbyniodd adroddiadau ar lwyddiant cydweithio rhwng y Cyngor â cholegau, arbedion yn sgil gosod paneli solar gan ddefnyddio cyllid Salix a dadansoddiad economaidd-gymdeithasol Quod Môn. Roedd diweddariad Rheoli Trysorlys ar gyfer chwarter 3 wedi cael ei rannu eisoes, ac roedd pedair gweithred yn weddill, i'w cwblhau'n ddiweddarach yn y flwyddyn. Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg **ddiweddariad** ar yr archwiliadau a gwblhawyd, y gwaith sydd ar y gweill a blaenoriaethau. O'r chwe archwiliad a adolygwyd, derbyniodd pedwar ohonynt sicrwydd rhesymol a derbyniodd dau archwiliad—Grantiau Cyfleusterau Anabl ac Adennill Treth y Cyngor a Mân Ddyledion – sicrwydd cyfyngedig, sy'n arwydd bod pryderon yn parhau i fodoli.

Darparodd y Prif Archwilydd adroddiad ar **faterion Archwilio Mewnol sy'n weddill**. Ar 31 Mawrth 2025 roedd 52 o gamau gweithredu'n weddill - wyth 'sylweddol' (ambr) a 42 'cymedrol' (melyn). Ni chodwyd unrhyw gwestiynau a chanfu'r Pwyllgor fod cynnydd y Cyngor yn foddhaol.

Adolygodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y **Cylch Gorchwyl** diwygiedig sy'n adlewyrchu newidiadau yn y safonau archwilio byd-eang a'r DU. Amlinellodd y Pennaeth Archwilio a Risg y newidiadau yn dilyn cyflwyno'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang newydd, Nodyn Gweithredu y DU a Chod Ymarfer CIPFA, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â disgwyliadau llywodraethu. Cwblhawyd cymhariaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, gan alluogi'r Swyddog Monitro i ddiwygio'r Cyfansoddiad.

Nododd y Pwyllgor y sicrwydd a ddarparwyd gan **Grynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru 2024**, a oedd yn amlinellu'r gwaith archwilio a gwblhawyd. Ailddatganodd y Pwyllgor ei bryderon ynglŷn â chynaliadwyedd ariannol yn sgil cyfyngiadau cyllido tymor byr, mater a godwyd ganddo yn ei gyfarfod diwethaf. Fe wnaeth Archwilio Cymru gydnabod y materion hyn ac argymell y dylai'r Cyngor fabwysiadu strategaeth y gellir ei haddasu er mwyn lliniaru risgiau ariannol.

Nododd y Pwyllgor y sicrwydd a ddarparwyd gan **Archwilio Cymru** yn ei ddiweddariad ar ei **Raglen Waith ar gyfer Ch3 a Ch4 2024/25**. Roedd yr adroddiad yn trafod cynnydd mewn archwiliadau lleol a chenedlaethol, gwaith rheoleiddio parhaus gan Estyn ac AGC, archwiliadau ariannol ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2024/25, ardystio grantiau, ac astudiaethau cenedlaethol sydd yn yr arfaeth.

Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y **Flaen Raglen Waith** arfaethedig ar gyfer 2025-26. Gwahoddwyd aelodau hefyd i rannu unrhyw anghenion hyfforddi penodol. Yn dilyn sesiwn friffio flaenorol ar Ddeallusrwydd Artiffisial, cododd y Cadeirydd bryderon am ei ddefnydd o fewn y Cyngor, gan awgrymu bod angen canllawiau polisi. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y byddai'n codi ystyriaethau polisi yn gysylltiedig â Deallusrwydd Artiffisial gyda'r Tîm Arweinyddiaeth.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
CYFARFOD:	Cyngor Sir
DYDDIAD:	25-09-2025
TEITL YR ADRODDIAD:	Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
ADRODDIAD GAN:	Huw Percy, Pennaeth Gwasanaeth – Priffyrdd, Gwastraff & Eiddo huwpercy@ynysmon.llyw.cymru
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
SWYDDOG CYSWLLT:	Julie Jones, Rheolwr Busnes a Strategaeth Gwasanaeth, Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo juliejones@ynysmon.llyw.cymru

1. CYFLWYNIAD

1.1. Yn unol a chyfansoddiad y Cyngor mae angen i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

2. ARGYMHELLION

2.1. Y bod y Cyngor yn mabwysiadu y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru Gorffennaf 2025.

3. CEFNDIR

3.1. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cyd-fynd â chynllun Llwybr Newydd Llywodraeth Cymru: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021 (STC), sef dogfen sy'n darparu'r cyfeiriad strategol, y weledigaeth a'r blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru.

3.2. Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn ddogfen strategol lefel uwch yn benodol ar gyfer Gogledd Cymru a sy'n gosod y weledigaeth ar gyfer y rhanbarth ac yn darparu'r cyfeiriad ar gyfer y 5 mlynedd nesaf o ran blaenoriaethau ac ymyriadau o fewn rhannau gwahanol y system drafnidiaeth.

3.3. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig newydd er mwyn gallu cyflawni swyddogaethau penodol llywodraeth leol ar y cyd ar lefel ranbarthol. Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CBC) ar 1 Ebrill 2021 ac mae arno ddyletswydd statudol o baratoi:

- Cynllun Datblygu Strategol
- Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Yn ogystal, mae ganddynt y pŵer i wneud unrhyw beth a fydd yn gwella neu'n hybu lles economaidd rhanbarthol.

Mae'r CBC wedi sefydlu ei Is-bwyllgorau Trafnidiaeth a Chynllunio Strategol i gyflawni ei swyddogaethau statudol.

3.4. Y CBC sydd felly'n arwain ar a llywodraethu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ac maent wedi paratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a sydd wedi ei gynnwys fel Atodiad A i'r adroddiad hwn.

3.5. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn amlinellu polisïau y CBC mewn perthynas o thrafnidiaeth a'i amcanion i wella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol, gwella hygyrchedd a'r dewis o drafnidiaeth, galluogi datgarboneiddio, a meithrin twf economaidd cynaliadwy a chynhwysol ar draws y rhanbarth. Dyma fydd yn gyrru penderfyniadau'r CBC yn rhanbarthol drwy'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth a penderfyniadau Awdurdodau Lleol. Dylid nodi bod gan y CBC ddim dylanwad uniongyrchol dros isadeiledd rhwydwaith rheilffyrdd nac y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yng Ngogledd Cymru, gan eu bod yn faterion cenedlaethol a bod cyfrifoldeb am y rhain yn syrffio gyda cyrff eraill.

3.6. Fel rhan o baratoi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol bu'r CBC gynnal ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Ionawr a Ebrill 2025. Yn ogystal a rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad ymysg ei Aelodau, gweithlu, a'r cyhoedd, a hynny drwy gynnal dau sesiwn galw i mewn, e-bostio'r linc i'r ymgynghoriad i Aelodau a'r gweithlu, a rhoi cyhoeddusrwydd ar ein gwefan a cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, mi ddaru'r Cyngor ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Mae copi o'r ymateb hynny wedi ei gynnwys fel Atodiad B i'r adroddiad hwn ond nodir y prif bwyntiau fel:

3.6.1. Croesewir bod heriau gwledig wedi eu hadnabod a bod cyfle am welliannau, ond amlygu fod angen rhyng-gysylltiad rhwng dulliau trafnidiaeth er mwyn hwyluso system drafnidiaeth fwy effeithiol mewn ardaloedd gwledig.

3.6.2. Cefnogi'r uchelgais i greu Trydedd Bont dros y Fenai er mwyn gwella gwytnwch, amser teithio a chapasiti ond nodi'r angen am gyfleusterau parcio dros dro addas ar gyfer Cerbydau Nwyddau Trwm y naill ochr i'r Fenai pe bai pont neu'r Porthladd ar gau.

3.6.3. Croesewir gwelliannau i gefnogi twf y porthladd, yr orsaf reilffordd a safleoedd Porthladd Rhydd ond nodi gall hyn gynyddu'r nifer y llwythi fydd yn cael eu cludo ac felly bod angen prif gynllun hollgynhwysol ar gyfer y porthladd a'r orsaf drenau ehangach.

3.6.4. Nodi siom fod y cynigion i gwelliannau seilwaith rheilffyrdd yn cael eu blaenoriaethu i'r dwyrain o Gyffordd Llandudno ac felly ddim yn ystyried pwysigrwydd Gorsaf Reilffordd Caergybi fel cysylltiad pwysig i deithwyr rhyngwladol deithio ymlaen o/i Iwerddon i weddill y DU neu hyd yn oed i Ewrop trwy Lundain ac i'r Porthladd rhydd Ynys Môn.

3.6.5. Nodi fod angen mwy o hyblygrwydd o ran y Canllawiau Dylunio Teithio Llesol yng nghefn gwlad Cymru er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol gwledig yn gallu datblygu llwybrau teithio llesol yn llwyddiannus er budd yr holl ddefnyddwyr posibl, a chydnabod bod yr anghenion a'r math o ddarpariaeth sy'n briodol ar gyfer ardaloedd gwledig yn wahanol i'r un mewn aneddiadau trefol mwy.

3.6.6. Croesewi'r cynnwys Hwb Hydrogen Caergybi a cefnogi fod angen ffocws a dyhead i gynyddu buddsoddiad yn y seilwaith i osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan a nodi bod heb fuddsoddiad yn y seilwaith sylfaenol mae perygl y bydd ardaloedd gwledig yn cael eu gadael ar ôl a bydd hyn yn creu rhwystrau mewn ardaloedd hynny.

3.6.7. Nodi fod angen eglurder pellach ar ble y bydd y capasiti a'r adnoddau i gyflawni'r Cynllun Cyflawni yn dod, a pwysleisio bod angen dull penodol i sicrhau bod cyllid yn cael ei rannu'n deg.

3.7. Nodir fod y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol sydd wedi ei gynnwys fel Atodiad C i'r adroddiad hwn o bwysigrwydd allweddol o ran prosiectau dylanwadol fydd yn ceisio gwella cysylltiadau a chysylltedd trafnidiaeth ledled y rhanbarth, gan gynnwys ar Ynys Môn. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn uchelgeisiol a bydd ei effeithiolrwydd yn dibynnu ar i ba raddau mae'r Cynllun Cyflawni'n cael ei weithredu yn ystod y 5 mlynedd nesaf, sydd wrth gwrs yn ddibynnol ar gyllid. Er bod trafodaethau yn mynd rhagddynt ar sut bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid rhwng y 4 CBC, a sut bydd CBC Gogledd Cymru yn dyrannu cyllid rhwng prosiectau rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol, nid yw hyn wedi ei benderfynu hyd yma.

3.8. Mae swyddogion y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yn cefnogi mabwysiadu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ond yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, mater i'r Cyngor llawn yw ei gymeradwyo.

This page is intentionally left blank

Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Gorffennaf 2025








Croeso i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (2025-2030) ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n nodi ein cynlluniau i wella ein rhwydwaith trafnidiaeth a chefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y rhanbarth.

Rhagair

Rydym yn deall yn uniongyrchol y rôl hanfodol y mae systemau trafnidiaeth yn eu chwarae yn ein cymunedau. Yn ogystal â gweithio ar ran Gogledd Cymru, rydym wedi ymdrochi yn ein cymunedau lleol ac hefyd yn gweld sut mae cysylltiadau ac opsiynau trafnidiaeth yn effeithio'n uniongyrchol ar bobl a'r economi leol. Mae'r cynllun hwn yn cael ei arwain gan weledigaeth i greu rhwydwaith trafnidiaeth integredig diogel, cynaliadwy, fforddiadwy, gwydn ac effeithiol sy'n cefnogi ein heconomi i ffynnu.

Yn y pen draw, mae systemau trafnidiaeth effeithiol yn rhoi cyfleoedd i bobl. Maent yn eu cysylltu â'r gwasanaethau hanfodol sydd eu hangen i fyw eu bywydau bob dydd. Mae systemau trafnidiaeth integredig ac effeithlon yn cysylltu busnesau â gweithwyr, marchnadoedd, cyflenwyr a chwsmeriaid, sy'n hanfodol i ddatblygu economi ffyniannus i Ogledd Cymru.

Mae cysylltiadau trafnidiaeth da yn denu ymwelwyr ac yn gwella eu profiad, gan roi hwb i economïau lleol a chefnogi busnesau bach i ffynnu. Mae gwasanaethau trafnidiaeth rheolaidd a dibynadwy yn lleihau unigedd mewn ardaloedd anghysbell a gwledig, gan ganiatáu i bobl gael mynediad at ofal meddygol, addysg, a gwasanaethau hanfodol eraill. Maent yn cysylltu pobl â chanolfannau siopa, gweithgareddau hamdden a digwyddiadau diwylliannol. Mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a chymunedol yn darparu opsiynau i'r preswylwyr a'r ymwelwyr hynny nad ydynt yn berchen ar gar neu sydd â mynediad i gar, gan gynnwys yr henoed, yr anabl a phobl ar incwm isel, i fwynhau mynediad cyfartal i'r holl gyfleoedd hyn.

Ar hyn o bryd, mae dros 74% o gymudwyr yng Ngogledd Cymru yn dibynnu ar y car preifat, ond drwy gydweithio i ddatblygu trafnidiaeth gyhoeddus ddeniadol ac opsiynau teithio llesol, gallwn leihau'r ddibyniaeth hon a gwella'r opsiynau sydd ar gael i gymudwyr. Yn ei dro, mae hyn yn cefnogi lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr niweidiol a llygredd aer, gan wella ansawdd bywyd ac amodau amgylcheddol. Bydd buddsoddiad pellach i hyrwyddo'r defnydd o gerbydau trydan a datblygu llwybr tuag at gerbydau sy'n cael eu pweru gan hydrogen yn cefnogi Gogledd Cymru i drosglwyddo i sero net a bod yn falch o'r etifeddiaeth yr ydym yn ei throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r cynllun hwn yn crynhoi'r heriau a'r cyfleoedd unigryw i Ogledd Cymru ac yn amlinellu ein polisïau ac ymyraethau strategol ar draws gwahanol ddulliau o deithio, gan gynnwys rheilffyrdd, ffyrdd, bws, cerdded a beicio. Rydym yn cydnabod bod cael mynediad at wybodaeth gywir a chyfredol ar gyffyrddiad botwm yn gallu moderneiddio a thrawsnewid profiad cymudwyr felly mae arwyddocâd cysylltedd digidol yn cael ei gynyddu yn ein cynllun.

Mae ein hamcanion yn glir: gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol, gwella hygyrchedd a'r dewis o drafnidiaeth, galluogi datgarboneiddio trwy'r newid i fflyd dim allyriadau, a meithrin twf economaidd cynaliadwy a chynhwysol.

Cryfder ein partneriaeth Uchelgais Gogledd Cymru yw un o'n hasedau mwyaf fel rhanbarth yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn cynrychioli ymdrechion cyfunol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth, a'n partneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru ac Arup – sydd wedi darparu cyngor arbenigol i lywio ei ddatblygiad. Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd. Mae eich mewnwelediad, adborth, her a chefnogaeth wedi bod yn amhrisiadwy wrth lunio cynllun trafnidiaeth sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau ein cymunedau a'n busnesau ledled Gogledd Cymru.

Wrth i ni symud ymlaen, rydym wedi ymrwymo i weithio ar y cyd i weithredu'r cynllun hwn a chyflawni ein gweledigaeth ar y cyd ar gyfer Gogledd Cymru fywiog, cynaliadwy a gwydn. Rydym yn eich gwahodd i ymuno â ni ar y daith hon, wrth i ni ymdrechu i greu system drafnidiaeth integredig sydd o fudd i bawb ac sy'n cefnogi dyfodol ffyniannus a llewyrchus i Ogledd Cymru a thu hwnt.



Cynghorydd Goronwy Edwards

Cadeirydd Is-Bwyllgor
Trafnidiaeth Gogledd Cymru



Alwen Williams

Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro
Cydbwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru

Cyflwyniad

Uchelgais Gogledd Cymru a Chyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd


Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CJCs) yn sefydliadau llywodraeth leol corfforaethol rhanbarthol newydd sydd â phwerau a dyletswyddau tebyg i awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae ein Cyd-bwyllgor Corfforedig yma yn y Gogledd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r chwe chyngor sef Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, a Wrecsam, yn ogystal ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer materion cynllunio.

Mae gan ein Cyd-bwyllgor Corfforedig yn y Gogledd ddwy brif ddyletswydd statudol: datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol; a Chynllun Datblygu Strategol. Mae'r cynlluniau hyn yn hanfodol ar gyfer cynllunio gofodol ar lefel strategol, gan sicrhau bod ein hisadeiledd trafnidiaeth a'n defnyddiau tir yn cyd-fynd ag anghenion ein cymunedau, economi a'r amgylchedd.

Mae cyfle cryf ar gyfer dull rhanbarthol o ddatblygu yng Ngogledd Cymru, gyda thrafnidiaeth, defnydd tir, a thwf economaidd, oll yn dod at ei gilydd fel system daclus. Mae'r cydrannau hyn yn creu un system gydlynol gyda'r amcan o sicrhau bod y Gogledd mewn safle da i ddarparu'r sgiliau, y gyflogaeth a'r cyfleoedd economaidd sy'n hanfodol ar gyfer dyfodol llewyrchus.

Uchelgais Gogledd Cymru yw'r brand sy'n cynrychioli Cyd-bwyllgorau Corfforedig Gogledd Cymru a'i is-bwyllgor Llesiant Economaidd yw'r strwythur gwneud penderfyniadau ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru – cytundeb, ochr yn ochr â Llywodraethau Cymru a'r DU i gyflawni buddsoddiad cyfanswm o dros £1 biliwn mewn prosiectau cyfalaf ar gyfer Gogledd Cymru a fydd yn cynhyrchu dros 4000 o swyddi newydd erbyn 2036.

Wrth symud ymlaen, edrychwn ymlaen atoch chi glywed llawer mwy am Uchelgais Gogledd Cymru a gwaith y Cyd-bwyllgor Corfforedig wrth i ni helpu i lunio dyfodol mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn i Ogledd Cymru.



Ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Mae trafnidiaeth yn rhan hanfodol o'n bywydau yng Ngogledd Cymru. Mae ein system drafnidiaeth yn ein cysylltu â swyddi, addysg, gofal iechyd, siopa a hamdden. Mae'n hanfodol i'n heconomi leol gan ei fod yn cysylltu busnesau â'u cwsmeriaid, yn caniatáu i dwristiaid ymweld ag atyniadau a chyrchfannau gwyliau lleol, ac mae'n hwyluso cludo nwyddau. Mae ein dewis o drafnidiaeth yn effeithio arnom ni fel unigolion ac ar ein hamgylchedd ehangach.

Mae Llwybr Newydd, strategaeth drafnidiaeth Llywodraeth Cymru, yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer sut y gall trafnidiaeth helpu i gyflawni'r blaenoriaethau i Gymru, gan helpu i greu cymdeithas fwy ffyniannus, gwyrdd a chyfartal. Bydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn ein helpu i ymdrin â materion trafnidiaeth lleol a rhanbarthol yn awr ac yn y dyfodol dros y 5 mlynedd nesaf (2025-2030) drwy ddarparu fframwaith ar gyfer penderfyniadau ar fuddsoddiad yn y dyfodol. Mae'n nodi sut y gall trafnidiaeth gefnogi'r gwaith o ddarparu Llwybr Newydd a chyfrannu at lwyddiant, adfywio a datblygiad ein rhanbarth.

Mae'r Cynllun hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall Gogledd Cymru gyfrannu at gyflawni strategaethau a blaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r Adroddiad Achos dros Newid, sydd wedi'i baratoi i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi'r Cynllun hwn, yn nodi'r cysylltiadau â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn ystyried cynlluniau ac astudiaethau perthnasol, ac yn amlinellu heriau a chyfleoedd trafnidiaeth allweddol. Mae'r Cynllun hwn yn adeiladu ar y gwaith helaeth sydd eisoes wedi'i wneud sy'n cysylltu â chynlluniau a pholisïau strategol cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol, megis:

- Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru
- Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol
- Rhwydwaith Gogledd Cymru
- Adroddiadau Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru
- Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Ffyrdd
- Adolygiad Cysylltedd Undeb
- Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru
- Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan
- Strategaeth Diogelwch Ffyrdd i Gymru
- Strategaeth Cludo Nwyddau Cymru
- Canllawiau Deddf Teithio Llesol a Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol
- Bws Cymru: cysylltu pobl â lleoedd
- Un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn
- Rheilffordd i Gymru
- Strategaeth Buddsoddi Isadeiledd Cymru
- Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol
- Polisi Cynllunio Cymru
- Cynlluniau Datblygu Lleol
- Asesiadau llesiant a chynlluniau llesiant lleol
- Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Adroddiad Mewnfuddsoddi Uchelgais Gogledd Cymru
- Cymru Sero Net a'i Chyllidebau Carbon
- Cymru Iachach
- Cynllun Aer Glân i Gymru
- Cynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd i Gymru
- Canol trefi: datganiad sefyllfa


Dylid darllen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn ochr yn ochr â'n Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol, sy'n nodi'r ymyraethau fydd ein hawdurdodau lleol yn eu datblygu dros gyfnod y cynllun.

Dylid darllen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn hefyd ochr yn ochr â'n Harfarniad Llesiant Integredig, sy'n dangos sut y bydd ein cynlluniau'n cyfrannu at lesiant, gyda chefnogaeth yr asesiadau effaith yr ydym wedi'u cynnal i ystyried materion fel iechyd, cydraddoldeb a bioamrywiaeth.

Rhaid i'n Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gynnwys polisïau i gefnogi gweledigaeth ac uchelgeisiau Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, a chyd-fynd â'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol. Ar ben hynny, rhaid i'n cynlluniau wneud y cyfraniadau mwyaf posibl i'r mesurau a nodir yn Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae hynny'n helpu i sicrhau ein bod yn diwallu ein targedau trafnidiaeth a newid hinsawdd. Er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn cyrraedd ein targedau, rydym wedi paratoi ein Cynllun Monitro a Gwerthuso fydd yn ein helpu i gael y canlyniadau yr ydym eu heisiau.

Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn hefyd yn llunio ein Cynllun Datblygu Strategol, gan ystyried y polisïau a'r ymyraethau a amlinellir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn a'i ddiweddariadau dilynol. Er bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn wedi ystyried polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg, a nodi meysydd i'w datblygu, bydd angen ystyried unrhyw gynigion trafnidiaeth sydd â gofynion tir fel rhan o'n polisïau trafnidiaeth rhanbarthol yn y cynlluniau defnydd tir sy'n dod i'r amlwg ar lefelau rhanbarthol a lleol.

Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol (SDPs) yng Nghymru yn gynlluniau rhanbarthol sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â materion sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol. Byddant yn eistedd rhwng y cynllun cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040) a chynlluniau datblygu lleol (CDLl).



Polisïau a Blaenoriaethau Awdurdodau Lleol
Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru
Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru
Cynllun hirdymor Rhwydwaith Gogledd Cymru (gan gynnwys Rhaglen y Metro)
Yr Achos dros Newid ar gyfer Cynllun Trafnidieath Rhanbarthol Gogledd Cymru
Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
Gwerthusiad Lles Integredig
Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol
Cynllun Monitro a Gwerthuso

Ein rhwydwaith trafnidiaeth a gyrwyr dros newid

Sut ydym yn teithio

Mae'r cyfleoedd ar gyfer teithio yng Ngogledd Cymru yn eang, fel y dangosir yn y cynllun hwn o Ogledd Cymru a'r rhanbarthau cysylltiedig. Mae trafnidiaeth yn ein helpu i gysylltu â'r lleoedd yr ydym am ymweld â nhw yn ein rhanbarth a thu hwnt â gweddill Cymru, Lloegr ac Iwerddon. Gallwn symud o gwmpas trwy ddulliau gwahanol o deithio ac mae cael dewis ynghylch sut ydym yn cael mynediad i'r lleoedd rydym yn gweithio, yn prynu ein nwyddau, treulio ein hamser hamdden, ac yn cael mynediad i wasanaethau, yn bwysig wrth ystyried bod gan bob un ohonom anghenion a chyfleoedd gwahanol.




Liverpool-Belfast
Liverpool City Region
Manchester
Liverpool-Dublin
Liverpool
Mersey-Deeside
cross-border
economic zone
Runcorn
Rhyl
Ellesmere Port
Cheshire Science
Corridor
A55
M56
Flintshire-Wrexham
Investment Zone
Chester
wydian Range
nd Dee Valley
A51
Crewe
Wrexham
A494
A483
Pontcysyllte
Aqueduct
A5
A494
Links to Mid Wales

Cerdded, olwyno a beicio

Rydym yn cerdded, olwyno a beicio ar gyfer ystod o deithiau, gan gynnwys cymudo, i fynd i'r ysgol neu'r coleg, i ddefnyddio gwasanaethau lleol, ac ar gyfer gweithgareddau hamdden. Rydym hefyd yn uno â gwahanol rannau o'n teithiau fel hyn, er enghraifft trwy gerdded, olwyno neu feicio i ac o orsaf reilffordd. Mae Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol wedi'u paratoi ac yn parhau i gael eu datblygu gan awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru, sy'n nodi'r holl ddyheadau presennol ac yn y dyfodol ar gyfer y rhwydwaith cerdded a beicio yng Nghymru.

Mae cyfran y bobl sy'n cerdded am fwy na 10 munud fel modd o deithio o leiaf unwaith y mis yn amrywio o hanner poblogaeth Gwynedd, i 7 o bob 10 o bobl yn Ynys Môn. Fel arfer, darperir llwybrau cerdded yn ein hardaloedd trefol ar ffurf llwybrau troed a chroesfannau yn ein dinasoedd a'n trefi. Yn ein hardaloedd gwledig, rydym yn aml yn dibynnu mwy ar lwybrau cyhoeddus, llwybrau ceffyl a lonydd lleol. Gallwn hefyd fwynhau 60 milltir o olygfeydd môr o Lwybr Arfordir Gogledd Cymru (rhan o lwybr hir Llwybr Arfordir Cymru) gan ddechrau o Gaer ac, ym Mhrestatyn, ymuno â Llwybr Clawdd Offa, heneb hiraf Prydain sy'n Llwybr Cenedlaethol hefyd, cyn parhau i Fangor.

Ar gyfartaledd, mae tua 10% ohonom yn teithio ar feic yn amlach nag unwaith y mis yng Ngogledd Cymru. Mae llwybrau'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN) yn rhedeg trwy Ogledd Cymru, sy'n cynnwys cysylltiadau ar y ffordd yn bennaf, gan hefyd gysylltu cymysgedd o lonydd gwledig, dyffrynnoedd afonydd, llwybrau di-draffig a ffyrdd mynydd. Yn gyffredinol, mae parcio beiciau ar gael mewn gorsafoedd rheilffordd a chyfleusterau cymunedol allanol.

Yng Nghymru, mae teithio llesol yn cyfeirio at wneud teithiau trwy ddulliau corfforol, fel cerdded, beicio, neu ddefnyddio cadair olwyn. Cefnogir y cysyniad hwn gan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, sy'n anelu at hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw a lleihau'r effaith amgylcheddol trwy annog mwy o bobl i gerdded a beicio ar eu teithiau dyddiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau i awdurdodau lleol gynllunio a dylunio rhwydweithiau o lwybrau cerdded a beicio, gan sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn hygyrch.

Ein rhwydwaith bysiau a choetsis

Ar hyn o bryd, mae 24 o weithredwyr bysiau yn darparu gwasanaethau ar draws Gogledd Cymru, cyfanswm o 188 o lwybrau bysiau. Dros wythnos, maent yn teithio tua hanner miliwn cilomedr, sy'n cyfateb i fws sy'n teithio o gwmpas y byd 12 gwaith.

Ar hyn o bryd, mae mesurau isadeiledd blaenoriaeth bysiau cyfyngedig iawn, mae'r unig ddarpariaeth bresennol yn Wrecsam, sy'n cynnwys dwy lôn fysiau a lôn wrth-lif (lôn bwrpasol ar stryd unffordd sy'n caniatáu bysiau i deithio i'r cyfeiriad arall i'r traffig). Wrecsam ac ardaloedd trefol ar arfordir Gogledd Cymru sydd â'r galw mwyaf am deithiau bws, ac ar draws Cymru defnyddir bysiau yn fwyaf cyffredin ar gyfer teithiau lleol.

Er enghraifft, mae data teithwyr yn awgrymu bod y rhan fwyaf o deithiau teithwyr ar wasanaethau TrawsCymru yn gymharol leol yn hytrach na phellter hir. Mae data ar gyfer 2024 yn dangos cynnydd sylweddol o 70% mewn defnydd sy'n helpu i ddangos gwerth gwasanaeth a reoleiddir yn y Gogledd, lle mae teithiwyr yn cael y flaenoriaeth. Mae tua thraean o'r teithiau ar fws yn llai na 5km o bellter (mae hynny'n llai o bellter na rhwng gorsaf Cyffordd Llandudno a Sw Mynydd Cymru ym Mae Colwyn).

Mae'r rhan fwyaf o deithiau bws o fewn yr un ardal awdurdod lleol neu i ardal gyfagos, ac mae gan lawer o deithiau sy'n dechrau mewn ardaloedd gwledig gyrchfannau mewn ardaloedd trefol cyfagos. Er bod hyd teithiau yn hirach mewn ardaloedd gwledig, maent yn dal i fod yn deithiau byr yn gyffredinol.

Mae gwasanaethau bws math cyflym (express) yn gymharol anghyffredin yng Nghymru o gymharu â rhannau eraill o'r DU ac Iwerddon, ac nid oes unrhyw wasanaethau bws wedi'u trefnu (ac eithrio teithiau bws preifat sy'n arbenigo mewn teithiau gwyliau a theithiau dydd) ar hyn o bryd yn gweithredu ar hyd coridor yr A55. Fel arfer, mae prisiau bws tua thraean pris y rheilffyrdd, sy'n dangos pan fydd gwasanaethau ar gael, gallant helpu i ddenu pobl i deithio gyda thocynnau rhatach, yn enwedig myfyrwyr a siopwyr sy'n defnyddio dinasoedd mwy yn Lloegr.



© Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

Mae gwasanaethau cludiant cymunedol (bysiau mini fel arfer) yn arbennig o werthfawr i'r rhai sydd â heriau symudedd, neu breswylwyr mewn ardaloedd mwy gwledig, nad oes ganddynt fynediad at geir ac mewn ardaloedd lle mae trafnidiaeth gyhoeddus wedi lleihau gwasanaethau neu nad yw ar gael. Mae'r gwasanaethau hyn fel arfer yn cael eu cydlynu ar lefel awdurdod lleol. Yng Ngogledd Cymru, rydym hefyd yn elwa o amrywiaeth o wasanaethau ffonio a theithio a pharcio a theithio ar-alw.

Un stori o lwyddiant yng nghefn gwlad Gogledd Cymru oedd gwasanaethau bws Sherpa'r Wyddfa, sy'n darparu ffordd o deithio'n gynaliadwy yn Eryri unwaith y bydd ymwelwyr wedi cyrraedd y Parc Cenedlaethol. Ym mis Awst 2024, defnyddiodd mwy na 72,000 o bobl y gwasanaeth Sherpa, cynnydd o bron i 80% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a dyma'r tro cyntaf i nifer y teithwyr fod yn fwy na 70,000 mewn mis.

72,000

defnyddiodd o pobl y gwasanaeth Sherpa ym mis Awst 2024

Ein rheilffyrdd

Mae'r rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol yng Ngogledd Cymru yn cael ei reoli a'i gynnal gan Network Rail, gyda gwasanaethau i deithwyr yn cael eu gweithredu gan Trafnidiaeth Cymru ac AvantiWest Coast. Mae 66 o orsafoedd yng Ngogledd Cymru, wedi'u lleoli ar Reilffordd Arfordir Gogledd Cymru, Lein Yr Amwythig i Gaer, Rheilffordd Dyffryn Conwy, Lein Wrecsam i Lerpwl (Lein y Gororau gynt), a Lein y Cambrian. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau i weithio ar lein Wrecsam i Lerpwl fel y cam cyntaf o gyflwyno gwasanaethau Metro uniongyrchol rhwng y ddwy ddinas. Mae cynigion hefyd i ddyblu'r gwasanaethau rhwng Wrecsam a Chaer.

Mae tair prif reilffordd gyswllt bwysig, sef Prif Lein Gogledd Cymru, Lein Wrecsam i Lerpwl a Lein Amwythig-Wrecsam-Caer. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn cysylltu rhwng ardaloedd mwyaf poblog y rhanbarth, gan gefnogi llawero deithiau domestig a thrawsffiniol. Mae Prif Lein Gogledd Cymru yn cysylltu Crewe yn y dwyrain a Chaergybi yn y gorllewin, gan ganiatáu cysylltiadau â Manceinion a Llundain. Mae Lein Wrecsam i Lerpwl yn cysylltu Wrecsam â Lerpwl trwy newid yn Bidston, ac mae lein Amwythig-Wrecsam-Caer yn cysylltu Wrecsam â chymunedau ar hyd y ffin, gyda chysylltiadau ymlaen i Birmingham a De Cymru. Mae Lein y Cambrian yn arbennig o bwysig i gymunedau yng Ngwynedd, gyda Lein Arfordir y Cambrian yn cysylltu teithiau cerdded arfordirol a lleoedd i ymweld â nhw ar hyd llwybr arfordirol Cymru, tra bod Prif Lein y Cambrian o'r Amwythig yn cysylltu Lein yr Arfordir â Chanolbarth Lloegr a gweddill y DU.

Fel arfer, mae gan orsafoedd rheilffordd Caergybi, Llanfairpwll, Bangor, Cyffordd Llandudno, Bae Colwyn ac Abergele o leiaf un trên yr awr. Mae hyn yn golygu nad yw'r rhanbarth yn arbennig o hygyrch ar y rheilffyrdd, yn enwedig i'r rhai nad ydynt yn byw yn agos at orsaf reilffordd. Fodd bynnag, ar gyfer pobl sy'n gallu cael mynediad haws at wasanaethau rheilffordd, wrth ystyried traffig yn ystod cyfnodau teithio prysur, mae amseroedd teithio ar y rheilffordd ac yn y car yn weddol gymaradwy. Er enghraifft, 10 munud yn hirach ar y trên yn unig yw taith rhwng Caergybi a'r Amwythig.

Er nad yw yng Ngogledd Cymru, mae Gorsaf Caer yn orsaf bwysig i sawl defnyddiwr rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru gan fod yr holl wasanaethau sy'n defnyddio Prif Lein Gogledd Cymru yn pasio trwodd.

Mae data a gasglwyd gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd (ORR) yn dangos mai Bangor yw'r orsaf drenau a ddefnyddir fwyaf yng Ngogledd Cymru gyda bron i 700,000 o gofrestriadau cyrraedd a gadael yr orsaf bob blwyddyn.



© Unsplash

Ein ffyrdd a'n strydoedd

Mae perchnogaeth ceir yng Ngogledd Cymru yn uchel, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, a'r car preifat yw'r prif ddull o deithio i'r gwaith. Mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn esbonio sut mae'r pellter sy'n cael ei yrru gan geir wedi cynyddu 13% dros y ddegawd ddiwethaf, tra bod yr allyriadau o'r ceir hyn wedi gostwng 9%. Erbyn hyn, mae dros 7,000 o gerbydau trydan yng Ngogledd Cymru. Mae llai na 2% o geir ag allyriadau isel iawn neu ddim allyriadau yng Nghymru.

Mae nifer ohonom yn dibynnu ar ein ffyrdd A i fynd o gwmpas. Mae'r rhwydwaith cefnffyrdd yn ein rhanbarth yn cynnwys yr A5, A55, A458, A470, A483, A487, A489, A494, a'r A550. Yn benodol, mae Ffordd Gyflym yr A55 yng ngogledd Cymru yn goridor trafnidiaeth mawr ac yn elfen allweddol o rwydwaith ffyrdd strategol y DU ac Ewrop sy'n darparu'r brif wythïen economaidd ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'r llwybr yn rhedeg i Gaer ac yn cysylltu â Lerpwl trwy'r M53 a'r A533. Mae'n ymestyn o Gaergybi ar draws Gogledd Cymru a Gogledd Lloegr i dir mawr Ewrop trwy wasanaethau fferi o Borthladd Immingham. Mae'r A55 hefyd yn gyswllt pwysig i drefi a chymunedau lleol ac mae'n darparu cysylltiad â'r A470 â De a Chanolbarth Cymru. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn adolygu cynigion i godi trydedd bont dros y Fenai er mwyn gwella'r capasiti a'r amseroedd teithio rhwng Ynys Môn a'r tir mawr.

Mae'r A55 yn goridor prysur, gan ddod â llif traffig teithwyr a chludo nwyddau o Gaergybi i weddill y rhanbarth. Yn ôl data a gyhoeddwyd gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, mae'r defnydd o'r A55 yn dychwelyd i lefelau cyn Covid.

Mae cyfnodau prysur o dagfeydd sylweddol ar yr A55 yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst o draffig gwyliau, gan gyfrannu at lygredd aer a sŵn. Er bod ansawdd aer cyffredinol yn dda yng Ngogledd Cymru, coridor yr A55 yw'r cyfrannwr unigol mwyaf at lygredd aer a sŵn yn y rhanbarth.

Mae dadansoddiad o ddata rhwydwaith ffonau symudol sy'n cwmpasu cyfnod prysuraf y bore (07:00 – 10:00) gan Trafnidiaeth Cymru yn amlygu pwysigrwydd teithiau yn y car rhwng Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr (30% o'r holl deithiau rhyngranbarthol os cyfunir y ddau gyfeiriad). Mae teithiau trawsffiniol sy'n dechrau yng Ngogledd Cymru fwy nag 20 gwaith yn uwch na'r teithiau rhyngranbarthol sy'n digwydd o Ogledd Cymru i ranbarthau eraill yng Nghymru.

Mae parcio ceir yn dylanwadu ar sut mae pobl yn dewis teithio, ac mae awdurdodau cynllunio lleol angen safonau da o ddylunio meysydd parcio, nad ydynt yn caniatáu i gerbydau ddominyddu'r stryd neu anghyfleustra i bobl gerdded a beicio. Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol yn cefnogi strydoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda, sy'n ymateb i ofynion pobl i helpu i greu lleoedd cynaliadwy a chynyddu cerdded, beicio a'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

Rydym yn ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu ein hawdurdodau lleol ar draws Gogledd Cymru o ran cadw ein ffyrdd i safon dda, a'r effaith y mae digwyddiadau tywydd mwy eithafol yn ei chael ar wynebu ffyrdd ledled Cymru a'r DU. Rydym yn deall y pwysau cynyddol sy'n wynebu ein hawdurdodau lleol, sy'n gyfrifol am gynnal ffyrdd lleol o fewn eu hawdurdodaeth, sy'n cynnwys trwsio tyllau a mathau eraill o ddifrod i'r ffyrdd.

Er mwyn helpu i wneud ein strydoedd yn lleoedd mwy diogel a deniadol i bobl eu defnyddio, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi 20 mya fel y terfyn cyflymder diofyn newydd ar gyfer y rhan fwyaf o strydoedd ac mae'n cymryd mesurau i atal parcio ar balmentydd. Mae'n gweithio ar gynlluniau a fyddai'n caniatáu i'n hawdurdodau lleol ddefnyddio mesurau gorfodaeth yng nghyswllt parcio ar balmentydd pan fydd yn achosi rhwystr, gyda'r nod o wneud strydoedd yn fwy diogel i bawb. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r rhai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu bramiau ac sydd â'u symudedd wedi'i rwystro gan bobl sy'n blocio ein palmentydd, gan gydnabod hefyd y gall parcio anghyfreithlon rwystro symudiad gwasanaethau cludiant cyhoeddus, a all achosi oedi diangen.

Mae canllawiau newydd wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru i Gynghorau ar ffyrdd 'eithrio', lle gall y llwybrau symud yn ôl i 30mya. Ymhellach i ymgynghoriadau awdurdodau lleol, roedd dwy ffordd yn Wrecsam (y B5605/Stryd Fawr, yn Johnstown a'r A525 Ffordd Bryn-y-Grog) y cyntaf yn y Gogledd i ddychwelyd i 30mya yn sgil y newid diofyn i gyflymder o 20mya.

13%

pellter a yrrir gan ceir wedi cynyddu dros y degawd diwethaf

7,000

cerbydau trydan plug-in yng Ngogledd Cymru



© Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

Ein porthladdoedd

Mae Porthladd Caergybi yn borthladd masnachol a fferi yn Ynys Môn ac yn cael ei gydnabod yng Nghymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol fel porth strategol pwysig rhwng Iwerddon a Chymru ac fel y prif lwybr cludo ar gyfer nwyddau sy'n symud rhwng Prydain Fawr ac Iwerddon. Mae'r porthladd wedi'i leoli ar ddechrau ffordd ddeuol yr A55, ac mae adeilad terminws y fferi yn cael ei rannu gyda gorsaf reilffordd Caergybi, sef terminws Lein Arfordir Gogledd Cymru gyda gwasanaethau uniongyrchol i Gaer a Llundain Euston. Cafodd dros 1.6 miliwn o deithwyr eu cludo trwy Borthladd Caergybi trwy wasanaeth fferi Caergybi-Dulyn yn 2023, a dyma'r ail borthladd 'roll-on / roll-off (Ro-Ro)' mwyaf yn y DU.

Yn 2018, defnyddiodd tua 150,000 o lorïau'r llwybr rhwng Dulyn a Chaergybi, sy'n cysylltu busnesau Gwyddelig â marchnadoedd allforio Ewropeaidd. Fodd bynnag, ers Brexit, mae Porthladd Caergybi wedi gweld gostyngiad o tua 20% mewn symudiadau cludo nwyddau. Ar yr un pryd, mae Stena wedi cofnodi cynnydd mewn symudiadau teithwyr a chludo nwyddau ar ei lwybr fferi Rosslare-Cherbourg, gyda'r nifer uchaf erioed o deithwyr yn Haf 2023.

Ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n buddsoddi £40 miliwn i adnewyddu Morglawdd Caergybi, sy'n amddiffyn seilwaith y porthladd ac yn caniatáu i longau ddocio'n ddiogel yng Nghaergybi. Bydd y cymorth buddsoddi gan Lywodraeth Cymru yn helpu i sicrhau dyfodol y porthladd ac yn agor cyfleoedd newydd sy'n gysylltiedig â menter Porthladd Rhydd Ynys Môn ac yn y farchnad mordeithiau. Mae Porthladd Mostyn hefyd wedi'i ddatblygu gydag ehangiadau diweddar i ddod yn un o borthladdoedd pwysicaf Ewrop ar gyfer y sector ynni adnewyddadwy ar y môr.

Mae Porthladd Lerpwl a Gogledd Cymru yn rhannu perthynas hanesyddol a pharhaus yn sgil lleoliad Lerpwl ar arfordir gorllewinol Lloegr, gan wasanaethu fel porth pwysig ar gyfer masnach a thrafnidiaeth i ac o'r Gogledd.

Bydd Ynys Môn nawr yn elwa o statws Porthladd Rhydd lle bydd tollau a rheolau masnach symlach, gan ddarparu mwy o gymhellion ar gyfer buddsoddi a masnach. Yn y dyfodol, ni fydd nwyddau sy'n mynd i mewn i Borthladd Rhydd Ynys Môn yn gaeth i drefn dreth a thollau arferol y DU, gan gefnogi buddsoddiad busnes tymor hir, a hybu ffyniant Ynys Môn a Gogledd Cymru. Bydd y Porthladd Rhydd yn lleihau'r angen i gludwyr gludo nwyddau o amgylch pen deheuol y DU, proses sy'n niweidiol i'r amgylchedd ac yn economaidd aneffeithlon. Bydd y Porthladd Rhydd hefyd yn cyflymu'r gwaith o adfywio safleoedd penodol gan gynnwys Parc Ffyniant yng Nghaergybi, a'r nifer sy'n manteisio ar gynhyrchu ynni cynaliadwy trwy adeiladu ar fentrau sero-net presennol sy'n arwain y diwydiant ar arfordir yr Ynys. Bydd hyn yn atgyfnerthu 'Rhaglen Ynys Ynni' bresennol y Cyngor Sir ac yn cynhyrchu cyflenwadau ynni sydd eu hangen yn fawr ar gyfer gweddill y DU.

Ein meysydd awyr

Yng Ngogledd Cymru, mae gennym Faes Awyr Môn, sydd wedi'i leoli ger yr A55 sy'n darparu mynediad hawdd i'r ffordd, a Maes Awyr Penarlâg, sy'n chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi gweithrediadau Airbus gyda'i ffatri ym Mrychdyn, yn Sir y Fflint. Yn gwasanaethu poblogaeth a busnesau ehangach Gogledd Cymru sydd â chysylltiadau rhyngwladol, yn cynnwys meysydd awyr Lerpwl, Manceinion a Birmingham.

Maes Awyr John Lennon yn Lerpwl yw'r 12fed maes awyr prysuraf yn y DU, gyda mwy na 4 miliwn o deithwyr yn 2023 ac mae'n gwasanaethu dros 60 o gyrchfannau ledled Ewrop. Mae'r maes awyr yn borth rhyngwladol i Ranbarth Dinas Lerpwl, Gogledd-orllewin Lloegr, ac i'r rhai sy'n teithio o Ogledd Cymru.

Mae data o arolwg yr Awdurdod Hedfan Sifil 2017, sef y tro diwethaf i Faes Awyr Lerpwl gael ei arolygu, yn dangos bod cyfran uwch o deithwyr yn teithio i ac o Faes Awyr Lerpwl gan ddefnyddio dulliau trafnidiaeth gyhoeddus o'i gymharu â meysydd awyr o faint tebyg, sef 27%. Fodd bynnag, mae hyn yn is na meysydd awyr sydd â chysylltiad rheilffordd uniongyrchol, fel meysydd awyr Stansted a Gatwick yn Llundain.

Un o amcanion Strategaeth Mynediad Arwyneb Maes Awyr Lerpwl yw ehangu dalgylch y maes awyr i farchnadoedd yng Ngogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr trwy wella cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd hyn yn her yn y cyd-destun bod trafnidiaeth gyhoeddus yn anghystadleuol gyda'r car preifat: mae amseroedd teithio rhwng Caergybi a Maes Awyr Lerpwl yn cymryd dros dair awr ar drafnidiaeth gyhoeddus, o'i gymharu â llai na dwy awr mewn car preifat yn ystod amseroedd nad ydynt yn oriau brig (tu allan i'r oriau prysuraf).

Mae Maes Awyr Manceinion yn elwa o gysylltiad rheilffordd uniongyrchol bob awr o Brif Lein Gogledd Cymru. Yn 2023, bu'r maes awyr yn gwasanaethu mwy na 28 miliwn o deithwyr, gan ei wneud y prysuraf y tu allan i Lundain, ac fel cyflogwr mawr mae'n chwarae rhan sylweddol yn yr economi ranbarthol. Mae Maes Awyr Birmingham hefyd yn un o brif feysydd awyr y DU, ac mae'n gwasanaethu dros 13 miliwn o deithwyr bob blwyddyn. Mae'n elwa o fynediad rhwydd ar y rheilffyrdd a'r ffyrdd o Wrecsam a'r ardaloedd cyfagos yn y Gogledd.

27%

teithwyr yn teithio i Faes Awyr Lerpwl ac oddi yno gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus

Ein hanghenion a'n dyheadau yn y dyfodol

Ym mis Mai 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun gwerth £2.1bn i drawsnewid rhwydwaith rheilffyrdd y Gogledd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £13m cychwynnol gyda chyllid pellach sylweddol gan Lywodraeth y DU i'w gytuno. Bydd Bwrdd Rhwydwaith Gogledd Cymru newydd yn goruchwylio'r cynlluniau a'r cyllid.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gydag aelodau eraill y bwrdd i helpu i fwrw ymlaen â'r cynlluniau sy'n ceisio gwneud gwelliannau sylweddol i drafnidiaeth cyhoeddus ledled y Gogledd a'r tu hwnt.

Gan adeiladu ar ein Hadroddiad Achos dros Newid sy'n nodi'r materion, yr heriau a'r cyfleoedd allweddol y dylai'r Cynllun hwn eu hystyried, mae yna yrwyr allweddol ar gyfer newid sy'n ein helpu i siapio ein hanghenion a'n dyheadau ar gyfer y system drafnidiaeth a'r rhwydwaith yr ydym eisiau ei weld yng Ngogledd Cymru:

- Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** Llywodraeth Cymru yn amlinellu nodau cyfreithiol rhwymol i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Fel cyfran o'r defnydd cyffredinol o ynni yng Nghymru, mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yn amlygu bod defnydd ynni sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth wedi cynyddu, ac un o'r ffynonellau mwyaf o allyriadau nwyon tŷ gwydr a llygredd aer yng Nghymru yw cludiant.
- Mae **Adolygiad Cysylltedd Undeb** Llywodraeth y DU yn argymell creu rhwydwaith trafnidiaeth strategol i gefnogi twf economaidd hirdymor, swyddi, tai a chydlyniant cymdeithasol ledled y Deyrnas Unedig. Mae cyfweliadau manwl ac arolwg ledled y DU yn tynnu sylw at farn y cyhoedd ac yn darparu cefnogaeth ar gyfer buddsoddi pellach mewn coridorau aml-ddull i wella cysylltedd trafnidiaeth.
- Mae **Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru** yn amlinellu naw cynllun bach i helpu i ddarparu system drafnidiaeth fwy hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon ledled Cymru. Mae sicrhau rhwydweithiau bysiau a rheilffyrdd cyflymach, mwy dibynadwy yn thema ganolog yn ogystal â ffocws ar ymgysylltu cymunedol a theithio llesol. Mae'r strategaeth yn cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb a chanllawiau ar amddiffyn diwylliant ac iaith Cymru. Mae hefyd yn esbonio sut y bydd Cymru'n defnyddio'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a nodir mewn polisi cynllunio cenedlaethol i lywio penderfyniadau am isadeiledd newydd a rhoi blaenoriaeth i gerdded a beicio a chludiant cyhoeddus, ac yna allyriadau isel iawn ac yn olaf cerbydau preifat.
- Cynllun yw **Rhwydwaith Gogledd Cymru** sydd â'r nod o wella cysylltedd rhwn Gogledd Cymru a'r 'Northern Arc', coridor economaidd allweddol sy'n cysylltu Gogledd Cymru â dinasoedd a rhanbarthau yng ngogledd Lloegr. Mae'r cynlluniau yn cynnwys gwasanaeth bws a rheilffordd 'troi fyny a mynd', gan ymestyn o Hull i Gaergybi.
- Mae'r **Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol** yn nodi sut y bydd pob un ohonom yn cyflawni yn erbyn y blaenoriaethau a'r uchelgeisiau a amlinellir yn Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys y rhaglenni, y prosiectau a'r polisïau newydd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cyflawni yn y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2022 a 2027.
- Mae Cyllideb Carbon 2 **Cymru Sero Net** yn amlinellu'r camau ar gyfer yr ail gyfnod cyllideb carbon (2021-2025), gyda'r nod o leihau allyriadau 37% erbyn 2025. Nod y weledigaeth hirdymor yw sicrhau ansawdd bywyd gwell ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae targedau newid moddol (gyda'r nod o symud i ffwrdd o ddefnyddio ceir preifat i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, yn cynnwys teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer y mwyafrif o deithiau) yn her sylweddol i gefnogi datgarboneiddio'r system drafnidiaeth.
- Y **enhadaeth economaidd** mae blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach yn amlinellu meysydd blaenoriaeth cenedlaethol sy'n cynnwys systemau trafnidiaeth ar gyfer cysylltiadau gwell, cysylltu pobl â chyfleoedd a gwasanaethau cyhoeddus, ehangu marchnadoedd llafur, gan alluogi cyfatebu pobl yn well â swyddi, a chaniatáu gwell mynediad at fwy o gyfleoedd hyfforddi.

- Mae **Cynllun Twf Gogledd Cymru** yn cefnogi ffyniant rhanbarthol ac mae angen cefnogi isadeiledd a gwasanaethau trafnidiaeth i gysylltu'r rhanbarth yn well yng Nghymru a thros y ffin, er enghraifft i farchnadoedd yng ngogledd-orllewin Lloegr a chanolbarth Lloegr. Gyda chefnogaeth y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol, mae yna ymgyrch i annog partneriaethau cryf rhwng cymunedau, busnesau a chynghorau, gan alluogi canol trefi ac ailddiffinio'r stryd fawr leol. Cydnabyddir bod coridor yr A483/A55 o bwysigrwydd allweddol i'r rhanbarth fel catalydd ar gyfer twf economaidd ehangach.
- Mae Adroddiad **Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru** yn amlygu'r annigonolrwydd yn y rhwydwaith trafnidiaeth presennol sy'n cyfrannu at salwch, mynediad cyfyngedig at gyflogaeth ac effeithiau amgylcheddol negyddol. Mae'r argymhellion yn cynnwys trydaneiddio rheilffyrdd, gwelliannau i Lein Wrecsam i Lerpwl, gorsafoedd newydd, gwell cyfnewidfeydd, datblygiad parhaus llwybrau teithio llesol, ac ystyried llwybrau bysiau posibl rhwng y gogledd a'r de ac yn draws-ffiniol. I gefnogi hyn, cyhoeddwyd 'cronfa arloesedd' trydaneiddio gwerth miliynau o bunnoedd ym mis Mai 2025 i helpu i ddatblygu cynllun i ddadgarboneiddio'r rheilffyrdd yn y Gogledd a galluogi gwasanaethau metro mwy cyson a gorsafoedd ychwanegol.
- Mae **Rhaglen Metro Gogledd Cymru** yn fenter gynhwysfawr gyda'r nod o drawsnewid mynediad i drafnidiaeth gan ganolbwyntio ar gryfhau cysylltiadau rheilffordd â Gogledd-orllewin Lloegr.

  Bydd hyn nawr yn cael ei ddatblygu drwy fuddsoddiad Rhwydwaith Gogledd Cymru mewn gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'n adeiladu ar y gwaith datblygu sydd eisoes wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru.

  Bydd y rhaglen yn mabwysiadu dull trawsffiniol i drawsnewid trafnidiaeth gyhoeddus yn ardal Mersi a'r Ddyfrdwy. Bydd hyn yn cynnwys amlder gwasanaeth metro ar Brif Linell Gogledd Cymru a chysylltiad rheilffordd newydd, uniongyrchol rhwng Wrecsam a Lerpwl drwy Linell Wrecsam i Lerpwl. Bydd cyfleusterau gwell i deithwyr mewn gorsafoedd yng ngogledd-ddwyrain Cymru yn cefnogi'r gwelliannau hyn ymhellach. Unwaith y bydd y newidiadau hyn yn cael eu gweithredu, bydd trafnidiaeth gyhoeddus, yn ogystal â cherdded, olwyno a beicio, yn dod yn fwy cyfleus a deniadol ar gyfer llawer o deithiau hirach ar draws Gogledd Cymru.
- Bydd y **Cynlluniau Ynni Ardal Leol a'r Cynllun Ynni Rhanbarthol** sy'n dod i'r amlwg yn ffurfio'r fframwaith ar gyfer trosglwyddo Gogledd Cymru i economi carbon isel, gan helpu i adnabod y llwybrau mwyaf effeithiol ar gyfer lleihau allyriadau carbon a hyrwyddo datrysiad ynni cynaliadwy. Mae hyn yn hanfodol wrth gefnogi datgarboneiddio ein system drafnidiaeth.

Mae tanategu a chefnogi'r gyrwyr hyn ar gyfer newid yn cynnwys yr heriau a'r meysydd gwella lleol a rhanbarthol y gall trafnidiaeth helpu i fynd i'r afael â nhw, yn ogystal â'r pethau yr ydym yn eu gwneud yn dda yr ydym am ei diogelu, a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

Economi	Cymdeithasol a Diwylliannol	Yr Amgylchedd
Cyfran uchel o weithwyr â sgiliau isel	Un o'r cyfrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru gyda 42% yn siarad Cymraeg, ac yng Ngwynedd mae hyn hyd yn oed yn uwch ar tua 70%	Nifer o safleoedd pwysig ac ardaloedd gwarchodedig sy'n denu twristiaeth
Mae GVA y pen wedi'i ledaenu, gyda 4 o bob 6 awdurdod lleol yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru	Dim ond traean o drigolion Gogledd Cymru sydd â mynediad i wasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus bob awr	Ansawdd aer da yn gyffredinol, heb unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer
Mae'r gyfran o gyflogaeth mewn sectorau gwerth uchel yn isel	Cyfran sylweddol uwch o oedran pensiwn ac anabl, gyda lefelau uchel o amddifadedd wedi'u canoli mewn ardaloedd trefol arfordirol	Ystyrir lefelau sain fel rhai 'ar gyfartaledd' ac ni nodwyd unrhyw broblemau mawr
Profiad y Cwsmer	**Isadeiledd**	**Y Galw am Deithio**
Dibynadwyedd amser teithio gwael oherwydd oedi bws	Tua 400 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus	Mae lefel uchel o all-gymudo o Ogledd Cymru i Ranbarth Dinas Lerpwl a Chaer
Ffyrdd wedi'u dominyddu gan geir gydag amseroedd teithio bws anghystadleuol a mwy o amser yn cael ei dreulio mewn tagfeydd, a diffyg darpariaeth teithio llesol	Mae gwasanaethau rheilffyrdd yn gyfyngedig o ran amlder ac oriau gweithredu oherwydd cyfyngiadau isadeiledd a dim ond 9% sy'n byw o fewn hanner milltir i orsaf reilffordd lle mae gwasanaethau'n rhedeg o leiaf unwaith yr awr	Mae'r galw presennol yn isel ar gyfer teithio ar fysiau, gyda dim ond hanner y safleoedd bysiau yng Ngogledd Cymru ag amlder o fws bob 2 awr neu lai
Hygyrchedd gwael i gyfleoedd, gwasanaethau a chyfleusterau allweddol drwy ddulliau cynaliadwy, yn benodol oherwydd cyd-destun gwledig	Mae tua hanner y boblogaeth yn byw o fewn 600m i safle bws a diffyg isadeiledd teithio llesol cydlynol, uniongyrchol a diogel i safleoedd bws a mwynderau, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig	Mae dibyniaeth uchel ar geir ar gyfer teithiau i'r gwaith ac mae gwasanaethau bysiau yn gyffredinol yn anghystadleuol gyda'r car

O ystyried ein hamcanion a'r tueddiadau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol, mae'r cyfleoedd allweddol ar gyfer trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru yn cynnwys:

- **Galluogi newid i ddulliau trafnidiaeth carbon isel a cherbydau allyriadau isel** drwy helpu pobl i leihau'r angen i deithio ac annog mwy o deithiau drwy gerdded, olwyno a beicio, drwy gynllunio ar y cyd yn well ar gyfer trafnidiaeth, defnydd tir, a datblygu economaidd. Bydd hyn yn helpu i leihau tagfeydd traffig a llygredd sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, gan gynnwys ar goridor yr A55, sef y cyfrannwr mwyaf at ansawdd aer gwael yng Ngogledd Cymru. Yn ei dro, bydd hyn yn helpu i ddod â manteision iechyd a lles cysylltiedig. Mae Gogledd Cymru yn elwa o tua 400 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus ac mae angen mynd i'r afael â heriau'r cyflenwad mewn ardaloedd gwledig i gynyddu'r broses o gyflwyno cerbydau trydan. Wrth ystyried y cyfleoedd i leihau'r angen i deithio, roedd 28.1% o weithlu Gogledd Cymru yn gweithio o bell yn rheolaidd yn 2022-23, sy'n rhoi cyfle cryf i'n rhanbarth gyfrannu at y targed cenedlaethol o 30% erbyn 2030.
- **Yr angen cynyddol i ystyried sut rydym yn cynllunio ar gyfer newid hinsawdd** yn y ffordd yr ydym yn cynnal a gwella ein hisadeiledd trafnidiaeth presennol a newydd yn y dyfodol. Mae nifer o ardaloedd risg llifogydd uchel o'r môr ar draws Gogledd Cymru, yn enwedig o amgylch Arfordir y Gogledd, y Fenai a thua'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, ac mewn ardaloedd ar hyd coridorau afonydd. Mae cyfle na allwn fforddio ei golli wrth sicrhau bod ein hisadeiledd yn gallu gwrthsefyll newid hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol. Mae cyfle hefyd i ddatgarboneiddio ein cerbydau preifat, ein fflyd cludo llwythi a chludiant cyhoeddus, yn ogystal â lleihau faint ydym yn teithio, i leihau effaith allyriadau trafnidiaeth.
- **Uno aneddleoedd allweddol gyda datblygiadau ac ardaloedd twf rhanbarthol** megis y clwstwr cenedlaethol pwysig o fusnesau gweithgynhyrchu uwch yn Sir y Fflint a Wrecsam (gyda Pharth Buddsoddi newydd). Ac eithrio Gwynedd, mae gan Ogledd Cymru gyfran is o'i phoblogaeth yn gyflogedig mewn galwedigaethau sgiliau uchel o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, gyda chyfrannau uwch mewn gwaith sgiliau isel, ac mae cyfle i ddatgloi twf economaidd lleol a gwella mynediad at gyfleoedd cyflogaeth i drigolion yng Ngogledd Cymru. Mae cyfle hefyd i gael mwy o bobl i gerdded, olwyno a beicio fel rhan o ddatblygiadau newydd a rhwng aneddleoedd allweddol presennol.
- **Gwella integreiddio a chysylltedd traws-ffiniol** rhwng cysylltiadau trafnidiaeth strategol yng nghoridor trafnidiaeth Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr, o Borthladd Rhydd Ynys Môn yng Nghaergybi i Faes Awyr John Lennon yn Lerpwl. Mae symudiadau traws-ffiniol sylweddol (tua 13% o gyfanswm y teithiau) gyda'r llifoedd mwyaf rhwng Glannau Dyfrdwy a Chaer a Sir y Fflint a Chaer ond dim ond 6% o deithiau traws-ffiniol sy'n cael eu gwneud ar drafnidiaeth gyhoeddus, sy'n rhoi cyfle i alluogi mwy o deithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus a gwella'r rhanbarthau. Wrth i ni gysylltu cymunedau sy'n siarad Cymraeg â marchnadoedd Lloegr, rhaid i ni ddiogelu a gwella cyfleoedd Cymraeg drwy ein polisïau a'n camau gweithredu.

- Bydd **Uchelgais Gogledd Cymru** yn gweithio i ddatblygu system drafnidiaeth sy'n dda ar gyfer diwylliant a'r Gymraeg drwy greu amgylchedd lle gall y Gymraeg ffynnu.
- **Gwella symudedd gwledig ac arfordirol** drwy ddarparu cysylltiadau strategol rhwng aneddleoedd gwledig, ardaloedd cyflogaeth a gwasanaethau mewn lleoliadau mwy trefol. Er bod perchnogaeth car yn uchel yn y rhanbarth, mae'r rhai nad ydynt yn berchen ar gar yn dibynnu ar wasanaethau rhannu car a system drafnidiaeth gyhoeddus o ansawdd da ac mae cyfle i wella cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus i helpu'r rhai mewn cymunedau gwledig ac arfordirol i gael swyddi, cyfleusterau cymunedol a gwasanaethau o ansawdd uwch. Yn ogystal, gyda 23 o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig ledled Cymru wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru, a gyda lefelau uchel o amddifadedd wedi'u canoli mewn ardaloedd trefol arfordirol fel Rhyl a Bae Colwyn, mae angen gwella mynediad at wasanaethau i leihau amddifadedd.
- **Gwella'r rhwydwaith bysiau, cyfleusterau a gweithredu isadeiledd blaenoriaeth bysiau** sy'n cynnig cyfle i ategu gwelliannau amlder a gynigir fel rhan o'r rhwydwaith trawsnewid bysiau yn y dyfodol, a sicrhau mynediad da i bawb i safleoedd bws. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau gwell amseroedd teithio, dibynadwyedd ac, yn y pen draw, newid moddol gydag integreiddio effeithiol â gwasanaethau rheilffyrdd trwy alluogi cyfnewid. Mae cyfran y preswylwyr dros 65 oed yng Ngogledd Cymru yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru (yn enwedig yng Nghonwy ac Ynys Môn) tra bod nifer y bobl sy'n cael eu diffinio fel pobl anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn amrywio ond mae gan Sir Ddinbych a Chonwy gyfraddau uwch na'r cyfartaledd. Mae'r grwpiau hyn fel arfer yn fwy dibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus effeithiol na demograffeg eraill, gan dynnu sylw at bwysigrwydd rhwydwaith bysiau a rheilffyrdd effeithiol, a'r angen i wella hygyrchedd i bobl â symudedd cyfyngedig.
- **Cryfhau safle Gogledd Cymru fel cyrchfan dwristiaeth ryngwladol** drwy wella cysylltedd trafnidiaeth ac uno cynllunio defnydd tir, trafnidiaeth ac adfywio economaidd yn well, megis ym Mhorth Wrecsam. Mae gwyliau mynydd ac arfordirol yn atyniad mawr i dwristiaid i Ogledd Cymru a bydd helpu i wella mynediad mwy cynaliadwy i gyrchfannau ymwelwyr hefyd yn gwella cysylltedd i bawb i feysydd hamdden, ymarfer corff a lles. Mae angen cydbwyso'r angen i ddiogelu a gwella ein hamgylchedd o ansawdd uchel gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, Pen Llŷn, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Gallai gwella cysylltedd trwy ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy gynnig ffordd newydd i ymwelwyr archwilio'r rhanbarth, ac apelio at y rhai sy'n ymwybodol o effaith eu gwyliau ar yr amgylchedd.

Ymgysylltu

O ystyried yr ystod eang o faterion a'r buddion sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, bydd ymgysylltu â rhan-ddeiliaid ac ymgynghori â'r cyhoedd yn hanfodol i lwyddiant a gweithrediad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn. Cymerwyd agwedd gydweithredol a chyfranogol gan ystyried y pum ffordd o weithio a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac mae ymgysylltu wedi ein helpu i ddeall anghenion a dyheadau ein rhan-ddeiliaid, gan adeiladu ar wybodaeth a phrofiad cynlluniau trafnidiaeth lleol a rhanbarthol blaenorol. Rydym yn parhau i weithio'n agos ar ein cynlluniau gyda'n hawdurdodau lleol, awdurdodau cyfagos, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru, defnyddwyr a gweithredwyr trafnidiaeth.

Rydym wedi gwrando'n ofalus ar yr adborth a ddarparwyd gan ran-ddeiliaid i Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru, a helpodd i lunio eu hargymhellion ar gyfer gwelliannau ar draws ein rhanbarth. Rydym hefyd wedi ystyried yr adborth gan weithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus ac awdurdodau lleol yr ymgynghorwyd â hwy gan Trafnidiaeth Cymru yn helaeth ers 2021 ynghylch rhwystrau i, a chyfleoedd ar gyfer, trafnidiaeth gynaliadwy yng Ngogledd Cymru. Mae hyn wedi helpu i sicrhau ein bod yn adeiladu ar y gwaith rhagorol a wneir gan eraill sydd â phwrpas cyffredin er budd pobl, busnesau ac ymwelwyr Gogledd Cymru.

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn hefyd yn cael ei lywio gan Arfarniad Llesiant Integredig, wedi'i lywio gan asesiadau effaith eang, sydd wedi elwa o ymgynghoriad gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Cadw, ymhlith eraill.

Fe wnaethom ymgynghori ar ein cynlluniau am 12 wythnos rhwng 20 Ionawr 2025 a 14 Ebrill 2025. Mae ein Adroddiad Ymgynghori yn esbonio sut mae'r adborth wedi llywio ein hasesiadau a'n cynlluniau terfynol.



© Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

Gweledigaeth ar gyfer ein rhwydwaith trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru

O ystyried ein Hachos dros Newid, ein rhwydwaith trafnidiaeth presennol ac anghenion a dyheadau yn y dyfodol, rydym wedi datblygu datganiad gweledigaeth. Bydd hyn yn helpu i fframio llwyddiant y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn.

Bydd gan Ogledd Cymru rwydwaith trafnidiaeth integredig sy'n ddiogel, yn gynaliadwy, yn fforddiadwy, yn wydn ac yn effeithiol sy'n cefnogi twf economaidd, ffyniant i bawb, cynhwysedd a lles.

Cefnogir ein gweledigaeth gan bedwar amcan, a fydd yn ein helpu i fonitro a gwerthuso llwyddiant ein Cynllun:

Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol

Byddwn yn galluogi 30% neu fwy o bobl yng Ngogledd Cymru i weithio o bell erbyn 2030 trwy gynllunio defnydd tir yn well a gwella cysylltedd digidol, a ddylai leihau'r angen cyffredinol i deithio a galluogi teithiau byrrach sy'n fwy addas ar gyfer dulliau cynaliadwy.

Gwell hygyrchedd a dewis o drafnidiaeth

Byddwn yn datblygu isadeiledd a gwasanaethau sy'n rhoi dewis i bobl sut maent yn teithio ar gyfer pob taith ac yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy trwy wella mynediad i aneddleoedd allweddol, cyflogaeth, safleoedd addysgol ac atyniadau twristaidd. Dylid gwella hygyrchedd pob atyniad taith allweddol, gan gefnogi'r targed rhaniad modd cenedlaethol o 45% o deithiau i'w gwneud trwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2040.

Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy

Byddwn yn datblygu rhwydwaith trafnidiaeth gwydn, diogel, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac effeithlon sy'n sicrhau twf economaidd cynaliadwy drwy wella hygyrchedd i feysydd cyflogaeth presennol a rhai sydd wedi'u cynllunio. Bydd o leiaf 50% o aelwydydd yng Ngogledd Cymru yn gallu teithio'n bellach o fewn un awr ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gefnogi mynediad i safleoedd cyflogaeth allweddol a chanolfannau rhanbarthol erbyn 2030.

Galluogi datgarboneiddio drwy drawsnewid i fflyd allyriadau sero

Byddwn yn datblygu seilwaith ategol ac yn cefnogi cymhellion i alluogi o leiaf 50% o gerbydau modur a phob bws cyhoeddus sy'n gweithredu yng Ngogledd Cymru i fod yn ddi-allyriadau erbyn 2030.

Mae'r amcanion hyn yn rhai Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Perthnasol ac yn Rhwym o Amser (SMART), ac maent wedi'u datblygu ymhellach i 15 uchelgais cychwynnol y cytunwyd arnynt gydag awdurdodau lleol Gogledd Cymru, y manylir arnynt yn yr Achos dros Newid. Maent yn adlewyrchu'r targedau cenedlaethol ar gyfer newid moddol a datgarboneiddio trafnidiaeth, a fydd yn helpu i sicrhau bod cynnydd a llwyddiannau ein rhanbarth yn cyfrannu'n gadarnhaol at ganlyniadau cenedlaethol.

Themâu trawsbynciol

Rydym wedi nodi pum thema drawsbynciol a fydd yn ein helpu i ddilyn ein dyletswyddau a'n hymrwymiadau ehangach a chyfrannu at y llwybrau cyflawni trawsbynciol a nodir yn Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Bydd y rhain yn hanfodol wrth ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth a'n hamcanion mewn ffordd gymdeithasol ac amgylcheddol gyfrifol, a darparu gwerth am arian:

Gwerth cymdeithasol

Cydnabod bod manteision trafnidiaeth yn ymestyn y tu hwnt i ystyriaeth gul o welliannau amser teithio meintiol. Mae cydnabod effeithiau a manteision cymdeithasol a llesiant y mae systemau trafnidiaeth yn eu cynnig i gymunedau yn bwysig, yn enwedig i gymunedau gwledig ac ynysig yn gymdeithasol.

Tegwch

Mae tegwch neu gydraddoldeb opsiynau trafnidiaeth yn golygu sicrhau bod pawb yng Ngogledd Cymru yn cael mynediad teg at opsiynau trafnidiaeth. Mae'n cydnabod bod gan wahanol bobl anghenion gwahanol, yn enwedig y rhai sy'n perthyn i grwpiau difreintiedig, neu'r rhai mewn cymunedau gwledig.

Arwain gan y gymuned

Grymuso cymunedau lleol a grwpiau eiriolaeth i gymryd rhan a chymryd perchnogaeth o hyrwyddo a datblygu datrysiadau trafnidiaeth, yn ogystal â gweithredu gwasanaethau yn y gymuned.

Integreiddio

Cydnabod bod newid moddol yn gofyn am ddull cyfannol, integredig o gynllunio teithiau, gan weithio ar draws gwahanol ddulliau a sectorau i'w gwneud yn haws i bobl deithio o ddrws i ddrws gan ddefnyddio dulliau trafnidiaeth gynaliadwy.

Fforddiadwyedd

Cydnabod heriau cyflawni yn y cyd-destun ariannol a masnachol presennol i'r sector cyhoeddus ac economi'r DU.

Themâu polisi

Mae ein gweledigaeth a'n hamcanion yn cydfynd yn agos â pholisïau a strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol allweddol, fel y nodir yn yr Achos dros Newid, gan gynnwys blaenoriaethau ac uchelgeisiau llesiant Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gallwn ddangos cynnydd rhanbarthol o ran cyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau cenedlaethol, wrth gyflawni ein hamcanion rhanbarthol. Er mwyn helpu i fframio ein polisïau a'n hymyraethau fel rhan o'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn, rydym wedi ystyried cyfres o themâu polisi yn seiliedig ar naw cynllun bach Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ar gyfer pob dull o deithio, wedi'u haddasu ar gyfer Gogledd Cymru.

Mae'r rhain yn cynrychioli meysydd ffocws allweddol ar gyfer ein polisïau ac ymyraethau trafnidiaeth, sy'n gosod y fframwaith ar gyfer cyflwyno cynlluniau gan awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei gyflawni yn cyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae ein themâu polisi yn cynnwys:

- Uchelgeisiau'r rheilffyrdd
- Uchelgeisiau'r ffyrdd strategol
- Galluogi newidiadau i ymddygiad teithio
- Bws
- Trafnidiaeth coetsis, trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw a thrafnidiaeth gymunedol
- Cerdded, olwyno a beicio
- Integreiddio rhwng dulliau
- Porthladdoedd a chludo llwythi
- Ffyrdd, strydoedd a pharcio
- Mynediad ar y ddaear i awyrennau
- Cysylltedd digidol
- Cynllunio defnydd tir



© © Tîm Trwistiaeth Sir Ddinbych

Ein polisïau ac ymyraethau trafnidiaeth

Atodiad A

Mae Atodiad A yn dangos sut y byddwn yn cyflawni ein hamcanion, a sut mae ein polisïau yn cyd-fynd â'r deilliannau yr ydym eu heisiau.

Mae adolygiad cynhwysfawr o ddata, tystiolaeth a chynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn y gorffennol a'r presennol wedi helpu i lywio rhestr hir o bolisïau ac ymyraethau.
Mae proses gydweithredol sy'n cynnwys gweithdai rhan-ddeiliaid, asesiadau effaith a thrafodaethau â ffocws gydag awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru wedi helpu i gytuno ar y polisïau a'r ymyraethau a nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn.

Cymerwyd agwedd yn seiliedig ar y rhwydwaith ar gyfer ein cynigion, lle mae'r ffocws allweddol ar roi mwy o ddewis i bob grŵp o bobl ynghylch pryd a sut maent yn teithio. O ystyried yr adroddiad ar gyfer Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru: 'Arfer gorau ac arloesedd rhyngwladol mewn trafnidiaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i ddatblygu polisi yng Ngogledd Cymru', mae ymyraethau yn ceisio ymateb i ardaloedd daearyddol a phoblogaethau amrywiol Gogledd Cymru, gan ystyried rhannau mwy trefol a gwledig y rhanbarth, gan geisio trafnidiaeth gwbl integredig. Er mwyn helpu i gyflawni hyn:

Polisïau

Mae polisïau yn cyd-fynd â'n themâu polisi rhanbarthol ac yn adlewyrchu cyd-destun deddfwriaethol a pholisi Cymru ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Maent yn gosod y cyfeiriad teithio, gyda chefnogaeth gan:

- **Raglenni** fel ymyraethau lefel uchel sy'n gofyn am reoli prosiectau cysylltiedig yn gydlynol.
- **Prosiectau** fel ymyraethau sydd wedi'u diffinio'n gliriach a fydd yn debygol o ofyn am un neu fwy o gynlluniau i'w gweithredu, a allai ei gwneud yn ofynnol i un neu fwy o awdurdod cyfrifol neu bartneriaeth symud ymlaen a chyflawni. Nodir prosiectau fel rhai sy'n cael effaith ranbarthol neu isranbarthol, ar y graddfeydd gofodol a ganlyn:
  - Pob rhan o Ogledd Cymru
  - Trefi mawr gyda phoblogaeth o dros 10,000
  - Trefi bychain a chyrion trefi mawr
  - Pentrefi
  - Pentrefannau ac anheddau anghysbell.

Cynlluniau

Yna, amlinellir cynlluniau yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol ategol, sy'n cynnwys ymyraethau penodol i'w darparu gan awdurdodau lleol yn unig (ac o'r herwydd nid ydynt yn cynnwys cynlluniau sy'n ymwneud â'r rhwydwaith rheilffyrdd neu gefnffyrdd). Maent yn ceisio gweithredu'r rhaglenni a'r prosiectau a gyfarwyddir gan ein polisïau. Enghraifft yw:

Polisi

Gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys y sector masnachol i gyflwyno cynllun llogi beiciau ac e-feiciau cyhoeddus mewn cyfnewidfeydd trafnidiaeth mawr neu leoliadau addas eraill, ac mewn lleoliadau lle mae cynllun o'r fath yn cefnogi'r economi ymwelwyr.

Rhaglen

Llogi Beiciau a Darpariaeth Parcio


Prosiect

Strategaeth parcio beiciau ranbarthol mewn cyfnewidfeydd allweddol gan gynnwys canolfannau trefol, gorsafoedd rheilffordd a gorsafoedd bysiau

Cynllun

Strategaeth beicio Môn a'i gweithredu

Mae ein Harfarniad Llesiant Integredig yn esbonio sut y bydd ein polisïau yn effeithio ar bobl a chymunedau, yr amgylchedd, lleoedd a'r economi, diwylliant a'r Gymraeg.



Uchelgeisiau'r rheilffyrdd

Nid yw'r isadeiledd rhwydwaith rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru wedi'i ddatganoli, sy'n golygu mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU ydyw drwy Network Rail. Mae lefelau gwasanaeth yn cael eu pennu i raddau helaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Trafnidiaeth Cymru, a'r Adran Drafnidiaeth, gan weithio gyda'r Cwmnïau Gweithredu Trenau (Trafnidiaeth Cymru ac Avanti West Coast ar hyn o bryd). Mae Cwmnïau Gweithredu Cludo Llwythi yn gwasanaethu anghenion cwsmeriaid, sy'n golygu bod gwasanaethau cludo llwythi yn cael eu harwain yn fasnachol. Darperir y trac ar gyfer cludo teithwyr a llwythi ar y rheilffyrdd gan Network Rail, gyda rheoliadau gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd. Golyga hyn nad oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru unrhyw ddylanwad uniongyrchol dros wasanaethau neu isadeiledd rheilffyrdd, felly nid oes polisïau penodol yn y Cynllun hwn, na chynlluniau sy'n ymwneud â rheilffyrdd yn ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn nodi dyheadau rhanbarthol ar gyfer rheilffyrdd gan fod y rhain yn allweddol i gefnogi ein dyheadau ehangach ar gyfer gwell cysylltedd ledled Gogledd Cymru a thu hwnt. Ein huchelgais polisi ar gyfer rheilffyrdd yw:


Drwy gydweithio â Trafnidiaeth Cymru a Network Rail, byddwn yn gweithio tuag at rwydwaith rheilffyrdd mwy effeithlon, integredig sy'n canolbwyntio ar deithwyr. Bydd gwasanaethau rheilffyrdd effeithlon ac effeithiol yn caniatáu i bobl a nwyddau symud o ddrws i ddrws yn hawdd trwy wasanaethau ac isadeiledd trafnidiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon.

Rydym yn cydnabod bod gan Ogledd Cymru gysylltiadau da ar gyfer teithio pellter hirach, gan elwa o wasanaethau rheilffordd uniongyrchol i Lerpwl, Manceinion, Birmingham, Llundain a Chaerdydd. Rydym hefyd yn cydnabod y gwelliannau parhaus sy'n cael eu gwneud, megis cynlluniau clustnodedig ar gyfer gwasanaethau ychwanegol yr awr o orsafoedd fel Bangor a Chyffordd Llandudno, a fflyd newydd o drenau modern a fydd yn arwain at fwy o seddi.


Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi moderneiddio trenau, a gweld gwelliannau i ddiogelwch, cyfleusterau a mynediad i bawb yn ein gorsafoedd. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru a defnyddio'r cyllid Mynediad i Bawb sydd ar gael i wella hygyrchedd mewn gorsafoedd rheilffyrdd ledled y Gogledd, fel rhan o fenter ehangach i greu llwybrau heb rwystrau o fynedfeydd gorsafoedd i blatfformau, gan wneud teithio yn haws i deithwyr ag anableddau, materion symudedd, neu'r rheini sydd â bagiau trwm neu goetsys.

Mae Trafnidiaeth Cymru eisoes wedi cychwyn cynlluniau i weithredu mynediad heb risiau yng Ngorsafoedd Shotton a Rhiwabon. Lle mae achos cryf am orsafoedd neu seilwaith rheilffyrdd newydd a fydd yn gwella mynediad i'r rhwydwaith rheilffyrdd heb effeithio'n andwyol ar wasanaethau presennol ac annog teithio cynaliadwy, bydd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i fwrw ymlaen â'r rhain.

Bydd y gwaith hwn hefyd yn ystyried opsiynau ehangach ar gyfer gwella cyswllt rhwng cymunedau â gorsafoedd rheilffyrdd. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn parhau i ymgysylltu â Thrafnidiaeth Cymru, gan adnabod lleoliadau lle mae cefnogaeth leol am orsaf newydd. Ar hyn o bryd, nid yw gorsaf newydd yn Greenfield, Treffynnon wedi'i andabod fel blaenoriaeth ar gyfer Trafnidiaeth Cymru, ond byddwn yn parhau i helpu i adnabod lle mae cefnogaeth leol am orsaf newydd.



© Unsplash



Ategir ein huchelgais polisi gan ddyheadau rheilffyrdd mwy penodol, sy'n cynnwys gwasanaethau rheilffyrdd a rhaglenni a phrosiectau gorsafoedd ar draws ac sy'n cysylltu Gogledd Cymru, sy'n cael eu hystyried fel a ganlyn:

Prif Lein Gogledd Cymru a Gorsaf Caer

Dyhead rheilffyrdd 1

Bydd cysylltiadau rheilffordd i gyrchfannau allweddol gan gynnwys Llundain Euston, Manceinion (a'i faes awyr), Lerpwl (a'i faes awyr), Caerdydd, Birmingham (a'i faes awyr), Crewe (ar gyfer cysylltiadau pellach), a Warrington (ar gyfer cysylltiad yn y dyfodol â Rheilffordd Pwerdy'r Gogledd) yn cael eu cynnal a'u gwella.

Mae Prif Lein Gogledd Cymru sy'n cysylltu Crewe yn y dwyrain a Chaergybi yn y gorllewin, yn chwarae rhan hanfodol wrth gysylltu cymunedau ar hyd yr arfordir â'i gilydd, ac yn darparu cysylltiadau allweddol i ardaloedd cyflogaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau i ddod â chyflwyno 50% yn fwy o wasanethau ar draws Prif Lein Gogledd Cymru ymlaen o fis Rhagfyr 2026, gan gynnwys gwasanaeth newydd o Landudno i Lerpwl ac ymestyn gwasanaeth Maes Awyr Manceinion i Gaergybi yn lle Llandudno. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd Rhaglen Trawsffurfio Manceinion a Gogledd Orllewin Lloegr, sy'n gynllun pwysig wedi'i anelu at roi sylw i faterion tagfeydd rheilffordd presennol ym Manceinion a'r cyffiniau.

Rydym hefyd yn cefnogi cynlluniau ar gyfer y Rhaglen TriLink fel menter flaengar yn canolbwyntio ar welliannau i Brif Lein Arfordir y Gorllewin (WCML) i'r gogledd o Crewe. Gyda'i gilydd, gall y cynlluniau hyn helpu i gyflawni gwell cysylltedd rheilffyrdd gyda Gogledd Cymru.

Dyhead rheilffyrdd 2

Y lefel gwasanaeth a ffafrir ar Brif Lein Gogledd Cymru yw pum trên yr awr gan gynnwys gwasanaeth cyflym.

Mae pwysigrwydd Prif Lein Gogledd Cymru o ran hwyluso teithio cynaliadwy ar gyfer teithiau pellter hirach i'n rhanbarth a chyda'n rhanbarth yn golygu bod yna ddyheadau am bum trên yr awr ar y lein, gan gynnwys gwasanaeth cyflym.

Mae gwelliannau i isadeiledd rheilffyrdd sy'n ofynnol cyn y gellir cyflawni'r lefel gwasanaeth hon. Mae'r rhain yn cael eu hystyried yn eu tro isod.



Dyhead rheilffyrdd 3

Dylid gwneud gwelliannau yng Ngorsaf Caer a fydd yn caniatáu gweithredu lefelau gwasanaeth a ffafrir ar Brif Lein Gogledd Cymru.

Er nad yw yng Ngogledd Cymru, mae Gorsaf Caer yn hynod bwysig i'n defnyddwyr rheilffyrdd, fel lleoliad cyrchfan a chyfnewid, ac mae'n ofynnol i'r holl wasanaethau sy'n defnyddio Prif Lein Gogledd Cymru basio drwodd. Mae cynllun gorsaf Caer yn gyfyngiad ar gyfer gwasanaethau ar hyd Prif Lein Gogledd Cymru yn ogystal â leiniau rheilffordd cyfagos, gan gynnwys lein Amwythig-Wrecsam-Caer. Mae'r cynllun yn cyfyngu ar symud gwasanaethau drwy'r orsaf, yn enwedig i wasanaethau Gogledd Cymru i Crewe ar hyd Prif Lein Gogledd Cymru. Er y gallai'r lefelau gwasanaeth a ffafrir weithredu ar y cynllun presennol, mae hyn yn her sylweddol a byddai'n arwain at lai o ddibynadwyedd gwasanaeth. Byddai'r gwelliannau yng ngorsaf Caer sydd eu hangen i gefnogi'r lefelau gwasanaeth a ddymunir yn cynnwys:


- Gwell signalau rhwng Crewe a Chaer
- Platfform newydd yng Nghaer
- Nifer cynyddol o draciau yn mynd i'r orsaf
- Croesfannau newydd ar lwybrau i'r orsaf

Dyhead rheilffyrdd 4

Dylid gwneud gwelliannau seilwaith Prif Lein Gogledd Cymru a fydd yn galluogi gweithredu pum trên yr awr a lleihau amseroedd teithio, gan flaenoriaethu'r rhannau rhwng Crewe a Chyffordd Llandudno.

Mae astudiaethau a gynhaliwyd gan Trafnidiaeth Cymru wedi nodi y gellir sicrhau'r manteision mwyaf i ddefnyddwyr yn y tymor byr trwy ganolbwyntio i ddechrau ar welliannau sydd eu hangen rhwng Crewe a Chyffordd Llandudno i gyflawni lefelau gwasanaeth gwell. Mae uwchraddio angenrheidiol i ganiatáu'r lefelau gwasanaeth hyn yn cynnwys uwchraddio croesffyrdd rheilffordd, platfform newydd yng Nghyffordd Llandudno, a gwelliannau i draciau, switshys a chroesfannau, a signalau.

Cydnabyddir bod cyflawni gwelliannau i'r isadeiledd i'r gorllewin o Gyffordd Llandudno yn fwy heriol. Yn ogystal ag uwchraddio pellach i groesffyrdd rheilffordd a gwelliannau i draciau, switshys a chroesfannau, a signalau sy'n angenrheidiol ar gyfer trenau trydan. Fel rhan o ddyheadau tymor hwy, mae gwelliannau sylweddol i'r isadeiledd hefyd, yn cynnwys ail-signalu rhwng Cyffordd Llandudno a Bangor, darparu platfform ychwanegol ym Mangor, a mynd i'r afael â chyfyngiadau capasiti ar Bont Britannia. Edrychir ar raglen fforddiadwy o uwchraddiadau er mwyn gweithredu'r gwelliannau hyn yn effeithiol.



Lein Wrecsam i Lerpwl a Padeswood

Dyhead rheilffyrdd 5

Dylid rhoi blaenoriaeth i welliannau isadeiledd ar Lein Wrecsam i Lerpwl, gan gynnwys dileu'r cyfyngiad capasiti rheilffordd yng Ngwaith Sment Padeswood, er mwyn caniatáu lefelau gwasanaeth o bedwar trên yr awr, gan gynnwys dau yn uniongyrchol i Lerpwl.

Mae Lein Wrecsam i Lerpwl yn cysylltu Wrecsam â Bidston ar Gilgwri gyda rhwydwaith Merseyrail. Ar hyn o bryd, mae gwasanaeth bob 45 munud ac mae'r llwybr wedi'i ddynodi'n 'isadeiledd tagfeydd' gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd oherwydd cyfyngiadau ar y lleoedd isadeiledd ar amserlennu, sy'n effeithio ar y gallu i weithredu gwasanaeth 30 munud ym mhob awr oherwydd llwybrau cludo sy'n gwrthdaro. Mae potensial sylweddol i gynyddu nawdd ar Lein Wrecsam i Lerpwl os bydd lefelau gwasanaeth yn cael eu gwella. Mae dyheadau'n cynnwys gwasanaethau uniongyrchol i Lerpwl gan gyd-fynd ag uchelgais Rhanbarth Dinas Lerpwl am well cysylltedd dros y ffin gyda Gogledd Cymru, a lefel gwasanaeth o hyd at bedwar trên yr awr, a allai gydag amseroedd teithio byrrach:

- Ddarparu cyswllt uniongyrchol o Wrecsam a Gogledd Ddwyrain Cymru i Lerpwl
- Gwella cysylltiadau â Phrif Lein Gogledd Cymru yn Shotton
- Gwella mynediad i Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy

Ym mis Mai 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymu gynlluniau, yn dilyn cwblhau gwaith ar y rheilffordd yn Padeswood, i gyflawni cynnydd mewn gwasanaethau tren rhwng Wrecsam a Bidston o ddau drên yr awr o fewn y tair blynedd nesaf, gyda phedwar trên yr awr yn rhedeg yn uniongyrchol rhwng Wrecsam a Lerpwl erbyn 2035.

Mae'r gwelliannau i'r isadeiledd sydd eu hangen ar lein Wrecsam i Lerpwl i'r lefelau gwasanaeth hyn yn cynnwys gwaith ar gilffyrdd Padeswood ac ail-signalu, gwelliannau i groesfannau rheilffordd, a gwelliannau cyflymder lein.

Y prif gyfyngiad i ddarparu cynnydd yn amlder y gwasanaeth ar lein Wrecsam i Lerpwl yw traffig cludo llwythi yng Ngwaith Sment Padeswood. Ni ellir gweithredu unrhyw gynnydd yn amlder y gwasanaeth rheilffordd ar hyd y lein nes mynd i'r afael â'r cyfyngiad capasiti hwn. Mae'r gwelliannau angenrheidiol yn gofyn am ddarparu mynediad uniongyrchol i'r cilffyrdd o'r brif lein, gan ddileu symudiadau siynt ar y brif lein. Byddai'r gwelliannau hefyd yn cefnogi gweithrediadau cludo llwythi rheilffordd mwy effeithlon a defnyddio llwythi rheilffordd ar gyfer cerbydau sment o'r safle gan leihau traffig HGV ar ffyrdd lleol.

Cyfnewidfa Gorsaf Shotton

Dyhead rheilffyrdd 6

Dylid gwella Gorsaf Shotton i greu cyfnewidfa o ansawdd uchel a hollol hygyrch rhwng Lein Wrecsam i Lerpwl a Phrif Lein Gogledd Cymru gyda theithio llesol da a mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae Gorsaf Shotton yn gyfleuster strategol pwysig yng Ngogledd Cymru gan ei bod yn cael ei gwasanaethu gan Brif Lein Gogledd Cymru a Lein Wrecsam i Lerpwl. O'r herwydd, mae'n rhoi cyfle i deithwyr gyfnewid rhwng y ddwy lein. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth bresennol i gerddwyr rhwng y platfformau yn is-safonol ac nid yw'n darparu mynediad heb risiau. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar Shotton a'r cyfleoedd cyfnewid, mae'n hanfodol bod cyfleusterau yn yr orsaf yn cael eu gwella, gan nodi bod pobl eisiau croesi'r rheilffordd rhwng Stryd Fawr Shotton a Pharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

Gorsaf newydd ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy


Dyhead rheilffyrdd 7

Dylid bwrw ymlaen â mynediad newydd a gwell at wasanaethau rheilffordd ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy ar Lein Wrecsam i Lerpwl gyda theithio llesol ategol a mynediad trafnidiaeth gyhoeddus i'r orsaf.

Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy yw un o ardaloedd cyflogaeth mwyaf y DU gyda thua 9,000 o weithwyr. Mae'n ganolbwynt cenedlaethol ar gyfer gweithgynhyrchu uwch, ac mae'n cynnwys sawl gorsaf bŵer, y gwaith gwastraff-i-ynni rhanbarthol a nifer o fentrau diwydiannol a logisteg mawr, canolig a bach. Mae'r Parc Diwydiannol yn darparu cyflogaeth o ansawdd uchel, nid yn unig yn lleol, ond hefyd i bobl o bob rhan o Ogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr. Er gwaethaf yr arwyddocâd hwn, mae cysylltiad gwael iawn ar gludiant cyhoeddus i'r safle o'r orsaf bresennol ym Mhont Penarlâg, ac mae cyfran fawr o weithwyr yn teithio mewn car. Byddai gorsaf newydd yng

Nglannau Dyfrdwy, sydd wedi'i lleoli ar Lein Wrecsam i Lerpwl i Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy rhwng Pont Penarlâg a Neston yn:

- Darparu cyfleoedd cyflogaeth yng Nglannau Dyfrdwy i bobl nad ydynt yn teithio mewn car
- Darparu dewis o ddull ar gyfer cymudo i Lannau Dyfrdwy
- Lleihau traffig ar goridor yr A494



Lein Amwythig – Wrecsam – Caer

Dyhead rheilffyrdd 8

Dylid mynd i'r afael â chyfyngiadau capasiti ar lein Amwythig – Wrecsam – Caer er mwyn sicrhau bod dau drên yr awr yn aml, yn ogystal ag amseroedd teithio llai lle bo hynny'n bosibl.

Mae Lein Amwythig–Wrecsam–Caer yn cysylltu Gogledd a De Cymru fel rhan o lein hirach Llinell y Mers, felly mae'n hanfodol ar gyfer cysylltedd yng Nghymru. Mae achos i gynyddu amlder y gwasanaeth teithwyr ar hyd y lein hon i ddau drên yr awr, ond mae angen goresgyn y capasiti signalau cyntaf yn Gobowen, ac mae angen goresgyn y cyfyngiad capasiti rhwng Wrecsam a Chaer (lle mae'r lein ar hyn o bryd yn un trac).

Leiniau Dyffryn Conwy ac Arfordir Cambria

Dyhead rheilffyrdd 9

Dylid ystyried gwelliannau capasiti leiniau, amlder gwasanaeth uwch a gwella capasiti trenau ar Leiniau Dyffryn Conwy ac Arfordir Cambrian, gyda chymorth mesurau bysiau cyflenwol.

Mae Leiniau Dyffryn Conwy ac Arfordir y Cambrian yn chwarae rhan bwysig wrth alluogi teithiau trwy ddulliau cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig, lle maent yn darparu cysylltiad â'r ardaloedd cyfagos sy'n bwysig i bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig. Maent hefyd yn arwyddocaol o ran cefnogi'r economi ymwelwyr yn yr ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu, er enghraifft cysylltu lleoedd yng Ngogledd Cymru â marchnadoedd mawr yn Lloegr. Ar gyfer Dyffryn Conwy, dyma'r pentrefi prydferth gerllaw Eryri fel Betws y Coed; ar gyfer Arfordir y Cambrian, mae hyn yn cynnwys trefi gwyliau fel Pwllheli. Felly, mae capasiti, dibynadwyedd, gwytnwch ac amser teithio yn bwysig ar y ddwy lein hyn, yn enwedig yn sgil digwyddiadau llifogydd diweddar ar y leiniau sydd wedi lleihau pa mor ddibynadwy yw'r gwasanaethau.



Uchelgeisiau'r ffyrdd strategol

Mae'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN) yng ngogledd Cymru yn cynnwys ffyrdd A mawr, sy'n cael eu rheoli a'u cynnal a'u cadw gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru. Yn yr un modd â'r rheilffyrdd, mae hyn yn golygu nad oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru unrhyw ddylanwad uniongyrchol dros y rhwydwaith ffyrdd strategol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn nodi opsiynau I fynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud â thrafnidiaeth ar y rhwydwaith ffyrdd strategol ac amlygu dyheadau rhanbarthol ar gyfer ffyrdd strategol gan fod y rhain yn allweddol i gefnogi ein dyheadau ehangach ar gyfer cysylltedd ehangach i ogledd Cymru. Ein dyhead polisi ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd strategol yw:"

Drwy gydweithio ag Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru, byddwn yn gweithio tuag at rwydwaith ffyrdd strategol mwy effeithlon, integredig a gwydn. Bydd ffyrdd strategol effeithlon ac effeithiol yn galluogi pobl a nwyddau i symud yn rhwydd rhwng canolfannau cyflogaeth mawr, iechyd, addysg a chyfleusterau a seilwaith cymunedol arall. Bydd ein ffyrdd strategol yn wydn yn erbyn digwyddiadau tywydd garw ac yn gwella bioamrywiaeth.

Ategir ein huchelgais polisi gan ddyheadau rhwydwaith ffyrdd strategol mwy penodol, sy'n cynnwys rhaglenni cynnal a chadw priffyrdd, capasiti a phrosiectau gwella diogelwch ar draws ac yn cysylltu gogledd Cymru, sy'n cael eu hystyried fel a ganlyn:

Cynlluniau cynnal a chadw a gwella priffyrdd mawr

Dyhead SRN 1

Dylid cynnal a chadw'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol i sicrhau bod llwybrau'n parhau i fod yn ddiogel ac yn ddibynadwy.

Mae'n hanfodol cynnal a chadw ein ffyrdd A mawr i safon diogel a dibynadwy i gefnogi ein hiechyd a'n llesiant economaidd. Rydym hefyd angen i'n rhwydwaith ffyrdd strategol fod yn wydn i effeithiau newid hinsawdd a'r risg llifogydd o ddigwyddiadau tywydd eithafol, sy'n gofyn am gynnal a chadw a gwelliannau parhaus i'r draenio. Rydym yn parhau i gefnogi ein Hasiant Cefnffyrdd a'r gwasanaethau brys gan ymdrin â digwyddiadau ac oedi mor effeithlon ac effeithiol â phosib er mwyn helpu i gadw ein pobl a'n nwyddau i symud.



Dyhead SRN 2

Dylid amnewid Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494 er mwyn sicrhau dibynadwyedd parhaus symudiadau traws-ffiniol hanfodol.

Mae amnewid y bont ar draws Afon Dyfrdwy ar yr A494 wedi'i nodi fel blaenoriaeth yn Rhaglen Adnewyddu Asedau Mawr Llywodraeth Cymru. Dylai hyn gynnwys gwell darpariaeth ar gyfer cerdded, olwyno a beicio.

Dyhead SRN 3

Dylai'r achos dros gyflwyno detholiad o gynlluniau priffyrdd strategol a oedwyd gael ei hadolygu, yn enwedig lle gall rhain ddarparu buddion ehangach a gwella cyfleusterau ar gyfer teithio cynaliadwy. Y llwybrau â blaenoriaeth yw'r A494/A55/ Coridor Sir y Fflint a'r A483 Wrecsam.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau nad yw Gwelliannau Coridor Sir y Fflint ar yr A55/A494/A548 yn cael eu datblygu ar hyn o bryd yn dilyn argymhellion yr Adolygiad Ffyrdd ac ar hyn o bryd mae'n y broses o gomisiynu gwaith i ddatblygu Strategaeth Llwybr ar gyfer yr A55/A494 a fydd yn adnabod yr heriau a'r materion ar hyd y coridor ynghyd ag ymyriadau posibl i fynd i'r afael â nhw. Mae hyn yn cynnwys cadarnhad gan Lywodraeth Cymru ei bod wedi comisiynu astudiaeth (WelTAG Cyfnodau 1 a 2) i ystyried heriau gweithredol rhwydwaith, gwytnwch a diogelwch ar y ffyrdd rhwng Cyffordd 14 a 18 ar yr A55.

Ar yr A483 yn Wrecsam, roedd gwelliannau a gyflwynwyd yn flaenorol yn ceisio mynd i'r afael â diffyg capasiti yng Nghyffyrdd 4 a 5 a materion diogelwch gweithredol tra'n cefnogi'r gwaith o ddarparu safleoedd datblygu Porth y Gorllewin a Lower Berse Farm. Mae gwaith datblygu yn archwilio integreiddio ehangach cyfleoedd, er enghraifft fel rhan o'r Porth Gorllewinol sy'n ystyried pob dull o deithio.

Ers tro, mae dyheadau wedi bod am welliannau priffyrdd strategol dethol yng ngogledd Cymru, sydd wedi cael eu bwrw ymlaen drwy waith arfarnu ac achos busnes. Un o'r rhain yw ffordd osgoi Llanbedr, ac mae Cyngor Gwynedd yn cydweithio â phartneriaid I adnabod pecyn o ddatrysiadau trafnidiaeth cynaliadwy I wella mynediad a lleddfu probvlemau trafnidiaeth yn Llanbedr. Mae hyn yn cael ei brosesu drwy'r broses WelTAG yn unol ag Adolygiad Ffyrdd Llywodraeth Cymru.

Gwytnwch Croesiadau'r Fenai

Dyhead SRN 4

Dylid bwrw ymlaen â'r achos am drydydd Croesiad dros y Fenai. Gallai hyn wella dibynadwyedd amser siwrne, gwella capasiti, darparu gwell cyfleusterau i ddefnyddwyr dulliau cynaliadwy.

Mae Croesiadau'r Fenai sy'n cysylltu Ynys Môn â thir mawr gogledd Cymru yn hynod bwysig i bobl a busnesau ar ddwy ochr y Fenai. Gall digwyddiadau sy'n arwain at gau'r croesiadau a thagfeydd difrifol arnynt gael effaith andwyol sylweddol ar gymunedau a busnesau. Y ffactorau pwysig i'w hystyried yw:

- Mae pobl yn teithio i'r gwaith i'r ddau gyfeiriad ac maent angen bod yn medru dibynnu ar eu siwrne
- Mae gwasanaethau allweddol i drigolion Ynys Môn, ac yn amlwg, Ysbyty Gwynedd, wedi'u lleoli ar draws y Fenai
- Mae busnesau angen dibynadwyedd i gynllunio symudiad nwyddau a phobl
- Gall mynediad fod yn annibynadwy i'r porthladd, Porthladd Rhydd, a'r safle datblygu yn Wylfa

Am y rhesymau hynny, mae gan ein cymunedau yng ngogledd Cymru ddyhead am drydedd croesiad dros y Fenai fydda'n gwella gwytnwch a chynyddu capasiti, tra hefyd yn darparu cyfleusterau o ansawdd uchel am deithio llesol a chludiant cyhoeddus. Mae cyfle i weithio gyda datblygwyr posib yn Wylfa i gydweithio ar welliannau trafnidiaeth a datblygiadau cysylltiadau pŵer.

Dyhead SRN 5

Dylid bwrw ymlaen â mesurau fydd yn gwella gwytnwch Croesiadau'r Fenai.

Yn y tymor byrrach, mae'n hanfodol bwrw ymlaen gydag argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru i wella gwytnwch croesiadau'r Fenai. Mae'r pecyn o ymyraethau sy'n cael eu hargymell yn cynnwys cludiant cyhoeddus a gwelliannau seilwaith teithio llesol, allwyrwyr gwynt, gwelliannau i gyffyrdd a mesurau rheoli traffig.


© Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

Galluogi newidiadau i ymddygiad teithio

O ystyried ein daearyddiaeth unigryw, ein poblogaeth a'n cyrchfannau ledled gogledd Cymru, rydym am sicrhau bod gan ein trigolion a'n hymwelwyr ddewis ynghylch sut maent yn teithio. Bydd hyn yn cynnwys creu amodau ffafriol fydd yn rhoi rhyddid i bobl a busnesau wneud penderfyniadau, ac ar yr un pryd, rydym angen amser i ystyried effeithiau teithio ar ein heconomi, ein hamgylchedd, ein cymdeithas a'n diwylliant. Mae newid mewn ymddygiad a dewisiadau teithio yn perthyn yn agos i bolisïau, rhaglenni a phrosiectau ehangach ar gyfer defnydd tir, cysylltedd digidol, cludo a logisteg, integreiddio ac ymyraethau dulliau penodol, sydd oll yn cael eu hystyried yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn. Mae ein polisïau a'n hymyraethau ar gyfer helpu pobl i wneud dewisiadau teithio mwy cynaliadwy yn cynnwys:



Rhoi dewisiadau i bobl ynghylch sut maent yn teithio i'r gwaith

Polisi CB1

Bydd gwelliannau pellach i wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol sy'n rhoi mynediad i safleoedd cyflogaeth mawr yn cael eu hadnabod a'u datblygu lle mae cyllid ar gael. Dylai gwelliannau ystyried patrymau gwaith shifft, patrymau gwaith tymhorol a lle gellir cyflawni'r fwyaf o effaith.

Mae llesiant economaidd gogledd Cymru yn gofyn am system trafnidiaeth sy'n darparu mynediad dibynadwy a chyfleus i gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Mae nifer ohonom yn cymudo mewn car, naill ai drwy ddewis, neu oherwydd diffyg dewis amgen deniadol arall. Mae hyn yn cyfrannu at dagfeydd traffig, allyriadau carbon a phroblemau ansawdd aer ar hyd coridorau allweddol, megis yr A55. Hefyd, mae'n creu heriau cymdeithasol a busnes drwy gyfyngu ar fynediad i gyfleoedd ar gyfer y trigolion hynny sydd ddim yn gyrru, neu sydd heb gar, ac mae diffyg dewisiadau trafnidiaeth yn dylanwadu ar gyflogaeth a recriwtio. Gall rhwydwaith cludiant cyhoeddus a theithio llesol deniadol, effeithlon chwarae rhan hanfodol i leihau amddifadedd drwy ddarparu mynediad i gyfleoedd swyddi, hyfforddiant, iechyd a llesiant ac addysg.

Un ffordd y gall busnesau a sefydliadau gefnogi a bwydo i mewn fyddai drwy Gynlluniau Teithio Gweithle, sy'n cysylltu â rhai o'n polisïau eraill, yn cynnwys rhoi gwybodaeth i bobl wneud dewisiadau teithio mwy cynaliadwy, clybiau ceir a rhannu ceir.

Polisi CB2

Bydd dull partneriaeth yn cael ei ddefnyddio i adnabod a datblygu cynlluniau a mentrau sy'n annog teithio cynaliadwy i'r gwaith mewn safleoedd cyflogaeth sy'n agos at y ffin, megis Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, Parc Diwydiannol Wrecsam, Airbus Brychdyn, Parc Busnes Caer, a chanol dinasoedd Wrecsam a Chaer.

Mae cysylltiadau cryf rhwng cymunedau ac economïau gogledd-ddwyrain Cymru a gogledd-orllewin Lloegr. Adlewyrchir hyn yn y nifer o deithiau dros y ffin bob dydd, yn enwedig ar gyfnodau brig pan fo nifer uchel o bobl yn teithio ar gyfer gwaith. Gall hyn arwain at dagfeydd yn ystod oriau brig ar lwybrau allweddol megis yr A55, A494 a'r A483.

Mae nifer o safleoedd cyflogaeth arwyddocaol ar y ddwy ochr i'r ffin, gan gynnwys Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, canol dinasoedd Wrecsam a Chaer, Airbus Brychdyn, Parc Busnes Caer a Stad Ddiwydiannol Wrecsam. Bydd lleihau nifer y bobl sy'n cymudo i'r lleoliadau hyn mewn car yn cael effeithiau amgylcheddol positif, ond hefyd yn lleihau effaith tagfeydd ac oedi ar deithiau pellach ar y rhwydwaith priffyrdd. Er mwyn gwella'r cysylltiadau teithio cynaliadwy i'r safleoedd hyn ar gyfer trigolion gogledd Cymru, a thrigolion Lloegr sy'n gweithio yng ngogledd Cymru, bydd angen i'r awdurdodau lleol ar y naill ochr i'r ffin weithio mewn partneriaeth, ynghyd â Thrafnidiaeth Cymru a gweithredwyr trafnidiaeth.



Polisi CB3

Gweithio gydag Awdurdodau Lleol a Chyfunol cyfagos, gan gynnwys Gorllewin Swydd Gaer a Chaer, a Rhanbarth Dinas Lerpwl i sicrhau dull ategol i Gynllunio Trafnidiaeth, yn enwedig yn Is-ranbarth Mersi a'r Ddyfrdwy. Dylai hyn ystyried teithiau cymudo a symudiadau cludo llwythi.

Y tu hwnt i'r safleoedd cyflogaeth hyn y cyfeirir atynt ym Mholisi CB2 ac yn agos at y ffin, mae mannau deniadol am deithiau hwy eraill yn Lloegr gan eu bod yn fannau deniadol i weithio i drigolion gogledd Cymru, ac mae canolfannau poblogaeth uchel lle y mae cyflogwyr gogledd Cymru yn mynd ati i recriwtio gweithwyr ohonynt. Dylid rhoi dewis i gymudwyr sy'n teithio ar y siwrneion hyn ynghylch sut maent yn teithio i'r gwaith, a hynny er mwyn lleihau'r defnydd o gar, ac i sicrhau bod rhagor o gyfleoedd cyflogaeth yn hygyrch i gymunedau.

Polisi CB4

Dylai cymudwyr i Barth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam fedru cael mynediad at swyddi gan ddefnyddio isadeiledd seiclo a cherdded ansawdd uchel, gwell gorsafoedd rheilffordd cyfagos, neu wasanaethau bws sy'n ddeniadol ac yn adlewyrchu patrymau gwaith y cyflogwyr yn y Parth Buddsoddi.

Mae Llywodraethau'r DU a Chymru wedi cyfleu eu cefnogaeth i Barth Buddsoddi sy'n cefnogi gweithgynhyrchu uwch yn Sir y Fflint a Wrecsam. Mae hwn yn gyfle a allai gynnwys £160m o gyllid ar gyfer y rhanbarth dros y 10 mlynedd nesaf. Mae hyn yn gyfle mawr i'n pobl a'n busnesau, yn enwedig ein cymunedau yn ardaloedd Sir y Fflint a Wrecsam. Bydd y Parth Buddsoddi yn cefnogi creu swyddi ac yn helpu â chadw gweithwyr yn y rhanbarth. Mae hyn yn peri her i'n rhwydwaith trafnidiaeth ac yn gyfle i'w wella. Bydd trafnidiaeth yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi llwyddiant y Parth Buddsoddi drwy sicrhau bod modd i bobl sy'n byw yng ngogledd Cymru gael mynediad at y cyfleoedd cyflogaeth presennol a newydd. Mae helpu pobl sydd heb fynediad at gar preifat i gyrraedd ein safleoedd cyflogaeth mawr ar gyfer gwaith neu hyfforddiant yn fater â blaenoriaeth ar gyfer Cynghrair Arweinyddiaeth Wrecsam.



Polisi CB5

Pan fo'n bosibl, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio cyllid y Parth Buddsoddi ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth cynaliadwy sy'n gwella mynediad at gyflogaeth a chefnogi'r gwaith darparu a llwyddiant y Parth Buddsoddi.

Mae posibilrwydd i'r cyllid o'r Parth Buddsoddi roi cyfle i wella prosiectau, gan geisio datgloi cyllid cyfalaf a refeniw fyddai'n cefnogi cyflawniad gwell mynediad cynaliadwy at gyflogaeth.

Polisi CB6

Bydd dull partneriaeth yn cael ei ddefnyddio i adnabod a datblygu cynlluniau a mentrau dewisiadau doethach sy'n hwyluso cymudo mwy cynaliadwy i safleoedd cyflogaeth yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

Mae cyflogaeth sy'n cael ei arwain gan y sector cyhoeddus yn ardal Bangor, Caernarfon ac Ynys Môn, ynghyd â Phorthladd Rhydd Caergybi ac unrhyw gynigion sydd ar y gweill yn Wylfa, yn rhoi cyfle gwirioneddol i hwyluso symudiad at gymudo cynaliadwy. Mae'r heriau yma yn wahanol i rai'r dwyrain yn sgil natur fwy gwledig yr ardal o amgylch. Gellir ymdrin â hyn drwy gydweithio rhwng awdurdodau lleol ar ddwy ochr y Fenai, Trafnidiaeth Cymru, gweithredwyr preifat, a chyflogwyr mawr.

Polisi CB7

Bydd creu Partneriaethau Trafnidiaeth Strategol yn cael eu hymchwilio mewn lleoliadau cyflogaeth mawr.

Mae Partneriaeth Trafnidiaeth Strategol, fel yr argymhellir gan Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru, yn bartneriaeth fyddai'n dod â'r cyflogwyr mawr ynghyd yn yr is-ranbarthau, ynghyd ag awdurdodau lleol a Thrafnidiaeth Cymru, i adnabod y mesurau y gellir eu rhoi yn eu lle i leihau'r defnydd o geir ar gyfer cymudo mewn ardaloedd a chlystyrau cyflogaeth allweddol. Argymhellodd y Comisiwn y dylai'r rhain ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar Lannau Dyfrdwy a Wrecsam (lle mae clwstwr o gyflogwyr sector preifat), ac yn ardal y Fenai lle mae dominyddiaeth sector cyhoeddus o ran cyfleoedd cyflogaeth. Gallai cyfnod prawf am gyfnod cychwynnol i'w gytuno, helpu i adnabod y dull strategol mwyaf priodol a'r cydlynu adnoddau sydd ei angen.



Rhoi dewisiadau i bobl ynghylch sut maent yn cael mynediad at wasanaethau

Polisi CB8

Rhoddir blaenoriaeth i ariannu cynlluniau a gwasanaethau sy'n gwella mynediad cynaliadwy at wasanaethau hanfodol sy'n cyfoethogi bywyd, megis addysg, gofal iechyd, canol trefi a chyfleusterau cymunedol. Unwaith y bydd yn ei le, dylid blaenoriaethu unrhyw isadeiledd sy'n cefnogi mynediad at y gwasanaethau hyn ar gyfer cynnal a chadw pan fo'n briodol.

Bydd cael rhwydwaith teithio teg a chyfiawn yng ngogledd Cymru yn golygu y dylai trigolion ac ymwelwyr gael dewis ynghylch sut maent yn teithio ar gyfer pob siwrne. Mae'n hanfodol bwysig bod pob trigolyn yn cael mynediad at wasanaethau hanfodol a chyfleusterau cymunedol megis meddygfeydd meddygon teulu, deintyddion, ysbytai, ysgolion, colegau, prifysgolion, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, siopau ac addoldai. Bydd mynediad rhwydd a dibynadwy i gyrchfannau o'r fath yn gwneud cyfraniad positif i'n llesiant.

Lle bo'n bosib ac yn briodol, dylid rhoi blaenoriaeth i wella mynediad at wasanaethau ac asedau presennol.

Polisi CB9

Ymchwilir i gyflwyno Contract Gwasanaethau Cyffredinol yn un o'r ardaloedd awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, gyda golwg ar gyflwyno'n ehangach ar draws y rhanbarth pe byddai'n llwyddiannus.

Darperir cludiant i nifer o wasanaethau hanfodol gan awdurdodau lleol drwy gontractau am gludiant ysgol, gwasanaethau cymdeithasol a chludiant cleifion nad ydynt yn rhai brys. Argymhellodd Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru y dylid ymchwilio i 'gontract gwasanaethau trafnidiaeth cynhwysfawr'. Mae hwn yn gysyniad newydd i ogledd Cymru, a byddai'n gontract sy'n cyfuno'r holl wasanaethau hyn i roi gwell gwasanaeth i'r cyhoedd a lleihau dyblygu adnoddau.



Rhoi dewisiadau i bobl ynghylch sut maent yn cael mynediad at addysg

Polisi CB10

Bydd gwelliannau pellach i wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol sy'n rhoi mynediad i sefydliadau addysg yn cael eu hadnabod a'u datblygu lle mae cyllid ar gael. Mae hyn yn cynnwys: Safleoedd Addysg Uwch (prifysgolion ym Mangor a Wrecsam, ond hefyd y rhai yng ngogledd orllewin Lloegr); Safleoedd Addysg Bellach (yn cynnwys Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria); Ysgolion Uwchradd; ac Ysgolion Cynradd.

Mae rhwydwaith trafnidiaeth deniadol ac effeithlon yn chwarae rhan hanfodol o ran lleihau amddifadedd drwy roi mynediad at hyfforddiant ac addysg. I annog meddylfryd hirdymor o ddewis teithio llesol ar gyfer siwrneion addas, mae'n bwysig bod pobl ifanc yn dod i arfer â gwneud hyn o oed cynnar. Bydd dewis cerdded neu feicio i'r ysgol yn helpu gyda hyn, ac yn cefnogi buddion ehangach, megis:

- Ffordd o fyw iachach
- Llai o dagfeydd a phroblemau parcio yn ystod amser ysgol
- Gwell ansawdd aer ger ysgolion
- Llai o allyriadau cerbydau

Dylai cynllun teithio llesol i ysgolion gael ei gyflwyno ar gyfer pob ysgol, i helpu i ddarparu rhestr o gamau gweithredu y mae pob ysgol yn ymrwymo iddynt. Dylai anelu at ysbrydoli myfyrwyr, rhieni, gwarcheidwaid a staff i gerdded, olwyno neu feicio i'r ysgol.

Polisi CB11

Dylai awdurdodau lleol ymestyn eu gwaith gydag ysgolion a rhieni i annog a chefnogi teithio cynaliadwy ar gyfer plant, rhieni a staff.

Mae'n hanfodol ein bod yn annog pobl ifanc i ddewis dulliau teithio llesol wrth deithio i'r ysgol, lle bo modd, ac mae cludiant o'r cartref i'r ysgol yn fater penodol bwysig i nifer o rieni a phlant, ac yn sicrhau mynediad diogel a chyfleus at ddysgu. Mae ymgyrchoedd cenedlaethol presennol fel Kerbcraft, sef strategaeth genedlaethol ar gyfer diogelwch cerddwyr plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn cynnig enghreifftiau o arfer gorau, yn enwedig o fewn ac o amgylch ysgolion, i hyrwyddo teithio llesol.

Polisi CB12

Bydd awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio setiau data lleol a pholisïau megis Mesur Teithio gan Ddysgwyr i flaenoriaethu llwybrau i'r ysgol ar gyfer gwelliannau diogelwch.

Os ydym ni am annog pobl ifanc a'u rhieni i ddewis teithio llesol ar gyfer eu siwrne i'r ysgol, mae'n bwysig bod gwybodaeth a seilwaith addas yn eu lle fel eu bod yn medru teithio'n gynaliadwy ac yn ddiogel.



Rhoi dewisiadau i bobl mewn ardaloedd gwledig a lled-drefol

Polisi CB13

Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gyflawni'r gwelliannau trafnidiaeth angenrheidiol cymdeithasol sy'n atal ynysu gwledig. Dylai hyn flaenoriaethu gwell cysylltiad cymunedau gwledig i: gymunedau cyfagos, trefi cyfagos, cyfleusterau cymunedol cyfagos a gwasanaethau allweddol megis iechyd, siopau, addysg, a chyfnewidfeydd trafnidiaeth er mwyn teithio ymhellach.

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn cydnabod bod angen hwyluso peth symudiad moddol draw o ddefnyddio car preifat ac yn nodi sut ellir cyflawni hyn yng ngogledd Cymru drwy well cludiant cyhoeddus a theithio llesol yn, a rhwng, ein trefi a'n dinasoedd. Tra'n cydnabod bod lleihau'r defnydd o geir mewn cymunedau gwledig yn fwy heriol, mewn ardaloedd gwledig, rydym yn cydnabod:

- Bod gwasanaethau a swyddi yn aml ymhellach i ffwrdd o ble mae pobl yn byw
- Y gall cerdded a beicio ar lwybrau gwledig deimlo'n llai diogel
- Bod gwasanaethau bws rheolaidd yn llai cyffredin ac yn aml nid ydynt yn gweithredu yn fasnachol

Mae hyn yn rhoi cyfle i ni roi opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy gwell i drigolion cymunedau gwledig a darparu'r cysylltiadau sy'n atal teimladau ynysig, ac yn ei dro, mae'n gadael i drigolion gael mynediad diogel at y gwasanaethau y maent eu hangen. Mae hyn yn golygu bod modd ystyried dulliau mwy arloesol o wasanaethu cymunedau gwledig er mwyn darparu'r gwasanaethau a'r seilwaith sydd ei angen yn gymdeithasol. Ymysg yr enghreifftiau sy'n cael eu hystyried fel rhan o'r cynllun trafnidiaeth gymunedol a'r polisïau a'r ymyraethau teithio llesol yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, mae:

- Trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw sy'n gwasanaethu ardaloedd sydd ddim yn cael eu gwasanaethu gan wasanaethau bws llwybr penodol, megis gwasanaethau Fflecsi
- Mentrau trafnidiaeth cymunedol, megis gwasanaethau galw a theithio
- Cynlluniau clybiau car, sy'n rhoi ffordd rwydd a fforddiadwy i bobl rannu'r buddion o ddefnyddio car heb y gost o fod yn berchen ar un
- Cyflawni cyfleusterau i gerddwyr fel llwybrau anffurfiol sy'n cysylltu cymunedau, lle gall gwirfoddolwyr lleol adeiladu llwybrau gyda chytundebau â thirfeddianwyr lleol

Mae Fflecsi yn wasanaeth trafnidiaeth ymateb i'r galw yng Nghymru, sy'n cael ei weithredu gan Drafnidiaeth Cymru ar y cyd ag awdurdodau lleol a gweithredwyr bws. Yn wahanol i wasanaethau bws traddodiadol, nid yw Fflecsi yn dilyn llwybrau neu amserlenni penodol. Yn lle hynny, mae'n codi ac yn gollwng teithwyr mewn lleoliadau y maent wedi gofyn amdanynt, o fewn parth dynodedig. Mae'r gwasanaeth yn addasu ei lwybrau mewn amser real, yn seiliedig ar archebion teithwyr, gan ei wneud yn fwy addasadwy i anghenion teithio unigol. Gall teithwyr archebu taith ar ap neu dros y ffôn.

Mae'r diffyg opsiynau teithio sydd gan drigolion mewn cymunedau gwledig yn golygu y bydd y car preifat yn aml yn ddull teithio angenrheidiol sy'n cael ei ddewis ar gyfer nifer o siwrneion y teithir arnynt mewn ardaloedd gwledig. Gellid lleihau effaith amgylcheddol y siwrneiau hyn drwy annog neu hwyluso symudiad i gerbydau trydan neu Gerbydau Allyriadau Isel Iawn i drigolion gwledig, neu gyda chlybiau rhannu car i leihau'r defnydd o geir preifat. Mae hyn yn cael ei ystyried ymhellach fel rhan o ffyrdd, strydoedd a pharcio yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn.



© Unsplash



Rhoi gwybodaeth i bobl i wneud dewisiadau teithio mwy cynaliadwy

Polisi CB14

Bydd ymgyrchoedd Marchnata a Chyfathrebu yn cael eu datblygu sy'n ystyrlon ac yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o fanteision teithio cynaliadwy. Bydd ymgyrchoedd yn defnyddio technegau arloesol i dargedu'r gynulleidfa gywir, yn enwedig y grwpiau hynny sy'n anoddach i'w cyrraedd. Dylid cymryd dull rhanbarthol at hyn pan fo'n briodol.

Mae darparu'r seilwaith a'r gwasanaethau sy'n galluogi pobl i wneud dewisiadau teithio cynaliadwy yn bwysig ond ni all fod yn effeithiol oni bai bod pobl yn ymwybodol ohonynt a'r buddion o'u defnyddio. Mae ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu yn hanfodol ac yn gallu cael eu teilwra i ganolbwyntio ar grwpiau defnyddwyr targed penodol, megis trigolion a defnyddwyr hamdden, cymudwyr, pobl ifanc, neu bobl hŷn. Mae prosiectau ledled gogledd Cymru i gefnogi ymgyrch hyrwyddo a rhaglenni cynllunio teithio, yn cynnwys:

- Cefnogi'r digwyddiad Diwrnod Di-gar y Byd blynyddol mewn rhai o'n trefi mwy
- Deunyddiau ymwybyddiaeth iechyd cyhoeddus ac ansawdd aer
- Adnoddau ar-lein ynghylch cludiant cynaliadwy a chanllawiau cynllunio teithio
- Hyrwyddo apiau sy'n cynnig talebau arbed arian ar gyfer defnyddio cludiant cyhoeddus, cerdded neu feicio
- Eirioli ar ran Siarter Teithio Iach Gogledd Cymru ac annog sefydliadau sector cyhoeddus, preifat a
- thrydydd sector i gofrestru i ymrwymo i waith tuag at gamau sy'n cyfrannu at hyrwyddo teithio iach i'w staff a'u defnyddwyr gwasanaeth
- Cydweithio â darparwyr gwasanaeth addysg i hwyluso dewisiadau teithio cartref i'r ysgol cynaliadwy, a hyfforddiant teithio annibynnol

Bydd yr ymyraethau hyn yn ein helpu i brofi strydoedd sy'n rhydd o draffig, ynghyd â gwneud teithio'n haws i'r rhai sy'n dibynnu ar gerbydau preifat am resymau iechyd a symudedd. Ynghyd â rhoi cyfle i ail-ddychmygu ein ffyrdd a'n strydoedd o amgylch pobl, byddwn yn grymuso pobl i wneud dewisiadau teithio mwy cynaliadwy drwy wella mynediad at wybodaeth. Mae hyn yn cysylltu'n dda i'n polisïau a'n ymyraethau ar gyfer mynediad at addysg, a chysylltedd digidol, fel rhan o'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Helpu pobl i fwynhau ein hatyniadau i ymwelwyr a chefnogi'r diwydiant twristiaeth

Polisi CB15

Gweithio gyda phartneriaid a rhan-ddeiliaid yn y sector twristiaeth i archwilio dulliau i annog ymwelwyr i ogledd Cymru i deithio'n gynaliadwy tra'n gwella'r profiad i ymwelwyr a hybu'r economi ymwelwyr.

Mae'r economi ymwelwyr yn hynod bwysig i ogledd Cymru. Mae ein rhanbarth yn elwa o amgylchedd o ansawdd uchel ac mae'n gartref i rai o atyniadau gorau'r DU i ymwelwyr sy'n apelio at y rhai sy'n ymgymryd ag arosiadau byrrach neu hwy. Mae'r cynnig i ymwelwyr yn cynnwys heicio a mwynhau gwifren wib gyflymaf y byd ym Mharc Cenedlaethol Eryri, gweld Traphont Pontcysyllte, ymweld â'n Hamgueddfa Lechi Genedlaethol, gan grwydro yng nghestyll Biwmares, Conwy, Caernarfon a Harlech, antur Eidalaidd ym Mhortmeirion, taith ar Reilffordd Treftadaeth Porthmadog, a dringo Pen y Gogarth, i enwi ond rhai. Er ein bod angen amddiffyn a gwella mannau prydferth naturiol megis Penrhyn Llŷn, Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (sy'n cael ei ystyried fel Parc Cenedlaethol newydd), mae'n hanfodol bod ein rhwydwaith trafnidiaeth yn cefnogi llwyddiant parhaus a thwf ein diwydiant twristiaeth. Tra'n sicrhau bod ein gwasanaethau trafnidiaeth a'n seilwaith yn helpu pobl i gyrraedd y mannau y maent am fynd iddynt, mae cyfle i wneud y mwyaf o'r defnydd o ddulliau cynaliadwy i gael mynediad at atyniadau a gwneud ein cyrchfannau i ymwelwyr yn hygyrch i bob grŵp o bobl.

Un ffordd o'r fath a argymhellwyd gan Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru yw cerdyn gwesteion neu system gwobr sy'n cynnig pecyn o gynigion arbennig i ymwelwyr a phobl leol sy'n teithio'n gynaliadwy i atyniadau, yn cynnwys lleihau costau mynediad i atyniadau a llai o gostau teithio.

Polisi CB16

Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gefnogi'r economi ymweld drwy reoli parcio i fysiau a chartrefi modur yn agos at atyniadau yng ngogledd Cymru. Dylai hyn ystyried cyfleoedd gwefru ar gyfer cerbydau di-allyriadau.

Tra y byddwn yn annog ymwelwyr i fwynhau ein llefydd ar droed, olwynion a chludiant cyhoeddus, rydym yn cydnabod y bydd ymwelwyr i ogledd Cymru yn parhau i ddefnyddio amrediad o ddulliau trafnidiaeth i gael mynediad i'n rhanbarth a chrwydro ynddo. Byddwn yn parhau i fod angen ardaloedd dynodedig ar gyfer parcio coetsys a chartrefi modur yn ddiogel ac yn gyfleus. Cytunir bod angen rheoli parcio coetsis a chartrefi modur, ond bydd angen i'r dewis o safleoedd newydd ystyried lleoliadau sy'n osgoi effeithiau niweidiol, megis ar rinweddau arbennig Parc Cenedlaethol Eryri ac yn unol â pholisïau Cynllun Datblygu Lleol.



Polisi CB17

Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i wneud gwasanaeth bws Sherpa'r Wyddfa yn barhaol, gyda chyllid hirdymor; ac ymchwilio i sut y gellir integreiddio gwasanaethau ymhellach gyda'r rhwydweithiau bws a rheilffordd ehangach.

Polisi CB18

Drwy weithio â phartneriaeth, bydd gwelliannau pellach yn cael eu cyflwyno i annog ymwelwyr ag Eryri i deithio drwy ddull ar wahân i gar. Bydd y rhain yn cynnwys gwella'r dewisiadau amgen, rheolaeth o gyfleusterau a gwell gwybodaeth ac addysg. Gellir ariannu'r rhain drwy ffynonellau arloesol o ariannu.

Polisi CB19

Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn ystyried gofynion tir ar gyfer cyfleusterau cyfnewidfa mewn safleoedd porth i Barc Cenedlaethol Eryri.

Dros y blynyddoedd diweddar, mae'r defnydd o geir a pharcio wedi cael eu hadnabod fel pryder yn Eryri. Y materion allweddol yw:

- Bydd y galw am fynediad gyda char i'r Wyddfa a Dyffryn Ogwen ar adegau brig, yn llawer uwch na'r gofod parcio sydd ar gael
- Mynediad at wybodaeth ynghylch dewisiadau amgen i'r car preifat
- Difwyno, perygl a phrofiad ymwelwyr gwael
- Dibyniaeth ar gar wedi gwreiddio, ynghyd â'r disgwyliad o fedru parcio
- Mae'r tagfeydd a'r parcio amhriodol yn gwneud y ffyrdd yn llai deniadol i ddefnyddwyr eraill y ffordd, yn cynnwys beicwyr
- Risg y bydd y Parc Cenedlaethol yn dod yn fwyfwy anhygyrch i gyfran gynyddol o boblogaeth y DU sydd ddim yn gyrru ac sydd heb fynediad at gar



Mae Grŵp Cyflawni Trafnidiaeth, Parcio a Theithio Llesol Eryri yn cynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Gwynedd, Cyngor Conwy a Thrafnidiaeth Cymru. Mae'r grŵp yn gweithio i adnabod a bwrw ymlaen â chamau gweithredu sy'n cefnogi symudiad at gludiant cynaliadwy yn Eryri. Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith y grŵp, sy'n cynnwys:

- Arian peilot er mwyn gwella gwasanaethau bws Sherpa'r Wyddfa, sy'n darparu ffordd o deithio'n gynaliadwy unwaith y mae ymwelwyr wedi cyrraedd y Parc Cenedlaethol, wedi'i gefnogi â thaflenni hyrwyddo, fflagiau arosfannau bws, a'r cyfryngau cymdeithasol. Hyd yn hyn, mae nifer y teithwyr ar rwydwaith Sherpa'r wedi cynyddu 79% o'i gymharu â lefelau cyn covid, gyda dros 72,000 o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth ym mis Awst 2024, gan helpu'n effeithiol i gyflawni amcanion y polisi hwn.
- Rheoli parcio ym Mhen-y-pas
- Gorfodi cyfyngiadau parcio ar ffyrdd
- Ehangu capasiti parcio a theithio mewn lleoliadau 'porth' sy'n gwasanaethu'r Wyddfa a Dyffryn Ogwen, ynghyd â gostyngiad graddol yn y ddarpariaeth barcio bresennol ar hyd ffyrdd drwy'r amgylchedd mynyddig hynod sensitif.

Polisi CB20

Bydd datrysiadau arloesol ar gyfer rhoi mynediad i atyniadau mewn ardaloedd gwledig yn cael eu hadnabod. Dylai hyn ystyried, heb fod yn gyfyngedig i, wasanaethau bws tymhorol, llogi e-feiciau a dulliau micro-symudedd eraill, ynghyd ag ymgyrchoedd gwybodaeth.

Mae prydferthwch a natur wledig llawer o ogledd Cymru yn golygu bod nifer fawr o atyniadau sydd wedi'u lleoli mewn mannau a allai fod yn anodd i gael mynediad atynt heb fod â defnydd car preifat. Os ydym am annog ymwelwyr i deithio'n gynaliadwy a gwneud y safleoedd hyn yn hygyrch i fwy o bobl, mae'n hanfodol bod dewisiadau amgen i'r car preifat yn cael eu darparu.



Polisi CB21

Bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal i fanteision gwasanaethau bws tymhorol a thwristiaid yng ngogledd Cymru i gefnogi'r economi ymweld a hyrwyddo integreiddiad â rhwydweithiau rheilffordd a bws ehangach. Dylai hyn ystyried nid yn unig y daith i'r gyrchfan, ond teithio ymlaen i atyniadau.

Mae atyniadau traddodiadol ac o'r newydd ar lan y môr wrth galon yr economi ymwelwyr ar gyfer llawer o ogledd Cymru. Mae hyn yn amlwg ym mhob ardal arfordirol, yn enwedig mewn cyrchfannau poblogaidd megis Prestatyn, Rhyl, Towyn a Llandudno ar arfordir y gogledd, ond hefyd mewn mannau megis Pwllheli a Niwbwrch mewn lleoliadau mwy gwledig. Mae gorsafoedd rheilffordd a pheth darpariaeth gwasanaeth bws mewn nifer o'r cyrchfannau mawr ond mae niferoedd mawr o bobl yn ymweld â'r cyrchfannau hyn mewn ceir preifat.

Polisi CB22

Gweithio gyda phartneriaid a rhan-ddeiliaid yn y diwydiant twristiaeth ar yr arfordir i adnabod mesurau fydd yn cefnogi symudiad at ddulliau cynaliadwy i gael mynediad at atyniadau poblogaidd, tra'n parhau i sicrhau bod gogledd Cymru yn parhau i fod yn lleoliad o ddewis ar gyfer gwyliau a theithiau dydd.

Marchnad fawr a llwyddiannus ar gyfer yr atyniadau i dwristiaid yng ngogledd Cymru yw gogledd-orllewin Lloegr a gogledd canolbarth Lloegr. Mae hyn yn arwain at symudiad mawr o bobl rhwng y rhanbarthau hyn yn Lloegr a gogledd Cymru, yn enwedig ym misoedd yr haf. Gellir gweld tystiolaeth y symudiad hwn ar y rhwydwaith ffyrdd strategol a'n rhwydwaith rheilffyrdd yn ystod amseroedd 'newid drosodd' gwyliau allweddol. Yn aml, mae hyn yn achosi tagfeydd ar lwybrau megis yr A494 yng Nglannau Dyfrdwy, sy'n rhwystredig i'r rhai sy'n teithio.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio i roi'r gallu i awdurdodau lleol godi ardoll ymwelwyr ar arosiadau dros nos yn eu cymunedau. Bydd ymwelwyr yn talu'r cyfraniad hwn a bydd yn cael ei fuddsoddi mewn twristiaeth gynaliadwy, gan helpu i dyfu ein heconomi, cefnogi ein cymunedau a chynnal a chadw prydferthwch gogledd Cymru i genedlaethau'r dyfodol. Un opsiwn i helpu i annog teithio cynaliadwy gan dwristiaid fyddai cyflwyno 'cerdyn KONUS' neu debyg, gan ddarparu tocyn teithio diderfyn i'r rhai sy'n aros yn yr ardal, sy'n cael ei ariannu drwy'r ardoll ymwelwyr.




Dylai awdurdodau lleol sy'n ceisio rheoli lefelau uchel o ymwelwyr a'r ffyrdd y maent yn teithio o gwmpas yn yr ardaloedd hynny, megis Eryri, ystyried yr opsiwn hwn.

Mae'r Goedwig Ddu yn Yr Almaen yn gyrchfan boblogaidd i dwristiaid, sy'n enwog am ei thirweddau ansawdd uchel. Yn debyg i'n hatyniadau naturiol yng ngogledd Cymru, gallai ceisio crwydro ar gludiant cyhoeddus o amgylch popeth sydd gan y rhanbarth i'w gynnig, ymddangos yn frawychus. Wedi'i ddylunio i wneud cludiant yn hygyrch ac yn gynaliadwy, mae Cerdyn KONUS yn docyn teithio unigryw sy'n cael ei gynnig i ymwelwyr sy'n aros yn y Goedwig Ddu fel budd i westeion sy'n aros mewn llety sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn yr ardal. Mae'n gweithio fel tocyn ar gyfer teithio diderfyn ar drenau, bysiau a thramiau rhanbarthol ledled y rhanbarth, gan alluogi gwesteion i grwydro ymysg prydferthwch yr ardal heb boeni am gostau trafnidiaeth.

Polisi CB23

Bydd dull partneriaeth yn cael ei ddefnyddio i gynllunio ar gyfer gwelliannau pellach i wasanaethau rheilffordd yng ngogledd Cymru sy'n cefnogi'r economi ymweld yn well.

Fe allai ein gwasanaeth rheilffordd hefyd wasanaethu'r economi ymweld yn well. Gall gwasanaethau rheilffordd fod yn opsiwn sydd ddim yn ddeniadol i ymwelwyr yn sgil yr amserlen, neu or-gapasiti a diffyg gofod cadw bagiau a chesys yn ystod y tymor brig ac ar adegau 'newid drosodd'. Mae llai o wasanaethau ar benwythnosau yn cael effaith andwyol ar gefnogi'r economi ymweld. Mae cyfle i gyflwyno newidiadau gwasanaeth tymhorol i gynyddu capasiti ac/neu amlder ar Brif Lein Gogledd Cymru, Lein Arfordir y Cambrian, a Lein Dyffryn Conwy. Bydd helpu pobl i ddewis y rheilffyrdd ar gyfer eu teithiau, yn ei dro, yn helpu i leihau tagfeydd ar ein ffyrdd. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i helpu i gyflwyno lle i storio bagiau, beiciau a chyflwyno systemau gwybodaeth i'w gwneud hi'n haws i bobl i gael mynediad i wasanaethau rheilffyrdd, a'u defnyddio, wrth iddynt ymweld.



Bws

Mae ein cynlluniau ar gyfer teithio ar fws yn cael eu hystyried o fewn cyd-destun y rhwydwaith bws arfaethedig ledled Cymru ar gyfer y dyfodol, y mae Trafnidiaeth Cymru wrthi'n ei ddatblygu fel rhan o gynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno masnachfreintiau bws. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u hamlinellu ym mhapur gwyn 'Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn' a'r ddogfen Ein Map Ffordd i Ddiwygio'r Bysiau.

Mae dewisiadau teithio ar fws yn perthyn yn agos i bolisïau, rhaglenni a phrosiectau ehangach ar gyfer coetsys, ymateb i'r galw a thrafnidiaeth cymunedol, integreiddio ac ymyraethau gwybodaeth digidol, sydd oll yn cael eu hystyried yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn. Rydym yn dymuno gweld rhwydwaith gysylltiedig o lwybrau bws, gyda chyfnewidfa bws ranbarthol ymhob tref, gyda gwasanaethau bws di-allyriadau o leiaf bob awr rhwng yr holl brif drefi, rhwng 07:00 a 22:00. Rydym am weld o leiaf un arhosfan cyfnewidfa bws ymhob pentref, o leiaf un arhosfan bws ymhob pentrefan, a darparu gwasanaethau bws lleol i bentrefi i gysylltu'r bws rhanbarthol agosaf neu gyfnewidfa rheilffordd o leiaf deirgwaith y dydd. Mae ein polisïau a'n hymyraethau ar gyfer helpu i gyflawni hyn yn cynnwys:


Masnachfreinio bysiau

Polisi PT1

Gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i gefnogi cyflwyniad y masnachfreinio bysiau yng ngogledd Cymru, a ddylai gynnwys cyllid aml-flwyddyn fyddai'n rhoi sicrwydd i'r cyhoedd sy'n teithio, yr awdurdodau a gweithredwyr.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer masnachfreinio'r ddarpariaeth gwasanaeth bws. Cyhoeddwyd y cynlluniau diweddaraf ar gyfer masnachfreintiau bysiau yn y Mesur Gwasanaeth Bysiau (Cymru) ar 31 Mawrth 2025. Bydd hyn yn galluogi i rwydweithiau bws gael eu dylunio a'u gweithredu i dargedu anghenion lleol, e.e. ardaloedd amddifadedd, a chwrdd ag anghenion cwsmeriaid yn hytrach na bod yn seiliedig yn bennaf ar broffidioldeb. Bydd y newid hwn hefyd yn galluogi integreiddiad yr amserlennu a'r ticedu, gan wneud integreiddio yn haws.

Bydd gwasanaethau bws yn cael eu cynllunio ac fe fanylir arnynt drwy'r cyfyngiadau cyllido sydd ar gael gan awdurdodau lleol, gan weithio gydag Uchelgais Gogledd Cymru fel Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i helpu i gyflawni'r rhwydwaith gorau posib ar gyfer trigolion y Gogledd. Mae gwell rhwydwaith bws yn gofyn am gyllid ychwanegol arwyddocaol, o gymharu â'r ddarpariaeth gwasanaeth presennol, a byddai model masnachfraint yn gofyn am gytundebau ariannu amlflwyddyn, sydd heb eu cynnig am gymhorthdal bws hyd yma. Byddai cyllid aml-flwyddyn o'r fath yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd sy'n teithio, awdurdodau a gweithredwyr.



Cydnabyddir y bydd angen i Fentrau Bach a Chanolig (SMEs) a gweithredwyr llai bod yn rhan o'r datrysiad ac ni ddylid eu diystyru gyda'r model masnachfraint newydd.

Mae masnachfreinio yn golygu y bydd penderfyniadau am wasanaethau bysiau yng Nghymru (yn cynnwys llwybrau, amserlenni, prisiau, oriau gweithredu a safonau ansawdd gwasanaeth) yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru, yn hytrach na gweithredwyr bws masnachol, mewn partneriaeth â Chyd-bwyllgorau Corfforedig. Gall gweithredwyr bysiau wneud cais am gontractau i redeg gwasanaethau i'r manylebau hyn. Bydd hyn yn newid mawr i system bysiau Cymru, sydd wedi cael ei ddadreoleiddio ers y 1980au.

Datgarboneiddio'r fflyd bysiau

Polisi PT2

Dylai pob bws newydd sy'n cael ei gyflwyno yng ngogledd Cymru fod yn ddi-allyriadau. Lle mae bysiau newydd yn welliant hirdymor, dylid chwilio am gyfle i ail-bweru'r fflyd gyfredol.


Mae'n hanfodol bod yr holl bartïon yn gweithio i leihau allyriadau carbon o'n rhwydwaith trafnidiaeth cyfan, yn cynnwys y fflyd bysiau. Mae tanwyddau amgen i fysiau sy'n dod yn fwyfwy cyffredin ledled y byd yn cynnwys trydan batri, a hydrogen.

Polisi PT3

Gweithio gyda phartneriaid i chwilio am gyfleoedd i ategu'r datblygiad o ganolfannau hydrogen yng ngogledd Cymru drwy ymchwilio i gyflwyno fflyd bws hydrogen.

Yng ngogledd Cymru, mae gwaith yn parhau ar ddau brosiect i gyflwyno hydrogen fel ffynhonnell tanwydd sydd fwy ar gael yn barod. Rhain yw Hybiau Hydrogen y dyfodol yng Nglannau Dyfrdwy a Chaergybi.

Gan gefnogi masnachfreinio bysiau, byddwn yn gweithio gyda gweithredwyr i sicrhau bod depos a chyfleusterau gwefru yn ffit ar gyfer y dyfodol, ac yn cefnogi cyflwyniad cerbydau modern, dim allyriadau. Byddwn yn gweithio i adnabod synergeddau gyda'n Strategaeth Ynni Rhanbarthol, sy'n ceisio annog cynhyrchu ynni glân a lleihau defnydd ynni ledled y Gogledd.



Rhwydwaith trawsnewid bysiau

Polisi PT4

Bydd y Rhwydwaith Trawsnewid Gwasanaeth Bws yn cael ei gyflwyno yng ngogledd Cymru. Bydd hyn yn cynnwys rhwydwaith craidd o wasanaethau rhwng ac o fewn aneddleoedd mawr a safleoedd cyflogaeth gydag amlder o ddau i bedwar bws yr awr, yn ymestyn i gyda'r nos.


Polisi PT5

Bydd gwasanaethau bws y dyfodol yng ngogledd Cymru yn cynnwys y canlynol:

- amlder uchel ac oriau gweithredu hir
- amseroedd ymadael rheolaidd/cyson
- amserlenni ar ddydd Sul mor agos at amlder dyddiau'r wythnos â phosib i gefnogi cymudo, hamdden ac anghenion yr economi ymweld
- cael eu cydlynu i ddarparu amserlen wedi'i rhannu'n dda
- lleihau amseroedd teithio rhwng y tarddiad a'r cyrchfannau gyda'r mwyaf o angen
- cymryd llwybrau uniongyrchol sy'n aros yr un fath drwy'r dydd
- cael eu llwybro drwy gyfnewidfeydd trafnidiaeth a gorsafoedd rheilffordd
- cael eu hintegreiddio gyda gwasanaethau bws lleol a thrafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw deinamig
- cyfforddus ar gyfer teithiau hir

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol gogledd Cymru i ddatblygu rhwydwaith trawsffurfio bysiau sy'n ystyried y rhwydwaith presennol a'r nawdd, yn ceisio creu un rhwydwaith unedig o wasanaethau sy'n reddfol, yn hawdd i'w deall, ac yn gydlynus. Bydd optimeiddio llwybrau a rhesymoli gwasanaethau yn helpu i gyflawni amlder uwch ac amseroedd mwy cyson.

Mae ein cynlluniau yn cefnogi'r gwaith o ddarparu a datblygu gwasanaethau yn barhaus gan gynnwys rhwydwaith bysiau strategol TrawsCymru. Fel rhan o hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r gwasanaeth T13 newydd sy'n cysylltu'r Rhyl, Rhuthun, Dinbych a Wrecsam. Bydd hyn yn helpu pobl ledled Gogledd Cymru ymhellach i gyrraedd y lleoedd maen nhw eisiau ar drafnidiaeth gyhoeddus. Bydd datblygu gwasanaethau craidd ledled gogledd Cymru gyda mwy o amlder, oriau gweithredu hwy, a chysylltiadau gwell at fysiau eraill ac at reilffyrdd, yn helpu i ddenu pobl i deithio ar fws, lle y gallant fod yn dewis teithio yn eu car ar hyn o bryd. Mae datblygu gwasanaethau eilaidd a bwydo gydag amseroedd gadael 'wyneb cloc' rheolaidd a chyson, lle bo modd, am helpu ymhellach o ran rhoi sicrwydd i bobl sy'n dymuno teithio ar fws.



Gwella'r seilwaith bysiau

Polisi PT6

Bydd dull partneriaeth yn cynnwys awdurdodau priffyrdd lleol, Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru yn cael ei gymryd i adnabod a gweithredu mesurau blaenoriaeth bws sy'n cefnogi cyflwyno'r rhwydwaith trawsnewid bws yng ngogledd Cymru. Gall hyn gynnwys ail-ddyrannu lle ar y ffordd.

Mae seilwaith â blaenoriaeth i fysiau yn elfen bwysig i helpu i wneud amseroedd siwrne bws mor fyr â phosib, ac mor ddibynadwy â phosib i helpu i wneud teithio ar fws yn gystadleuol yn erbyn y car preifat. Mae lleoliadau lle mae tagfeydd traffig yn effeithio ar wasanaethau bws, gan achosi oedi sy'n arwain at amseroedd siwrne hwy a diffyg dibynadwyedd. Byddai darparu blaenoriaeth bws yn y lleoliadau hyn yn gwella pa mor ddeniadol yw hi i deithio ar fws. Bydd dull partneriaeth unedig yn helpu i adnabod lle bydd targedu mesurau blaenoriaeth bws ledled y rhwydwaith ac ar draws ffiniau awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru yn cael yr effaith fwyaf. Efallai y bydd creu mesurau blaenoriaeth bws yn gofyn am ail-ddyrannu gofod ffyrdd draw o gerbydau preifat, yn enwedig mewn ardaloedd mwy trefol, a dylid rheoli hyn yn ofalus fel rhan o newid graddol mewn newid moddol.


Polisi PT7

Bydd yr holl gyfleusterau safle bws yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda cyn belled â bo modd cyflawni hyn drwy gyllidebau refeniw awdurdodau lleol.

Polisi PT8

Bydd safleoedd bysiau allweddol, megis y rhai ynghanol pentrefi, rhai sy'n cael eu defnyddio llawer, a rhai lle mae cyfnewidfa rhwng dulliau neu wasanaethau yn gyffredin, yn cael eu blaenoriaethu i gynnwys cyrbau smwt i gael mynediad at yr arhosfan, cyrbau smwt i helpu i gamu ar/oddi ar y bws, goleuo (amgylcheddol sensitif), llochesi, seddi, gwybodaeth amser real a gwybodaeth cysylltu ar gyfer parhau â theithiau, a storio beiciau.

Elfen arall y seilwaith bws sy'n bwysig i deithwyr yw'r cyfleusterau sy'n cael eu darparu mewn gorsafoedd bws, arosfannau a chyfnewidfeydd. Mae'r cyfleusterau hyn yn amrywio ar draws gogledd Cymru a gall dull cydlynus ar draws y rhanbarth wneud teithio ar fws yn fwy deniadol i bob teithiwr, drwy weithio gyda Thrafnidiaeth Cymru fel bod safonau yn alinio ar draws ardaloedd awdurdod lleol. Yn hanfodol, gall cyfleusterau o ansawdd da wneud i deithwyr deimlo'n saffach wrth aros, a all helpu i ddenu mwy o bobl i deithio ar fws.



Gwneud teithio ar fws yn haws.

Polisi PT9

Cefnogi Gweledigaeth Llywodraeth Cymru o 'Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn' ar gyfer system fysiau sy'n cael ei llywodraethu a'i chynllunio i wasanaethu budd y cyhoedd, gyda'r cwmpas daearyddol ehangaf posibl, cysylltiadau cwbl integredig rhwng gwahanol wasanaethau, yr amleddau gwasanaeth uchaf posibl, a thocynnau a gwybodaeth hawdd eu defnyddio, unedig, syml.

Ymysg y pethau fydd yn medru helpu i ddenu pobl i deithio ar fws mae amserlen glir a chyfredol a gwybodaeth am y llwybr, strwythurau pris clir (yn enwedig wrth gyfnewid rhwng gwasanaethau a gweithredwyr), ac amseroedd aros byr pan yn dymuno newid gwasanaethau bws neu ddulliau cludiant (e.e. wrth gysylltu â llwybr bws arall neu wasanaeth rheilffordd).

Polisi PT10

Gweithio gyda phartneriaid, yn cynnwys awdurdodau lleol a gweithredwyr, i wneud teithio ar fws yn fwy hygyrch i bobl gydag anableddau neu symudedd cyfyngedig. Dylai gwelliannau dynnu oddi ar arferion da ar draws y byd, ond dylai'r gwelliannau gynnwys:

- Cyrbau wedi'u gostwng i gael mynediad at y safle
- Cyrbau wedi'u codi i helpu i fynd ar y bws
- Llochesi a lle i eistedd mewn safleoedd bws
- Cyhoeddiadau Clyweledol ar y bws
- Gwybodaeth mewn ffurfiau hygyrch
- Gofod hyblyg ar fysiau i gario sgwteri symudedd, beiciau a beiciau wedi'u haddasu

Mae hygyrchedd arosfannau bws a cherbydau ar gyfer y rhai gyda symudedd cyfyngedig neu anableddau yn bwysig i helpu i sicrhau bod modd i bob grŵp o bobl ddewis teithio ar fws. Rhaid i ni ystyried anghenion personau anabl (o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010), personau sy'n oedrannus neu sydd â phroblemau symudedd, rhai gyda phramiau, ac yn fwy eang, ystyried goresgyn rhwystrau at fynediad. Nid yn unig y bydd yn ei gwneud yn haws i bawb ddefnyddio'r bws am ran o'u siwrne pan maent hefyd yn olwyno neu'n beicio, ond hefyd yn gwneud teithio ar fws yn opsiwn tecach a mwy deniadol i bawb.



Trafnidiaeth coetsys, trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw a thrafnidiaeth gymunedol

Gall teithio ar goets gystadlu yn erbyn gwasanaethau rheilffordd ar gyfer teithio ar bellteroedd hwy, ynghyd ag uno llwybrau ar hyd y rhwydwaith ffyrdd strategol, lle weithiau nad yw'r gwasanaethau bws yn teithio arnynt. Mae trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw a thrafnidiaeth gymunedol yn cynnig gwasanaethau mwy hyblyg sy'n ategu neu'n darparu dewisiadau amgen i wasanaethau bws lle y gellir bod heriau hyfywedd masnachol, e.e. mewn ardaloedd gwledig iawn. Mae ein cynlluniau ar gyfer trafnidiaeth coetsys, ymateb i'r galw a chymunedol felly'n perthyn yn agos i bolisïau, rhaglenni a phrosiectau ehangach ar gyfer teithio ar fws, mynediad wyneb at awyrennu, newid ymddygiad, integreiddio ac ymyraethau gwybodaeth ddigidol, sydd oll yn cael eu hystyried yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn.

Er enghraifft, rydym yn parhau i gefnogi'r cyfle i wneud gwasanaethau bws Sherpa'r Wyddfa yn barhaol, gyda chyllid hirdymor, ac maent wedi ymrwymo i archwilio sut y gellir integreiddio gwasanaethau ymhellach gyda'r rhwydweithiau bws a rheilffordd ehangach. Hefyd, rydym am sefydlu gwasanaethau coets pellter mawr rhwng trefi a dinasoedd allweddol sydd ddim yn cael eu gwasanaethu gan y rhwydwaith rheilffyrdd rhwng gogledd Cymru a gweddill Cymru a throsodd i Loegr. Rydym angen ei wneud yn haws i bob grŵp o bobl i grwydro heb yr angen i fod yn berchen ar gan, yn cynnwys y rhai sydd â phroblemau symudedd, a'r rhai sy'n dewis byw mewn cymunedau gwledig a'r rhai sydd wedi'u hynysu. Mae ein polisïau a'n hymyriadau yn cynnwys:

Fflecsi a gwasanaethau Galw a Theithio

Polisi PT11

Dylai gwasanaethau peilot Fflecsi llwyddiannus fod yn barhaol, a dylai gwasanaethau Fflecsi ychwanegol gael eu dylunio gyda'r gymuned leol a'u cyflwyno mewn ardaloedd eraill, yn unol â chynlluniau rhwydwaith trawsnewid bysus.

Mae natur wledig llawer o ogledd Cymru yn golygu nad yw gwasanaethau bws llwybr sefydlog yn hyfyw yn fasnachol bob amser. Lle mae hyn yn wir, dylid darparu dewisiadau mwy hyblyg fel bod modd i drigolion ac ymwelwyr deithio yn fwy cynaliadwy. Mae Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru wedi bod yn rhedeg cyfres o wasanaethau peilot 'Fflecsi', yn cynnwys ym Mwcle, Dyffryn Conwy, Dinbych, Treffynnon, Penrhyn Llŷn, Prestatyn a Rhuthun. Mae'r rhain yn wasanaethau hyblyg sy'n darparu trafnidiaeth wedi'i rhannu i bobl sy'n nodi'n benodol beth yw eu siwrne a faint o'r gloch y maent am gael eu codi a'u gollwng. Gall gwasanaethau o'r fath fod yn effeithiol i ddarparu mynediad at gyrchfannau allweddol a gweddill y rhwydwaith cludiant cyhoeddus i bobl sy'n byw mewn cymunedau mwy ynysig.



Yn wahanol i wasanaeth bws confensiynol, nid yw'r Fflecsi yn galw yn yr un arosfannau bob tro, ond yn hytrach mae'n stopio lle mae pobl yn gofyn am gael eu codi a'u gollwng mewn parth penodol. Mae'n defnyddio technolegau arloesol i gynllunio llwybrau yn seiliedig ar y teithiau y mae pobl yn dymuno eu gwneud. Mae llwybrau yn cael eu cynllunio ymlaen llaw ac yn cael eu haddasu mewn amser real, i gludo pobl i ac o'r llefydd sydd wedi'u nodi ar eu harcheb.

Polisi PT12

Gweithio gydag awdurdodau lleol a Thrafnidiaeth Cymru i gyd-weithio gyda chymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, i helpu ariannu a chyflawni gwasanaethau trafnidiaeth cymunedol sy'n cwrdd ag anghenion sydd heb eu bodloni fel arall.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru i adolygu a gwella ymhellach y Fflecsi sydd ar gael yn y Gogledd i helpu i sicrhau bod trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw yn bodloni anghenion y cymunedau nad ydynt yn derbyn gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus arall, orau.

Mae gwasanaethau trafnidiaeth cymunedol yn wasanaethau trafnidiaeth sy'n cael eu rhedeg a'u rheoli'n lleol i grwpiau neu gymunedau penodol. Mae'r gwasanaethau yn hyblyg ac yn hygyrch ac yn aml yn fentrau sy'n cael eu harwain yn gymunedol sy'n bodloni angen sydd heb ei gwrdd gan ddarpariaeth trafnidiaeth gonfensiynol. Mae gweithredwyr trafnidiaeth cymunedol yn dibynnu'n fawr ar wirfoddolwyr ac mae'r gwasanaeth sydd ar gael yn amrywio ledled y rhanbarth. Mae peth cyllid yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol gan ddefnyddio cyfran o'u cyllid grant bws sy'n cael ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru i'r rhanbarth. Mewn rhai achosion, y ddarpariaeth hon yw'r unig ddull trafnidiaeth sydd ar gael i bobl fregus ac ynysig. Ymysg yr enghreifftiau mae Gwasanaethau Galw a Theithio, sy'n cael eu cydlynu gan awdurdodau lleol fel gwasanaethau drws-i-ddrws i bobl sy'n methu â defnyddio cludiant cyhoeddus.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cefnogi a bydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i helpu i gyfrannu at gynllun bach y trydydd sector, Llwybr Newydd, sy'n ceisio bodloni gofynion cymunedau lleol a chyflawni buddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach, ar lefel ranbarthol a lleol.



Tacsis

Polisi PT13

Gweithio gyda darparwyr cerbyd hurio preifat a thacsi i hyrwyddo diogelwch ar gyfer teithwyr a gyrwyr a helpu i gynnwys argaeledd cerbydau gydag allyriadau isel neu gerbydau di-fodur.

Mae tacsis yn chwarae rôl hanfodol i ddarparu mynediad at wasanaethau, cyfleoedd a hamdden i bobl yng ngogledd Cymru, yn enwedig i'r rhai sydd heb fynediad, neu fynediad cyfyngedig i gar preifat, neu ar gyfer y siwrneion hynny sydd ar hyn o bryd yn anodd wrth ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Byddem yn dymuno gweld tacsis a cherbydau hurio preifat yn lleihau eu hallyriadau a'u heffaith ar yr amgylchedd.

Gwasanaethau coets sy'n teithio ymhellach

Polisi PT14

Bydd cyfleoedd yn cael eu cymryd i symud ymlaen gyda mynd â theithiau bws i bellteroedd hwy, er mwyn cysylltu gogledd Cymru a de Cymru, ac hefyd o'r dwyrain i'r gorllewin i gysylltu â chanolfannau economaidd yn Lloegr.

Mae angen wedi'i nodi i wella cysylltedd rhwng gogledd a de Cymru, yn enwedig o ardaloedd yng ngorllewin ein rhanbarth. I fynd i'r afael â'r angen hwn. Trafnidiaeth Cymru yn ystyried cynlluniau ar gyfer gwasanaethau coets wedi'u hamserlennu rhwng Bangor a Chaerfyrddin.

Gallai gwasanaeth coets 'Gwasanaeth Cyflym Traws Cymru' ar y llwybr hwn arwain at arbed awr a hanner ar amser y siwrne, o gymharu â'r pum awr a 50 munud presennol y mae'r gwasanaeth Traws Cymru T1 a T2 yn ei gymryd. Bydd gwasanaethau coets ar draws y ffin o'r dwyrain i'r gorllewin hefyd yn helpu i ategu'r cynnig rheilffyrdd sy'n gwasanaethu gwahanol gymunedau ac yn mynd ati i fod yn well cyswllt at gyflogaeth a marchnadoedd allweddol, megis Rhanbarth Dinas Lerpwl, a Maes Awyr Lerpwl.

Ymglymiad cymunedol mewn rheilffyrdd

Polisi PT15

Cefnogi grwpiau cymunedol sy'n ceisio gwella'r profiad teithio ar y rheilffyrdd i deithwyr presennol a newydd.

Gall gweithgarwch cymunedol helpu i wneud teithio ar y rheilffyrdd yn haws ac yn fwy deniadol. Mae Partneriaeth Rheilffordd Cymunedol Dyffryn Conwy a Gogledd Cymru yn Bartneriaeth Rheilffordd Cymunedol (CRP) sy'n gweithio i gysylltu cymunedau yng ngogledd Cymru i'w rheilffyrdd a hyrwyddo'r rheilffyrdd fel ffordd o ymweld â gogledd Cymru. Mae nifer o Orsafoedd ledled y gogledd hefyd wedi elwa o ymwneud grwpiau "Cyfeillion" y gorsafoedd.



Cerdded, olwyno a beicio

Rydym am weld teithio llesol drwy gerdded, olwyno a beicio yn dod yn opsiwn hawdd i bobl, yn cynnwys y rhai mewn cymunedau mwy gwledig, teithio i wasanaethau lleol, cyfleusterau, ysgol, addoldai, a chysylltu â'r rhwydwaith bws neu reilffordd ar gyfer teithiau hwy. Mae ein cynlluniau ar gyfer cerdded, olwyno a beicio felly'n perthyn yn agos i'r polisïau, rhaglenni a phrosiectau ar gyfer teithio ar fws, newid ymddygiad, cynllunio defnydd tir ac integreiddiad, sydd oll yn cael eu hystyried yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn. Mae ein polisïau a'n hymyraethau ar gyfer teithio llesol yn cynnwys:

Mynd ati ymhellach i wella'r seilwaith teithio llesol

Polisi AT1

Bydd ansawdd a graddfa'r isadeiledd a ddarparwyd ar gyfer cerdded, beicio ac olwyno yng ngogledd Cymru yn parhau i gael ei wella yn unol â Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol. Gallai'r rhain fod yn gyfleusterau newydd neu gyfleusterau presennol wedi'u huwchraddio a gallant gynnwys ail-ddyrannu lle ar y ffordd i flaenoriaethu dulliau cynaliadwy.

Gall annog mwy o bobl i gerdded, beicio neu ddefnyddio dulliau actif eraill gael buddion pellgyrhaeddol i'n cymunedau, megis cynyddu hyfywdra canol trefi, creu naws am le a gwella iechyd a llesiant. Dylai strategaethau parcio beiciau a'r ddarpariaeth standiau, barhau i helpu i integreiddio beicio gyda'r gorsafoedd bws a rheilffordd, ynghyd â chefnogi beicio ar gyfer teithiau byr i gyfleusterau, ysgolion a siopau lleol.

Polisi AT2

Mewn ardaloedd nad ydynt yn wledig, bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i uwchraddio isadeiledd teithio llesol lle mae'r potensial mwyaf i gynyddu defnydd y rhwydwaith.

Weithiau, nid yw cerdded, olwyno a beicio yn ein hardaloedd trefol yn rhywbeth deniadol, mae'n anghyfleus, ac mae'n cael ei weld fel rhywbeth sydd ddim yn ddiogel, yn enwedig gyda'r nos. Mae'n hanfodol ein bod yn gwella ehangder ac ansawdd ein seilwaith teithio llesol fel bod trigolion ac ymwelwyr i ogledd Cymru yn cael eu hannog i ddibynnu llai ar geir, yn enwedig ar gyfer teithiau byr. Dylai hyn gael ei flaenoriaethu gyntaf mewn ardaloedd sydd ddim yn wledig, lle mae mwy o gyfle am newid moddol yn ein trefi a'n dinasoedd.



Polisi AT3

Pan fo'n bosib, dylai isadeiledd cerdded a beicio fod yn hygyrch i bawb, gan gynnwys pobl sydd ag amhariadau symudedd, pobl mewn cadeiriau olwyn a phobl sy'n gwthio pramiau.

Bydd ein hawdurdodau lleol yn parhau i gynllunio a dylunio rhwydweithiau o lwybrau cerdded a beicio, gan sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn hygyrch. Mewn ardaloedd mwy trefol, bydd adolygiadau lleol o gyfleusterau i gerddwyr yn helpu i sicrhau croesfannau a llwybrau diogel yn ein trefi, a bydd annibendod ar y stryd yn cael ei ystyried er mwyn ei gwneud yn haws i bob grŵp o bobl fedru crwydro. Er enghraifft, mae dodrefn stryd yn chwarae rôl hanfodol i ddarparu cyfforddusrwydd, cyfleustra, a diogelwch i gerddwyr, ond gall eitemau megis meinciau, lampau stryd, arwyddion traffig, arosfannau bws, blychau post a biniau ysbwriel achosi rhwystrau i'r rhai sydd â nam ar eu golwg. Gall golau annigonol wneud i bobl, yn enwedig merched, deimlo'n fregus wrth gerdded gyda'r nos. Rydym angen mwy o fannau cyhoeddus sydd wedi'i ddylunio'n well, gan arddel dull sy'n seiliedig ar le, sy'n ystyried anghenion y gymuned gyfan.

Gwneud teithio llesol yn fwy deniadol mewn ardaloedd gwledig

Polisi AT4

Mewn ardaloedd gwledig, bydd gwelliannau isadeiledd teithio llesol yn canolbwyntio ar fudd y gymuned o gynlluniau; gwella diogelwch a llwybrau sy'n cysylltu cymunedau llai gyda gwasanaethau ac aneddleoedd mwy.

Gall mân welliannau i seilwaith teithio llesol wneud gwahaniaeth arwyddocaol i wella cysylltiadau rhwng ein aneddiadau allweddol a'n pentrefi a chymunedau gwledig llai, lle gall trigolion gael mynediad yn fwy rhwydd at wasanaethau a mwynderau hanfodol.

Mewn ardaloedd gwledig, byddwn yn blaenoriaethu gwelliannau fydd yn cael yr effeithiau mwyaf ar ddiogelwch a chysylltedd ein cymunedau, e.e. pan fo mannau lle mae llawer o ddamweiniau yn digwydd, neu lle y gallwn greu llwybrau diogel rhwng pobl a chyfleusterau cymunedol lleol, siopau a chyfleoedd cyflogaeth sy'n cael eu torri ar hyn o bryd gan ffyrdd neu reilffyrdd.

Mewn ardaloedd mwy gwledig, mae hefyd gyfle i ddefnyddio cyn-leiniau rheilffyrdd ar gyfer teithio llesol a chysylltu trefi, y dylid ei archwilio fel mesurau ategol i gyflawni'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol.



Polisi AT5

Lle mae budd teithio llesol, bydd llwybrau sy'n ffurfio rhan o'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cael eu gwella i safon sy'n addas ar gyfer teithiau teithio llesol bob dydd.

Ar draws gogledd Cymru, mae rhwydwaith mawr o Hawliau Tramwy Cyhoeddus, sydd â rôl allweddol i gefnogi pobl i deithio'n fwy cynaliadwy. Fodd bynnag, nid yw'r rhwydwaith wedi'i gysylltu mor gyfan gwbl ac y dylai fod; mae rhai llwybrau yn croesi neu'n dilyn ffyrdd cyflymder uchel ac nid yw eraill wedi'u hwynebu, eu goleuo neu eu harwyddo'n briodol ar gyfer eu defnyddio ar siwrneion bob dydd.

Yn gyntaf, dylai awdurdodau lleol ganolbwyntio ar lwybrau sydd â'r cyfle mwyaf i gysylltu cymunedau i gyrchfannau lleol, gan ddod â nhw i fyny i safon a allai helpu i gynyddu cerdded, olwyno, beicio, a marchogaeth mewn ardaloedd gwledig.

Polisi AT6

Byddwn yn ymchwilio i gyflwyno Lonydd Tawel yng ngogledd Cymru yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

Mae Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol yn caniatáu creu Lonydd Tawel yng Nghymru. Y bwriad yw i'r rhain alluogi cerddwyr, beicwyr, rhai sy'n marchogaeth a phobl gyda nam symudedd i fwynhau lonydd gwledig yn ddiogel, drwy annog cyflymder traffig is a llai o draffig yn gyffredinol. Dylai pob awdurdod lleol yng ngogledd Cymru ystyried cyfleoedd o'r fath.

Mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn ffyrdd cyhoeddus lle mae gan y cyhoedd hawl i'w defnyddio. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol yn gyffredinol am eu rheolaeth gyffredinol ac mewn rhai achosion, mae gan dirfeddianwyr ddyletswyddau cyfreithiol a chyfrifoldebau pwysig ar eu cyfer. Mae pedwar prif gategori hawl tramwy cyhoeddus:

- **Llwybrau cyhoeddus, y gall cerddwyr yn unig eu defnyddio.**
- **Llwybrau ceffyl cyhoeddus, y gellir eu defnyddio gan gerddwyr, beicwyr a'r rhai sy'n marchogaeth.**
- **Cilffyrdd cyfyngedig, y gellir eu defnyddio gan yr un grŵp â llwybrau ceffyl, ac hefyd ganiatáu certiau sy'n cael eu tynnu gan geffylau a cherbydau di-fodur eraill.**
- **Cilffyrdd sydd ar agor i'r holl draffig, y gall yr holl ddefnyddwyr gael mynediad atynt, yn cynnwys y rhai mewn cerbydau modur.**



Arweinyddiaeth a chyllid

Polisi AT7

Gweithio gyda phartneriaid i archwilio sefydlu Uned Teithio Llesol Gogledd Cymru.

Mae llawer o'r cyfrifoldeb am gyflawni cynlluniau cerdded a beicio yn eistedd gydag awdurdodau lleol. Mae nifer o sefydliadau gwahanol yn rhan o'r gwaith o wella'r seilwaith cerdded a beicio, yn cynnwys Trafnidiaeth Cymru, y Cyd-bwyllgor Corfforedig, Sustrans ac Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru. Gallai cyflwyno Uned Teithio Llesol i ogledd Cymru hwyluso cydweithio a lliflinio cyflawniad cynlluniau teithio llesol, rhannu arbenigedd ac arfer dda, a chydlynu cyflwyno adnoddau y rhaglenni cyflawni aml-flwyddyn a chyllid, yn well.

Polisi AT8

Cefnogi cytundebau cyllido aml-flwyddyn ar gyfer seilwaith teithio llesol fyddai'n hwyluso datblygiad a chyflwyniad rhaglen aml-flwyddyn o welliannau.

Polisi AT9

Cefnogi newidiadau i feini prawf cyllid teithio llesol fydd yn rhoi mwy o bwyslais ar gynlluniau mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd preswyl.

Polisi AT10

Archwilio ffrydiau ariannu ychwanegol i'r Gronfa Teithio Llesol sy'n cefnogi cyflawni gwelliannau isadeiledd teithio llesol mewn ardaloedd gwledig.

Prif ffynhonnell cyllid y cynlluniau teithio llesol yng ngogledd Cymru yw Llywodraeth Cymru, fel arfer drwy'r Gronfa Teithio Llesol, sy'n darparu grantiau i awdurdodau lleol ar sail flynyddol.

Mae nifer y cynlluniau teithio llesol yn cael ei gefnogi gan y Gronfa Teithio Llesol mewn ardaloedd gwledig yn gyfyngedig bob blwyddyn, gan ei wneud yn anodd i gyflawni gwelliannau rhwng cymunedau gwledig, cysylltiadau ag atyniadau gwledig, a chysylltiadau sy'n cefnogi beicio hamdden.

Polisi AT11

Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu templedi a phecynnau cymorth i gefnogi cymunedau lleol i ddatblygu a gweithredu eu prosiectau eu hunain lle mae'r llywodraeth yn chwarae rôl hwyluso a chefnogi, yn hytrach na rôl o wneud a chyflawni.

Mae rôl fwy y gallai cymunedau ei chwarae i greu a gwella llwybrau lleol, os byddant wedi'u grymuso i wneud hynny. Mae hyn yn benodol wir mewn ardaloedd gwledig lle mae cysylltiadau anffurfiol sy'n cael eu harwain yn y gymuned rhwng pentrefi a phentrefannau yn helpu i gysylltu â chyfleusterau cymunedol ac arosfannau bws ar briffyrdd. Gellir cyflawni hyn drwy gytundebau gyda thirfeddianwyr lleol a defnyddio hawliau datblygu a ganiateir gyda chyngor gan awdurdodau lleol.



Llogi beiciau, e-feiciau ac e-sgwteri

Polisi AT12

Gweithio gyda phartneriaid, yn cynnwys y gymuned a sectorau gwirfoddol i gefnogi cynlluniau llogi beiciau ac e-feiciau cymunedol sy'n cefnogi mynediad at gyflogaeth neu addysg.

Polisi AT13

Gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys y sector masnachol, i gyflwyno cynllun llogi beiciau ac e-feiciau cyhoeddus mewn cyfnewidfeydd trafnidiaeth mawr neu leoliadau addas eraill, ac mewn lleoliadau lle mae cynllun o'r fath yn cefnogi'r economi ymweld.

Polisi AT14

Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu dulliau i gynyddu perchnogaeth e-feiciau, yn cynnwys cynlluniau benthyca a grantiau.

Mae cynlluniau llogi beiciau yn ffordd effeithiol o wneud beicio ar gael i bobl sydd ddim yn berchen ar feic, sy'n ystyried beicio yn fwy aml, neu sy'n ymweld ag ardal.

Gall llogi beic ddigwydd mewn sawl ffurf, megis llogi hirdymor er mwyn cael mynediad at gyflogaeth neu addysg. I ddechrau, dylid rhoi blaenoriaeth i fuddsoddiad sy'n cefnogi mynediad i'r lleoliadau hynny, gan ei gwneud yn haws ac yn fwy fforddiadwy i bobl gael mynediad at swyddi, a chyfleoedd hyfforddiant a dysgu. Yna, dylid lledu'r ddarpariaeth i gynyddu mynediad i feiciau drwy gynlluniau llogi a rhannu cymunedol ar draws y rhanbarth.

Byddwn yn gweithio gyda'n hawdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Sustrans, ar y cyd â'n grwpiau busnes a phartneriaid cymunedol, i adnabod cyfleoedd i gydlynu cynlluniau benthyca a grantiau ledled gogledd Cymru.

Mae cysylltiad agos rhwng e-feiciau a theithio llesol wrth i fwy o bobl ddod yn gyfforddus yn defnyddio beiciau, ac yn benodol yng ngogledd Cymru lle mae hefyd fuddion penodol mewn cymunedau lleol lle mae teithio pellteroedd hwy yn fwy cyffredin, gydag e-feiciau yn gwneud beicio yn fwy hyfyw i fwy o bobl.

Eisoes, mae enghreifftiau o gynlluniau llogi cymunedol o'r math hwn yng ngogledd Cymru, megis y cynllun E-Symud sy'n cael ei weithredu gan Sustrans a 'See Cycling Differently' Pedal Power a'i hwb beiciau yn y Rhyl.

Gall perchnogaeth e-feiciau drawsnewid y ffordd y mae pobl yn teithio ar gyfer siwrneion bob dydd, gan alluogi pobl i deithio ymhellach ar feic, neu wneud tirwedd fryniog yn llai heriol. Mae rhwystrau i berchnogaeth a'r defnydd o feiciau, yn cynnwys y gost, diffyg gofod storio diogel, mwy o ofyn cynnal a chadw a diffyg seilwaith teithio llesol. Mae llogi beiciau byrdymor am deithiau un-waith o gyfnewidfa trafnidiaeth i atyniad, neu ar dripiau i atyniadau twristiaeth, yn fwy tebygol o gael eu gweithredu'n fasnachol. Dylid ystyried opsiynau gan gymryd agwedd gweithio mewn partneriaeth, gyda'r gwerth a'r hyfywdra posib ar raddfa sydd wedi'i chydlynu'n rhanbarthol.

Mae defnyddio e-sgwteri preifat ar ffyrdd neu lwybrau cyhoeddus yn anghyfreithlon ar hyn o bryd, ond mae gan y rhain hefyd botensial i drawsnewid teithio personol yn y dyfodol. Mae e-sgwteri yn cael eu hystyried yn "drawsgludwyr wedi'u pweru" ac maent yn destun i'r un cyfreithiau a rheoliadau â cherbydau modur eraill. Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn cynnal cyfnod prawf gydag e-sgwteri. Rhaid i chi gael yr hawl categori Q ar eich trwydded yrru i ddefnyddio e-sgwteri mewn lleoliadau penodol yn Lloegr, i bobl gyda'r trwyddedau cywir fel rhan o'r cyfnod prawf. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru barhau i lynu at ganlyniadau cyfnodau prawf y DU a darparu unrhyw gyngor wedi'i ddiweddaru yn y dyfodol, fel sy'n briodol.





Integreiddio rhwng dulliau

Mae teithiau'n aml yn cynnwys mwy nag un math o drafnidiaeth, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, gan fod y pellter i gyrchfannau o gartref yn aml ymhellach. Mae angen i ni ei gwneud hi'n haws i bobl yng ngogledd Cymru deithio trwy fwy nag un dull o deithio fel rhan o'u siwrne. Gallwn wneud hyn trwy ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus sy'n cynnig nifer o opsiynau i bobl sy'n caniatáu gwneud dewisiadau sy'n diwallu anghenion penodol ein teithiau orau. Bydd creu profiad teithio sy'n effeithlon, yn gyfforddus, yn ddiogel ac yn ddibynadwy yn hanfodol wrth i ni gyrraedd ein targedau newid dulliau teithio. Y canlyniad fydd rhwydwaith trafnidiaeth sy'n haws ei ddefnyddio a fydd yn helpu pobl i ddewis cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus fel eu hoff ffyrdd o deithio.

Ochr yn ochr â thocynnau mwy cyfleus a phrisiau teg, gellid gwella'r profiad o newid rhwng dulliau trafnidiaeth gyhoeddus trwy well amserlennu bysiau a rheilffyrdd. Bydd y rhwydwaith trawsnewid bysiau yn gweld lefelau gwasanaeth gwell, mwy aml. Mae mwy o amlder yn gwella'r profiad o gyfnewid rhwng dulliau neu fysiau gan ei fod yn lleihau'r amser aros rhwng gwasanaethau cysylltu. Mae ein polisïau a'n hymyriadau yn cynnwys:

Canolfannau symudedd a gorsafoedd porth

Polisi IN1

Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno Canolfannau Symudedd a Gorsafoedd Porth i'w gwneud hi'n haws newid rhwng dulliau trafnidiaeth gynaliadwy ar siwrne.

Os ydym am weld rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy yng ngogledd Cymru sy'n darparu gwir ddewis arall deniadol yn lle defnyddio ceir preifat, mae'n hanfodol bod pobl yn gallu newid yn gyfleus rhwng dulliau ar gyfer gwahanol rannau eu taith. Mae Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru yn cydweithio i ddatblygu cynigion ar gyfer 'pyrth' neu 'ganolfannau symudedd' mewn lleoliadau fel gorsafoedd rheilffordd a gorsafoedd bysiau mawr ac arosfannau. Mae cynigion ar y gweill ar gyfer lleoliadau gan gynnwys gorsafoedd Wrecsam Cyffredinol, Bangor, Bae Colwyn a Chaergybi. Bydd y lleoliadau hyn yn darparu croeso o ansawdd uchel i ymwelwyr â thref neu ddinas, ond hefyd yn ei gwneud hi'n haws i bobl leol ac ymwelwyr newid rhwng dulliau trwy ddarparu:

- Gwell hygyrchedd
- Cyfleoedd llogi beiciau
- Mwy a gwell parcio i feiciau
- Wi-Fi cyhoeddus da
- Gwell cysylltedd â chanol trefi/dinasoedd a gorsafoedd bysiau a rheilffyrdd
- Gwell arwyddion cyfeirio a gwybodaeth i deithwyr



Mae canolfannau symudedd yn lleoliadau sy'n integreiddio gwahanol fathau o drafnidiaeth, gan ei gwneud hi'n haws i bobl newid rhwng gwahanol ddulliau teithio. Mae'r rhain fel arfer yn cyfuno gwasanaethau bysiau, coetsys a rheilffyrdd, tacsis, rhannu beiciau, a llwybrau teithio llesol (cerdded, beicio ac olwyno).

Polisi IN2

Bydd creu lleoedd a chyfeirio pobl mewn gorsafoedd ac arosfannau bysiau allweddol yn cael ei wella. Dylai hyn ystyried cysylltiadau ymlaen i atyniadau allweddol a bydd hyn yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad â sefydliadau lleol a chymunedol, gan gynnwys grwpiau sy'n cynrychioli cymunedau â nodweddion gwarchodedig.

Elfen bwysig wrth wneud teithio cynaliadwy yn haws i bobl yw trwy sicrhau y gallant ddod o hyd i'w ffordd i'w cyrchfan gan ddefnyddio isadeiledd deniadol o ansawdd da ar ôl cyrraedd cyfnewidfa drafnidiaeth fel rheilffordd neu orsaf fysiau. Mae mesurau creu lleoedd a chyfeirio pobl mewn modd deniadol yn gyfranwyr allweddol at wella trafnidiaeth gynaliadwy i bobl. Mae cyfeirio pobl mewn ffordd effeithiol yn eu helpu trwy leihau dryswch a straen, gan wneud dod o hyd i'r llwybr yn fwy greddfol ac yn haws.

Gall hyn gynnwys arwyddion clir a chyson sy'n darparu cyfarwyddiadau, nodi lleoliadau, a chynnig gwybodaeth am bellteroedd ac amseroedd teithio. Gall defnyddio lliwiau, symbolau a goleuadau helpu i arwain pobl ar hyd eu llwybrau. Gall mapiau sy'n hawdd eu darllen a'u deall helpu hefyd, ac yn aml, mae tirnodau a phwyntiau allweddol o ddiddordeb yn cael eu cynnwys arnynt. Gall offer digidol hefyd fod yn ddefnyddiol, fel ciosgau rhyngweithiol ac apiau ffonau symudol. Yn bwysig, dylid mabwysiadu dyluniad cynhwysol, gan sicrhau bod mesurau cyfeirio pobl yn hygyrch i bawb, gan gynnwys pobl ag anableddau, trwy ymgorffori braille, canllawiau sain, a thechnolegau cynorthwyol eraill.

Bydd Polisi IN2 yn cael ei ddatblygu mewn ystyriaeth ar gyfer lansiad Trafnidiaeth Cymru o'i raglen 'Rhwydwaith T' i gefnogi ein timau a'n partneriaid i:

- Weithio'n rhanbarthol ac yn genedlaethol i greu rhwydwaith teithio integredig yng Nghymru a'r gororau
- Datblygu'r dechnoleg i alluogi cynllunio teithiau a phrynu tocynnau di-dor
- Adeiladu llywodraethu mewnol a'n ffyrdd o weithio
- Cyflawni newid diwylliant mewnol i gyflawni ein cenhadaeth o un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn, un tîm
- Datblygu brand sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac sydd gyfystyr â theithio cynaliadwy integredig yng Nghymru.



Polisi IN3

Bydd gwelliannau Isadeiledd Teithio Llesol a nodwyd ar Gynlluniau Rhwydwaith Gorsafoedd yn cael eu cyflawni, a bydd Cynlluniau Rhwydwaith Gorsafoedd yn cael eu datblygu ar gyfer y gorsafoedd hynny nad oes ganddynt un ar hyn o bryd.

Mae cyfres o Gynlluniau Rhwydwaith Gorsafoedd wedi'u cynhyrchu gan awdurdodau lleol a Thrafnidiaeth Cymru. Gellir sicrhau gwell integreiddio rhwng teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus trwy ddatblygu Cynlluniau Rhwydwaith Gorsafoedd ymhellach a darparu'r llwybrau a nodwyd. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglen o welliannau i'r isadeiledd cerdded a beicio a fydd, o'u darparu, yn gwneud cerdded, olwyno a beicio i orsafoedd yn haws ac yn fwy deniadol.

Gwella integreiddio bysiau a rheilffyrdd

Polisi IN4

Cefnogi'r broses o gyflwyno tocynnau integredig ar draws dulliau trafnidiaeth sy'n darparu'r gwerth gorau i deithwyr.

Mae'r awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru wedi gweithio gyda gweithredwyr bysiau i gyflwyno'r tocyn '1bws' yn 2021, sy'n caniatáu teithio ar bron bob gwasanaeth bws yn y rhanbarth. Mae'r tocyn hwn yn symleiddio teithio trwy ganiatáu i deithwyr gamu ar ac oddi ar fysiau heb boeni am orfod prynu sawl tocyn am bris gwahanol. Mae hyn yn welliant sylweddol mewn cost a chyfleustra i deithwyr pan fo angen defnyddio mwy nag un gweithredwr bysiau ar eu taith. Mae system drafnidiaeth gwbl integredig yng ngogledd Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bobl allu defnyddio un tocyn ar gyfer eu holl deithio, waeth beth fo'r dull, neu system ddigyswllt sy'n sicrhau bod teithwyr yn cael y pris gorau ar gyfer eu taith.

Mae cynlluniau Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyflwyno technoleg talu wrth fynd, tapio mewn, tapio allan, a fydd ar gysylltiadau rhwng Gobowen a'r Rhyl, ac ar hyd holl lein Wrecsam-Lerpwl.

Parcio a theithio, a pharcio a rhannu

Polisi IN5

Dylai unrhyw gynlluniau teithio a pharcio newydd geisio annog cyflawni'r daith gyfan trwy fodd cynaliadwy, dylent gael eu lleoli i leihau milltiroedd cerbydau preifat, a chael eu lleoli mewn man sy'n medru derbyn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus gydag effaith fechan.

Bwriad cyfleusterau fel parcio a theithio, neu barcio a rhannu, yw atal teithiau ceir mewn modd sy'n cefnogi lleihau tagfeydd a lleihau effeithiau parcio mewn cyrchfannau allweddol fel canolfannau siopa, tra'n lleihau milltiroedd ceir. Er enghraifft, gall parcio a theithio yn Eryri gan ddefnyddio gwasanaethau bws Sherpa chwarae rhan allweddol wrth leihau mynediad cerbydau i'r Parc Cenedlaethol a lleihau effaith ceir ar yr amgylchedd naturiol.

Polisi IN6

Dylid ystyried safleoedd parcio a rhannu strategol yn y Cynllun Datblygu Strategol.

Mae safleoedd parcio a rhannu yn lleoliadau lle gall pobl gyfarfod, gadael un car a rhannu un arall i fynd ymlaen ar eu taith. Gallant fod yn fwy gwerthfawr mewn ardaloedd gwledig i fynd ymlaen ar deithiau hwy. Mae safleoedd parcio a rhannu yn bodoli ar hyn o bryd yn y Gaerwen a Llanfairpwll ar Ynys Môn. Dylid eu hystyried ar gyfer lleoliadau eraill, yn enwedig lle rydym yn gwybod bod rhannu ceir eisoes yn digwydd yn anffurfiol. Bydd gwaith yn cael ei wneud i adnabod atebion priodol, a dylid ystyried unrhyw ofynion defnydd tir yn y Cynllun Datblygu Strategol sy'n dod i'r amlwg ac yn y system gynllunio leol.



Porthladdoedd a chludo llwythi

Rydym am weld sectorau porthladd a logisteg ffyniannus yn parhau i fod o fudd i economi gogledd Cymru, gan leihau eu heffaith amgylcheddol ar yr un pryd. Mae'r porthladd yng Nghaergybi yn hanfodol i'r economi leol ac i ddosbarthu nwyddau ar draws y DU ac Ewrop. Mae cludo llwythi yn chwarae rhan hanfodol yn llesiant economaidd gogledd Cymru, ac mae'n hanfodol bod y rhanbarth yn parhau i fod yn lle deniadol i fuddsoddi mewn busnes, gan gynnwys gan y sector cludo llwythi a logisteg i gefnogi'r economi leol. Fodd bynnag, mae'r effaith y gall symudiadau HGV ei chael ar yr amgylchedd lleol yn golygu ei bod yn hanfodol dod o hyd i gydbwysedd rhwng ansawdd bywyd i'r cymunedau lleol a ffyniant economaidd. Mae ein polisïau a'n hymyriadau yn cynnwys:

© North Wales Corporate Joint Committee



Porthladdoedd

Bydd datblygu ein porthladdoedd yn helpu i ddenu buddsoddiad a chreu swyddi sgiliau uchel, a allai arwain at ddatblygu ardaloedd diwydiannol a masnachol newydd, a dylai'r awdurdod cynllunio lleol eu hystyried mewn cydweithrediad â'r Cynllun Datblygu Strategol sydd ar y gweill i helpu i sicrhau bod newidiadau defnydd tir yn cael eu hintegreiddio gyda chysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cydnabod nodau'r strategaeth cludo nwyddau sydd wedi'i nodi yng Nghynllun CYflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol ac yn ceisio gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni'r nodau hyn.

Polisi PF1

Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi twf ein porthladdoedd a safleoedd datblygu cyfagos yng ngogledd Cymru, gan gydnabod eu rôl fel catalydd ar gyfer cydleoli gweithgynhyrchu, ynni, dosbarthu hamdden a thwristiaeth. Yn benodol, byddwn yn blaenoriaethu cysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy i Borthladd Rhydd Ynys Môn a phorthladdoedd yng Nghaergybi a Mostyn ac yn cefnogi eu cynlluniau ar gyfer datgarboneiddio.

Mae Porthladd Caergybi yn cael ei nodi gan Gymru'r Dyfodol fel Porth Strategol ar gyfer cysylltedd rhyngwladol. Bydd creu safle Porthladd Rhydd ar Ynys Môn, un o ddau yng Nghymru, yn gwella rôl Caergybi ymhellach fel porth rhyngwladol. Bydd hyn yn chwarae rôl bwysig o gryfhau economi gogledd Cymru a chreu swyddi i bobl leol, ond efallai y bydd goblygiadau pellach o ran cynnydd mewn symudiadau cludo llwythi yng ngogledd Cymru. Mae Porthladd Mostyn hefyd yn cynhyrchu traffig cludo llwythi, gyda llawer o'i fusnes bellach wedi'i neilltuo i'r sector ynni adnewyddadwy ar y môr.

Mae Porthladd Lerpwl hefyd yn cael ei gydnabod am helpu i gefnogi'r economi a symud nwyddau i'r Gogledd ac oddi yno. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn y porthladd i helpu i ddeall cyfleoedd ar gyfer gwell cysylltedd.

Cydnabyddir, er mai cyfrifoldeb gweithredwyr a defnyddwyr y porthladdoedd yw cerbydau porthladd a'r fferïau, bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i helpu nodi a hwyluso cyfleoedd ar gyfer eu datgarboneiddio.



Polisi PF2

Gweithio gyda phartneriaid i adnabod gwelliannau mynediad i gerbydau ym Mhorthladd Caergybi. Dylai hyn wella mynediad i'r porthladd ar gyfer cerbydau, gan gynnwys cludo llwythi, ond hefyd wella mynediad cynaliadwy i'r porthladd a'r orsaf reilffordd.

Mae'r isadeiledd priffyrdd a ddefnyddir gan gerbydau sy'n cael mynediad i ac yn gadael y porthladd wedi'i gyfyngu, yn enwedig cysylltiad Ffordd Llundain/Black Bridge o'r A55. Gan fod hyn yn effeithio'n benodol ar HGVs sy'n defnyddio'r porthladd, mae yna effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd lleol, ac effeithir ar amser teithio a dibynadwyedd symud llwythi. Drwy wella mynediad i'r porthladd, bydd mwy o gyfleoedd i weithwyr ac ymwelwyr fynd o gwmpas yn fwy cynaliadwy, gan roi mwy o sicrwydd i fusnesau am eu gweithrediadau a'u danfoniadau. Mae Black Bridge hefyd yn gyfle i ddatrys y rhwystr presennol i isadeiledd teithio llesol rhwng ardal Morawelon, y porthladd a chanol y dref.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi tasglu newydd i gynnal sefydlogrwydd hirdymor ar gyfer Porthladd Caergybi. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cydweithio â'r tasglu i uchafu cyfleoedd ar gyfer symudiadau porthladd a nwyddau cynaliadwy ynghyd â chefnogi cynlluniau ar gyfer datgarboneiddio.

Cludo llwythi ar y ffyrdd

Polisi PF3

Gweithio gyda phartneriaid i wella cyfleusterau ar gyfer gyrwyr HGV, yn enwedig wrth gyrraedd porthladd Caergybi.

Mae teithiau cludo llwythi ar y ffyrdd yng ngogledd Cymru yn canolbwyntio'n bennaf ar hyd yr arfordir. Mae'r porthladdoedd ym Mostyn ac, yn enwedig Caergybi, yn atyniad naturiol i HGVs ac mae lefelau uwch o draffig yng Nglannau Dyfrdwy a Wrecsam sy'n gysylltiedig â phrif safleoedd gweithgynhyrchu a dosbarthu gyda chyflogwyr mawr gan gynnwys Airbus, JCB ac Iceland. Er gwaethaf pwysigrwydd cludo llwythi yng ngogledd Cymru, cyfleusterau cyfyngedig sydd ar gyfer parcio a gorffwys i yrwyr HGV. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn agos i Gaergybi, lle gall digwyddiadau gyda llongau fferi neu'r pontydd dros y Fenai arwain at amseroedd aros estynedig i nifer fawr o HGVs.

Er bod yr A55 yn gefnffordd a reolir gan Lywodraeth Cymru ac Asiant Cefnffyrdd, bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gefnogi'r gwaith o adnabod safleoedd a seilwaith yn rhagweithiol ar gyfer gwefru cerbydau nwyddau, yn arbennig ar hyd coridor yr A55 lle mae cyfle gwych i helpu i ddatgarboneiddio HGVs.



HGVs allyriadau isel

Polisi PF4

Gweithio gyda phartneriaid i chwilio am gyfleoedd i ategu datblygiad canolfannau hydrogen yng ngogledd Cymru trwy gefnogi newid i danwydd hydrogen ar gyfer gweithredwyr cludo llwythi yn y rhanbarth.

Ar hyn o bryd nid oes cyfleusterau yng ngogledd Cymru a fyddai'n cefnogi cludwyr yn y rhanbarth sy'n ceisio newid i gerbydau allyriadau isel. Byddai cefnogi cludwyr i wneud y newid hwn yn lleihau effaith leol HGVs yng ngogledd Cymru. Mae Menter Môn yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu Hwb Hydrogen yng Nghaergybi. Cynigir hyn fel cyfleuster i gyflenwi hydrogen ar gyfer trafnidiaeth. Mae Caergybi yn safle ardderchog ar gyfer cyfleuster cynhyrchu gan ei bod yn ganolfan drafnidiaeth brysur sy'n agos at ffynonellau ynni adnewyddadwy. Mae cynigion hefyd ar gyfer cynhyrchu hydrogen yng Nglannau Dyfrdwy.

Bydd cyflawni'r polisi hwn yn gweithio law yn llaw â strategaeth Ynni Rhanbarthol Uchelgais Gogledd Cymru sydd â'r nod o annog cynhyrchu ynnig glân a lleihau defnydd ynni ledled y Gogledd.

Danfoniadau lleol

Polisi PF5

Gweithio gyda phartneriaid i nodi cyfleoedd i drydaneiddio cerbydau ar gyfer danfoniadau lleol.

Rydym i gyd yn dibynnu ar ddanfoniadau o ddydd i ddydd i ardaloedd lleol, gan gynnwys y rhai i'n cartrefi, gweithleoedd a busnesau canol trefi. Mae'r danfoniadau hynny wedi deillio o gynnydd mewn siopa ar-lein. Mae effaith amgylcheddol leol a achosir gan allyriadau o gerbydau danfon, a'u maint. Bydd helpu i newid i gerbydau allyriadau isel iawn neu ddi-allyriadau yn lleihau effeithiau danfoniadau lleol ar ein hinsawdd, o fudd i ansawdd yr aer ac yn lleihau llygredd sŵn.

Polisi PF6

Gweithio gyda phartneriaid i adnabod datrysiadau i effeithiau lleol symudiadau HGV. Mae hyn yn cynnwys datblygu rhwydwaith o ganolfannau cyfuno cludo llwythi pe dangosid y byddai un i wasanaethu'r gogledd yn hyfyw yn economaidd.



Polisi PF7

Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol ystyried gofynion tir ar gyfer rhwydwaith o ganolfannau cyfuno cludo llwythi.

Mae Canolfannau Cyfuno Cludo Llwythi yn ganolfannau dosbarthu sydd wedi'u lleoli'n agos at ganol tref, canolfan siopa neu safleoedd adeiladu. Mae nifer o lwythi yn cael eu gollwng yn y ganolfan i gael eu cyfuno i un lori i'w trosglwyddo i'w cyrchfan derfynol. Gallai hyn leihau tagfeydd a lefelau traffig HGV yng nghanol tref. Dylai unrhyw safleoedd a allai ddod ymlaen osgoi effeithiau negyddol i integredd ardaloedd sy'n amgylcheddol sensitif.

Polisi PF8

Gweithio gyda phartneriaid a'r sector dosbarthu i ganfod atebion arloesol i leihau effaith amgylcheddol danfoniadau lleol.

Mae mesurau eraill a all helpu i leihau effaith danfoniadau lleol ar gymunedau, yn cynnwys beiciau e-gargo, cynlluniau danfon a gwasanaethu ardaloedd, canolfannau micro-gyfuno, a loceri danfon mewn lleoliadau allweddol fel canolfannau trafnidiaeth a/neu symudedd.

Cludo llwythi ar y rheilffordd

Polisi PF9

Gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant rheilffyrdd i gefnogi newid i'r rheilffyrdd ar gyfer cludo llwythi, gan gynnwys logisteg ysgafn sy'n seiliedig ar y rheilffyrdd.

Mae llif pennaf cludo llwythi ar y rheilffyrdd yng ngogledd Cymru yn cynnwys sment o waith sment Padeswood, pren i ffatri fordiau Kronospan yn y Waun a charreg o Gyffordd Llandudno.

Mae cryn botensial i leihau effaith cludo llwythi ar ein ffyrdd, ardaloedd trefol a'r amgylchedd naturiol trwy logisteg a rhwydweithiau cludo llwythi ar y rheilffyrdd yng ngogledd Cymru, gyda'r gallu i gynyddu faint o lwythi a gludir ar Brif Reilffordd Gogledd Cymru yn sylweddol. Mae'r lefelau gwasanaeth a ddymunir sydd wedi eu nodi yn ein huchelgeisiau rheilffyrdd yn cynnwys llwybr cludo llwythi bob awr. Ar Lein Wrecsam i Lerpwl, mae Padeswood Sidings yn creu rhwystr sylweddol i fwy o symudiadau cludo llwythi, yn ogystal â gwell gwasanaethau i deithwyr. Bydd ein huchelgeisiau rheilffyrdd yn hwyluso cynnydd mewn symud llwythi.



Ffyrdd, strydoedd a pharcio

Er ein bod am i drigolion gogledd Cymru a'r bobl sy'n ymweld â'n rhanbarth gael eu hannog i deithio mewn ffyrdd cynaliadwy, rydym yn cydnabod y bydd llawer o deithiau yn parhau i gael eu gwneud gan geir preifat, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig lle mae pobl yn dibynnu mwy ar eu ceir. Ar ben hynny, rydym yn cydnabod pwysigrwydd ein ffyrdd a'n strydoedd i gerdded, olwyno, beicio a theithio ar fysiau. Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol bod gennym rwydwaith priffyrdd sy'n wydn, yn cael ei gynnal i safon briodol, ac sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Gwneir y defnydd gorau o asedau presennol trwy sicrhau bod priffyrdd yn cael eu cynnal a'u cadw'n ddigonol o fewn cyfyngiadau cyllidebol awdurdodau lleol, a bydd newid i ddulliau allyriadau is ar gyfer teithio yn cael ei hwyluso a'i annog i leihau effeithiau amgylcheddol ein ceir. Mae ein polisïau a'n hymyriadau yn cynnwys:

Cynnal a chadw

Polisi RS1

Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyllid digonol ar gyfer cynnal a chadw arwynebau a strwythurau sy'n sicrhau gweithrediad parhaus a gwytnwch asedau priffyrdd presennol.

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynnal ffyrdd lleol, tra bod Llywodraeth Cymru yn goruchwylio traffyrdd a chefnffyrdd. Y peth pwysicaf y gellir ei wneud i gefnogi gwytnwch y rhwydwaith priffyrdd lleol yng ngogledd Cymru yw cynnal a chadw ein ffyrdd a'n strydoedd i safon dda, gan gydnabod cyfyngiadau cyllideb awdurdodau lleol.

Polisi RS2

Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyllid i addasu'r isadeiledd ffyrdd presennol i ymdopi'n well â newid yn yr hinsawdd a gwella bioamrywiaeth.

Os yw'r rhwydwaith priffyrdd am barhau i fod yn weithredol yn y dyfodol, mae angen i awdurdodau priffyrdd lleol fod â digon o adnoddau i ymateb i heriau newid hinsawdd a pherygl llifogydd o ddigwyddiadau tywydd eithafol, sy'n gofyn am gynnal a chadw a gwelliannau draenio parhaus.

Diogelwch ffyrdd

Polisi RS3

Cefnogi dull Gweledigaeth Sero Llywodraeth Cymru tuag at ddiogelwch ar y ffyrdd a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyllid digonol ar gyfer mesurau diogelwch ar y ffyrdd ar draws gogledd Cymru.

Polisi RS4

Bydd y dull o ymdrin â diogelwch ffyrdd yn cynnwys cyflwyno cynlluniau gwella priffyrdd sy'n cynyddu diogelwch neu ganfyddiadau o ddiogelwch i bob defnyddiwr ffyrdd, a rhaglenni addysg parhaus gyda'r nod o annog defnydd mwy diogel o'r rhwydweithiau priffyrdd a thrafnidiaeth.

Mae diogelwch ar y ffyrdd yn ystyriaeth hanfodol ar gyfer rheoli'r rhwydwaith priffyrdd. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ddull Gweledigaeth Sero tuag at ddiogelwch ar y ffyrdd. Mae gan hyn nod hirdymor ar gyfer system traffig ffyrdd sydd yn y pen draw yn rhydd o farwolaeth ac anafiadau difrifol, yn seiliedig ar egwyddor 'foesol' arweiniol i drin marwolaethau ffyrdd fel rhai annerbyniol ac y gellir eu hosgoi, yn hytrach na damweiniau y dylem eu goddef. Mae'n golygu newid pwysig o geisio atal pob gwrthdrawiad i atal marwolaeth a lliniaru anafiadau difrifol mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol yn adnabod, datblygu a chyflawni ymyriadau diogelwch ar y ffyrdd sy'n cymhwyso'r dull 'system ddiogel' i anelu at ddim marwolaethau ar y rhwydwaith ffyrdd. Bydd ymyriadau yn cyd-fynd â phum piler yr amgylchedd ffyrdd sy'n lleihau'r risg: Defnyddwyr / Ymddygiadau Ffyrdd Diogel; Cyflymderau Diogel; Ffyrdd Diogel; Cerbydau Diogel; a'r Ymateb Ôl-wrthdrawiad. Bydd cynlluniau hyfforddi ac addysgu Diogelwch ar y Ffyrdd yn cael eu blaenoriaethu i gefnogi'r dull hwn.

Bydd mentrau a chynlluniau addysgol yn ystyried y defnyddwyr ffyrdd sydd mewn mwyaf o berygl o niwed yn ofalus, a all gynnwys pobl ifanc, yr henoed a beicwyr modur. Bydd hyn yn helpu i wneud ein ffyrdd yn fwy diogel i bawb.

Parcio cyhoeddus mewn trefi a dinasoedd

Polisi RS5

Ystyrir codi tâl am barcio a rheolaeth parcio wrth geisio rheoli'r galw am leoedd parcio ac annog pobl i beidio â defnyddio car yn ddiangen gyda dim ond un unigolyn ynddo.

Mae'r awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru yn rheoli ac yn gweithredu ystod o feysydd parcio cyhoeddus sy'n gwasanaethu canol trefi a dinasoedd yn ein rhanbarth. Yr awdurdodau lleol sy'n penderfynu faint o barcio sydd ar gael a'r tâl am barcio a rhaid iddynt ystyried y cydbwysedd rhwng faint o barcio sydd ei angen i gefnogi busnesau lleol, gan annog newid i deithio mwy cynaliadwy, a chost weithredol y gwasanaeth parcio.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddatblygu strategaeth integredig ar barcio i gefnogi polisïau trafnidiaeth a lleoliadol cyffredinol eu cynlluniau datblygu lleol. Dylai awdurdodau lleol ystyried materion parcio ar y cyd ag awdurdodau cyfagos. Dylid defnyddio safonau parcio gyda hyblygrwydd, gan geisio lefelau is o barcio i gefnogi datblygiad lleoedd o ansawdd uchel. Dylai awdurdodau lleol weithredu polisïau codi tâl ar gyfer parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd, lle mae ganddynt reolaeth dros hynny, i gyd-fynd â'u polisïau cynllunio lleol a hyrwyddo defnyddio cerbydau trydan.

Rhoddir ystyriaeth ychwanegol i fannau parcio Bathodyn Glas i ddarparu ar gyfer y darpariad gostyngol ar gyfer mannau hygyrch er gwaethaf y cynnydd yn y galw.



© Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru



Polisi RS6

Gweithio gyda phartneriaid i chwilio am opsiynau ar gyfer ailddyrannu gofod parcio ceir ac ar ffyrdd presennol yn ein trefi allweddol i wella'r amgylchedd lleol, creu mannau mwy deniadol i bobl fyw, a'i gwneud yn haws i bobl gerdded a beicio.

Weithiau gall darparu meysydd parcio dra-arglwyddiaethu ar ein trefi a'n dinasoedd, gyda meysydd parcio a pharcio ar y stryd yn meddiannu llawer iawn o le. Weithiau gellid defnyddio'r gofod hwn yn well i gyfoethogi creu lleoedd a gwella'r amgylchedd lleol. Mae Siarter Creu Lleoedd Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd creu lleoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol. Mae'n annog awdurdodau lleol a datblygwyr i ystyried effeithiau ehangach parcio ceir ac i flaenoriaethu egwyddorion creu lleoedd wrth gynllunio trefi.

Ochr yn ochr â hyn, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth' i'r graddau y mae'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny yn briodol. Wrth wneud hynny, rhaid i awdurdodau cyhoeddus hefyd geisio 'hyrwyddo gwytnwch ecosystemau'.

Gallai trawsnewid ardaloedd parcio sy'n cael eu tanddefnyddio neu newid y ffordd y mae pobl yn cyrchu ein lleoedd mewn car arwain at fwy o leoedd yn dod i ddefnydd cymunedol gwell fel parciau neu erddi, a all wella bioamrywiaeth drefol, darparu mannau hamdden a gwella ansawdd aer.

Gall lleihau parcio ar y stryd greu mwy o fannau sy'n addas i gerddwyr, gan annog cerdded a beicio, a all roi hwb i fusnesau lleol a chreu cymuned fwy bywiog. Trwy ailfeddwl sut mae parcio ceir wedi'i integreiddio yn ein trefi a'n dinasoedd yng ngogledd Cymru, gallwn greu cyfleoedd i fod o fudd i'n hamgylcheddau lleol, hyrwyddo teithio cynaliadwy, a chreu mannau cyhoeddus mwy deniadol ac Ymarferol. Gellid ystyriaeth y dull hwn ar gyfer gosafoedd a depos bysiau, gan gydfynd â Strategaeth Ynni Gogledd Cymru.

Cerbydau allyriadau isel

Polisi RS7

Cefnogi'r trosglwyddo at gerbydau trydan yng ngogledd Cymru, trwy sicrhau bod isadeiledd gwefru teg ar gael mewn ardaloedd trefol a helpu i hwyluso gosod preifat neu osodiadau wedi'u harwain gan y gymuned mewn ardaloedd gwledig.

Polisi RS8

Pan fo'n bosib, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i uno darparwyr gwefru cerbydau trydan - neu'r apiau ac aelodaeth angenrheidiol - ar draws gogledd Cymru er mwyn gwneud gwefru cerbydau trydan yn fwy cyfleus.

Ar draws gogledd Cymru mae darpariaeth gynyddol o'r isadeiledd a'r gefnogaeth i'r gyrwyr hynny sy'n ceisio newid i gerbydau trydan. Mae hyn yn gynyddol bwysig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell lle mae gan breswylwyr lai o ddewis yn aml ynghylch sut maen nhw'n teithio, gan wneud defnyddio cerbydau preifat yn angenrheidiol ar gyfer llawer o deithiau.

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu fframwaith caffael cenedlaethol ar gyfer seilwaith gwefru cerbydau trydan i safoni a gwella safonau'r diwydiant, gan sicrhau seilwaith gwefru cyson ac integredig ledled Cymru.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cefnogi Fframwaith Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan Transport for the North a'i adroddiad State of Play, gan gydnabod sut y gall partneriaid gynyddu defnydd mewn dull trawsffiniol, tra'n helpu i rannu arfer gorau. Byddwn yn cefnogi rhanddeiliaid gyda'u hymrwymiad i gerbydau allyriadau isel, gan gynnig cefnogaeth ar gyfer ail-bwrpasu seilwaith gosafoedd Gwasanaeth a thanwydd, perchnogaeth gymunedol o wefru cerbydau trydan, a'r angen am wybodaeth fwy gwrthrychol am gerbydau allyriadau isel i breswylwyr. Caiff hyn ei adlewyrchu yn Strategaeth Ynni Gogledd Cymru, sy'n galw am fwy o ynni adnewyddadwy i ateb y galw yn y dyfodol i gyrraedd sero net erbyn 2025.



Polisi RS9

Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ymgyrch gyfathrebu gynhwysfawr i annog pobl i ddefnyddio cerbydau trydan, gan ddysgu o'r arfer orau.

Rhan bwysig arall o hwyluso'r newid i gerbydau di-allyriadau yw newid meddylfryd preswylwyr, a mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau neu'r rhwystrau canfyddedig i newid cerbydau, megis cost prynu, pryder pellter, diffyg isadeiledd gwefru, amser gwefru, ac ansicrwydd cyffredinol.

Polisi RS10

Gweithio gyda phartneriaid a'r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu i chwilio am gyfleoedd i wella capasiti'r grid mewn lleoliadau lle mae rhwystr i gyflwyno gwefrydd cerbydau trydan. Dylai hyn hefyd fod yn ystyriaeth allweddol i'r Cynllun Datblygu Strategol wrth gydnabod datblygiadau newydd.

Mae mynd i'r afael â chapasiti presennol y grid trydan mewn rhai lleoliadau ar draws gogledd Cymru yn fater pwysig i hwyluso'r broses o gyflwyno gwefrwyr yn y dyfodol, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol gogledd Cymru yn cydweithio i gydlynu gwaith cynllunio trafnidiaeth a systemau ynni parhaus ar y lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae hyn yn cydnabod yr ymdrechion sydd eu hangen ar y system drafnidiaeth i symud i ffwrdd o danwydd ffosil hylifol i fod yn llawer mwy dibynnol ar y rhwydwaith trydanol.

Polisi RS11

Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol fynnu bod datblygiadau preswyl a di-breswyl newydd yn darparu digon o bwyntiau gwefru cerbydau trydan i gwrdd â'r galw yn y dyfodol ac ysgogi'r defnydd o gerbydau trydan.

I sicrhau bod defnydd cerbydau allyriadau isel yn gynyddol gyfleus yn y dyfodol, mae'n hanfodol bod cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu gyda darpariaeth ddigonol i gefnogi preswylwyr sy'n dewis gyrru cerbyd trydan. Mae hyn yn rhywbeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ystyried fel rhan o'i diweddariad ehangach arfaethedig i Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 18: Trafnidiaeth sy'n rhoi arweiniad ar ddylunio datblygiad ac integreiddio defnydd tir a chynllunio trafnidiaeth yng Nghymru. Dylid ystyried unrhyw ofynion neu ganllawiau yn ofalus a'u cynnwys yn y polisïau cynllunio lleol a rhanbarthol datblygol ac yn y nodyn cyngor cenedlaethol.

Clybiau ceir a rhannu ceir

Polisi RS12

Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gynyddu'r nifer o glybiau ceir yng ngogledd Cymru trwy weithio ar y cyd â darparwyr clybiau ceir, gan gynnwys darparwyr clybiau ceir cymunedol mewn ardaloedd gwledig a threfol; ac mewn gorsafoedd, mewn mannau gwaith a chanolfannau symudedd.

Ar gyfer gyrwyr nad ydynt yn berchen ar gar, gall clybiau ceir ddarparu mynediad i gar i wneud y teithiau hynny nad ydynt yn bosib ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae clybiau ceir yn cefnogi gostyngiad mewn lefelau perchenogaeth ceir, gan ddarparu opsiwn i bobl nad ydynt yn defnyddio eu car yn aml, neu efallai nad ydynt angen ail gar mwyach. Mae llai o berchnogaeth ceir yn lleihau nifer y teithiau mewn car ac yn cynyddu nifer y teithiau a wneir trwy ddulliau eraill. Mewn ardaloedd mwy trefol, mae cyfleoedd i glybiau ceir gael eu lleoli mewn gorsafoedd rheilffordd, gweithleoedd a chanolfannau symudedd, gan ganiatáu i bobl gael mynediad at gar ar gyfer taith neu ran bellach o daith nad yw'n bosib trwy ddulliau mwy cynaliadwy.

Bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth a ddarperir gan ein hawdurdodau lleol yn cael ei ddyrannu'n seiliedig ar y cynlluniau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Yn bwysig iawn, mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i gynlluniau ar gyfer proses moderneiddio grantiau, sy'n ceisio dod â nifer o grantiau trafnidiaeth lleol ynghyd, gan alinio'r ffrydiau ariannu hyn gyda'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a'u Cynlluniau Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Nod hyn yw rhoi mwy o allu i ni wneud penderfyniadau o ran sut mae arian grant trafnidiaeth lleol yn cael ei wario. Drwy ddyrannu cyllid i drafnidiaeth ranbarthol, bydd hyn hefyd yn helpu i leihau'r baich gweinyddol ar ein hawdurdodau lleol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i adnabod ffynonellau cyllid ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol a'r DU i ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy o ansawdd uchel ledled gogledd Cymru.

2. Dewis ac arfarnu cynlluniau

2.1 Dull gweithredu

Mae cynlluniau trafnidiaeth i'w cyflawni gan ein hawdurdodau lleol wedi'u hadnabod drwy adolygiad cynhwysfawr o gynlluniau perthnasol, ceisiadau cyllid diweddar a cheisiadau sy'n dod i'r amlwg, ac yn cynnwys partneriaid cynllunio a chyflawni gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru. Mae ffynonellau cyllido gan gynnwys Llywodraeth Cymru eisiau sicrwydd ynghylch pa gynlluniau sy'n debygol o barhau a dod ymlaen dros y pum mlynedd nesaf. Rydym oll eisiau gwybod beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth ar draws ein cymunedau lleol, Gogledd Cymru a Chymru gyfan. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y byddwn yn paratoi ein Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Gogledd Cymru yn fuan, a bydd angen iddo ystyried ein cynlluniau ar gyfer trafnidiaeth law yn llaw â defnydd tir a datblygiad economaidd. Dyna pam ein bod wedi ystyried yn ofalus yr holl opsiynau gwahanol sydd ar gael i ni ynghylch sut y gallwn gyflawni ein polisïau a'n hymyriadau, ac yn eu tro ein gweledigaeth a'n hamcanion ar gyfer Gogledd Cymru bywiog, cynaliadwy a gwydn.

Wrth ystyried y gwahanol opsiynau, rydym wedi ystyried angen ein rhanbarth i gyfrannu at gyflawni blaenoriaethau ac uchelgeisiau trafnidiaeth cenedlaethol, a thargedau ar gyfer shifft moddol a datgarboneiddio. Rydym hefyd wedi ystyried sut rydym am i'n rhwydweithiau rhanbarthol ac is-ranbarthol gael eu datblygu a'u gwella drwy ymateb i'r heconomi, cymdeithas, diwylliant ac amgylchedd unigryw yng Ngogledd Cymru. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y bydd ein trigolion a'n hymwelwyr yn elwa o fwy o ddewisiadau teithio a gwell cysylltedd, gan hefyd leihau ein heffaith amgylcheddol.

Drwy weithio gyda Trafnidiaeth Cymru, rydym wedi datblygu ac addasu offeryn blaenoriaethu ar gyfer cyd-destun Gogledd Cymru. Mae'r teclyn wedi ein helpu i ddewis, gwerthuso a blaenoriaethu cynlluniau. Mae hynny wedi golygu gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i gasglu'r dystiolaeth a'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i sicrhau bod pob agwedd ar gynlluniau, eu halinio â'n hamcanion, effeithiau tebygol a chyflawniad wedi cael eu hystyried.

Rydym yn disgrifio sut rydym wedi mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd hyn yn eu tro isod.

2.2 Llwybrau cyflawni

Mae Llwybr Newydd, Strategaeth Trafnidiaeth Cymru yn adnabod pedwar maes allweddol sy'n hanfodol i gyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau trafnidiaeth cenedlaethol – datgarboneiddio, cydraddoldeb, cynllunio teithiau integredig a gwledig. Mae'r rhain yn torri ar draws y gwahanol foddau a sectorau. Mae ystod eang o ymrwymiadau wedi'u nodi yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol sy'n ymwneud â phob un o'r rhain drwy gydol Strategaeth Trafnidiaeth Cymru. Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi'i baratoi i helpu i gyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau trafnidiaeth cenedlaethol yn ogystal â chyfrannu at dargedau cenedlaethol ar gyfer newid moddol a datgarboneiddio.

Fel sydd wedi'i nodi yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, rydym wedi adnabod pum thema drawsbynciol a fydd yn ein helpu i ddilyn ein dyletswyddau a'n hymrwymiadau ehangach a chyfrannu at y llwybrau cyflawni trawsbynciol a nodir yn Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru - gwerth cymdeithasol, tegwch, dan arweiniad y gymuned, integreiddio a fforddiadwyedd. Mae'r rhain hefyd yn cynnwys y gwahanol foddau a sectorau yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, sydd wedi'u siapio o amgylch themâu polisi yn seiliedig ar naw mân-gynllun Strategaeth Trafnidiaeth Cymru ar gyfer pob modd trafnidiaeth, wedi'i haddasu ar gyfer y Gogledd. Mae'r rhain yn cynrychioli meysydd ffocws allweddol ar gyfer ein polisïau ac ymyraethau trafnidiaeth, sy'n gosod y fframwaith ar gyfer cyflawni cynlluniau gan awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn.

Rydym yn hyderus, yn y ffordd yr ydym wedi alinio ein themâu trawsbynciol rhanbarthol â'r llwybrau cyflawni trawsbynciol cenedlaethol, a'r ffordd yr ydym wedi fframio ein themâu polisi o amgylch y gwahanol ddulliau a sectorau sy'n adlewyrchu'r mân-gynlluniau cenedlaethol ar gyfer pob modd o drafnidiaeth, y bydd ein cynigion rhanbarthol ar gyfer trafnidiaeth yn cyfrannu'n gryf at gyflawni'r llwybrau

cenedlaethol tra'n addas i'r diben i gyflawni ein gweledigaeth a'n hamcanion rhanbarthol ar gyfer trafnidiaeth. Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol yn darparu crynodeb o'r prif fentrau cenedlaethol a fydd yn allweddol i gyflawni pob llwybr cenedlaethol. Mewn ymateb, rydym yn crynhoi sut y bydd ein polisïau a'n ymyriadau rhanbarthol yn allweddol i gyflawni pob llwybr:

Llwybr cynllunio teithiau integredig

Bydd ein polisïau a'n hymyriadau yn helpu i hwyluso teithiau integredig trwy foddau cynaliadwy, a fydd yn helpu i gyrraedd ein targedau shifft moddol. Mae ein cynllun yn dwyn ynghyd ystod o gyfleoedd ynghylch dylunio gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, amserlennu, tocynnau, darparu gwybodaeth, buddsoddi mewn seilwaith a chynllunio a datblygu polisi i alluogi teithiau cynaliadwy i ddigwydd yn hawdd ac yn ddibynadwy. Er enghraifft, mae Rhaglen Metro Gogledd Cymru yn fenter gynhwysfawr sydd â'r nod o drawsnewid trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol ar draws y rhanbarth a'i nod yw gwella cysylltedd yng Ngogledd Cymru a chryfhau cysylltiadau â Gogledd-orllewin Lloegr. Mae rhai o'n hymyriadau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol penodol sy'n allweddol i'r llwybr cyflawni hwn yn cynnwys:

Polisi PT9: Cefnogi Gweledigaeth Llywodraeth Cymru o 'Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn' ar gyfer system fysiau sy'n cael ei llywodraethu a'i chynllunio i wasanaethu budd y cyhoedd, gyda'r cwmpas daearyddol ehangaf posibl, cysylltiadau cwbl integredig rhwng gwahanol wasanaethau, yr amleddau gwasanaeth uchaf posibl, a thocynnau a gwybodaeth hawdd eu defnyddio, unedig, syml.

Polisi LU5: Dylid annog datblygiadau sy'n agos at gyfleusterau cludiant cyhoeddus, a dylid dylunio datblygiadau i helpu i hwyluso a gwella cysylltedd cludiant cyhoeddus mewn ardaloedd trefol a gwledig.

Polisi LU6: Cefnogi lleihau'r safonau parcio ar gyfer datblygiadau newydd, yn enwedig mewn ardaloedd trefol lle byddwn yn mynd ati i wella dewisiadau amgen trafnidiaeth gynaliadwy.

Polisi IN3: Bydd gwelliannau Isadeiledd Teithio Llesol a nodwyd ar Gynlluniau Rhwydwaith Gorsafoedd yn cael eu cyflawni, a bydd Cynlluniau Rhwydwaith Gorsafoedd yn cael eu datblygu ar gyfer y gorsafoedd hynny nad oes ganddynt un ar hyn o bryd.

Polisi PT4: Bydd y Rhwydwaith Trawsnewid Gwasanaeth Bws yn cael ei gyflwyno yng ngogledd Cymru. Bydd hyn yn cynnwys rhwydwaith craidd o wasanaethau rhwng ac o fewn aneddleoedd mawr a safleoedd cyflogaeth gydag amlder o ddau i bedwar bws yr awr, yn ymestyn i'r nos.

Polisi RS12: Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gynyddu'r nifer o glybiau ceir yng ngogledd Cymru trwy weithio ar y cyd â darparwyr clybiau ceir, gan gynnwys darparwyr clybiau ceir cymunedol mewn ardaloedd gwledig a threfol; ac mewn gorsafoedd, mewn mannau gwaith a chanolfannau symudedd.

Polisi AV1: Cefnogi'r gwelliannau i fynediad ar y ddaear at feysydd awyr domestig a rhyngwladol, gan ganolbwyntio ar wella gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus.

Polisi AT13: Gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys y sector masnachol, i gyflwyno cynllun llogi e-feicio a beicio cyhoeddus mewn cyfnewidfeydd trafnidiaeth mawr neu leoliadau addas eraill, ac mewn lleoliadau lle mae cynllun o'r fath yn cefnogi'r economi ymweld.

Llwybr datgarboneiddio

Mae ein polisïau a'n hymyriadau sy'n cael eu fframio o amgylch newid ymddygiad, cysylltedd digidol a gwahanol foddau fel cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn ceisio annog pobl i helpu i leihau'r angen i deithio neu wneud y newid i drafnidiaeth carbon isel cynaliadwy. Bydd Cynllun Monitro a Gwerthuso ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hefyd yn gosod targedau ar gyfer newid moddol, effeithlonrwydd cludiant nwyddau, ac allyriadau teithwyr i gyd yn cyfrannu at ddatgarboneiddio. Mae rhai o'n hymyriadau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol penodol sy'n allweddol i'r llwybr cyflawni hwn yn cynnwys:

Polisi PF4: Gweithio gyda phartneriaid i chwilio am gyfleoedd i ategu datblygiad canolfannau hydrogen yng ngogledd Cymru trwy gefnogi newid i danwydd hydrogen ar gyfer gweithredwyr cludo llwythi yn y rhanbarth.

Polisi PF5: Gweithio gyda phartneriaid i nodi cyfleoedd i drydaneiddio cerbydau ar gyfer danfoniadau lleol.

Polisi RS6: Gweithio gyda phartneriaid i chwilio am opsiynau ar gyfer ailddyrannu gofod parcio ceir ac ar ffyrdd presennol yn ein trefi allweddol i wella'r amgylchedd lleol, creu mannau mwy deniadol i bobl fyw, a'i gwneud yn haws i bobl gerdded a beicio.

Polisi RS9: Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ymgyrch gyfathrebu gynhwysfawr i annog pobl i ddefnyddio cerbydau trydan, gan ddysgu o'r arfer orau.

Polisi RS11: Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol fynnu bod datblygiadau preswyl a di-breswyl

newydd yn darparu digon o bwyntiau gwefru cerbydau trydan i gwrdd â'r galw yn y dyfodol a chymell y defnydd o gerbydau trydan.

Polisi RS13: Dylid defnyddio'r broses cynllunio teithio i annog rhannu ceir ar gyfer cymudo.

Polisi DC1: Dylid chwilio am gyfleoedd i weithio gyda chymunedau a busnesau i hyrwyddo a hwyluso canolfannau gweithio o bell.

Polisi DC2: Dylai addysg a hyfforddiant llythrennedd ddigidol fod ar gael yn helaeth i helpu trigolion gogledd Cymru i fynd ar-lein a dod o hyd i'r wybodaeth y mae arnynt ei hangen i wneud dewisiadau teithio cynaliadwy.

Llwybr Cydraddoldeb

Mae ein polisïau a'n hymyriadau wedi ystyried ein hymrwymiadau cyfreithiol a pholisi ar hygyrchedd seilwaith a gwasanaethau, yn ogystal â'n hymrwymiadau ar ddylunio cynhwysol. Mae ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi ystyried effeithiau posibl ein polisïau a'n hymyriadau ar gydraddoldeb a phobl â nodweddion gwarchodedig. Mae rhai o'n hymyriadau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol penodol sy'n allweddol i'r llwybr cyflawni hwn yn cynnwys:

Polisi CB8: Rhoddir blaenoriaeth i ariannu cynlluniau a gwasanaethau sy'n gwella mynediad cynaliadwy at wasanaethau hanfodol sy'n cyfoethogi bywyd, megis addysg, gofal iechyd, canol trefi a chyfleusterau cymunedol.

Polisi CB11: Dylai awdurdodau lleol ymestyn eu gwaith gydag ysgolion a rhieni i annog a chefnogi teithio cynaliadwy ar gyfer plant, rhieni a staff.

Polisi CB13: Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gyflawni'r gwelliannau trafnidiaeth angenrheidiol cymdeithasol sy'n atal ynysu gwledig.

Polisi CB14: Bydd ymgyrchoedd Marchnata a Chyfathrebu yn cael eu datblygu i godi ymwybyddiaeth o fanteision teithio cynaliadwy. Bydd ymgyrchoedd yn defnyddio technegau arloesol i dargedu grwpiau a all fod yn anoddach eu cyrraedd.

Polisi PT10: Gweithio gyda phartneriaid, yn cynnwys awdurdodau lleol a gweithredwyr, i wneud teithio ar fws yn fwy hygyrch i bobl gyda symudedd neu anableddau cyfyngedig.

Polisi AT3: Pan fo'n bosib, dylai isadeiledd cerdded a beicio fod yn hygyrch i bawb, gan gynnwys pobl sydd ag amhariadau symudedd, pobl mewn cadeiriau olwyn a phobl sy'n gwthio pramiau.

Polisi IN2: Bydd creu lleoedd a chyfeirio pobl mewn gorsafoedd ac arosfannau bysiau allweddol yn cael ei wella. Dylai hyn ystyried cysylltiadau ymlaen i atyniadau allweddol a bydd hyn yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad â sefydliadau lleol a chymunedol, gan gynnwys grwpiau sy'n cynrychioli cymunedau â nodweddion gwarchodedig.

Llwybr Gwledig

Mae gan ogledd Cymru boblogaeth wledig fawr, ac mae ein polisïau a'n hymyriadau yn anelu at ddarparu mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy, diogel a dibynadwy i helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau, cyflogaeth, cyfleoedd diwylliannol ac addysg i'w galluogi i ffynnu. Mae ein polisïau a'n hymyriadau yn cydnabod bod anghenion trafnidiaeth ein cymunedau yng nghefn gwlad Gogledd Cymru yn wahanol i'r rhai mewn ardaloedd mwy trefol. Mae rhai o'n hymyriadau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol penodol sy'n allweddol i'r llwybr cyflawni hwn yn cynnwys:

Polisi RS7: Cefnogi'r trosglwyddo at gerbydau trydan yng ngogledd Cymru, trwy sicrhau bod isadeiledd gwefru teg ar gael mewn ardaloedd trefol a helpu i hwyluso gosod preifat neu osodiadau wedi'u harwain gan y gymuned mewn ardaloedd gwledig.

Polisi RS10: Gweithio gyda'r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu i chwilio am gyfleoedd i wella capasiti'r grid mewn lleoliadau lle mae rhwystr i gyflwyno gwefrydd cerbydau trydan.

Polisi AT4: Mewn ardaloedd gwledig, bydd gwelliannau isadeiledd teithio llesol yn canolbwyntio ar fudd y gymuned o gynlluniau; gwella diogelwch a llwybrau sy'n cysylltu cymunedau llai gydag aneddleoedd mwy a gwasanaethau.

Polisi AT6: Byddwn yn ymchwilio i gyflwyno Lonydd Tawel yng ngogledd Cymru yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

Polisi AT9: Cefnogi newidiadau i feini prawf cyllid teithio llesol fydd yn rhoi mwy o bwyslais ar gynlluniau mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd preswyl.

Polisi AT10: Archwilio ffrydiau ariannu ychwanegol i'r Gronfa Teithio Llesol sy'n cefnogi cyflawni gwelliannau isadeiledd teithio llesol mewn ardaloedd gwledig.

Polisi AT11: Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu templedi a phecynnau cymorth i gefnogi cymunedau lleol i ddatblygu a gweithredu eu prosiectau eu hunain lle mae'r llywodraeth yn chwarae rôl hwyluso a chefnogi, yn hytrach na rôl o wneud a chyflawni.

Polisi PT11: Dylai gwasanaethau peilot Fflecsi llwyddiannus fod yn barhaol, a dylai gwasanaethau Fflecsi ychwanegol gael eu dylunio gyda'r gymuned leol a'u cyflwyno mewn

ardaloedd eraill, yn unol â chynigion rhwydwaith trawsnewid bysus.

Polisi PT12: Gweithio gydag awdurdodau lleol a Thrafnidiaeth Cymru i gyd-weithio gyda chymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, i helpu ariannu a chyflawni gwasanaethau trafnidiaeth cymunedol sy'n gwrdd ag anghenion sydd heb eu bodloni fel arall.

Polisi CB17: Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i wneud gwasanaeth bws Sherpa'r Wyddfa yn barhaol, gyda chyllid hirdymor; ac ymchwilio i sut y gellir integreiddio gwasanaethau ymhellach gyda'r rhwydweithiau bws a rheilffordd ehangach.

Polisi CB20: Bydd datrysiadau arloesol ar gyfer rhoi mynediad i atyniadau mewn ardaloedd gwledig yn cael eu hadnabod. Dylai hyn ystyried, ond heb fod yn gyfyngedig i, gwasanaethau bysiau tymhorol, llogi e-feiciau a dulliau micro-symudedd eraill, ynghyd ag ymgyrchoedd gwybodaeth.

2.3 Rhwydwaith o systemau


Cymerwyd agwedd yn seiliedig ar y rhwydwaith ar gyfer ein cynigion, lle mae'r ffocws allweddol ar roi mwy o ddewis i bob grŵp o bobl ynghylch pryd a sut maent yn teithio. Mae ymyraethau yn ceisio ymateb i ardaloedd daearyddol a phoblogaethau amrywiol Gogledd Cymru, gan ystyried rhannau mwy trefol a gwledig y rhanbarth, gan geisio trafnidiaeth gwbl integredig.

Er y bydd cynlluniau yn cael eu cyflawni gan ein hawdurdodau lleol, mae'n bwysig cydnabod na ddylid eu halinio â ffiniau sirol a byddant yn cael eu cydlynu a'u blaenoriaethu ar lefel ranbarthol, tra'n cyfrannu at ganlyniadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Er bod ein system drafnidiaeth yn rhyngwynebu â gwahanol raddfeydd daearyddol fel y disgrifir uchod, mae ein ffyrdd, strydoedd, rheilffyrdd a llwybrau teithio llesol i gyd yn croesi ffiniau i gysylltu ein cymunedau, ein mannau gwaith a hamdden. Dyna pam mae angen i ni feddwl am ein llwybrau trafnidiaeth gan bob modd fel rhwydwaith rhyng-gysylltiedig o systemau. I lawer ohonom, mae ein llwybrau mwyaf cyfarwydd yn seiliedig ar ein teithiau teithio i'r gwaith, neu'r teithiau rydyn ni'n eu gwneud i gyrraedd yr ysgol, y siopau, neu lle rydyn ni'n hoffi ymweld â nhw yn ein hamser hamdden. Rydym yn aml yn teithio ar wahanol foddau, o gerdded a beicio ar gyfer teithiau byrrach, i fws, coets, rheilffordd neu gar ar gyfer teithiau pellter hirach.

Gan adeiladu ar waith Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru a Rhaglen Metro Gogledd Cymru, mae gennym gyfle i roi'r rhwydwaith trawsnewid bysiau wrth wraidd ein system, a'r rhwydwaith teithio llesol, a gorsafoedd a gwasanaethau rheilffyrdd i gyd yn adeiladu ac yn cysylltu â'i gilydd, ynghyd â chyfnewidfeydd a chanolfannau trafnidiaeth allweddol. Yna gallwn ategu'r system honno gydag opsiynau teithio mwy hyblyg, fel trafnidiaeth ar alw a chymunedol. Gallwn ei gwneud mor hawdd â phosibl i bob grŵp o bobl gael mynediad at y wybodaeth amser real sydd ei hangen arnynt a symud rhwng moddau gyda thechnolegau integredig arloesol a di-dor. Dylem hefyd ei gwneud hi'n haws i bobl leihau faint maen nhw'n teithio gyda hybiau lleol, band eang o ansawdd uchel, a chynllunio defnydd tir sy'n seiliedig ar drafnidiaeth.

Mae ein cynlluniau awdurdodau lleol yn ymateb i'r cyfle hwn ac yn hytrach na meddwl amdanynt fel rhestr hir o fesurau, bydd eu cyflawni yn digwydd drwy lens rhwydwaith o systemau. Er mwyn helpu i ddangos y cyfle hwn, rydym wedi cynhyrchu diagram systemau:



2.4 Dewis a hidlo cynlluniau

Rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid mewn awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb mewn trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru i adnabod cynlluniau a fydd yn cyflawni ein polisïau a'n hymyriadau mewn ffordd gyfannol ac integredig. Mae'r rhain yn cynnwys ystod o gynlluniau a chynigion awdurdodau lleol penodol sydd naill ai'n uchelgeisiol, a fydd yn dechrau o fewn y pum mlynedd nesaf, neu'n parhau i gael eu cyflawni dros gyfnod y cynllun hyd at 2030 neu y tu hwnt.

Mae ein cynlluniau yn cyd-fynd â'r gwahanol ddulliau yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, wedi'u siapio o amgylch ein rhwydweithiau, ac yn cyd-fynd â'r themâu polisi sy'n ymateb i'r llwybrau cyflawni cenedlaethol a'n themâu trawsbynciol rhanbarthol.

Er bod polisïau ac ymyriadau rhwydwaith rheilffyrdd a rhwydwaith ffyrdd strategol yn cael eu hystyried yn uchelgeisiau yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, maent yn gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru fel yr awdurdod priffyrdd ar gyfer yr holl gefnffyrdd a thraffyrdd yng Nghymru, a Network Rail neu Trafnidiaeth Cymru sydd â chyfrifoldebau am gynnal, moderneiddio a gweithredu'r rhwydwaith rheilffyrdd ledled Cymru a siroedd ar y ffin â Lloegr.

Er y byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu'n huchelgeisiau ar y cyd ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd strategol a nodir yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y cynlluniau trafnidiaeth sydd i'w cyflawni gan ein hawdurdodau lleol yn cael ei ddyrannu yn seiliedig ar y cynlluniau sydd wedi eu cynnwys yn ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Am y rhesymau uchod, ni fydd hyn yn cynnwys cynlluniau sy'n ymwneud â'r rhwydwaith rheilffyrdd neu gefnffyrdd.

Yn yr un modd, ni fydd prosiectau a adnabuwyd ar gyfer cyllid ar lefel genedlaethol, neu a fyddai'n gofyn am astudiaethau dichonoldeb neu waith cysylltiedig gan Drafnidiaeth Cymru neu Uchelgais Gogledd Cymru cyn i gynlluniau gael eu datblygu gan awdurdod lleol, yn cael eu cynnwys ar hyn o bryd.

Mae'n bwysig ystyried y gall cynlluniau newydd neu ddiwygiedig ddod ymlaen yn ystod cyfnod y cynllun sy'n anhysbys neu'n rhai a ragwelir ar hyn o bryd. Bydd unrhyw ddiwygiadau gofynnol i'n cynlluniau yn cael

eu codi a'u trafod cyn gynted â phosib fel rhan o sesiynau diweddaru cynnydd dan arweiniad y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac awdurdodau lleol ledled Gogledd Cymru. Bydd y rhain yn digwydd tua bob tri mis.

Mae'r rhestr o gynlluniau a gymerir ymlaen i'w blaenoriaethu wedi eithrio cefnffyrdd (traffyrdd neu ffyrdd A) a chynlluniau rheilffyrdd na fyddai'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol. Gellir dod o hyd i ddyheadau sy'n ymwneud â chefnffyrdd ac ymyriadau rheilffyrdd yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Mae gweddill cynlluniau awdurdodau lleol wedi bod yn destun arfarnu ac yna blaenoriaethu gan ddefnyddio offeryn blaenoriaethu Trafnidiaeth Cymru, a ddatblygwyd ac a addasir ar gyfer cyd-destun Gogledd Cymru.

2.5 Defnyddio'r offeryn blaenoriaethu

Mae'r offeryn blaenoriaethu'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddatblygu gan Trafnidiaeth Cymru mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a swyddogion awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cydweithio ar draws rhanbarthau i ddatblygu dull gyda'r hyblygrwydd i'w addasu i ofynion gwahanol ac esblygol. Mae hyn wedi arwain at ddarparu offeryn sy'n helpu i fynd o bolisïau ac ymyriadau y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i restr flaenoriaethol o gynlluniau yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Egwyddorion allweddol ar gyfer yr offeryn yw:

- Dylai ymateb i amcanion rhanbarthol
- Dylai ddarparu arfarniad meintiol dibynadwy a gwrthrychol o gynlluniau, gan fanteisio ar ddata a dadansoddiad GIS
- Dylai ddarparu arfarniad ansoddol o gynlluniau, er mwyn sicrhau bod naws ac elfennau dynol yn cael eu dal
- Dylai fod yn hyblyg: caniatáu i feini prawf ychwanegol gael eu cyflwyno wrth iddynt ddod i'r amlwg, gellir ymgorffori a chael eu defnyddio ar gyfer cynlluniau ar wahanol gamau datblygu, gellir ymgorffori a defnyddio ar gyfer rhaglenni cyfan, a phrosiectau o fewn y rhaglenni hynny, a gellir ymgorffori a defnyddio ar draws cynlluniau o wahanol fathau a meintiau

I grynhoi, mae'r offeryn blaenoriaethu yn daenlen Excel sy'n darparu fframwaith gwerthuso defnyddiol, sydd wedi'i addasu i gynnwys amcanion Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Mae gan yr offeryn gyfanswm o chwe cham:

1. Diffinio amcanion a mesurau'r cynllun
2. Llenwi'r disgrifiad a chrynodeb y cynllun
3. Didoli ar lefel uchel am y tro cyntaf
4. Dadansoddiad GIS ac arfarniad gwrthrychol
5. Arfarniad cyflawni
6. Blaenoriaethu cynlluniau

Mae awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru wedi cydweithio i ddarparu'r data a'r dystiolaeth angenrheidiol i boblogi meini prawf gwerthuso a chelloedd data yr offeryn. Mae ffeil waith a rennir y mae gan swyddogion lleol fynediad ati wedi helpu i sicrhau dull cyson o arfarnu, gan elwa hefyd o opsiynau gwerth safonol ar gyfer meini prawf fel amserlenni ac ystodau o gostau cyfalaf.

Mae'r dull o arfarnu gan ddefnyddio'r offeryn wedi'i grynhoi yn **Atodiad 1**.

3. Ein blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth

Deall ein blaenoriaethau

Yn ôl yr angen, mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn rhestru'r cynlluniau penodol a fydd yn helpu i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, wedi'u rhestru a'u dilyniannu i'w cyflawni.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn mynnu bod blaenoriaeth yn seiliedig ar yr effaith fwyaf wrth gyflawni blaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru). Rydym hefyd wedi seilio blaenoriaeth ar y sgoriau cyffredinol fel allbynnau o'r ymarfer offeryn blaenoriaethu, gan ystyried materion cyflawnadwyedd yn ogystal ag aliniad ag amcanion y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n adlewyrchu'r targedau cenedlaethol ar gyfer newid moddol a datgarboneiddio.

Mae ein cynlluniau yn cael eu rhestru fel blaenoriaeth uwch, canolig neu is o fewn amserlenni ar gyfer cyflawni (gweler blaenoriaethau dros amser, isod). Mae trothwyon wedi'u cymhwyso i sgoriau perfformiad yn seiliedig ar allbynnau yr offeryn blaenoriaethu, mewn cytundeb â'n hawdurdodau lleol i helpu i flaenoriaethu safle yn y tri chategori hyn.

Cynlluniau uwch yw'r rhai y mae awdurdodau lleol yn bwriadu buddsoddi ynddynt i gyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol fel blaenoriaeth.

Mae'n bwysig nodi nad yw cydnabod cynllun fel blaenoriaeth ganolig neu is ar y raddfa ranbarthol hon yn nodi nad yw o bwysigrwydd lleol, neu na ddylid ei ddatblygu. Yn hytrach, mae yna gynlluniau eraill ledled y rhanbarth sy'n debygol o gael mwy o effaith wrth gyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau rhanbarthol a chenedlaethol, ac felly dylid eu blaenoriaethu ar raddfa ranbarthol ar gyfer buddsoddi dros y cyfnodau amser a ragwelir.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cydweithio ag awdurdodau lleol i gyflwyno'r cynlluniau uwch dros gyfnod y cynllun fel blaenoriaeth, gyda chynlluniau blaenoriaeth canolig ac is i ddod ymlaen yn amodol ar argaeledd cyllid neu pe na bai cynllun blaenoriaeth uwch yn dod ymlaen o fewn cyfnod y cynllun fel y disgwyliwyd. Yn yr achosion hynny, bydd y sgoriau perfformiad yn seiliedig ar allbynnau yr offeryn blaenoriaethu yn helpu Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol i gytuno pa gynlluniau blaenoriaeth canolig ac yna blaenoriaeth is a allai ddod ymlaen unwaith y bydd y cynlluniau uwch wedi'u cyflawni.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cydweithio â'r awdurdodau lleol i greu rhaglenni blynyddol o gynlluniau i gadarnhau pa gynlluniau fydd yn dod ymlaen bob blwyddyn. Bydd hyn yn cael ei lywio gan safle blaenoriaeth cynlluniau sydd wedi ystyried amserlenni ar gyfer cyflawni, sydd wedi helpu i roi eglurder ar hyn o bryd ynghylch pa gynlluniau fydd yn dod ymlaen ym mhob blwyddyn o gyfnod y cynllun.

Blaenoriaethau dros amser

Mae ein cynlluniau wedi'u trefnu o amgylch amserlenni disgwyliedig i'w cyflawni, dros y canlynol:

- Tymor byr: cynlluniau a fydd ar y gweill neu sydd â'r potensial i ddechrau cyflawni ar ddechrau'r rhaglen 5 mlynedd pe bai cyllid ar gael ym Mlwyddyn Ariannol 2026/27
- Tymor canolig: cynlluniau gyda'r potensial i ddechrau eu cyflawni pe bai cyllid ar gael rhwng Blwyddyn Ariannol 2027/28 a Blwyddyn Ariannol 2029/30
- Tymor hir: cynlluniau gyda'r potensial i ddechrau cyflawni ar ddiwedd y rhaglen 5 mlynedd pe bai'r cyllid ym mlwyddyn ariannol 2030/31
- Uchelgeisiol: Nid oes unrhyw amserlen wedi'i ragweld ar hyn o bryd na chyflawni yn debygol y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol 2030/31
- Neilltuwyd: Ar hyn o bryd nid yw'n cael ei symud ymlaen ond gyda photensial i ddychwelyd gyda gwaith datblygu pellach

Blaenoriaethau yn ôl modd

Cyflwynir blaenoriaethau hefyd yn ôl themâu polisi gan gynnwys dull trafnidiaeth, i helpu rhanddeiliaid i ddeall ble i ddisgwyl gweld buddsoddiad mewn gwahanol fathau o drafnidiaeth. Mae hyn yn cynnwys:

- Teithio llesol
- Bysiau a choetsis
- Trafnidiaeth gymunedol a thacsis ar alw
- Cludo a logisteg
- Integreiddio
- Porthladdoedd
- Ffyrdd, strydoedd a pharcio.

Mae'r dull hwn hefyd yn helpu i ddangos cyfraniad y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol i'r polisïau a nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae'r dull hwn hefyd wedi ceisio helpu i sicrhau bod ystod o ddulliau yn cael eu blaenoriaethu, gan geisio sicrhau darparu rhwydwaith o systemau yn hytrach na gweld buddsoddiad yn llifo'n bennaf i un neu nifer cyfyngedig o ddulliau, a allai berfformio'n uchel yn yr offeryn blaenoriaethu.

Buddsoddi a chyllid

O fewn ein blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth, fe wnaethom nodi costau cyfalaf a gweithredu a ragwelir sy'n gysylltiedig, ochr yn ochr â ffynonellau cyllid tebygol. Mae hyn hefyd yn ein helpu i nodi sut y bydd awdurdodau lleol yn cwrdd â chanlyniadau refeniw y cynlluniau.

Bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gael ar gyfer cynlluniau awdurdodau lleol unwaith y bydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar waith, ar y sail y bydd unrhyw gynlluniau a gynigir ar gyfer cymorth yn cael eu nodi a'u blaenoriaethu mewn Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol cymeradwy. Gall hyn gynnwys drwy drefniadau cyllido presennol neu'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r broses foderneiddio grantiau, sy'n ceisio dod â nifer o grantiau trafnidiaeth lleol at ei gilydd, gan alinio'r ffrydiau cyllido hyn â'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a'u Cynlluniau Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol ar draws rhanbarthau Cymru.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft, ymgysylltodd Llywodraeth Cymru â'r CBC i helpu i egluro lefelau cyllid rhanbarthol Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r

Cynlluniau Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg ar draws y pedwar rhanbarth, gan ystyried y broses foderneiddio grantiau parhaus.

Yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru, cyfanswm cost cynlluniau o fewn y rhaglen 5 mlynedd sy'n gofyn am gyllid trafnidiaeth ranbarthol yw oddeutu £150m. Mae hwn yn ffigur hyblyg sy'n ystyried y pum mlynedd diwethaf o ddyfarniadau grant yng Ngogledd Cymru, gydag amcangyfrif o lwfans yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi egluro y bydd y rhaglen 5 mlynedd yn cwmpasu blynyddoedd ariannol 2026/2027 i 2030/2031, yn dilyn dyfarniadau grant awdurdodau lleol 2025/2026.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno y bydd y ffynonellau cyllido canlynol yn rhan o'r gronfa drafnidiaeth ranbarthol newydd yn amodol ar y broses foderneiddio grantiau:

- Cronfa Teithio Llesol
- Cronfa Trafnidiaeth Leol
- Cronfa Ffyrdd Gwydn
- Cronfeydd Cyfalaf a Refeniw Diogelwch ar y Ffyrdd
- Cronfa Bolisi 20mya
- Cronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau
- Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn
- Cronfa Ffyrdd heb eu mabwysiadu

Bydd rhai o'r cynlluniau a adnabuwyd gan awdurdodau lleol sy'n denu gofynion buddsoddi sylweddol yn debygol o fod yn destun cymysgedd o ffynonellau cyllido sy'n debygol o gynnwys ffynonellau neu gytundebau y tu allan i'r cyllid trafnidiaeth rhanbarthol. Efallai y bydd gan gynlluniau o'r fath fwy o ansicrwydd ariannu ar hyn o bryd.

Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn adnabod lle mae cynlluniau yn cyd-fynd â'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol, sy'n helpu ymhellach i ddarparu hyder yng nghyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ymyriadau trafnidiaeth.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn parhau i fod yn greadigol wrth geisio cyllid ychwanegol ar gyfer buddsoddi mewn trafnidiaeth. Gallai hyn gynnwys cyllid sector preifat neu drydydd parti, cyllid Llywodraeth y DU, neu ffynonellau eraill. Er enghraifft, mae Uchelgais Gogledd Cymru ar hyn o bryd yn archwilio cyfleoedd ar gyfer cyllid trafnidiaeth mewn cysylltiad â:

- Cynllun Twf: Cytundeb a fydd yn cynhyrchu cyfanswm buddsoddiad o dros £1 biliwn i Ogledd Cymru er mwyn creu dros 4000 o swyddi newydd a chynyddu GVA £2.4 biliwn. Gan dargedu sectorau twf economaidd allweddol, gan gynnwys gweithgynhyrchu gwerth uchel ac ynni carbon isel, mae hefyd yn canolbwyntio ar arloesi digidol a gwelliannau seilwaith i gysylltu'r rhanbarth yn well. Yn ogystal, mae'n cefnogi datblygu safleoedd ac adeiladau allweddol i ysgogi'r farchnad datblygwyr. Ymhellach, mae gan y Cynllun Twf nod o gefnogi diwydiannau hanfodol fel twristiaeth ac amaethyddiaeth, gan eu helpu i ddatblygu yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

- Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam: Buddsoddiad o hyd at £160m dros 10 mlynedd. Fel ymrwymiad ar y cyd gan Lywodraethau'r DU a Chymru, nod y parth buddsoddi yw gwella a thyfu clwstwr gweithgynhyrchu datblygedig sy'n arwyddocaol yn fyd-eang. Bydd yn rhyddhau potensial pellach i Sir y Fflint a Wrecsam, sydd eisoes yn gartref i weithrediadau gweithgynhyrchu gwerth uchel a safleoedd diwydiannol strategol, drwy gynnig cyfuniad unigryw o gefnogaeth, seilwaith a chymhellion wedi'u targedu sydd wedi'u cynllunio i ddenu a chynnal busnes. Bydd y buddion yn bellgyrhaeddol, yn ymestyn ar draws Gogledd Cymru a thu hwnt.

- Porthladd Rhydd Ynys Môn: Dod ag adfywio a chreu swyddi o ansawdd uchel, masnach, mewnfuddsoddiad o hyd at £1bn ac arloesedd i Ynys Môn a Gogledd Cymru. Bydd yn adeiladu ar y rhaglen Ynys Ynni (EIP), cydweithrediad presennol rhwng rhanddeiliaid cyhoeddus, preifat a

thrydydd sector. Gweledigaeth yr EIP yw 'creu cyfle unwaith mewn oes ar gyfer swyddi, twf economaidd a ffyniant drwy fanteisio ar nifer o brosiectau trawsnewidiol yn Ynys Môn'. Mae hefyd yn cyd-fynd yn llawn â nodau Strategaeth Twf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Gweledigaeth Porthladd Rhydd Ynys Môn yw dod yn ganolfan ar gyfer arloesi, ynni carbon isel a masnach ryngwladol.

- Rhwydwaith Gogledd Cymru: Rhaglen waith hynod uchelgeisiol a thrawsnewidiol i gysylltu cymunedau'n well, gyda mwy o wasanaethau rheilffyrdd a bysiau, gorsafoedd newydd, llwybrau trafnidiaeth newydd, trenau newydd, bysiau newydd a thechnoleg newydd. Wrth ei galon fydd gwasanaethau metro Gogledd Cymru. Bydd hwn yn cymryd dull trawsffiniol o drawsnewid trafnidiaeth gyhoeddus yn ardal Mersi-Dyfrdwy, gan gynnwys gwasanaethau ar ffurf metro ar brif linell Gogledd Cymru a chysylltiad rheilffordd uniongyrchol newydd rhwng Wrecsam a Lerpwl. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo buddsoddiad o dros £13m i ddechrau cyflawni ar unwaith a bydd yn defnyddio ffrydiau cyllido eraill i wireddu'r weledigaeth. Mae'r cynlluniau'n cynnwys:
    - Dechrau gwaith ar y llinell rhwng Wrecsam a Lerpwl fel cam cyntaf hanfodol o ddarparu gwasanaethau metro yn uniongyrchol rhwng y ddwy ddinas.
    - Dyblu gwasanaethau trên rhwng Wrecsam a Chaer fis Mai nesaf.
    - Cyflwyno 50% yn fwy o wasanaethau ar draws prif linell Gogledd Cymru o fis Rhagfyr 2026 i fis Mai nesaf – gan arwain at wasanaeth newydd o Landudno i Lerpwl ac ymestyn gwasanaeth Maes Awyr Manceinion i Gaergybi yn lle Llandudno.
    - Ar ôl cwblhau'r gwaith rheilffordd yn Padeswood, cynyddu gwasanaethau trên rhwng Wrecsam a Bidston i 2 drên yr awr o fewn y tair blynedd nesaf, cyn cyflwyno 4 trên yr awr a fydd yn rhedeg yn uniongyrchol rhwng Wrecsam a Lerpwl erbyn 2035.
    - Bydd Llinell bresennol y Gororau hefyd yn cael ei hailenwi'n linell Wrecsam – Lerpwl.
    - Bydd gorsafoedd allweddol ar linell Wrecsam – Lerpwl yn cael eu gwella yn ystod y 12 mis nesaf.
    - Bydd trenau sy'n gweithredu ar linell Wrecsam – Lerpwl yn cael eu lapio i adlewyrchu'r cymunedau a'r clybiau pêl-droed maen nhw'n eu gwasanaethu.
    - Cyflwyno technoleg Talu wrth Fynd tapio mewn tapio allan - sy'n cwmpasu cysylltiadau rhwng Gobowen a'r Rhyl, ac ar hyd hyd llawn llinell Wrecsam-Lerpwl
    - Gweithio gyda Network Rail i benderfynu ar ddichonoldeb cyflawni gorsaf reilffordd brawf newydd ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, i fesur y galw am wasanaethau parhaol i'r parc.
    - Cronfa arloesi trydaneiddio newydd gwerth miliynau o bunnoedd i ddatblygu cynllun i ddatgarboneiddio'r rheilffordd yng Ngogledd Cymru a galluogi gwasanaethau metro amlach a gorsafoedd ychwanegol
    - Arian cyfatebol ar gyfer mynediad heb risiau yng ngorsafoedd Shotton a Rhiwabon.
    - Gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer cyfnewidfeydd amlfoddol Porth yng Nghaergybi, Bangor, Caernarfon a Wrecsam.
    - Gwasanaeth bws T13 newydd - yn cysylltu'r Rhyl, Rhuthun, Dinbych a Wrecsam.
    - Archwilio opsiynau i ailagor gorsafoedd ac adeiladu gorsafoedd newydd i wasanaethu ardaloedd twf cyflogaeth.

- Rhwydwaith bysiau newydd wedi'i gynllunio'n benodol i gysylltu cymunedau ag ystadau diwydiannol ym Mharth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.

Fforddiadwyedd

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi cydweithio â Llywodraeth Cymru i ystyried fforddiadwyedd y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn. Mae ymarfer wedi'i gynnal gydag awdurdodau lleol i adolygu ac adnewyddu amcangyfrifon Capex ac Opex ochr yn ochr â ffynonellau cyllid tebygol ac amserlenni ar gyfer cyflawni. Bydd hyn yn parhau yn ystod cyfnod y cynllun i helpu i sicrhau bod costau'n cael eu hystyried yn ofalus a'u rhagweld mor gywir â phosibl.

Cydnabyddir bod proses moderneiddio grantiau Llywodraeth Cymru yn parhau, ac er bod y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys cynlluniau gwerth cyfanswm o oddeutu £150m dros ei gyfnod o 5 mlynedd yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru, nid yw swm y cyllid a fydd yn cael ei ddarparu i Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol bob blwyddyn wedi'i gadarnhau eto.

Er bod canllaw i'r proffil gwariant posibl wedi'i ddarparu yn nhabl crynodeb y Cynllun Cyflawni isod, bydd y gofyniad am raglenni blynyddol o gynlluniau yn hwyluso Uchelgais Gogledd Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i gytuno ar y flaenoriaeth uwch ac unrhyw gynlluniau eraill wrth iddynt ddod ymlaen i geisio cyllid trafnidiaeth ranbarthol Llywodraeth Cymru pan fydd cyllidebau yn hysbys ar gyfer pob blwyddyn o gyfnod y cynllun 5 mlynedd.

Fel rhan o'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn, mae angen hyder gan Lywodraeth Cymru yn fforddiadwyedd y cynlluniau awdurdodau lleol â blaenoriaeth uwch sy'n gofyn am fuddsoddiad o fewn cyfnod y cynllun a lle bydd cyllid rhanbarthol Llywodraeth Cymru yn brif ffynhonnell ariannu.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i gadarnhau bod y lefelau gofynnol o gyllid ar gyfer y cynlluniau hynny yn dod i gyfanswm o oddeutu £150m gan gynnwys y cyllid a ddyrannwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2025/26. Felly, gall Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill fod â llawer o hyder bod y blaenoriaethau yn fforddiadwy.

Mae hyn yn caniatáu hyblygrwydd i rai cynlluniau blaenoriaeth canolig ac is ddod ymlaen dros gyfnod y cynllun, gan gydnabod hefyd na fydd angen cyllid gan Lywodraeth Cymru ar rai cynlluniau, tra bod ffynonellau cyllid eraill hefyd ar gael fel y'u nodir yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cydweithio â'r awdurdodau lleol i greu rhaglenni blynyddol o gynlluniau, gan gynnwys y rhai sy'n ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn hwyluso adolygiadau parhaus o flaenoriaethau a fforddiadwyedd, a fydd yn ymateb i unrhyw gyllidebau blynyddol y gall Llywodraeth Cymru roi eglurder amdanynt dros gyfnod y cynllun.

Rheoli newid

Efallai y bydd blaenoriaethau yn newid dros amser, er enghraifft gall buddsoddiad annisgwyl, cyfle ariannu neu ddigwyddiad fod angen blaenoriaethau i newid. Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn esbonio sut y bydd cyfarfodydd pwyllgor chwarterol Gogledd Cymru yn cael eu cynnal lle bydd swyddogion trafnidiaeth awdurdodau lleol yn darparu diweddariadau cynnydd ar gynnydd gweithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd hyn hefyd yn helpu i ystyried unrhyw flaenoriaethau sy'n newid.

Gall blaenoriaethau sy'n newid hefyd gael eu gyrru gan argaeledd cyllid. Bydd hyn yn cael ei fonitro'n agos gan Uchelgais Gogledd Cymru, a fydd yn cydweithio ag awdurdodau lleol i ystyried a chytuno ar

raglenni blynyddol cynlluniau sy'n ystyried y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol, ac unrhyw ffactorau allanol neu annisgwyl a allai fod angen newid.

Fel y nodir uchod, bydd y sgoriau perfformiad yn seiliedig ar allbynnau yr offeryn blaenoriaethu yn helpu Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol i gytuno pa gynlluniau blaenoriaeth canolig ac yna is a all ddod ymlaen unwaith y bydd cynlluniau uwch wedi'u cyflawni.

Byddwn hefyd yn cyflwyno adroddiadau perfformiad blynyddol ar ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn ac yna bydd gwerthusiad cynhwysfawr yn cael ei baratoi ar ôl tair blynedd i asesu a yw ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cyflawni'r canlyniadau yr ydym eu heisiau a'u bwriadu, gan ddarparu gwerth am arian ac a oes unrhyw faterion annisgwyl neu ganlyniadau anfwriadol sy'n gofyn am newid ymagwedd. Bydd y canlyniadau'n bwydo i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol dilynol o 2030 ymlaen, a'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth dilynol.

Cynllun Cyflawni

Cyflwynir ein cynlluniau blaenoriaeth uwch dros gyfnod y cynllun 5 mlynedd isod, wedi'u trefnu yn ôl amserlen ar gyfer gwaith a gynlluniwyd (yn amodol ar argaeledd cyllid). Mae prif ffynonellau cyllid tebygol wedi'u hadnabod a'u codio yn ôl lliw yn unol â hynny.

Cynllun Rhif	Enw'r Cynllun	Thema Polisi	Awdurdod Lleol Arweiniol	Amserlen	Ffynhonnell Ariannu Bosibl	Blaenoriaeth
76	Llwybrau Diogel mewn cymunedau/ cludiant o'r cartref i'r ysgol, Conwy	Teithio Llesol	Conwy	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
81	Ffordd Nant Hall, Prestatyn	Teithio Llesol	Sir Ddinbych	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
82	Brook Street/Maes Pengwern	Teithio Llesol	Sir Ddinbych	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
83	Lôn Hylas/ Stryd y Castell, Rhuddlan	Teithio Llesol	Sir Ddinbych	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
89	Lenten Pool, Dinbych	Teithio Llesol	Sir Ddinbych	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
100	Gweithredu rhwydwaith trawsnewid bysiau Gwynedd	Bws a Choets	Gwynedd	Tymor byr	Arall	Uwch
147	Gwelliannau i Drafnidiaeth Llanbedr	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Gwynedd	Tymor byr	Arall	Uwch
159	Cynnal a Gwella priffyrdd, Wrecsam	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Wrecsam	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch

Cynllun Rhif	Enw'r Cynllun	Thema Polisi	Awdurdod Lleol Arweiniol	Amserlen	Ffynhonnell Ariannu Bosibl	Blaenoriaeth
162	Cynnal a gwella priffyrdd, Gwynedd	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Gwynedd	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
168	Cludiant Tanwydd Amgen (Hydrogen yng Nghaergybi)	Porthladdoedd	Ynys Môn	Tymor byr	Cyllid Llywodraeth y DU Uwch	Uwch
175	Teithio Llesol Bae Penrhyn	Teithio Llesol	Conwy	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
177	Teithio Llesol Dolgarrog	Teithio Llesol	Conwy	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
188	Gwella diogelwch llwybrau'r A548	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Conwy	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
193	A470 Pont Dros y Rheilffordd Cyffordd Llandudno	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Conwy	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
196	Promenâd Bae Colwyn - Ffordd Rotari i Borth Eirias	Teithio Llesol	Conwy	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
197	Bagillt i Faes-glas	Teithio Llesol	Sir y Fflint	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
199	Lower Aston Hall Lane	Teithio Llesol	Sir y Fflint	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
202	Gwelliannau Teithio Llesol Cylchfan Ewloe	Teithio Llesol	Sir y Fflint	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
203	Gwelliannau teithio llesol cylchfan Wylfa	Teithio Llesol	Sir y Fflint	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
239	Llwybr Teithio Llesol Chwilog i Afonwen	Teithio Llesol	Gwynedd	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
250	Llwybr Teithio Llesol Tywyn i Aberdyfi	Teithio Llesol	Gwynedd	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
253	Prosiect Ffordd Cydnerthedd yr A5 (Pentre Berw)	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Ynys Môn	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
256	Teithio Llesol Llanfairpwll (Lôn Refail i Lôn Graig)	Teithio Llesol	Ynys Môn	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch

Cynllun Rhif	Enw'r Cynllun	Thema Polisi	Awdurdod Lleol Arweiniol	Amserlen	Ffynhonnell Ariannu Bosibl	Blaenoriaeth
257	Teithio Llesol Malltraeth i Niwbwrch	Teithio Llesol	Ynys Môn	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
258	Teithio Llesol Benllech	Teithio Llesol	Ynys Môn	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
276	Seilwaith RTI mewn gwahanol ganolfannau bysiau, Sir Ddinbych	Integreiddio	Sir Ddinbych	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
103	Rhwydwaith bysiau a choetsis gwledig rhanbarthol, Sir y Fflint	Bws a Choets	Sir y Fflint	Tymor byr	Arall	Uwch
105	Rhwydwaith bysiau a choetsis gwledig rhanbarthol Gwynedd	Bws a Choets	Gwynedd	Tymor byr	Arall	Uwch
268	Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan mewn meysydd parcio cyhoeddus a chydlynu gwybodaeth, Wrecsam	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Wrecsam	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
163	Pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan mewn meysydd parcio cyhoeddus a chydlynu gwybodaeth, Sir y Fflint	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Sir y Fflint	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
164	Pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan mewn meysydd parcio cyhoeddus a chydlynu gwybodaeth, Ynys Mon	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Ynys Môn	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
165	Gwella pwyntiau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus a chydlynu gwybodaeth, Gwynedd	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Gwynedd	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
166	Pwyntiau gwefru cyhoeddus mewn meysydd parcio cyhoeddus a chydgysylltu gwybodaeth, Conwy	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Conwy	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch

Cynllun Rhif	Enw'r Cynllun	Thema Polisi	Awdurdod Lleol Arweiniol	Amserlen	Ffynhonnell Ariannu Bosibl	Blaenoriaeth
9 (A&B)	Integreiddio â gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus strategol: Gwell mynediad i Orsaf Rhiwabon a Gorsaf Gwersyllt	Integreiddio	Wrecsam	Tymor canolig	Cyllid Llywodraeth y DU Uwch	Uwch
10	Integreiddio â gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus strategol: Gwelliannau i'r isadeiledd trafnidiaeth gyhoeddus, Sir y Fflint	Integreiddio	Sir y Fflint	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
34	Cyfnewidfa Garden City	Integreiddio	Sir y Fflint	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
43	Cysylltu'r ddwy bont â chymunedau lleol gyda rhwydweithiau teithio llesol cynhwysfawr a chyfforddus	Teithio Llesol	Ynys Môn	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
55	Teithio Llesol Parc Caia	Teithio Llesol	Wrecsam	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
61	Coridor Teithio Llesol Ffordd yr Wyddgrug, Gwersyllt	Teithio Llesol	Wrecsam	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
74	Llwybrau Diogel mewn cymunedau/ cludiant o'r cartref i'r ysgol, Gwynedd	Teithio Llesol	Gwynedd	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
87	Pont H, Y Rhyl	Teithio Llesol	Sir Ddinbych	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
98	Gweithredu Rhwydwaith Trawsnewid Bysiau, Sir y Fflint	Bws a Choets	Sir y Fflint	Tymor canolig	Arall	Uwch
99	Gweithredu rhwydwaith trawsnewid bysiau Ynys Môn	Bws a Choets	Ynys Môn	Tymor canolig	Arall	Uwch
154	Prosiect Porth Caernarfon	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Gwynedd	Tymor canolig	Arall	Uwch

Cynllun Rhif	Enw'r Cynllun	Thema Polisi	Awdurdod Lleol Arweiniol	Amserlen	Ffynhonnell Ariannu Bosibl	Blaenoriaeth
178	Môr i'r Mynydd/ Llwybr Teithio Llesol Strategol o'r Arfordir i'r Dyffryn	Teithio Llesol	Conwy	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
185		Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Conwy	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
190	Pontydd Hen Golwyn/Llanddulas yr A547	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Conwy	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
205	Gwelliannau i wasanaeth bws parcio a theithio Glannau Dyfrdwy - datgarboneiddio	Bws a Choets	Sir y Fflint	Tymor canolig	Anhysbys	Uwch
218	Gwella'r Lôn Las. Gwella llwybrau beicio oddi ar y ffordd presennol, Lôn las Ogwen, Lôn Las Menai a Lôn Eifion	Teithio Llesol	Gwynedd	Tymor canolig	Cyllid Llywodraeth y DU Uwch	Uwch
220	Llwybr Teithio Llesol Llanberis i Gaernarfon	Teithio Llesol	Gwynedd	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
262	Gweithredu'r rhwydwaith trawsnewid bysiau Wrecsam	Bws a Choets	Wrecsam	Tymor canolig	Arall	Uwch
272	Ffordd Rhuthun, Ffordd Ystrad, Dinbych	Teithio Llesol	Sir Ddinbych	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
167	Pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan mewn meysydd parcio cyhoeddus a chydlynu gwybodaeth, Sir Ddinbych	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Sir Ddinbych	Tymor canolig	Arall	Uwch
71	Teithio llesol fel cludiant o'r cartref i'r ysgol, Wrecsam	Teithio Llesol	Wrecsam	Tymor hir	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch

Cynllun Rhif	Enw'r Cynllun	Thema Polisi	Awdurdod Lleol Arweiniol	Amserlen	Ffynhonnell Ariannu Bosibl	Blaenoriaeth
207	Gwella Teithio Llesol Lleol mewn prif aneddiadau (Bangor, Porthmadog, Caernarfon, Pwllheli, Tywyn, Y Bala, Blaenau Ffestiniog, Dolgellau, Y Felinheli, Bethesda, Abermaw)	Teithio Llesol	Gwynedd	Tymor hir	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch

Cyflwynir amserlen lawn o 247 o gynlluniau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun cyflawni er gwybodaeth yn **Atodiad A**[1] wedi'u grwpio mewn categorïau blaenoriaeth uwch, canolig ac is. **Mae Atodiad A** ar gael fel taenlen ryngweithiol gydag opsiynau hidlo i helpu pawb sy'n gysylltiedig i nodi a chynllunio ar gyfer rhaglenni blynyddol manwl.

